

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

17/09/2014

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)
[Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)
[Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gyfleodd Cyllido yr UE 2014-2020](#)
[The Enterprise and Business Committee's Report on Its Inquiry into EU Funding Opportunities 2014-2020](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Refferendwm yr Alban](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Scottish Referendum](#)

[Dadl Plaid Cymru: Y Cyflog Byw](#)
[Plaid Cymru Debate: The Living Wage](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Gohebiaeth ar Bapur: Hawl y Defnyddiwr i Ddewis](#)
[Short Debate: Keep Me Posted: The Consumer's Right to Choose](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd**

Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before we move to the items on the agenda, it gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Housing (Wales) Bill has today been given Royal Assent. [Applause.]

Cyn inni symud at yr eitemau ar yr agenda, mae'n bleser mawr gen i gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, fod Mesur Tai (Cymru) heddiw wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol [Cymeradwyaeth.]

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Questions to the Minister for Education and Skills

Cronfa Ariannol wrth Gefn i Brifysgolion

Financial Contingency Fund for Universities

13:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa effaith y disgwylir y bydd cael gwared ar y gronfa ariannol wrth gefn i brifysgolion yn ei chael ar fyfyrwyr? OAQ(4)0465(ESK)

1. What is the anticipated impact on students of the removal of the financial contingency fund for universities? OAQ(4)0465(ESK)

- 13:31 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills
 As the Member for Ceredigion will now be aware, I announced last week that we have listened to stakeholders and have decided to reinstate the financial contingency fund for this year only. From academic year 2015-16, I will expect Welsh universities to use their own substantial, and increasing, income to support vulnerable students.
 Fel sydd bellach yn hysbys i'r Aelod dros Geredigion, cyhoeddais yr wythnos diwethaf ein bod wedi gwrandao ar randdeiliaid ac wedi penderfynu adfer y gronfa wrth gefn ariannol ar gyfer y flwyddyn hon yn unig. O flwyddyn academaidd 2015-16, byddaf yn disgwyl i brifysgolion Cymru ddefnyddio eu hincwm sylweddol, a chynyddol, eu hunain i gefnogi myfyrwyr ag amgylchiadau arbennig.
- 13:31 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Weinidog, mae myfyrwyr a phrifysgolion yng Ngheredigion yn falch eich bod wedi gwneud yr 'u-turn' hwn ar eich penderfyniad, o'r haf, i ddiddymu'r gronfa hon. Yr ydych yn ymwybodol, wrth gwrs, fod y gronfa honno yn arbennig o bwysig i brifysgolion sy'n denu myfyrwyr o gefndiroedd annhraddodiadol ac o gefndiroedd tlawd. Felly, bydd diddymu'r gronfa y flwyddyn nesaf, fel yr ydych wedi ei gadarnhau y prynhawn yma, yn rhoi baich ychwanegol ar yr prifysgolion penodol hynny. Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i weithio gyda'r prifysgolion penodol hynny i sicrhau bod digon o gyllid ar gael iddynt i gwrdd ag anghenion y myfyrwyr y mae wir angen cefnogaeth arnynt o bryd i'w gilydd yn ystod eu cyfnod academaidd?
 Minister, students and universities in Ceredigion are delighted that you have made this u-turn on your decision, from the summer, to abolish this fund. You will be aware that this fund is particularly important to universities that attract students from non-traditional and poorer backgrounds. So, the abolition of the fund next year, as you have confirmed this afternoon will happen, will place an additional burden on those specific universities. So, what steps will you take to work with these universities to ensure that there is adequate funding available to them in order to meet the demands of those students who truly need support from time to time during their academic careers?
- 13:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, Presiding Officer, I have not signalled the abolition of the fund, as the Member puts it. What I have signalled is that this very important resource for those groups of students should now flow from a different source. I will be working alongside—[Interruption.] Well, you know, the source, in the end, is, of course, the public purse. Members will be aware that the structure of finance around higher education is changing substantially, so that, now, the bulk of the money flows through the students themselves, as they walk through the entrance of the higher education institution, and, so, things must change. Higher education institutions have to face up to the fact that they have a responsibility to bear in this regard. Of course, I will be working closely with them, to ensure that this is done at least to the level of the former financial contingency fund.
 Wel, Lywydd, nid wyf wedi cyhoeddi diddymu'r gronfa, fel y dywed yr Aelod. Yr hyn a gyhoeddais yw y dylai'r adnodd hynod bwysig hwn ar gyfer y grwpiau hynny o fyfyrwyr lifo o ffynhonnell wahanol bellach. Byddaf yn gweithio law yn llaw— [Torri ar draws.] Wel, gwyddoch mai'r ffynhonnell yn y pen draw yw'r pwrs cyhoeddus wrth gwrs. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod strwythur cyllid ar gyfer addysg uwch yn newid yn sylweddol, fel bod y rhan fwyaf o'r arian, erbyn hyn, yn llifo trwy'r myfyrwyr eu hunain, wrth iddynt gerdded trwy fynedfa sefydliad addysg uwch, ac, felly, mae'n rhaid i bethau newid. Rhaid i sefydliadau addysg uwch wynebu'r ffaith bod ganddynt gyfrifoldeb i'w hysgwyddo yn hyn o beth. Wrth gwrs, byddaf yn cydweithio'n agos â hwy, i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud o leiaf i lefel y gronfa ariannol wrth gefn flaenorol.
- 13:33 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, I am grateful to hear again that you have changed your mind on this. However, I would also be grateful if you would be prepared to say where we might find copies of any impact assessments conducted before your original decision, and any further impact assessments that might have suggested that there would be a lack of support for your Higher Education (Wales) Bill, had you not changed your mind.
 Weinidog, rwy'n ddiolchgar i glywed eto eich bod wedi newid eich meddwl ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn ddiolchgar pe baech yn barod i ddweud ymhle y gallem ddod o hyd i gopiau o unrhyw asesiadau effaith a gynhaliwyd cyn eich penderfyniad gwreiddiol, ac unrhyw asesiadau effaith pellach a allai fod wedi awgrymu y byddai diffyg cefnogaeth i'ch Bil Addysg Uwch (Cymru), pe na fuasech wedi newid eich meddwl.
- 13:33 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, I think that the Member's faith in my ability to produce impact assessments at extremely short notice is somewhat overrated.
 Wel, credaf fod gan yr Aelod ormod o ffydd yn fy ngallu i gynhyrchu asesiadau effaith ar rybudd eithriadol o fyr.
- 13:33 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 You are supposed to do it under the legislation.
 Rydych i fod i wneud hynny o dan y ddeddfwriaeth.

13:33 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, it is of course the fact that the financial contingency fund will continue for this academic year. The clear signal has been sent out to our higher education community that they have to shoulder the burden in terms of this very important element of student support, and we will work together with them to ensure that that happens.

Wel, wrth gwrs, y ffaith yw y bydd y gronfa ariannol wrth gefn yn parhau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Anfonwyd arwydd clir i'n cymuned addysg uwch fod yn rhaid iddynt ysgwyddo'r baich o ran yr elfen hynod bwysig hon o gymorth i fyfyrwyr, a byddwn yn cydweithio â hwy i sicrhau bod hynny'n digwydd.

13:34 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the most recent figures from within the FCF show that a substantial tranche of the funding actually went towards covering the childcare costs of students. In that context, given the announcement that you have made that the burden will now be moved to the universities, what assurances can you give that important sector of learners that their needs will be fully taken account of in the changed environment that is to come?

Weinidog, mae ffigurau diweddaraf y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn dangos bod cyfran sylweddol o'r cyllid mewn gwirionedd yn mynd tuag at dalu costau gofal plant myfyrwyr. Yn y cyd-destun hwnnw, o ystyried y cyhoeddiad rydych wedi'i wneud y bydd y baich yn awr yn cael ei symud i'r prifysgolion, pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r sector pwysig hwnnw o ddysgwyr y bydd eu hanghenion yn cael eu llwyr ystyried yn yr amgylchedd newydd arfaethedig?

13:34 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, we have this academic year to work through the detail of how the inheritor fund will actually operate. Of course, we have to take account of the fact that money has been well spent in terms of support for childcare. However, I would remind colleagues in the Chamber—and I am speaking here on behalf of the Welsh Liberal Democrats and, indeed, the Welsh Conservatives— that these difficult decisions are having to be made as a direct result of their policies in Whitehall and that these difficult decisions have not yet come to an end.

Wel, mae gennym y flwyddyn academaidd hon i wyntyllu'r manylion ar gyfer sut y bydd y gronfa etifeddol yn gweithio mewn gwirionedd. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni ystyried y ffaith bod arian wedi cael ei wario'n dda o ran y gefnogaeth i ofal plant. Fodd bynnag, hoffwn atgoffa dy nghyd-aelodau yn y Siambr—ac rwy'n siarad yma ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac, yn wir, y Ceidwadwyr Cymreig— fod y penderfyniadau anodd hyn yn gorfod cael eu gwneud o ganlyniad uniongyrchol i'w polisiau yn Whitehall, ac nad yw'r penderfyniadau anodd hyn wedi dod i ben hyd yma.

Maint Dosbarthiadau Ysgolion

School Class Sizes

13:35 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. *A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau maint dosbarthiadau ysgolion yng Nghymru?* OAQ(4)0464(ESK)

2. *Will the Minister outline how the Welsh Government intends to reduce school class sizes in Wales?* OAQ(4)0464(ESK)

13:35 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for North Wales. Legislation limits the size of infant classes, and there is a clear policy on junior class sizes. Funding worth over £100 million supported these initiatives, and we have maintained smaller classes for over a decade in Wales. The foundation phase provides infant teachers with additional support from teaching assistants, and I see no need to legislate further.

Diolch i'r Aelod dros y Gogledd. Mae deddfwriaeth yn cyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod, ac mae polisi clir ar faint dosbarthiadau iau. Mae cyllid gwerth dros £100 miliwn yn cefnogi'r mentrau hyn, ac rydym wedi cynnal dosbarthiadau llai am ddegawd a mwy yng Nghymru. Mae'r cyfnod sylfaen yn rhoi cefnogaeth ychwanegol gan gynorthwywyr addysgu i athrawon babanod, ac ni welaf fod angen deddfu ymhellach.

13:35 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A decade ago, Welsh Government was telling us that falling pupil numbers would mean smaller class sizes and improved pupil-teacher ratios. That then morphed into 'surplus places' and the drive for 'bigger is better', at whatever cost to community schools. How do you therefore respond to the National Union of Teachers' statement at the beginning of the recess that the number of classes with 30 or more students had increased again? It said that, since 2004, there had been an almost year-on-year increase in the percentage of infant and junior pupils in classes over 30.

Ddegawd yn ôl, roedd Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym y byddai'r gostyngiad yn niferoedd disgyblion yn arwain at ddosbarthiadau llai a gwell cymarebau disgybl-athro. Troes hynny wedyn yn 'lleoedd gwag' a'r ymgyrch o blaid 'mawr yw'r gorau', a hynny ar draul ysgolion cymunedol. Sut yr ydych, felly, yn ymateb i ddatganiad Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ar ddechrau'r toriad fod y nifer o ddosbarthiadau sydd â 30 neu ragor o fyfyrwr wedi cynyddu eto? Roedd yn dweud y bu cynnydd, er 2004, flwyddyn ar ôl blwyddyn bron, yng nghanran y disgyblion babanod ac iau sydd mewn dosbarthiadau dros 30 mewn nifer.

13:36 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Presiding Officer, the figures here are public and they do not lie. The average infant class size in Wales is well below 30 at 25.2, and for junior class sizes it is even lower at 24.8. This is in marked contrast to the chaos that is unfolding across the border in England as the Minister for education there diverts resources to expensive free schools and away from areas with a desperate shortage of places. It has been reported that there are class sizes now of 50 or even 60 pupils in English primary schools as a result of this chaotic policy. This does not pertain in Wales.

Lwydd, dyma'r ffigurau cyhoeddus ac nid ydynt yn dweud celwydd. Mae maint cyfartalog dosbarthiadau babanod yng Nghymru yn llawer is na 30, sef 25.2, ac ar gyfer dosbarthiadau iau mae'r niferoedd hyd yn oed yn is, sef 24.8. Mae hyn yn wahanol iawn i'r anhrefn a welir ar draws y ffin yn Lloegr gan fod y Gweinidog addysg yno yn dargyfeirio adnoddau i 'ysgolion rhydd' drud ac i ffwrdd o ardaloedd lle mae prinder dybryd o lefydd. Adroddwyd bod maint dosbarthiadau yn awr yn 50 neu hyd yn oed 60 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn Lloegr o ganlyniad i'r polisi anhrefnus hwn. Nid oes a wnelo hyn a Chymru.

13:37 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tra bod y syniad o ddosbarthiadau bach iawn, iawn yn apelio, rydym yn sylweddoli wrth gwrs fod rhwystrau ymarferol i barhau i wthio'r nifer i lawr. Un fantais, wrth gwrs, o ddosbarthiadau llai yw eu bod nhw'n galluogi athrawon i sylwi ar gynnydd disgyblion unigol. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai system fonitro genedlaethol o gyrhaeddiad disgyblion yn galluogi athrawon i ymyrryd yn gynnar a chefnogi'r disgyblion hynny sy'n tangyflawni?

While the idea of small class sizes appeals very much, we realise that there are practical barriers to pushing the numbers down further. One advantage, of course, of smaller class sizes is that they can enable teachers to focus on the progress of pupils on an individual basis. Does the Minister agree that a national monitoring system of pupils' achievement would enable teachers to intervene at an early stage and support those pupils who are underachieving?

13:37 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This sort of individualised learning that the Member for Ynys Môn describes is, of course, the direction of travel that we are attempting to undertake. This does involve a great deal of change and effort throughout the school system and we are working very hard alongside professionals to make that happen. Of course, it does happen already where the very best teaching and learning is in evidence across Wales. Later this autumn, I will be talking in more detail about the new deal for teachers that I spoke about just before the summer break, and a great deal of that will impact upon this sort of agenda.

Y math yma o ddysgu unigol y mae'r Aelod dros Ynys Môn yn ei ddisgrifio, wrth gwrs, yw'r cyfeiriad rydym yn ceisio ei ddilyn. Mae hyn yn galw am lawer iawn o newid ac ymdrech ar draws y system ysgolion ac rydym yn gweithio'n galed iawn ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Wrth gwrs, mae'n digwydd yn barod lle ceir tystiolaeth o'r addysgu a'r dysgu gorau un ar draws Cymru. Yn ddiweddarach yn yr hydref, byddaf yn siarad yn fanylach am y fargen newydd ar gyfer athrawon y siaradais amdani ychydig cyn toriad yr haf, a bydd llawer iawn o'r wybodaeth honno'n effeithio ar y math hwn o agenda.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now come to a slight variation in our question time, where we have spokespeople's questions all at one point instead of on different questions throughout the agenda. I will call the spokespersons in order, but please ask concise questions. The first one is from the Welsh Conservatives' spokesperson, Paul Davies.

Symudwn yn awr at amrywiad bychan yn ein sesiwn gwestiynau, lle mae gennym gwestiynau llefarwyr i gyd ar yr un adeg yn hytrach nag ar wahanol gwestiynau ar draws yr agenda. Byddaf yn galw'r llefarwyr mewn trefn, ond cofiwch ofyn cwestiynau cryno. Mae'r un cyntaf yn dod oddi wrth lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Paul Davies.

13:38

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister the A* to A grade A-level results over the summer improved, even though the overall pass rate remained below the UK average. I would like to take this opportunity to congratulate all students who received their results. The latest GCSE results showed that the gap is closing with the UK, although a gap is still evident. Given that this gap is narrowing, Minister, when do you anticipate that Wales will at least match the UK average, and what priority are you giving to closing this gap?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, cafwyd gwelliant yng nghanlyniadau Safon Uwch gradd A* i A yn ystod yr haf, er bod y gyfradd lwyddo gyffredinol wedi parhau yn is na chyfartaledd y DU. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch yr holl fyfyrwyr a oedd yn derbyn eu canlyniadau. Dangosodd y canlyniadau TGAU diweddaraf bod y bwllch rhyngom a'r DU yn cau, ond bod bwllch yn parhau. A derbyn bod y bwllch hwn yn cau, Weinidog, pryd yr ydych yn rhagweld y bydd cyfartaledd Cymru o leiaf gystal â chyfartaledd y DU, a pha flaenoriaeth yr ydych yn ei rhoi i gau'r bwllch hwn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

I would join with the spokesperson for the Welsh Conservatives in terms of congratulating our exam candidates, both GCSE and A-levels, this summer. We saw a consolidation, a steady improvement and, as he says, a closing of the gap with England almost right across the board. I am not going to spend my time speculating as to when various statistics or lines on a graph will close, but I am very content that the direction of travel is the correct one, and not only that, but that it seems to be consolidating over time.

Hoffwn ymuno â'r llefarydd ar ran y Ceidwadwyr Cymreig o ran llongyfarch ein hymgeiswyr arholiadau, TGAU a Safon Uwch, yn ystod yr haf. Fel y soniodd, gwelsom gadarnhad, gwelliant cyson, a chau'r bwllch rhyngom a Lloegr bron ar draws y bwrdd. Nid wyf am dreulio fy amser yn dyfalu pryd y bydd amrywiol ystadegau neu linellau ar graff yn cau, ond rwy'n fodlon iawn bod y cyfeiriad teithio'n gywir, ac yn ogystal â hynny, fod pethau i'w gweld yn sefydlogi gydag amser.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:39

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Time will tell, Minister. You will know that 5,000 more students took the maths GCSE this year compared with last year. However, the A* to C pass rate dropped by over 2% to 50.6%. That means that almost half of young people do not have a C grade or above in maths in this last year alone. How will you ensure that your new maths GCSE will stop this decline? Will you be carrying out a review at the end of the first year to see how students are doing?

Amser a ddengys, Weinidog. Gwyddoch fod 5,000 yn fwy o fyfyrwyr wedi sefyll TGAU mathemateg eleni o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, mae'r gyfradd lwyddo A* i C wedi gostwng dros 2% i 50.6%. Mae hynny'n golygu nad oes gan bron i hanner y bobl ifanc radd C neu uwch mewn mathemateg yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Sut y byddwch yn sicrhau y bydd eich mathemateg TGAU newydd yn atal y dirywiad hwn? A fyddwch yn cynnal adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf i weld sut mae myfyrwyr yn ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

This, Presiding Officer, is an important question; it is an insightful question. There is an issue with maths in Wales. There are important issues that we need to consider, not just in terms of the new GCSEs and the impact that they will have—I am sure that that will be positive—but also in terms of the historic tendency, in terms of recent history, that has started to evidence itself around increasing numbers of pupils being entered early for maths GCSE in particular. I am concerned about whether this is the very best that can be done for each individual pupil. I am in discussion with my senior officials at the moment as to how we can best address some of the questions that have been thrown up by the statistics surrounding maths over the summer, and I will announce very soon some initiatives in order to ensure that we get on top of this problem and ensure that no pupil is disadvantaged in terms of when they are entered for their maths GCSE.

Mae hyn, Lywydd, yn gwestiwn pwysig; mae'n gwestiwn craff. Mae problem gyda mathemateg yng Nghymru. Mae materion pwysig y mae angen inni eu hystyried, nid yn unig o ran y TGAU newydd a'u heffaith—rwy'n siŵr y bydd hynny'n bositif—ond hefyd o ran y duedd hanesyddol, o ran hanes diweddar, sydd wedi dechrau ymddangos ynghylch niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n cael eu cofrestru'n gynnar ar gyfer TGAU mathemateg yn arbennig. Rwy'n amau ai dyma'r gorau y gellir ei wneud ar gyfer pob disgybl unigol. Rwy'n trafod gyda fy uwch swyddogion ar hyn o bryd o ran y ffyrdd gorau o fynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a ddaeth i'r golwg yn sgîl yr ystadegau ar gyfer mathemateg dros yr haf, a byddaf yn cyhoeddi rhai mentrau yn fuan iawn, er mwyn sicrhau ein bod yn datrys y broblem hon ac yn sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl o dan anfantais o ran pryd maent yn cael eu cofrestru ar gyfer eu TGAU mathemateg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Talking of statistics, Minister, you will not be surprised that I also have concerns about modern foreign language provision at A-level. German and Spanish had the fewest entrants on any of the listed A-level courses last year, with only 114 and 167 students respectively. What are you doing as a Government to encourage more uptake of modern foreign languages, and surely cutting the funding of the National Centre for Languages is sending out the wrong message?

Wrth siarad am ystadegau, Weinidog, ni fyddwch yn synnu fy mod hefyd yn pryderu am ddarpariaeth ieithoedd tramor modern ar gyfer Safon Uwch. O bob pwnc ar restr cyrsiau Safon Uwch y llynedd, Sbaeneg ac Almaeneg oedd â'r nifer lleiaf o ymgeiswyr gyda dim ond 114 a 167 o fyfyrwyr yn eu trefn. Beth rydych yn ei wneud fel Llywodraeth i annog rhagor i astudio ieithoedd tramor modern, ac yn sicr, onid yw torri'r cyllid ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer ieithoedd yn cyfleu'r neges anghywir?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The reduction in entries for modern foreign languages is, of course, a cross-UK phenomenon. Wales is not unique in that regard, but that does not mean that we should be doing nothing in terms of this take-up; it is worrisome. However, I would dispute the Welsh Conservatives' spokesperson's assertion that simply doing what we have done before in terms of the spend to encourage modern foreign language take-up would necessarily produce a different result. We have invested in encouraging young people to take up MFL over some years now and it has not worked, frankly. There is still £200,000 in the pot for CLIL to assist us in terms of take-up, but I think that a more fundamental look at the way in which modern foreign languages are taught and how we encourage young people to take them up is necessary. I have encouraged Professor Graham Donaldson, as he looks in those fundamental ways at reform of our curriculum, to take on board those worrying issues across the UK and for us here in Wales concerning the take-up of modern foreign languages. However, I would point out that, of those pupils in Wales who did enter A-levels for Spanish, German and French, we are now ahead of England in terms of attainment.

Mae'r lleihad yn y nifer sy'n cofrestru ar gyfer ieithoedd tramor modern, wrth gwrs, yn ffenomen ar draws y DU. Nid yw Cymru'n unigryw yn hynny o beth, ond nid yw hynny'n golygu y dylem fod yn gorffwys ar ein rhwyfau o ran y niferoedd; mae hyn yn ofid. Fodd bynnag, byddwn yn cael canlyniad gwahanol trwy ddim ond parhau i wneud yr hyn roeddem eisoes yn ei wneud o safbwynt y gwariant er mwyn annog pobl i astudio iaith dramor fodern. Rydym wedi buddsoddi er mwyn annog pobl ifanc i astudio ITM am rai blynyddoedd bellach ac, a bod yn onest, nid yw wedi gweithio. Mae yna £200,000 yn parhau yn y gronfa ar gyfer CLIL i'n cynorthwyo o ran cynyddu niferoedd, ond credaf fod angen edrych yn fwy sylfaenol ar y ffordd y mae ieithoedd tramor modern yn cael eu dysgu a sut rydym yn annog pobl ifanc i'w hastudio. Rwyf wedi annog yr Athro Graham Donaldson, wrth iddo edrych gyda'r dulliau sylfaenol hynny ar ddiwygio ein cwricwlwm, i ystyried y materion hynny sy'n peri pryder ledled y DU ac i ni yma yng Nghymru ynghylch y nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern. Fodd bynnag, hoffwn danlinellu, o gymharu'r disgyblion hynny yng Nghymru a wnaeth sefyll Safon Uwch mewn Sbaeneg, Almaeneg a Ffrangeg, mae eu cyrhaeddiad erbyn hyn ar y blaen i Loegr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pam mae plant Cymru'n talu'r pris am fethiant y byrddau iechyd i reoli gwariant?

Why are Welsh children paying the price of the failure of health boards to control their expenditure?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This rather obscure question from the spokesperson for Plaid Cymru ignores, of course, all the evidence that is there before our eyes. In terms of the expenditure, I have no doubt that the draft budget that will be published later on this month will bear this out. We have protected school spend to 1% above the block grant, as we undertook to do at the last election. We have protected the educational maintenance allowance, which has been scrapped in England by the Liberal Democrats and by the Conservatives. We continue to have the most generous student support package of any constituent part of the United Kingdom. Our commitment is clear that, in the face of drastic cut-backs and austerity measures coming down to us from Whitehall, we continue to protect the prospects of young people here in Wales.

Mae'r cwestiwn hwn, sydd braidd yn dywyll, gan lefarydd Plaid Cymru, wrth gwrs yn anwybyddu'r holl dystiolaeth sydd yno o flaen ein llygaid. O ran y gwariant, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y gyllideb ddrafft a fydd yn cael ei chyhoeddi maes o law y mis hwn yn brawf o hyn. Rydym wedi diogelu gwariant ysgol i 1% yn uwch na'r grant bloc, fel yr addawyd gennym yn yr etholiad diwethaf. Rydym wedi gwarchod y lwfans cynhaliath addysg, sydd wedi cael ei ddileu yn Lloegr gan y Democratiaid Rhyddfrydol a chan y Ceidwadwyr. Rydym yn parhau i gynnig pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd y mwyaf hael o gymharu ag unrhyw ran gyfansoddol o'r Deyrnas Unedig. Mae ein hymrwymiad yn glir, yn wyneb toriadau a mesurau caledi llym a drosglwyddwyd i ni o Whitehall, rydym yn parhau i amddiffyn rhagolygon pobl ifanc yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I know what is happening in your budget even if you do not. You have cut £5 million from schools this summer. You have cut nearly £11 million from apprenticeships this summer. That is £16 million cut from your budget in order to feed the inevitable beast of the health boards. You fail to protect the children of Wales in their schools, in their apprenticeships, in their workplace training, because you allowed these cuts to take place. Before the summer, the First Minister was praising the fact that you and your Government were giving not only an additional 1% to school but above 1%. Your letter to local authorities confirms that you have pared that back to 1%. So, quite frankly, Minister, you should know what you are cutting and the effect that it is having. Are we spending enough on education in Wales?

Weinidog, rwyf fi'n gwybod beth sy'n digwydd yn eich cyllideb hyd yn oed os nad ydych chi. Rydych chi wedi torri £5 miliwn oddi wrth ysgolion yr haf hwn. Rydych chi wedi torri bron £11 miliwn oddi wrth brentisiaethau yr haf hwn. Mae hynny'n doriad o £16 miliwn o'ch cyllideb er mwyn bwydo bwystfil anochel y byrddau iechyd. Rydych chi'n methu ag amddiffyn plant Cymru yn eu hysgolion, yn eu prentisiaethau, yn eu hyfforddiant yn y gweithle, am i chi ganiatáu i'r toriadau hyn ddigwydd. Cyn yr haf, roedd y Prif Weinidog yn canmol y ffaith eich bod chi a'ch Llywodraeth nid yn unig yn rhoi 1% ychwanegol i ysgolion ond yn rhoi mwy nag 1%. Mae eich llythyr at awdurdodau lleol yn cadarnhau eich bod wedi torri'r swm yn ôl i 1%. Felly, a bod yn onest, Weinidog, dylech wybod beth rydych yn ei dorri a beth yw effaith hynny. A ydym yn gwario digon ar addysg yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:45

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the spokesperson for Plaid Cymru seems to have missed the target somewhat. He describes the NHS as the beast that needs to be fed—[Interruption.] The beast that needs to be fed is the coalition Government in Whitehall, which is imposing upon all public service provision in Wales these historically drastic cuts. Now, there is no pretence that there are no cuts across public service expenditure here in Wales—of course there are—and these cuts were born in Whitehall. They have been delivered to us and we must cope in the best way we can by prioritising that spend. As I have described, we have protected school spend, here in Wales, as a priority that we have stuck to.

Wel, mae'n ymddangos bod llefyrydd Plaid Cymru wedi methu'r targed braidd. Mae'n disgrifio'r GIG fel bwystfil i'w fwydo —[Torri ar draws.] Y bwystfil sydd angen ei fwydo yw'r Llywodraeth glymblaid yn Whitehall, sy'n gosod y toriadau hanesyddol llym hyn ar holl ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nawr, nid ydym yn esgus nad oes unrhyw doriadau ar draws gwariant gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru—wrth gwrs bod—ac mae'r toriadau hyn yn deillio o Whitehall. Maent wedi cael eu cyflwyno i ni ac mae'n rhaid i ni ymdopi yn y modd gorau posibl drwy flaenoriaethu gwariant. Fel y disgrifiais, rydym wedi diogelu gwariant ar ysgolion yma yng Nghymru, ac mae'n flaenoriaeth y bu inni ddal ati.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to hear the Minister's replies in future. Could we have less background noise please? Simon Thomas, final question.

Hoffwn glywed atebion y Gweinidog yn y dyfodol. A allem gael llai o sŵn yn y cefndir os gwelwch yn dda? Simon Thomas, cwestiwn olaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:46

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Of course, the people of Scotland can tomorrow protect spending on schools and health there by voting for independence. You are doing the Tories' dirty work for them here in Wales by cutting spending on education. Your incoming plans as a Labour Government were no different to the Tory plans. Why is it, even after all of these considerations, that we spend around the OECD average on education—we spend something similar to countries like Germany, Japan and Finland per head on education in Wales—yet our achievements are so much lower? If it is not down to spending, it must surely be down to the failure of Labour Ministers over the years.

Diolch i chi, Lywydd. Wrth gwrs, gall pobl yr Alban yfory ddiogelu gwariant ar ysgolion ac iechyd yno drwy bleidleisio am annibyniaeth. Rydych yn cyflawni anfadwaith y Toriaid drostyn nhw yma yng Nghymru trwy dorri gwariant ar addysg. Wrth gychwyn eich tymor fel Llywodraeth Lafur nid oedd eich cynlluniau yn wahanol o gwbl i gynlluniau'r Toriaid. Pam, hyd yn oed ar ôl yr holl ystyriaethau hyn, ein bod yn gwario tua swm cyfartalog y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar addysg—rydym yn gwario rhywbeth tebyg i wledydd fel yr Almaen, Japan a'r Ffindir y pen ar addysg yng Nghymru—ac eto mae ein cyflawniadau gymaint is? Os nad gwariant sydd i gyfrif am hyn, rhaid mai methiant Gweinidogion Llafur dros y blynyddoedd sy'n gyfrifol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:47

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Presiding Officer, we have had the party political broadcast on behalf of Alex Salmond from Plaid Cymru. We know where their priorities lie over the next couple of days. I am more concerned with the situation here in Wales. The draft budget, of course, is yet to be published. I can state with certainty that, through that draft budget, we will continue to protect the prospects and the education of our youngest citizens here in Wales, despite the unprecedented pressure that is being put on us financially by the coalition Government in Whitehall. [Interruption.]

Wel, Lywydd, dyna ni wedi cael y darllediad gwleidyddol ar ran Alex Salmond gan Blaid Cymru. Rydym yn gwybod lle mae eu blaenoriaethau nhw am yr ychydig ddyddiau nesaf. Rwy'n poeni mwy am y sefyllfa yma yng Nghymru. Mae'r gyllideb ddrafft, wrth gwrs, eto i'w chyhoeddi. Gallaf ddatgan gyda sicrwydd y byddwn, drwy'r gyllideb ddrafft, yn parhau i amddiffyn dyfodol ac addysg ein dinasyddion ieuengaf yma yng Nghymru, er gwaethaf y pwysau digyffelyb sy'n cael ei roi arnom yn ariannol gan y Llywodraeth glymblaid yn Whitehall. [Torri ar draws.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When party leaders and business managers start getting raucous, I get worried. The backbenchers are quite well-behaved today. If you could please just—[Interruption.] We now move to questions from the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Pan fydd arweinwyr y pleidiau a'r rheolwyr busnes yn dechrau mynd yn aflafar, rwyf i'n dechrau poeni. Mae'r meinciau cefn yn ymddwyn yn eithaf da heddiw. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi — [Torri ar draws.] Rydym bellach yn symud i gwestiynau gan lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yr wythnos diwethaf, roedd cyfle i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymweld â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ym Mharis. Roedd yn ddiddorol gweld, yn yr adroddiad a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill, bod 77.5% o'r tangyflawni yng Nghymru yn dangyflawni o fewn ysgolion, yn hytrach na rhwng ysgolion. Mae'ch cyfundrefn fandio chi yn pwysu ar wahaniaethau rhwng ysgolion. A yw'n amser ichi ailystyried a yw'r gyfundrefn fandio yn ymateb i'r problemau rydym yn eu hwynebu gyda'r system addysg yng Nghymru?

Minister, last week, there was an opportunity for the Children, Young People and Education Committee to visit the Organisation for Economic Co-Operation and Development in Paris. It was interesting to see, in the report published in April, that 77.5% of underachievement in Wales is underachievement within schools, rather than between schools. Your banding system depends on differences between schools. Is it time for you to reconsider whether the banding system deals with the problems that we face in the education system in Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, of course it is not time to reconsider banding. Banding is delivering. You can see, within individual schools, the changes that have taken place, particularly in the achievement of young people who might not be considered high achievers. You can see, within those schools that have been on bands 4 and 5, an improvement for those young people. Thousands of young people are now attaining in a way that they were not previously, and I would ascribe that to banding. The issue about the system as a whole—the OECD is quite right that there is a distinctive characteristic here in Wales that we need to address—is that there are far too many young people still in those lower levels of attainment. That is sharp and distinct in terms of the comparator that you might want to make with Scotland or with England. That is something that I will be addressing, and there will be a number of announcements during the autumn in terms of how we shift that very stubborn statistic and move Wales's attainment figures onwards and upwards.

Nac ydyw, wrth gwrs nad yw hi'n amser i ni ailystyried bandio. Mae bandio yn gweithio. Gallwch weld, mewn ysgolion unigol, y newidiadau sydd wedi digwydd, yn enwedig yng nghyflawniad pobl ifanc na fyddent yn cael eu hystyried yn gyflawnwyr uchel. Gallwch weld, yn yr ysgolion hynny sydd wedi bod ar fandiau 4 a 5, fod yna welliant i'r bobl ifanc hynny. Mae miloedd o bobl ifanc bellach yn cyflawni mewn ffordd nad oeddent o'r blaen, a byddwn yn priodoli hynny i'r bandio. Y broblem am y system yn ei chyfanrwydd—mae'r OECD yn llygad ei le bod yna nodwedd unigryw yma yng Nghymru y mae angen inni roi sylw iddi—yw bod llawer gormod o bobl ifanc yn dal i fod yn y lefelau is o ran cyrhaeddiad. Mae hynny'n amlwg o ran y cymharydd y gallech fod am ei wneud â'r Alban neu â Lloegr. Byddaf yn rhoi sylw i hynny maes o law, a bydd nifer o gyhoeddiadau yn ystod yr hydref o ran sut rydym yn symud yr ystadegyn hynod ystyfnig hwn ac yn symud ffigurau cyrhaeddiad Cymru ymlaen ac i fyny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, on 7 May, you confirmed that you would be reviewing secondary banding and introducing a system of grading as far as primary schools are concerned. However, I would draw your attention to the OECD report that clearly states that the banding system could be counterproductive to achieving the Welsh Government's goal of having a world-class education system. That was reflected in numerous meetings that we held with the OECD. Given that we also heard that there was a need for a long-term education strategy to turn the situation around in Wales, may I ask you to reconsider this mantra that your Government has adopted and speak to other parties with regard to reflecting better a way forward, given the lessons that, hopefully, we will learn from the OECD report?

Weinidog, ar 7 Mai, cawsom gadarnhad gennych y byddech yn adolygu bandio ysgolion uwchradd a chyflwyno system o raddio ar gyfer ysgolion cynradd. Fodd bynnag, hoffwn dynnu eich sylw at adroddiad OECD sy'n datgan yn glir y gallai'r system fandio fod yn wrthgynhyrchiol o ran cyflawni nod Llywodraeth Cymru o gael system addysg o'r radd flaenaf. Mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd gennym gyda'r OECD. O ystyried y clywsom hefyd fod angen am strategaeth addysg hirdymor i weddnewid y sefyllfa yng Nghymru, a gaf fi ofyn ichi ailystyried y mantra hwn y mae eich Llywodraeth wedi ei fabwysiadu a siarad â phartion eraill o ran ystyried gwell ffordd ymlaen, o gofio'r gwersi yr ydym, gobeithio, wedi'u dysgu o adroddiad yr OECD?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not engaging in mantras here, Presiding Officer. I am interested in what works in terms of delivery for our young people. I will make announcements very shortly about the evolution of secondary banding in order to address some of the issues that have been thrown up in terms of intelligent criticism, which has come over the last couple of iterations of banding, and there will be an announcement concerning primary school categorisation as well.

Nid mantra Rwy'n ei gyflwyno yma, Lywydd. Mae gennyf ddi-ddordeb yn yr hyn sy'n gweithio o ran darparu ar gyfer ein pobl ifanc. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau'n fuan iawn am esblygiad bandio uwchradd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion sydd wedi cael eu cyflwyno o ran beirniadaeth ddeallus, sydd wedi ymddangos yn ystod yr adroddiadau diwethaf ar fandio, a bydd cyhoeddiad yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion cynradd hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the OECD's overarching and constructive criticism of the aims and objectives of the Welsh education system as a whole, these will also be addressed this autumn and I will be announcing an overarching policy document that will address those issues.

O ran beirniadaeth droswaol ac adeiladol yr OECD ynghylch nodau ac amcanion system addysg Cymru yn ei chyfanrwydd, bydd y rhain hefyd yn cael sylw yn ystod yr hydref a byddaf yn cyhoeddi dogfen bolisi droswaol a fydd yn mynd i'r afael â'r materion hynny.

13:51

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the reliance that you and your predecessor have placed on the OECD and the PISA system, may I also ask you to look at the interaction between the Welsh Government and the OECD? Many of us were disappointed that many OECD officials appear to be reflecting English policies and considering them applicable in Wales. When we actually checked the position, there were no representatives on the standing committees from either Wales or Northern Ireland, which means that the policies that we need to be assessed are not being done by the independent people upon whom you rely.

O ystyried y ddbyniaeth rydych chi a'ch rhagflaenydd wedi eu gosod ar yr OECD a'r system PISA, a gaf fi hefyd ofyn i chi i edrych ar y rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a'r OECD? Roedd llawer ohonom yn siomedig ei bod yn ymddangos bod llawer o swyddogion yr OECD yn adlewyrchu polisiau Saesneg ac yn eu hystyried yn berthnasol i Gymru. Pan aethom i wiro'r sefyllfa mewn gwirionedd, nid oedd yr un cynrychiolydd ar y pwyllgorau sefydlog o Gymru na Gogledd Iwerddon, sy'n golygu nad yw'r polisiau y dylid eu hasesu yn cael eu hasesu gan y bobl annibynnol rydych chi'n dibynnu arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, Presiding Officer, we do not rely upon the OECD here in Wales in terms of the development of educational policy, but we do value the insight that it very often brings to the debate. I have to say that in all of my conversations with the OECD and its officials—and there have been many—I have never encountered any lack of awareness on its part as regards the differences that are emerging between the Welsh, English and Northern Irish systems. If the Member did encounter that, it would concern me, but that would be primarily a matter for him to take up with those OECD officials.

Wrth gwrs, Lywydd, yma yng Nghymru nid ydym yn dibynnu ar yr OECD ar gyfer datblygu polisi addysg, ond rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau treiddgar i'r ddadl. Mae'n rhaid i mi ddweud, ym mhob un o'r sgyrsiau a gefais gydag OECD a'i swyddogion—a bu llawer—na fu i mi brofi unrhyw ddiffyg ymwybyddiaeth ar ei ran o'r gwahaniaethau sy'n dod i'r amlwg rhwng systemau Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Os yw'r Aelod yn ymwybodol ohonynt, byddai hynny'n bryder i mi, ond mater iddo ef ei godi gyda'r swyddogion OECD fyddai hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Twf Swyddi Cymru (Sir y Fflint)

Jobs Growth Wales (Flintshire)

- 13:53 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Twf Swyddi Cymru yn sir y Fflint? OAQ(4)0469(ESK)*
- 3. Will the Minister give an update on the Jobs Growth Wales scheme in Flintshire? OAQ(4)0469(ESK)*
- 13:53 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*
- The programme has created 529 job opportunities in Flintshire. Of these, 408 have been filled and the remainder are in various stages of the recruitment process.
- Mae'r rhaglen wedi creu 529 o gyfleoedd gwaith yn Sir y Fflint. Mae 408 o'r swyddi hyn wedi'u llenwi, a'r gweddill yn amrywiol gamau'r broses recriwtio.
- 13:53 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you and welcome, Deputy Minister. The scheme has been very successful with the job opportunities that have been provided, not just in Flintshire, but throughout Wales. It has been a huge success and the scheme has been helping to unlock the potential in our young people. It is the most successful scheme in Europe and has ensured that we have not wasted the talent of a generation of young people. Would you agree that it is something of which we can be proud, while other UK legislatures should recognise the consequences of their lack of action?
- Diolch a chroeso i chi, Ddirprwy Weinidog. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran y cyfleoedd swyddi sydd wedi cael eu darparu, nid yn unig yn Sir y Fflint, ond ledled Cymru. Bu'n llwyddiant ysgubol ac yn gymorth i ddatgloi potensial ein pobl ifanc. Dyma'r cynllun mwyaf llwyddiannus yn Ewrop ac mae wedi sicrhau nad ydym wedi gwastraffu talent cenhedlaeth o bobl ifanc. A fydech yn cytuno ei fod yn rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono, ac y dylai deddfwrfeydd eraill y DU gydnabod canlyniadau eu diffyg gweithredu?
- 13:54 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do indeed agree with the Member. I am immensely proud of the success of the Jobs Growth Wales programme. There are not very many youth employment programmes where 82% of young people in the private sector progress to sustained employment or further learning after only six months. I have already outlined the opportunities created in Flintshire and we are working across all local authority areas in Wales and creating enormous numbers of job opportunities to meet the needs of all of our young unemployed people in all of those areas.
- Rwy'n cytuno'n llwyr â'r Aelod. Rwy'n hynod falch o lwyddiant y rhaglen Twf Swyddi Cymru. Nid oes llawer iawn o raglenni cyflogaeth ieuencid lle mae 82% o bobl ifanc yn y sector preifat yn camu ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy neu ddysgu pellach ar ôl chwe mis yn unig. Rwyf eisoes wedi amlinellu'r cyfleoedd a grëwyd yn Sir y Fflint ac rydym yn gweithio ar draws pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru gan greu nifer enfawr o gyfleoedd gwaith i ddiwallu anghenion ein holl bobl ifanc ddi-waith ym mhob un o'r ardaloedd hynny.
- 13:54 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In May, I raised the case of a young Flintshire woman on the work programme who had been offered two jobs, but was denied them when, because of Welsh Government rules, she was denied access to Jobs Growth Wales support. Given the Welsh Affairs Committee's expression of concern over this and the announcement that the Welsh and UK Governments were working collaboratively to address that, what progress has since been achieved? Are we moving to a situation where the relative schemes between the UK and Wales collaborate, or are such young women going to continue to fall between two stools and lose work accordingly?
- Ym mis Mai, bûm yn sôn am achos menyw ifanc o Sir y Fflint ar y rhaglen waith a oedd wedi cael cynnig dwy swydd, ond oherwydd rheolau Llywodraeth Cymru, fe dynnwyd y cynigion yn ôl am nad oedd yn gymwys i gael cymorth Twf Swyddi Cymru. O ystyried bod Pwyllgor Materion Cymru wedi mynegi pryder ynghylch hyn a bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â hyn, pa gynnydd sydd wedi'i wneud eich hynny? A ydym wedi symud i sefyllfa lle mae'r cynlluniau cymharol rhwng y Deyrnas Unedig a Chymru yn cydweithio, neu a yw menywod ifanc tebyg yn parhau i ddisgyn rhwng dwy stôl a cholli gwaith yn sgîl hynny?
- 13:55 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will be very glad to look at the particular circumstances of your constituent if you want to write to me with the details, but my understanding is that Jobs Growth Wales is particularly targeted at jobs-ready youngsters, whereas the UK schemes are targeted at youngsters who are not ready for the job market. Therefore, we have worked very carefully to ensure that the schemes dovetail together very nicely. In fact, we have evidence to show that they do just that. However, if you have somebody who has a particular problem, I would be more than happy to look at the individual circumstances.
- Byddaf yn barod iawn i edrych ar amgylchiadau penodol eich etholwr os ydych am ysgrifennu ataf gyda'r manylion, ond fy nealltwriaeth i yw bod Twf Swyddi Cymru yn benodol yn targedu pobl ifanc sy'n barod i swydd, tra bod y cynlluniau yn y DU yn targedu pobl ifanc nad ydynt yn barod ar gyfer y farchnad swyddi. Felly, rydym wedi gweithio'n ofalus iawn i sicrhau bod y cynlluniau yn cydweddau â'i gilydd yn dda. Yn wir, mae gennym dystiolaeth i ddangos eu bod yn gwneud hynny'n union. Fodd bynnag, os oes gennych rywun sydd â phroblem benodol, byddwn yn fwy na pharod i edrych ar yr amgylchiadau unigol.

13:55

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Croeso, Ddirprwy Weinidog. Mae adroddiad wedi ei gomisiynu gan y Llywodraeth wedi cyhoeddi gwerthusiad yr wythnos hon yn dangos bod gormod o ffocws ar y rhai sydd eisoes yn gyflogadwy. Mae'r adroddiad yn dangos y gallai 73% o'r swyddi newydd fod wedi eu creu heb Jobs Growth Wales. A ydych yn derbyn, felly, y dylid newid y ffocws at y bobl ifanc hynny sydd yn bellach i ffwrdd oddi wrth y farchnad swyddi—y rhai, efallai, sydd â bach iawn o gymwysterau—yn hytrach na sybsideiddio swyddi sydd eisoes yn bodoli?

Welcome, Deputy Minister. A report commissioned by the Government published this week includes an evaluation showing too much focus on those who are already employable. The report shows that 73% of the new posts could have been created without Jobs Growth Wales. Do you, therefore, accept that we should shift the focus to those young people who are further away from the jobs market—those, perhaps, with very few qualifications—rather than subsidising jobs that already exist?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:56

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

To be very clear, this is a very successful programme and, over the last four years, it has created over 15,000 jobs for young people in Wales. We know these other statistics as well: employers expand their workforce more rapidly than they otherwise would do when they have been involved with the Jobs Growth Wales programme; young people have stayed in work much longer when they have got a job through Jobs Growth Wales than through any other scheme; the programme is well ahead of schedule; more than a quarter of those finding work through Jobs Growth Wales would not have got a job at all without the programme; and, of the ones who might have got a job anyway, they got that job as much as eight weeks earlier. We know from other statistics that a youngster who is out of work for about two months becomes endemically unemployed, so the importance of getting those job-ready people into work as soon as possible cannot be overemphasised. However, I accept the Member's point about the difficulties for young people who are not job ready and, as a result of that, we are, of course, going to be channelling money into looking at people from Communities First areas and other areas that we know of so that we can assist those most in need of getting ready for the job market to do just that.

I fod yn gwbl glir, mae hon yn rhaglen lwyddiannus iawn ac, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae wedi creu dros 15,000 o swyddi i bobl ifanc yng Nghymru. Rydym yn gwybod yr ystadegau eraill hefyd: mae cyflogwyr yn ehangu eu gweithlu yn gynt nag y byddent fel arall ar ôl bod yn ymwneud â'r rhaglen Twf Swyddi Cymru; mae pobl ifanc wedi aros mewn gwaith lawer hwy ar ôl cael swydd trwy Twf Swyddi Cymru na thrwy unrhyw gynllun arall; mae'r rhaglen yn cyflawni'n gynt na'r disgwyl; ni fyddai mwy na chwarter y rhai sy'n dod o hyd i waith trwy Twf Swyddi Cymru wedi cael swydd o gwbl heb y rhaglen; ac, o'r rhai a allai fod wedi cael swydd beth bynnag, roedden nhw wedi cael swydd cymaint ag wyth wythnos yn gynharach. Gwyddom, o ystadegau eraill, fod rhywun ifanc sy'n ddi-waith am tua dau fis yn mynd yn endemig ddi-waith, felly ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw hi i gael gwaith ar unwaith i i bobl sy'n barod i swydd. Fodd bynnag, rwy'n derbyn pwynt yr Aelod am anawsterau pobl ifanc nad ydynt yn barod i swydd, yn sgîl hynny, rydym, wrth gwrs, yn mynd i sianelu arian tuag at edrych ar bobl yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill y gwyddom amdanynt fel y gallwn gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf angen eu paratoi ar gyfer y farchnad swyddi i wneud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cefnogaeth i Ysgolion Ffydd

Support for Faith Schools

13:57

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ysgolion ffydd? OAQ(4)0455(ESK)

4. Will the Minister make a statement on the Welsh Government support for faith schools? OAQ(4)0455(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:57

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My thanks to the Member for Clwyd West. The Welsh Government believes strongly in celebrating the different and diverse cultures within Wales. Schools with a religious character are one aspect of the diversity within our communities. Maintained voluntary aided and voluntary controlled faith schools receive the same level of support as all other maintained schools in Wales.

Diolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd. Mae Llywodraeth Cymru'n credu'n gryf mewn dathlu gwahanol ac amrywiol ddiwylliannau yng Nghymru. Un agwedd ar yr amrywiaeth o fewn ein cymunedau yw'r ysgolion â chymeriad crefyddol. Mae ysgolion ffydd a reolir yn wirfoddol ac a gynhelir ac ysgolion ffydd a gynorthwyir yn wirfoddol ac a gynhelir yn cael yr un lefel o gefnogaeth â phob ysgol arall a gynhelir yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:57

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, Minister, and I know of your commitment to schools of a religious character. You will be aware that there is a school in my constituency, Ysgol Llanbedr, Dyffryn Clwyd, which is a Church in Wales School, which has been referred to you for determination on the proposal to close it by Denbighshire County Council. I appreciate that you cannot divulge any decision or pre-empt a decision in this Chamber, but can you acknowledge that disruption to children's education during an academic year is not something that is welcomed? Will you confirm that, should you decide to agree for this school to be closed, and I hope that you do not, you will not require it to be closed until the end of the academic year in 2015, to enable the uncertainty for parents, staff and pupils to be planned for effectively?

Diolch i chi am yr ymateb hwnnw, Weinidog, a gwn am eich ymrwymiad i ysgolion o gymeriad crefyddol. Byddwch yn ymwybodol bod yna ysgol yn fy etholaeth, Ysgol Llanbedr, Dyffryn Clwyd, sy'n un o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, sydd wedi cael ei chyfeirio atoch chi am benderfyniad ar y cynnig i'w chau gan Gyngor Sir Ddinbych. Sylweddolaf na allwch chi ddatgelu unrhyw benderfyniad nac achub y blaen ar y penderfyniad yn y Siambr hon, ond a allwch gydnabod nad yw amharu ar addysg plant yn ystod blwyddyn academaidd yn rhywbeth i'w groesawu? A wnewch chi gadarnhau, pe baech chi'n penderfynu cytuno i gau'r ysgol hon, ac rwy'n gobeithio na fyddwch, y byddwch chi'n aros tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2015 cyn cau'r ysgol, er mwyn galluogi cynllunio'n effeithiol ar gyfer yr ansicrwydd i rieni, staff a disgyblion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that important question. I understand that a submission for me is currently being prepared by officials. It is a relatively complex situation, as the Member will know. I have not yet received the submission in its final form, but I am reassured that the advice will be submitted to me this month and I do not intend, obviously, to cause any unnecessary delay in terms of delivering a decision. All of us would like to see any disruption of children's education, whenever possible, avoided. I will remember the Member's comments when that submission arrives on my desk.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn pwysig hwnnw. Deallaf fod swyddogion wrthi'n paratōi cyflwyniad imi ar hyn o bryd. Mae'n sefyllfa gymharol gymhleth, fel y gŵyr yr Aelod. Nid wyf wedi derbyn y cyflwyniad yn ei ffurf derfynol eto, ond rwyf wedi fy sicrhau y bydd y cyngor yn cael ei gyflwyno i mi y mis hwn ac, yn amlwg, nid wyf yn bwriadu achosi unrhyw oedi diangen o ran cyflawni penderfyniad. Dymuniad pob un ohonom yw osgoi unrhyw darfu ar addysg plant, pryd bynnag y bo modd. Byddaf yn cofio sylwadau'r Aelod pan ddaw'r cyflwyniad hwnnw i law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

The Literacy and Numeracy Framework

13:59

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganlyniadau'r fframwaith llythrennedd a rhifedd? OAQ(4)0454(ESK)

5. Will the Minister make a statement on the outcomes from the literacy and numeracy framework? OAQ(4)0454(ESK)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The literacy and numeracy framework became a statutory curriculum requirement in September 2013 and, from this September, schools are required to assess against it. The LNF is central to improving the teaching and learning of literacy and numeracy, and the national support programme is helping schools to implement it.

Daeth y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ofyniad cwricwlwm statudol ym mis Medi 2013 ac, o'r mis Medi hwn ymlaen, mae'n ofynnol i ysgolion ei ddefnyddio ar gyfer asesu. Mae'r FfLIRhC yn hanfodol ar gyfer gwella addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd, ac mae'r rhaglen gymorth genedlaethol yn helpu ysgolion i'w weithredu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that answer. I do agree with the direction of travel, but I wanted to ask, further to our meeting over the summer, particularly about your current opposition to enshrining financial education in primary legislation, and therefore opposing securing and locking into the curriculum those aspects of the LNF that relate directly to financial literacy. It is my contention that these skills will need to be taught forever and that the only potential reasons, as I can see it, to keep them statutory through subordinate legislation is so that Ministers could remove the LNF and any provision of financial education matters without proper scrutiny from this Chamber. May I ask specifically why your Government prefers subordinate legislation in this particular area?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw. Rwy'n cytuno â'r trywydd, ond yn dilyn ein cyfarfod dros yr haf, roeddwn am ofyn yn arbennig ynghylch eich gwrthwynebiad cyfredol i ymgorffori addysg ariannol mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac felly wrthwynebu sicrhau a chloi i mewn i'r cwricwlwm yr agweddau hynny ar y FfLIRh sy'n ymwneud yn uniongyrchol â llythrennedd ariannol. Rwyf fi'n dadlau y bydd angen i'r sgiliau hyn gael eu haddysgu am byth, a'r unig resymau posibl, hyd y gwelaf dros eu cadw'n statudol drwy is-ddeddfwriaeth yw er mwyn i Weinidogion allu tynnu'r FfLIRh ac unrhyw ddarpariaeth ar faterion addysg ariannol heb i hynny gael ei graffu'n briodol gan y Siambr hon. A gaf i ofyn yn benodol pam mae eich Llywodraeth yn ffafrio is-ddeddfwriaeth yn y maes penodol hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not intend to promulgate the debate around the Member's backbench legislation here in OAQs this afternoon, but I will say that no-one in the Welsh Government is objecting, of course, to the cementing of financial education within the school curriculum. Indeed, great strides have been taken in order to ensure that it is there. The Member will also be aware that there is an independent inquiry—and this is important—into the Welsh curriculum as a whole, and we must wait until that review reports back in the new year, and must be careful of prejudicing the proposals that come through that independent inquiry. However, there is no disagreement on the principle, in my mind, among any party here in the Chamber as regards the importance of financial education in schools.

Nid yw'n fwriad gennyf ledaenu'r ddadl ynghylch deddfwriaeth meinciau cefn yr Aelod yn ystod Cwestiynau Llafar y Cynulliad y prynhawn yma, ond carwn ddweud, wrth gwrs, nad oes neb yn Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu rhoi addysg ariannol yng nghwricwlwm ysgolion. Yn wir, cafwyd camau breision er mwyn sicrhau ei fod yno. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol bod ymchwiliad annibynnol ar waith i'r cwricwlwm yng Nghymru yn ei gyfanrwydd—ac mae hyn yn bwysig—a rhaid inni aros i'r adolygiad hwnnw adrodd yn ôl yn y flwyddyn newydd, a rhaid bod yn ofalus o ragfarnu'r cynigion a ddaw drwy'r ymchwiliad annibynnol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw anghytundeb ar yr egwyddor, yn fy marn i, ymhlith unrhyw blaid yma yn y Siambr o ran pwysigrwydd addysg ariannol mewn ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like you, and indeed like Bethan Jenkins, I of course acknowledge the great importance of financial literacy, but, like you, I agree that there is no case made out for further legislation. Minister, will you agree with me in congratulating organisations like the Money Advice Service, credit unions, and a range of third-sector organisations and other advice centres that are providing valuable work by going into schools and helping to coach young children in the principles of money management?

Fel chi, ac yn wir fel Bethan Jenkins, rwyf finnau, wrth gwrs, yn cydnabod pa mor bwysig yw llythrennedd ariannol, ond, fel chi, rwy'n cytuno nad oes unrhyw achos wedi'i wneud o blaid deddfwriaeth bellach. Weinidog, a fydddech am ymuno â mi i longyfarch mudiadau megis y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, undebau credyd, ac ystod o sefydliadau yn y trydydd sector a chanolfannau cynghori eraill sy'n darparu gwaith gwerthfawr drwy fynd i mewn i ysgolion a helpu i hyfforddi plant ifanc ynghylch egwyddorion rheoli arian?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do agree with the Member for Caerphilly. I am very pleased, of course, that schools are working with providers, including our growing, burgeoning credit union movement here in Wales to deliver what are relevant and motivating curriculum experiences across the country. Financial literacy is becoming embedded in our education system. 'Manage money' is a key element of the LNF and strengthens the existing curriculum arrangements under which financial education is included both in mathematics and in PSE.

Rwy'n cytuno â'r Aelod dros Gaerffili. Rwy'n falch iawn, wrth gwrs, fod ysgolion yn cydweithio â darparwyr, gan gynnwys ein mudiad undebau credyd sy'n tyfu a datblygu yma yng Nghymru i ddarparu'r hyn sy'n brofiadau cwricwlwm perthnasol ac ysgogol ledled y wlad. Mae llythrennedd ariannol yn bwrw gwreiddiau yn ein system addysg. Mae 'Rheoli arian' yn elfen allweddol o'r FfLIRh ac mae'n cryfhau'r trefniadau cwricwlwm presennol lle mae addysg ariannol yn cael ei gynnwys mewn mathemateg ac mewn ABCh.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether you could tell us what percentage of pupils that the Welsh Government is aware of that do not have sufficient financial literacy skills. You will be aware of the Money Advice Service report issued this week. Obviously, financial skills allow young adults, when they leave school, to be able to budget. Without those skills they can very quickly fall into debt. It is a really important life skill. I personally will be supporting Bethan Jenkins's financial education and inclusion Bill. Can you tell us what the size of the problem is? I appreciate that there is an inquiry, but presumably you have asked for that because there is a problem.

Weinidog, tybed a allech ddweud wrthym ba ganran o ddisgyblion y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ohonynt nad oes ganddynt sgiliau llythrennedd ariannol digonol. Byddwch yn ymwybodol o adroddiad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a ghoeddwyd yr wythnos hon. Yn amlwg, mae sgiliau ariannol yn galluogi oedolion ifanc, pan fyddant yn gadael yr ysgol, i drefnu eu cyllideb. Heb y sgiliau hynny gallant ddisgyn yn gyflym iawn i ddyled. Mae'n sgil bywyd sy'n wirioneddol bwysig. Yn bersonol, byddaf yn cefnogi Bil addysg a chynhwysiant ariannol Bethan Jenkins. A allwch ddweud wrthym beth yw maint y broblem? Rwy'n sylweddoli bod yna ymchwiliad, ond yn ôl pob tebyg rydych wedi gofyn am hynny am fod yna broblem.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I cannot give a percentage figure here this afternoon in terms of how many pupils may or may not be getting what Antoinette Sandbach regards as adequate financial literacy education in their schools. However, I would accept that we are not yet where we need to be, and that it is an important life skill. As I have said, I do not doubt that this will come through in terms of our major curriculum review. We will also be moving towards new GCSEs in mathematics, for teaching in 2015, which will include these very important life skills as part of the GCSE curriculum as well. Therefore, the direction of travel is set.

Ni allaf roi ffigwr canrannol i chi'r prynhawn yma, o ran faint o ddisgyblion o bosibl sy'n cael neu sydd heb gael yr hyn y mae Antoinette Sandbach yn ei ystyried yn addysg llythrennedd ariannol digonol yn eu hysgolion. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn nad ydym eto yn y sefyllfa lle mae angen inni fod, a bod hyn yn un o sgiliau pwysig bywyd. Fel y dywedais, nid wyf yn amau y bydd hyn yn dod i'r golwg drwy ein prif adolygiad o'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn symud tuag at sefydlu TGAU newydd mewn mathemateg, i'w addysgu yn 2015, a bydd yn cynnwys y sgiliau bywyd hynod bwysig hyn fel rhan o'r cwricwlwm TGAU hefyd. Felly, mae'r trywydd wedi ei bennu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig

Children with Special Educational Needs

14:04

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru?
OAQ(4)0452(ESK)

6. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support children with special educational needs in Wales? OAQ(4)0452(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:04

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Preseli Pembrokeshire, and I refer him to the answer that I gave to his previous question on 5 March. Through existing statutory duties and future legislative reform of the SEN legal framework, we are ensuring that education providers are best placed to deliver high-quality educational provision to these learners.

Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro, ac fe'i cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'w gwestiwn blaenorol ar 5 Mawrth. Trwy ddyletswyddau statudol presennol a diwygiadau deddfwriaethol y fframwaith cyfreithiol AAA yn y dyfodol, rydym yn sicrhau bod darparwyr addysg yn y sefyllfa orau i gyflwyno darpariaeth addysgol o ansawdd uchel i'r dysgwyr hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, there are of course various approaches and strategies that teachers and support staff can use to help children with autism in a school setting, such as visual aids and the SPELL framework, for example. Sadly, children in Pembrokeshire have a particularly lengthy wait for autism diagnosis, which is impacting on their educational attainment. In the light of these lengthy waits, what additional support and, indeed, what additional funding has the Welsh Government made available to specifically tackle this problem in areas such as Pembrokeshire, given the seriousness of this particular issue?

Weinidog, mae yna wahanol dduiliau a strategaethau y gall athrawon a staff cymorth eu defnyddio, wrth gwrs, i helpu plant ag awtistiaeth mewn lleoliad ysgol, megis cymhorthion gweledol a'r fframwaith SPELL, er enghraifft. Yn anffodus, mae plant yn Sir Benfro yn aros yn arbennig o hir am ddiagnosis awtistiaeth, sy'n effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol. Yng ngoleuni'r oedi hirfaith hyn, pa gefnogaeth ychwanegol, ac yn wir, pa gyllid ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i fynd i'r afael yn benodol â'r broblem hon mewn ardaloedd fel sir Benfro, o ystyried difrifoldeb y mater arbennig hwn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government has, of course, agreed to refresh the autistic spectrum disorder strategic action plan. An ASD stakeholder group has been established to provide advice on the refreshed action plan, and views gathered at stakeholder events and the findings of an independent evaluation will help to inform that work. The refreshed action plan will be issued for consultation in the new year and the final document will be published in the summer. I would that I had greater resource in order to be able to assist this process and help it along, but the Member will be aware, as I have said repeatedly this afternoon, that the Conservative-led Government in Westminster continues to make the development of this sort of agenda ever more difficult.

Mae Llywodraeth Cymru wrth gwrs wedi cytuno i ddiweddarau'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Mae grŵp rhanddeiliaid ASA wedi cael ei sefydlu i roi cyngor ar y cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau, a safbwyntiau a gasglwyd mewn digwyddiadau i randdeiliaid a bydd y canfyddiadau gwerthusiad annibynnol yn helpu i lywio'r gwaith hwnnw. Bydd y cynllun gweithredu ar ei newydd wedd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn y flwyddyn newydd a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi yn yr haf. Hoffwn pe bai gennyf ragor o adnoddau i ddwyn y broses hon yn ei blaen, ond fel y gwyr yr Aelod, fel y dywedais dro ar ôl tro y prynhawn yma, mae Llywodraeth San Steffan dan arweiniad y Ceidwadwyr yn parhau i wneud y gwaith o ddatblygu'r math hwn o agenda yn fwyfwy anodd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:06	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I was pleased to see the White Paper on supporting children with additional learning needs, however, there is no mention at all within it of educational psychologists. So, will the role of educational psychologists be outlined in detail in the legislation that you intend to bring or will there be no statutory role for educational psychologists in the new approach to statementing?</p>	<p>Weinidog, roedd yn bleser gennyf weld y Papur Gwyn ar gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol, fodd bynnag, nid yw'n sôn o gwbl am seicolegwyr addysg. Felly, a fydd rôl seicolegwyr addysg yn cael e hamlinellu'n fanwl yn y ddeddfwriaeth rydych yn bwriadu ei chyflwyno neu a fydd yna'r un rôl statudol ar gyfer seicolegwyr addysg yn y dull newydd o ddarparu datganiadau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I can reassure the Member that she need not worry in terms of there not being mention of them in the actual document itself. Educational psychology will of course be a part of the support services around this. Educational psychologists themselves have been and will continue to be consulted in terms of how this legislation is shaped and there is no question at all that there is any intention to downgrade the importance of educational psychology in terms of the input and the support that is offered to these young people and to their schools—quite the contrary, in fact.</p>	<p>Gallaf sicrhau'r Aelod nad oes angen iddi boeni nad oes sôn amdanynt yn y ddogfen ei hun. Bydd seicoleg addysg, wrth gwrs, yn rhan o'r gwasanaethau cymorth ar gyfer hyn. Rydym wedi ymgynghori â seicolegwyr addysg ac yn parhau i wneud hynny o ran llunio'r ddeddfwriaeth hon ac nid oes amheuaeth o gwbl nad oes unrhyw fwriad i israddio pwysigrwydd seicoleg addysg o ran y mewnbwn a'r gefnogaeth a gynigir i'r bobl ifainc hyn ac i'w hysgolion—i'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae ymyrraeth fuan yn rhan bwysig o ddelio ag anghenion arbennig. Dywedoch fod fframwaith newydd ynglŷn ag asesiadau yn y cyfnod sylfaen. Roedd y 'compact assessment' i fod yn weithredol o'r mis hwn ymlaen. A yw'r 'compact assessments' yn weithredol ac a yw'r hyfforddiant wedi'i gwblhau i wneud hynny?</p>	<p>Early intervention is an important part of dealing with special needs. You said that there is a new framework relating to assessments in the foundation phase. The compact assessment was supposed to be in operation from this month forward. Have those compact assessments come into existence and has the training been completed to do that?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>That is a very specific point in terms of the timing and I would need to write to the Member to give him the specific information on that point.</p>	<p>Dyma bwynt penodol iawn o ran yr amseriad a byddai angen i mi ysgrifennu at yr Aelod i roi'r wybodaeth benodol iddo am y pwynt hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Effaith Toriadau ar Bobl Ifanc		Impact of Cuts on Young People	
14:08	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi ei asesiad o effaith y toriadau yn ei gyllideb dros yr haf ar bobl ifanc?</i> OAQ(4)0463(ESK)</p>	<p><i>7. Will the Minister publish his assessment of the impact of cuts in his budget over the summer on young people?</i> OAQ(4)0463(ESK)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>Equality impact assessments have been completed for all cuts and will be published at the time of the second supplementary budget when transfers are completed.</p>	<p>Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl doriadau a chânt eu cyhoeddi yn ystod yr ail gyllideb atodol ar ôl i'r trosglwyddiadau gael eu cwblhau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Roedd y cyhoeddiadau dros yr haf yn amddifad o unrhyw asesiadau ac rydych newydd sôn am asesiadau cydraddoldeb. Beth am asesiadau o dan y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011?</p>	<p>The announcements over the summer did not include any assessments and you have just mentioned equality impact assessments. What about assessments under the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:08	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, we will all make our own assessments of the pressures that are being brought to bear upon public expenditure here in Wales. It is and would be naive to suggest, in terms of the austerity measures that we are having to deal with here in Wales, that damage would not be done to public services in Wales. Damage will be done and will continue to be done until the Government in Westminster changes its policies or the electorate decides to change the Government.</p>	<p>Wel, byddwn ni i gyd yn gwneud ein hasesiadau ein hunain o'r pwysau sy'n cael ei roi ar wariant cyhoeddus yma yng Nghymru. Naif fyddai i ni awgrymu, o ran y mesurau darbodus rydym yn gorfod ymdopi â hwy yma yng Nghymru, na fydd niwed yn cael ei achosi i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fe fydd colledion, a bydd hyn yn parhau nes ceir newid ym mholisiau'r Llywodraeth yn San Steffan neu y bydd yr etholwyr yn penderfynu newid y Llywodraeth.</p>
14:09	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, absenteeism rates in secondary schools in deprived areas of south-east Wales remain persistently high, with Blaenau Gwent having the highest rates in Wales. We know that excessive absences from school have a detrimental effect on a child's performance in school. What guarantee can the Minister give that his budget cuts will not hinder efforts to reduce absenteeism in schools in Wales?</p>	<p>Weinidog, mae cyfraddau absenoldeb mewn ysgolion uwchradd mewn ardaloedd difreintiedig yn ne-ddwyrain Cymru yn parhau i fod yn gyson uchel, gyda Blaenau Gwent yn cael y cyfraddau uchaf yng Nghymru. Gwyddom fod absenoldebau gormodol o'r ysgol yn cael effaith andwyol ar berfformiad plentyn yn yr ysgol. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi na fydd ei doriadau ef i'r gyllideb yn llesteirio ymdrechion i leihau absenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru?</p>
14:10	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>My budget cuts—? There is difficulty here, Presiding Officer, no doubt a deliberate difficulty on the part of some opposition Members, in terms of trying to point the finger towards the origin of the pressures on public finance that Wales is facing at the moment. In doing so, they insult the intelligence of the Welsh electorate. They know where the genesis of these cuts is and they know it is not here in Cardiff bay. In terms of absenteeism, the Member is of course quite right; he states the bleeding obvious in terms of absenteeism and the importance that we must ascribe to driving down those figures around absenteeism. Any glance at the statistics will show that we have, over the last two to three years in particular, made historic inroads into the level of absence within our schools system. We will continue to apply the appropriate pressure through banding and otherwise to make sure that those figures continue to fall.</p>	<p>Fy nhoriadau i i'r gyllideb-? Lywydd, mae gennym broblem yma. Heb os, anhawster bwriadol ar ran rhai o Aelodau'r gwrthbleidiau, o ran ceisio pwyntio bys tuag at ffynhonnell y pwysau ar gyllid cyhoeddus sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd. Wrth wneud hynny, maent yn sarhau deallusrwydd etholwyr Cymru. Mae'r etholwyr yn gwybod ble mae'r toriadau hyn yn tarddu ac yn gwybod nad Bae Caerdydd yw'r lle hwnnw. O ran absenoldeb, mae'r Aelod wrth gwrs yn gwbl gywir; mae'n dweud yr hyn sy'n gwbl amlwg am absenoldeb ac am y pwysigrwydd sy'n rhaid inni ei roi i sicrhau lleihau'r ffigurau absenoldeb. Os edrychych chi ar yr ystadegau, fe welwch ein bod, dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf yn arbennig, wedi gwneud cynnydd hanesyddol o ran lefelau absenoldeb yn ein cyfundrefn ysgolion. Byddwn yn parhau i roi'r pwysau priodol drwy fandio a thrwy ffyrdd eraill i wneud yn siŵr bod y ffigurau hynny'n parhau i ostwng.</p>
14:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am sure that the Minister means to use acceptable parliamentary language in his responses. Perhaps you would like to review your last response and consider what you said.</p>	<p>Rwy'n siŵr mai bwriad y Gweinidog yw defnyddio iaith seneddol dderbyniol yn ei ymatebion. Efallai yr hoffech adolygu eich ymateb diwethaf ac ystyried yr hyn a ddywedasoch.</p>
	Cwricwlwm Ysgolion Cynradd	Cwricwlwm Ysgolion Cynradd
14:11	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno'r cwricwlwm ysgol gynradd newydd? OAQ(4)0457(ESK)</p>	<p>8. Will the Minister provide an update on the introduction of the new primary school curriculum? OAQ(4)0457(ESK)</p>

- 14:11 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for Pontypridd. Professor Donaldson is currently undertaking an independent review of our national curriculum, reporting to me early next year. In the meantime, we are revising the areas of learning for language, literacy, communication, mathematical development and programmes of study for English, Welsh and maths, to be published this October.
- Diolch i'r Aelod dros Bontypridd. Ar hyn o bryd, mae'r Athro Donaldson yn cynnal adolygiad annibynnol o'n cwricwlwm cenedlaethol, gan adrodd i mi yn gynnar y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, rydym yn adolygu'r meysydd dysgu ar gyfer iaith, llythrennedd, cyfathrebu, datblygiad mathemategol a rhaglenni astudio ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg, i'w gyhoeddi ym mis Hydref.
- 14:11 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. The new curriculum was raised by teachers and the head of Llanilltud Faerdref Primary School, which I visited recently. In particular, the teaching staff were keen to understand the degree of flexibility that they will have in delivering non-core subjects. Will the Minister give an indication of the likely degree of flexibility that headteachers will have in order to deliver the best outcomes for their pupils?
- Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Bu i athrawon a phennaeth Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref godi'r cwricwlwm newydd gyda mi wrth i mi ymweld â'r ysgol yn ddiweddar. Yn benodol, mae'r staff addysgu yn awyddus i ddeall faint o hyblygrwydd fydd ganddynt wrth gyflwyno pynciau di-graidd. A wnaiff y Gweinidog roi awgrym o'r radd debygol o hyblygrwydd a fydd gan benaethiaid er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eu disgyblion?
- 14:12 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know, I know; I have heard these voices raised from teachers and headteachers in particular. I have to say that Professor Donaldson is leading an independent review of our curriculum and assessment arrangements in Wales. He will be reporting, as I said, early next year. Until he does so, I will not be in a position to comment on what those recommendations might be because this is an independent review and I could be risking compromising the independence of that review. I know that Professor Donaldson has already received upwards of 700 responses to his call for evidence, which closed back in July. I know that the sentiments that the Member for Pontypridd has voiced will be represented within those 700 responses.
- Mi wn, mi wn; clywais y materion hyn gan athrawon a phenaethiaid yn benodol. Rhaid i mi ddweud bod yr Athro Donaldson yn arwain adolygiad annibynnol o'n trefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Bydd yn adrodd, fel y dywedais, yn gynnar y flwyddyn nesaf. Tan hynny, ni fyddaf mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar yr hyn y gallai'r argymhellion hynny fod oherwydd mae hwn yn adolygiad annibynnol a gallwn i fod mewn perygl o gyfaddawdu annibyniaeth yr adolygiad hwnnw. Gwn fod yr Athro Donaldson eisoes wedi derbyn mwy na 700 o ymatebion i'w alwad am dystiolaeth, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf. Gwn y bydd y sylwadau a gafwyd gan yr Aelod dros Bontypridd yn cael eu cynrychioli o fewn y 700 o ymatebion hynny.
- 14:13 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am sure you will no doubt recall the Enterprise and Business Committee's report into entrepreneurship. One of the key recommendations, which your Government took on board, was the fact that we need to encourage and develop business and social enterprise skills in primary schools. In fact, the Enterprise and Business Committee believes that entrepreneurship should be at the very heart of Wales's education system. In the context of the new primary school curriculum, can you update us on the progress to include entrepreneurship at the heart of the curriculum?
- Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn sicr o gofio adroddiad Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch entrepreneuriaeth. Un o'r argymhellion allweddol y bu i'ch Llywodraeth ei hystyried oedd y ffaith bod angen inni annog a datblygu sgiliau busnes a menter gymdeithasol mewn ysgolion cynradd. Yn wir, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn credu y dylai entrepreneuriaeth fod wrth galon system addysg Cymru. Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd ar gyfer ysgolion cynradd, a allwch ein diweddarau ar y cynnydd a wnaed o ran gosod entrepreneuriaeth wrth wraidd y cwricwlwm?
- 14:13 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, regretfully, Presiding Officer, I must refer to the answer that I just gave to the Member for Pontypridd in that regard. There is no barrier to Members of this Chamber having direct conversations with Professor Donaldson, either through their party groupings or individually, as representatives of their constituents, in order to voice these concerns and make a suggestion. Until that report comes, I cannot compromise the independence of the review.
- Unwaith eto, yn anffodus, Lywydd, rhaid i mi gyfeirio at yr ateb rwyf newydd ei roi i'r Aelod dros Bontypridd yn hynny o beth. Nid oes rhwystr i aelodau o'r Siambr hon cael sgysiau uniongyrchol gyda'r Athro Donaldson, naill ai drwy eu grwpiau plaid neu yn unigol, fel cynrychiolwyr eu hetholwyr, er mwyn mynegi'r pryderon hyn a gwneud awgrymiadau. Hyd nes daw'r adroddiad hwnnw i law, ni allaf beryglu annibyniaeth yr adolygiad.

Adolygiad o'r Cwricwlwm TGAU

GCSE Curriculum Review

- 14:14 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan yr Athro Donaldson yn ei adolygiad o'r cwricwlwm TGAU? OAQ(4)0459(ESK) 9. Will the Minister provide an update on the progress made by Professor Donaldson in his GCSE curriculum review? OAQ(4)0459(ESK)
- 14:14 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I thank the Member for Aberafan. My answer to the previous question refers. Early next year, Professor Donaldson will make recommendations on a clear vision for education in Wales, from the foundation phase up to key stage 4. These proposals must align with our reforms to our qualifications system, including GCSEs, made in response to the review of qualifications. Diolch i'r Aelod dros Aberafan. Mae fy ateb i'r cwestiwn blaenorol yn cyfeirio at hyn. Yn gynnar y flwyddyn nesaf, bydd yr Athro Donaldson yn gwneud argymhellion ar weledigaeth glir ar gyfer addysg yng Nghymru, o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol 4. Rhaid i'r cynigion gydfynd â'n diwygiadau i'n system gymwysterau, gan gynnwys TGAU, a wnaed mewn ymateb i'r adolygiad o gymwysterau.
- 14:14 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I thank you for that answer, Minister, and look forward to seeing the curriculum that will take our children forward to the next decade and beyond. Your predecessor instigated a review of the curriculum for information and communications technology under the leadership of Dr Tom Crick. He identified the fact that there is a need to change the approach to a computer-science approach that includes programming; we are seeing this happen elsewhere. What action has the Welsh Government taken to encourage the introduction of programming and coding in the school environment while we await the curriculum review from Professor Donaldson, so that we do not have to rely on people who are self-taught and who are keen enthusiasts but actually develop the skills in our young people that will lead us to the next generation of the workforce? Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac edrychwn ymlaen at weld y cwricwlwm a fydd yn dwyn ein plant ymlaen i'r degawd nesaf a thu hwnt. Bu i'ch rhagflaenydd gychwyn adolygiad o'r cwricwlwm ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o dan arweiniad Dr Tom Crick. Nododd y ffaith fod angen newid agwedd i ddull cyfrifiadurol-wyddonol sy'n cynnwys rhaglennu; rydym yn gweld bod hyn yn digwydd mewn mannau eraill. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i annog cyflwyno rhaglennu a chodio yn amgylchedd yr ysgol wrth i ni aros am adolygiad cwricwlwm yr Athro Donaldson, fel nad oes rhaid i ni ddiybnu ar bobl hunanaddysgiedig sy'n selogion brwd ond ein bod mewn gwirionedd yn datblygu'r sgiliau yn ein pobl ifanc a fydd yn ein harwain i'r genhedlaeth nesaf o weithlu?
- 14:15 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 The Member for Aberavon puts his finger on a very important issue, of course. What matters most here, to my mind, is not simply that a Minister should make announcements about shifting things forward as regards coding, for instance, but that the Minister should make sure that we have the skills within the workforce in order to be able to deliver on those needs and necessities. We are supporting a wide range of activity to improve ICT standards and the use of ICT in schools. Through investments in infrastructure and computing workshops in Welsh secondary schools we are giving learners the opportunity to develop the digital skills that will help them thrive in a modern economy. We are not standing still while Professor Donaldson's report is being prepared, but we are progressing and taking forward work in this area—for instance, through those computing workshops. Mae'r Aelod dros Aberafan yn nodi mater pwysig iawn, wrth gwrs. Yr hyn sydd bwysicaf yma, yn fy marn i, nid yn unig y dylai Gweinidog wneud cyhoeddiadau ynglŷn â symud pethau yn eu blaen o ran codio, er enghraifft, ond y dylai'r Gweinidog wneud yn siŵr bod gennym y sgiliau o fewn y gweithlu er mwyn gallu cyflawni'r anghenion a'r angenrheidiau hynny. Rydym yn cefnogi ystod eang o weithgareddau i wella safonau TGCh a'r defnydd o TGCh mewn ysgolion. Drwy fuddsoddiadau mewn seilwaith a gweithdai cyfrifiadura mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, rydym yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau digidol a fydd yn eu helpu i ffynnu mewn economi fodern. Nid ydym yn sefyll yn llonydd tra bod adroddiad yr Athro Donaldson yn cael ei baratoi, ond rydym yn symud ymlaen ac yn bwrw ymlaen â gwaith yn y maes hwn—er enghraifft drwy'r gweithdai cyfrifiadura hynny.
- 14:16 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Although we hope and pray that there will be improved attainment at GCSE, Minister, can you outline how this review will address the concerns of employers who recently gave evidence to the Enterprise and Business Committee that, so often, the young people coming forward for employment lack adequate literacy or numeracy skills? Er ein bod yn gobeithio ac yn gweddio y bydd gwell cyrhaeddiad yn y cymwysterau TGAU, Weinidog, a allwch amlinellu sut y bydd yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â phryderon cyflogwyr a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ddiweddar fod y bobl ifanc sy'n chwilio am gyflogaeth yn aml yn brin o sgiliau digonol mewn llythrennedd neu rifedd?

- 14:16 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the Member will be aware that literacy and numeracy, together with closing the attainment gap between the least well off and the rest, are the three top priorities of this Welsh Government in terms of education reform; Professor Donaldson is, of course, well aware of that, too. We have also seen the evolution of the literacy and numeracy framework. Many of these initiatives are, of course, only between two and three years old, but we are, I think, beginning to see them bite and have an effect in terms of the literacy and numeracy attainment of our young people. However, there is a journey still to travel.
- Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn gwybod mai llythrennedd a rhifedd, ynghyd â chau'r bwllch cyrhaeddiad rhwng y lleiaf cefnog a'r gweddill, yw tair prif flaenoriaeth y Llywodraeth hon o ran diwygio addysg; mae'r Athro Donaldson, wrth gwrs, yn ymwybodol iawn o hynny, hefyd. Rydym hefyd wedi gweld esblygiad y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Wrth gwrs, dim ond rhwng dwy a thair blwydd oed yw llawer o'r mentrau hyn, ond credaf ein bod yn dechrau gweld eu heffaith o ran cyrhaeddiad llythrennedd a rhifedd ein pobl ifanc. Fodd bynnag, mae yna ffordd o hyd i'w theithio.
- 14:17 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Ar ôl yr adolygiadau hyn, pa obaith sydd y bydd pobl ifanc a phlant Cymru yn cael dysgu mwy am hanes eu gwlad ynghyd ag am lenyddiaeth a chelfyddyd Cymru?
- Following these reviews, what hope is there that young people and children in Wales will learn more about the history of their country as well as the literature and art of Wales?
- 14:17 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member will be aware, of course, that the review of the Cwricwlwm Cymraeg was accepted by me and then fed into the overall curriculum review. I think that there is, across Wales, too much of a patchwork in terms of how these issues are addressed and delivered. There may well, indeed, be issues around resources that teachers can draw on, too. I know that Professor Graham Donaldson is also aware of these issues. Again, this will form part of the overall reform of the curriculum; we will get a better grasp of that at the turn of the year.
- Bydd yr Aelod yn gwybod, wrth gwrs, fod yr adolygiad o'r Cwricwlwm Cymreig wedi ei dderbyn gennyf ac yna ei fwydo i mewn i'r adolygiad cwricwlwm cyffredinol. Credaf fod gormod o glytwaith ar draws Cymru o ran sut yr eir i'r afael â'r materion hyn a'u cyflawni. Mae'n bosibl iawn, yn wir, fod materion yn ymwneud ag adnoddau y gall athrawon fanteisio arnynt hefyd. Gwn fod yr Athro Graham Donaldson hefyd yn ymwybodol o'r materion hyn. Unwaith eto, bydd hyn yn rhan o ddiwygiad cyffredinol y cwricwlwm; byddwn yn cael gwell gafael ar hynny ar droad y flwyddyn.
- 14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister.
- Diolch i chi, Weinidog.

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Sefydliad Sirolli

The Sirolli Institute

- 14:18 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma gyda'r sefydliad Sirolli yng nghymoedd de Cymru?*
OAQ(4)0449(EST)
- 1. Will the Minister make a statement on the work the Welsh Government has undertaken to date with the Sirolli institute in the south Wales valleys?*
OAQ(4)0449(EST)
- 14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*
- Yes. Following the success of the Sirolli model in Blaenau Gwent, I have provided further funding to support the extension of the project to the Heads of the Valleys and Bridgend up to 31 March 2016.
- Gwnaf. Yn dilyn llwyddiant y model Sirolli ym Mlaenau Gwent, rwyf wedi darparu cyllid pellach i gefnogi ymestyn y prosiect i Flaenau'r Cymoedd a Phen-y-bont ar Ogwr hyd at 31 Mawrth 2016.

14:18 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. Ernesto Sirolli has said that it is crucial to the success of a Sirolli institute that the facilitator comes from the community and is its champion. Is it the case that the recruitment of the enterprise facilitator role in the Heads of the Valleys programme is being limited to existing council employees only? If so, how is that appointment going to ensure a grass-roots-up rather than top-down approach, which is the lynchpin of this programme?

Diolch i chi, Weinidog. Dywedodd Ernesto Sirolli ei bod yn hanfodol i lwyddiant sefydliad Sirolli fod yr hwylusydd yn dod o'r gymuned ac yn ei hyrwyddo. A yw'n wir wrth recriwtio ar gyfer rôl hwylusydd mentergarwch yn rhaglen Blaenau'r Cymoedd y bydd yn cael ei gyfyngu i weithwyr cyfredol y cyngor yn unig? Os felly, sut mae'r penodiad hwnnw'n mynd i sicrhau dull o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r brig i lawr, sy'n elfen gwbl sylfaenol o'r rhaglen hon?

14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would certainly concur with your comments. My understanding of the Sirolli model was that that person would come in from the community and would be able to give that. I will certainly now look at what the advert entails in that regard and come back to the Member concerned.

Byddwn yn sicr yn cytuno â'ch sylwadau. Yn ôl fy nealltwriaeth o'r model Sirolli, byddai'r person hwnnw yn dod i mewn o'r gymuned ac yn gallu rhoi hynny. Byddaf yn sicr yn awr yn edrych ar yr hyn y mae'r hysbyseb yn ei ddweud yn y cyswllt hwnnw ac yn dod yn ôl at yr Aelod dan sylw.

14:19 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, I acknowledge the core principle of the Sirolli institute—the future of every community lies in capturing the energy, intelligence and passion of its people—as being the key to empowering people to take responsible decisions affecting their lives. The institute is currently engaged in projects in Blaenau Gwent and Powys. My only enquiry of the Minister is whether she has identified any further opportunities to apply these principles to enhance the economic and social life of our communities, to which we are all committed.

Yn amlwg, rwy'n cydnabod bod egwyddor graidd y sefydliad Sirolli—sef bod dyfodol pob cymuned yn seiliedig ar hoelio egni, gwybodaeth ac angerdd ei phobl—yn allwedd i rymuso pobl i wneud penderfyniadau cyfrifol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r sefydliad yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn prosiectau ym Mlaenau Gwent a Phowys. Fy unig gwestiwn i'r Gweinidog yw a yw hi wedi nodi unrhyw gyfleoedd pellach i gymhwyso'r egwyddorion hyn i gyfoethogi bywyd economaidd a chymdeithasol ein cymunedau, sy'n rhywbeth rydym oll wedi ymrwymo iddynt.

14:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I take your comments regarding where it has been in Blaenau Gwent and probably the success of the project in the way it has been taken forward has enabled me to look at the model being extended to include Merthyr, Torfaen and the Bridgend districts, building on the learning from the Blaenau Gwent project. When you look at Blaenau Gwent, to date, some 57 new businesses have been helped to start up in that particular region. So, I think it shows how, with that type of approach, you can actually achieve something in terms of developments within the community that are sustainable.

Derbyniaf eich sylwadau ynghylch lle y bu ym Mlaenau Gwent ac mae llwyddiant y prosiect, mae'n debyg, yn y ffordd y mae wedi ei ddatblygu wedi fy ngalluogi i edrych ar y model sy'n cael ei estyn i gynnwys Merthyr Tudful, Torfaen ac ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o brosiect Blaenau Gwent. Pan edrychwch ar Flaenau Gwent, hyd yn hyn, rhyw 57 o fusnesau newydd sydd wedi cael cymorth i gychwyn yn yr ardal arbennig honno. Felly, credaf gyda'r math hwnnw o ymagwedd, ei fod yn dangos sut y gallwch mewn gwirionedd gyflawni rhywbeth o ran datblygiadau o fewn y gymuned sy'n gynaliadwy.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

14:20 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus o ran gwneud y gorau o gyfleoedd twristiaeth?* OAQ(4)0454(EST)

2. *Will the Minister make a statement on the importance of public transport for making the most of tourism opportunities?* OAQ(4)0454(EST)

14:20 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes. My priorities are ensuring that we have a public transport system that actively encourages visitors to use public transport, that improves economic competitiveness, and that provides enhanced access to jobs and services for communities across Wales.

Gwnaf. Mae fy mlaenoriaethau yn sicrhau bod gennym system dtrafnidiaeth gyhoeddus sy'n mynd ati i annog ymwelwyr i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, sy'n gwella gallu cystadleuol economaidd, ac sy'n darparu mynediad gwell at swyddi a gwasanaethau ar gyfer cymunedau ledled Cymru.

14:20 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae gwasanaeth bws Cardi Bach, sy'n rhedeg ar hyd llwybr yr arfordir yn ne Ceredigion ac sy'n gwasanaethu cerddwyr a thwristiaid, yn dod i ben oherwydd ei fod yn cael ei gyllido, hyd yn hyn, ag arian Ewropeaidd. A fedrwyd chi a'ch adrannau dwristiaeth a thrafnidiaeth weithio gyda'r cyngor sir yn lleol i sicrhau sut mae trafndiaeth yn gallu cael ei darparu i dwristiaid a cherddwyr ar hyd llwybr yr arfordir, nid dim ond yng Ngheredigion ond mewn mannau eraill, i sicrhau bod yna wasanaeth sy'n cydweithio â llwybr yr arfordir?

Minister, the Cardi Bach bus service, which runs along the Wales coastal path in south Ceredigion and services hikers and tourists, is coming to an end because it has been funded, thus far, through European funds. Can you and your tourism and transport departments work with the council locally to ensure that transport can be provided to both tourists and walkers along the coastal path, not just in Ceredigion but in other areas, to ensure that there is a service that runs alongside the coastal path?

14:21 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We do work closely with Ceredigion County Council, as a partner, with regard to some rural transport issues. The current contract expires, as you are aware, at the end of September, and the local authority that manages the service advises that it is currently making arrangements to provide an alternative bus service to local communities in New Quay in Cardigan, which will start at the beginning of October. I will obviously keep Members updated as to how that service will work, and I will keep liaison with my officials, because we have had a productive partnership with Ceredigion, looking at local transport issues.

Rydym yn cydweithio'n agos â Chyngor Sir Ceredigion, fel partner, o ran rhai materion trafndiaeth wledig. Mae'r contract presennol yn dod i ben, fel y gwyddoch, ar ddiwedd mis Medi, ac mae'r awdurdod lleol sy'n rheoli'r gwasanaeth yn cynghori ei fod yn gwneud trefniadau ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth bws amgen i gymunedau lleol yng Ngheinewydd, Aberteifi, a fydd yn cychwyn ar ddechrau mis Hydref. Yn amlwg, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch sut y bydd y gwasanaeth yn gweithio, a byddaf yn cadw cyswllt gyda fy swyddogion, oherwydd rydym wedi cael partneriaeth gynhyrchiol gyda Cheredigion, o ran materion trafndiaeth leol.

14:22 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I have written to you this week to make representations to you about the Traws Link Cymru plans, which would like to see the railway line between Carmarthen, Aberystwyth, Porthmadog and Bangor reopen. This line could have a great impact on attracting visitors to north Wales and help the local economy of the area. Will you commit yourselves to looking seriously at the Traws Link Cymru plans, and will you pledge to work with the Westminster Government to make this possible?

Weinidog, rwyf wedi ysgrifennu atoch yr wythnos hon i gyflwyno sylwadau i chi am y cynlluniau Traws Link Cymru, a fyddai'n hoffi gweld y rheilffordd rhwng Caerfyrddin, Aberystwyth, Porthmadog a Bangor yn ailagor. Gallai'r llinell hon gael effaith fawr ar ddenu ymwelwyr i'r Gogledd a helpu economi leol yr ardal. A wnewch chi roi eich ymrwymiad y byddwch yn edrych o ddifrif ar y cynlluniau Traws Link Cymru, ac a wnewch chi addo gweithio gyda Llywodraeth San Steffan i wneud hyn yn bosibl?

14:22 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, obviously, everything depends on the money and cash that is available. Like you, I am quite enthusiastic about reopening lines, if the cash is there. I am certainly enthusiastic about some of the proposals that have come to me from rail groups before about whether I could do more on routes. So, I have an open mind on all these matters. However, it is limited by the budget and discussions elsewhere about the future of what funds might be available. In an ideal world, I think we would like to see everything pre-Beeching back in, but I am afraid that we are not in that ideal world now.

Wel, yn amlwg, mae popeth yn dibynnu ar y cyllid a'r arian parod sydd ar gael. Fel chwithau, Rwy'n eithaf brwdfrydig ynghylch ailagor llinellau, os yw'r arian ar gael. Rwy'n sicr yn frwdfrydig am rai o'r cynigion sydd wedi eu cyflwyno i mi gan grwpiau rheilffordd yn y gorffennol ynglŷn ag a oes modd i mi wneud mwy ynghylch llwybrau teithio. Felly, mae gennyf feddwl agored ar yr holl faterion hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei gyfyngu gan y gyllideb a thrafodaethau mewn mannau eraill ynghylch dyfodol yr arian allai fod ar gael. Mewn byd delfrydol, rwy'n meddwl y byddem yn hoffi gweld popeth cyn Beeching yn ail-agor, ond mae arnaf ofn nad ydym yn y byd delfrydol yn awr.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First, I call the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Yn gyntaf, Rwy'n galw ar lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

- 14:23 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Yesterday, the damning evaluation of Jobs Growth Wales found that 73% of participants would have found work anyway. That is why the Government was wrong to hang up the 'mission accomplished' flag. With more than one in five young people still unemployed in Wales, do you think that spending every last penny of your borrowing capacity and its job creation potential on a new M4 is a good idea?
- Diolch, Lywydd. Ddoe, canfu gwerthusiad damniol Twf Swyddi Cymru y byddai 73% o'r cyfranogwyr wedi dod o hyd i waith beth bynnag. Dyna pam roedd y Llywodraeth yn anghywir i chwifio'r faner 'cyflawnwyd y fargen'. Gyda mwy nag un o bob pump o bobl ifanc yn dal yn ddi-waith yng Nghymru, a ydych yn credu bod gwario pob dimai goch o'ch gallu i fenthycu a'i potensial i greu swyddi ar M4 newydd yn syniad da?
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, thank you, at last, for your tenuous link to my portfolio with regard to the M4. May I make this quite clear about the M4? I think it has been recognised for a long time—this is outside when I was involved in politics; I think the first discussion dealing with the M4 was back in 1989, when people thought it was important to look at issues around the M4. As a Government, we have adopted a plan and identified a preferred route, which we will now continue to design and develop. No final decisions have been made on this matter. These decisions will be with public inquiry inspector's reports, probably in 2016-17, and any firm decisions will be made then by any Governments in power in 2017. In terms of Jobs Growth Wales, may I say that I think that we all know that it is a success? I wish that people would welcome the success of that programme.
- Wel, diolch i chi, o'r diwedd, am eich cysylltiad annelwig â'm portffolio o ran yr M4. A gaf fi wneud hyn yn gwbl glir ynghylch yr M4? Credaf i hyn gael ei gydnabod ers hir amser—mae hyn cyn i mi fod yn ymwneud â gwleidyddiaeth; credaf fod y drafodaeth gyntaf ynglŷn â'r M4 yn ôl yn 1989, pan oedd pobl yn credu ei bod yn bwysig edrych ar faterion yn ymwneud â'r M4. Fel Llywodraeth, rydym wedi mabwysiadu cynllun ac wedi nodi llwybr a ffefrir, a byddwn yn awr yn parhau i ddylunio a datblygu. Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi eu gwneud ar y mater hwn. Bydd y penderfyniadau hyn gydag adroddiadau arolygydd yr ymchwiliad cyhoeddus, ym 2016-17 yn ôl pob tebyg, a bydd unrhyw benderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud wedyn gan unrhyw Lywodraethau mewn grym yn 2017. O ran Twf Swyddi Cymru, a gaf fi ddweud fy mod yn meddwl ein bod i gyd yn gwybod ei fod yn llwyddiant? Hoffwn pe bai pobl yn croesawu llwyddiant y rhaglen honno.
- 14:24 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- If you are saying that no final decisions have been made, are you admitting that it is time to rethink, now that Members of all parties in this Chamber have criticised your decision-making process and know that the new M4, as you propose it, the black route, is the wrong road at the wrong price at the wrong time?
- Os ydych yn dweud nad oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi eu gwneud, a ydych yn cyfaddef ei bod yn bryd ailfeddwl, gan fod Aelodau pob plaid yn y Siambwr hon wedi beirniadu eich proses benderfynu ac yn gwybod bod yr M4 newydd, fel y bwriadwch chi iddi fod, yn llwybr du, yn ffordd anghywir am y pris anghywir ar yr adeg anghywir?
- 14:24 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that you fundamentally misunderstand the process, if I may say so. I think that we have to absolutely understand what is going on in relation to the discussions on the M4, understand what happens next and what are some of the key decisions that will need to be made in the future.
- Rwy'n meddwl eich bod yn camddeall y broses yn sylfaenol, os caf ddweud hynny. Credaf fod yn rhaid inni lwyr ddeall yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â thrafodaethau ar yr M4, a deall beth sy'n digwydd nesaf a beth yw rhai o'r penderfyniadau allweddol y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

We will, of course, continue to refine the designs and then publish the details associated with the scheme, which would now include, of course, an environmental statement that sets out how the scheme would mitigate any significant adverse environmental arrangements. This would be following a consultation period and, given the nature of the scheme, there will undoubtedly be a full public inquiry, chaired by an independent inspector whose remit will be to consider the case for and against the scheme, including consideration of alternative routes. This issue has been going on since I have been a member of the Government, since 1999, across, dare I say it, several administrations, which have been solely Labour and administrations with the Liberal Democrats and Plaid Cymru. How we would mitigate the issues around Newport has been the subject of ongoing discussions. We are aware, of course, that the business community has been keen for a long time for us to deal with those particular issues, but, at the end of the day, there is a consultation period and a full public inquiry.

Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i fireinio'r cynlluniau ac yna cyhoeddi'r manylion sy'n gysylltiedig â'r cynllun, a fyddai bellach yn cynnwys, wrth gwrs, ddatganiad amgylcheddol sy'n nodi sut y byddai'r cynllun yn lliniaru unrhyw drefniadau amgylcheddol andwyol sylweddol. Byddai hyn yn dilyn cyfnod ymgynghori ac, o ystyried natur y cynllun, mae'n siŵr y cynhelir ymchwiliad cyhoeddus llawn, dan gadeiryddiaeth arolygydd annibynnol sydd â'r cylch gwaith o ystyried yr achos o blaid ac yn erbyn y cynllun, gan gynnwys ystyried llwybrau amgen. Mae'r mater hwn wedi bod yn mynd ymlaen ers imi fod yn aelod o'r Llywodraeth, ers 1999, ar draws, os meiddiaf ddweud, sawl gweinyddiaeth, sydd wedi bod yn weinyddiaethau Llafur llwyr a gweinyddiaethau gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru. Mae problemau lliniaru o amgylch Casnewydd wedi bod yn destun trafodaethau parhaus. Rydym yn ymwybodol, wrth gwrs, bod y gymuned fusnes wedi bod yn awyddus ers amser hir i ni ddelio â'r materion penodol hynny, ond, ar ddiwedd y dydd, y mae cyfnod ymgynghori ac ymchwiliad cyhoeddus llawn.

14:26 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You did outline a rather optimistic timetable, if I may say so, when you unveiled your plans to press ahead with the black route in July. We know that we have a judicial review, which is imminent. The blue route, of course, could have been progressed without such risk of judicial review and the associated delays. Do you admit that, in outlining that timetable in July—and we want an answer to the south-east Wales corridor problem as soon as possible—and in pressing ahead with the black route now, you have failed to foresee the likely delays in pressing ahead with that?

Fe wnaethoch amlinellu amserlen sydd braidd yn optimistaidd, os caf ddweud hynny, wrth i chi ddatgelu'ch cynlluniau i fwrw ymlaen â'r llwybr du ym mis Gorffennaf. Rydym yn gwybod bod gennym adolygiad barnwrol, sydd ar fin digwydd. Gellid bod wedi cwblhau'r llwybr glas, wrth gwrs, heb broblemau adolygiad barnwrol a'r oedi cysylltiedig. A ydych yn cyfaddef, wrth amlinellu'r amserlen honno ym mis Gorffennaf—ac rydym am gael ateb i broblem coridor de-ddwyrain Cymru cyn gynted ag y bo modd—ac wrth fwrw ymlaen â'r llwybr du yn awr, eich bod wedi methu â rhagweld yr oedi tebygol wrth fwrw ymlaen â hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not sure what point you are making. I made it absolutely clear, when I indicated that I thought there would always obviously be a judicial review in respect of the black route, I am not so certain that there would not be a judicial review on any other route that I might look at in the future or might have to develop. You can never be certain of that in life. The blue route would be in very close proximity to local residents and industry; its introduction may require the demolition of residential housing and the relocation of some significant industry. Higher traffic flows on the blue route would mean air quality and noise issues for nearby properties. So, there is no guarantee that that is a simple solution to anything.

Nid wyf yn sicr pa bwynt rydych yn ei wneud. Bu i mi ddatgan yn gwbl glir, pan ddywedais fy mod yn meddwl ei bod yn amlwg y byddai bob amser adolygiad barnwrol mewn perthynas â'r llwybr du, nid wyf mor sicr na fyddai adolygiad barnwrol ar unrhyw lwybr arall y gallwn edrych arno yn y dyfodol neu y gellid bod rhaid ei ddatblygu. Ni allwch fod yn sicr o hynny mewn bywyd. Byddai'r llwybr glas yn agos iawn at drigolion lleol a diwydiant; efallai byddai ei gyflwyno yn gofyn dymchwel tai preswyl ac ail leoli rhai diwydiannau arwyddocaol. Byddai llif traffig uwch ar y llwybr glas yn golygu problemau ansawdd aer a sŵn i eiddo cyfagos. Felly, nid oes sicrwydd bod hynny'n ateb syml i unrhyw beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, the aim of your enterprise zones is to boost economic growth in specific areas. Before awarding the enterprise zones, what assessment did you make of each zone's economic output at that time and the maximum possible economic output that each of them could achieve?

Diolch, Lywydd. Weinidog, nod eich ardaloedd menter yw hybu twf economaidd mewn ardaloedd penodol. Cyn dyfarnu'r ardaloedd menter, pa asesiad wnaethoch chi o allbwn economaidd pob parth ar y pryd ac allbwn economaidd mwyaf posib y gallai pob un ohonynt ei gyflawni?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We did look around Wales, because we did invite bids and people did come forward and indicate whether they wanted an enterprise zone. We clearly looked at significant issues within various parts of Wales. If I could give you an example on that, it would be helpful in relation to a couple of the zones. Obviously, in terms of Cardiff, as a financial and professional services zone, we knew that Cardiff was already a very attractive proposition for businesses to come in. We had the infrastructure there as well in terms of other companies that there were. So, we decided that that was a good focus in terms of that zone, because the city is a very attractive place in which to do business.

I was also very concerned that I did not choose necessarily easy targets within zones. I could have chosen things that might have been much better for me, such as doing something in Newport, nearer the border. However, we did look at areas where we thought it would be difficult and where there were already problems. For example, in west Wales, in terms of the Haven Waterway enterprise zone, we assessed what it relied on in terms of its industry. It obviously relies on the oil industry a lot there and we in this Chamber are already well aware of the issues around Murco. We looked at what more we could do in terms of developing appropriate industrial development there. So, we did, in terms of the discussions that I had with my officials, look at all of these issues in the round.

Bu i ni edrych o gwmpas Cymru, gan ein bod yn gwahodd cynigion a daeth pobl ymlaen a nodi a oeddent am gael ardal fenter. Bu i ni edrych yn ofalus ar faterion arwyddocaol o fewn gwahanol rannau o Gymru. Os rhof enghraifft i chi o hynny, byddai o gymorth mewn perthynas ag un neu ddau o'r parthau. Yn amlwg, o ran Caerdydd, fel parth gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, rydym yn gwybod bod Caerdydd eisoes yn gynnig deniadol iawn i fusnesau sydd am ddod i mewn. Yr oedd gennym y seilwaith yno hefyd o ran y cwmnïau eraill a oedd yno. Felly, bu i ni benderfynu bod hynny'n ffocws da o ran y parth hwnnw, oherwydd bod y ddinas yn lle deniadol iawn i wneud busnes.

Roeddwn hefyd yn bryderus iawn nad oeddwn yn dewis targedau hawdd o reidrwydd o fewn y parthau. Gallwn fod wedi dewis pethau a allai fod wedi bod yn llawer gwell i mi, fel gwneud rhywbeth yng Nghasnewydd, yn nes at y ffin. Fodd bynnag, bu i ni edrych ar feysydd lle roeddem yn credu y byddai'n anodd a manau lle'r oedd problemau eisoes. Er enghraifft, yng ngorllewin Cymru, o ran yr ardal fenter Dyfrffordd Aberdaugleddau, aethom ati i asesu'r hyn maen nhw'n dibynnu arno o ran diwydiant. Maen amlwg eu bod yn dibynnu ar y diwydiant olew yn fawr yno ac rydym yn y Siambr hon eisoes yn ymwybodol iawn o'r problemau sy'n gysylltiedig Murco. Bu i ni edrych ar beth arall y gallem ei wneud o ran datblygu datblygiad diwydiannol priodol yno. Felly, o ran y trafodaethau a gefais gyda fy swyddogion, bu i ni edrych ar yr holl faterion hyn yn eu cyfanrwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:29

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, but that did not answer the specific question that I asked. I asked whether measures have been made of economic output at the time at which the enterprise zones were established and the maximum economic output that you could anticipate they would be able to achieve. As I said, the role of the enterprise zones is to drive growth, and growth is about demonstrating a change in productivity. That is what it means. The very first aim of the very first chapter of your programme for government is stated as to create jobs and sustainable growth. Even you recognise that growth is central in that. So, Minister, I will ask again: did you measure the productivity of your enterprise zones at the start, and do you know what the maximum payback could be?

Diolch i chi, Weinidog, ond ni wnaeth hynny ateb y cwestiwn penodol a ofynnais. Gofynnais a oes mesurau wedi eu gwneud o allbwn economaidd ar yr adeg pan sefydlwyd y parthau menter ac o'r allbwn economaidd mwyaf y gallech ragweld y byddent yn gallu ei gyflawni. Fel y dywedais, rôl y parthau menter yw gyrru twf, ac mae twf ynglŷn ag arddangos newid mewn cynhyrchiant. Dyna beth y mae'n ei olygu. Nod cyntaf un bennod gyntaf un eich rhaglen ar gyfer llywodraeth yw creu swyddi a thwf cynaliadwy. Rydych chi, hyd yn oed, yn cydnabod bod twf yn ganolog yn hynny. Felly, Weinidog, gofynnaf unwaith eto: a fu i chi fesur cynhyrchiant eich parthau menter ar y dechrau, ac a ydych yn gwybod faint y gallai'r ad-daliad uchaf fod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, obviously, I would not know what the maximum payback could be, because that depends on the market, on market forces, and on how we are able to attract business in. I think that, in some ways, you misunderstand where we are going in terms of enterprise zones. We wanted to give the opportunity to designated areas, with additional help, fortunately, which we did have, from the Treasury, in terms of the capital allowances. We also then wanted to focus on areas where there had been job losses, and where there had been changes, so that we could give them a better focus to get things off the ground.

Wel, yn amlwg, ni fyddwn yn gwybod faint y gallai'r ad-daliad uchaf fod, gan fod hynny'n dibynnu ar y farchnad, ar rymoedd y farchnad, ac ar sut rydym yn gallu denu busnes i mewn. Credaf, mewn rhai ffyrdd, eich bod yn camddeall lle rydym yn mynd o ran ardaloedd menter. Roeddem yn awyddus i roi cyfle i ardaloedd dynodedig, gyda chymorth ychwanegol a oedd gennym wrth lwc, gan y Trysorlys, o ran y lwfansau cyfalaf. Roeddem hefyd am ganolbwyntio ar ardaloedd lle'r oedd swyddi wedi'u colli, a lle'r oedd newidiadau wedi bod, er mwyn rhoi gwell ffocws iddyn nhw roi cychwyn ar bethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, look at what we have done, in terms of the grants schemes that we have offered, the jobs that we have protected, and the jobs that we have put on. We have actually been very successful across Wales in driving the jobs issue. I will not say that it was all down to us, because there has been a general upturn in the economy, which we have seen. However, it is important to recognise enterprise zones, and the way that we assess them—because we looked at them in the round, in the context of Wales. I could not do everything across all of Wales, and have an enterprise zone in every local authority area. I am sorry if that does not cover what you want specifically, but that was the way that we thought through the process.

Fodd bynnag, edrychwch ar yr hyn rydym wedi'i wneud, o ran y cynlluniau grant rydym wedi'u cynnig, y swyddi rydym wedi'u diogelu, a'r swyddi rydym wedi'u creu. Mewn gwirionedd, rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn ar draws Cymru o safbwynt swyddi. Ni fynnwn gymryd y clod i gyd am hyn, oherwydd bu cynnydd cyffredinol yn yr economi, ac rydym wedi ei brofi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod ardaloedd menter, a'r ffordd rydym yn eu hasesu—oherwydd ein bod yn edrych arnynt o bob cyfeiriad, yng nghyd-destun Cymru. Ni allwn wneud popeth ar draws Cymru gyfan, a chael ardal fenter ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'n ddrwg gennyf os nad yw hynny'n cynnwys yr hyn rydych chi'n benodol am ei gael, ond dyna oedd y ffordd y bu i ni ystyried y broses.

14:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That still is not what I am trying to get at. While jobs are, of course, really welcome, measuring jobs is not a proxy for measuring economic growth, and you have stated that economic growth is an aim of your Government's, and of this specific policy area. You have committed tens of millions of pounds to enterprise zones during this Assembly term, and, in the absence of data on productivity, at the start and at the end of that programme, you will have no way of knowing how much return you are going to get on that investment. When you announced these enterprise zones, did it never occur to you that you should be making sure that they are delivering value for money in terms of return on investment for the Welsh taxpayer?

Diolch i chi, Weinidog. Nid yw hynny chwaith yn ateb fy mhwynt. Er ein bod, wrth gwrs, yn croesawu swyddi, ni ellir defnyddio ffigur mesur swyddi i gynrychioli ffigur mesur twf economaidd, ac rydych wedi dweud bod twf economaidd yn un o nodau eich Llywodraeth a'ch maes polisi penodol hwn. Rydych wedi ymrwymo degau o filiynau o bunnoedd i ardaloedd menter yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac, yn absenoldeb data am gynhyrchiant, ar ddechrau ac ar ddiwedd y rhaglen, ni fydd gennych unrhyw ffordd o wybod faint o elw rydych yn mynd i'w gael ar y buddsoddiad hwnnw. Pan fu i chi gyhoeddi'r parthau menter hyn, onid oeddech chi wedi ystyried y dylech fod yn gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi gwerth am arian o ran elw ar fuddsoddiad i drethdalwyr Cymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:31 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think that they are delivering value for money, in very real terms. Look at Ynys Môn, where we have an enterprise zone, by the decision of the UK Government in terms of Hitachi and the Wylfa. We know that those jobs will be coming there in the long term, and we know about the construction jobs that are coming in there, and we know about all the industries that are associated. So, we know that there is something actually coming there. I do not know whether I dare mention Ebbw Vale, but if some of these issues around the circuit are dealt with, we can look to the future in terms of what jobs develop there, and which industries come off there. When you look at St Athan, where there are jobs coming in, you can see what they are doing there. The proof of the pudding, at the end of the day, will be in what jobs are achieved in there, who is in employment, who is working hard, and how we are actually bolstering the economy. I regard enterprise zones as a success.

Wel, credaf eu bod yn darparu gwerth am arian, mewn termau real iawn. Edrychwch ar Ynys Môn, lle mae gennym ardal fenter, trwy benderfyniad Llywodraeth y DU o ran Hitachi a'r Wylfa. Gwyddom y bydd y swyddi hynny yn dod yno yn y tymor hir, a gwyddom am y swyddi adeiladu sy'n cyrraedd, a gwyddom am yr holl ddiwydiannau sy'n gysylltiedig. Felly, mae'n hysbys bod rhywbeth mewn gwirionedd yn dod yno. Wn i ddim a ddylwn feiddio sôn am Lyn Ebwy, ond os caiff rhai o'r materion ynglŷn â'r trac eu datrys, gallwn edrych i'r dyfodol o ran pa swyddi fydd yn datblygu yno, a pha ddiwydiannau a ddaw yno. Wrth edrych ar Sain Tathan, lle mae swyddi yn cyrraedd, gallwch weld beth y maen nhw'n ei wneud yno. Y prawf terfynol, ar ddiwedd y dydd, fydd pa swyddi sydd wedi'u creu, pwy sy'n cael eu cyflogi, pwy sy'n gweithio'n galed, a sut rydym mewn gwirionedd yn rhoi hwb i'r economi. Rwyf fi'n ystyried ardaloedd menter yn llwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the opposition spokesperson, Byron Davies.

Symudwn yn awr at lefarydd yr wrthblaid, Byron Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you update the Chamber, please, on how you will you use the NATO legacy to sell Wales and, in particular, to secure further passenger footfall into the country through Cardiff airport?

Weinidog, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr, os gwelwch yn dda, am sut y byddwch yn defnyddio'r etifeddiaeth NATO i werthu Cymru ac, yn arbennig, er mwyn sicrhau rhagor o deithwyr yn cyrraedd y wlad trwy faes awyr Caerdydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:32

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that we would all agree with the First Minister when he said yesterday that the conference was an enormous success for Wales. I think that we would want to congratulate all concerned with the organisation of the conference. There was an excellent relationship between us and the UK Government about the importance of maximising Wales and labelling Wales. It was a delight when you watched the international news programmes to actually see 'Newport, Wales' included in those programmes, which was highlighting our name all the time.

Credaf y byddem i gyd yn cytuno â'r Prif Weinidog pan ddywedodd ddoe fod y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol i Gymru. Credaf y byddem am longyfarch pawb a oedd yn ymwneud â threfnu'r gynhadledd. Roedd perthynas ragorol rhyngom ni a Llywodraeth y DU o ran pwysigrwydd gwneud y mwyaf o Gymru a label Cymru. Wrth wyllo rhaglenni newyddion rhyngwladol, roedd yn bleser gweld 'Newport, Wales' yn cael ei gynnwys yn y rhaglenni hynny, ac roedd hyn yn tynnu sylw at ein henw drwy'r amser.

I think that the follow-up for us is very much the investment conference, which the Prime Minister has kindly agreed to participate in, bringing companies together to showcase Wales, with keynote speakers, which I think will up our profile again.

Credaf mai'r dilyniant i ni yn arbennig yw'r gynhadledd fuddsoddi, lle mae'r Prif Weinidog wedi cytuno'n garedig i gymryd rhan ynddi, gan ddod â chwmnïau at ei gilydd i arddangos Cymru, gyda siaradwyr gwadd. Credaf y bydd hyn eto'n rhoi hwb i'n proffil.

I also very much hope that, when people saw the beautiful greens of the Celtic Manor, and the glorious sunshine, they will see Wales as an attractive place to visit after the NATO conference. So, what we will be concentrating on first will be the investment conference, and then we will be following through on the good-news stories that we have had in about Wales into our structures for tourism, and what more we can do on tourism. That will be dealt with by my Deputy Minister, Ken Skates.

Rwyf hefyd yn gobeithio'n fawr, pan welodd pobl lawntiau hardd y Celtic Manor, a'r heulwen braf, y byddant yn gweld Cymru fel lle deniadol i ymweld ag ef ar ôl cynhadledd NATO. Felly, canolbwynt ein sylw yn y lle cyntaf fydd y gynhadledd fuddsoddi, ac yna byddwn yn dilyn ymlaen gyda'r straeon newyddion da a gawsom am Gymru yn ein strwythurau ar gyfer twristiaeth, a beth arall y gallwn ei wneud i dwristiaeth. Fy Nirprwy Weinidog, Ken Skates fydd yn gyfrifol am hynny.

14:33

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. I welcome the recently announced tourism figures for overnight trips made to Wales from the domestic UK market. However, when I speak to hoteliers and to people involved in the tourism industry generally, particularly down in South Wales West, one of the main complaints is that Cardiff airport is seen as an exit route out of Wales and not as an entrance for international tourists. This is perhaps compounded by the disparity in the tourism promotional spend between Wales and the rest of the UK. How do you justify the huge discrepancy in promotional tourism spend, and how do you envisage making Cardiff airport more successful in acting as a gateway for international tourism into Wales?

Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n croesawu'r ffigurau twristiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer teithiau dros nos a wneir i Gymru o farchnad ddomestig y DU. Fodd bynnag, pan fyddaf yn siarad â gwestywr ac â phobl sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth yn gyffredinol, yn enwedig i lawr yng Ngorllewin De Cymru, un o'r prif gwynion yw bod maes awyr Caerdydd yn cael ei weld fel llwybr allan o Gymru ac nid fel mynedfa ar gyfer twristiaid rhyngwladol. Efallai bod hyn yn cael ei gymhlethu gan y gwahaniaeth yn y gwariant ar hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU. Sut rydych yn cyfiawnhau'r anghysondeb enfawr yn y gwariant ar hyrwyddo twristiaeth, a sut rydych yn rhagweld gwneud maes awyr Caerdydd yn fwy llwyddiannus wrth weithredu fel porth ar gyfer twristiaeth ryngwladol i Gymru?

14:34

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do not want to argue about money spent, and apples and pears, and how we do the comparators, but you make a good point about the airport, and that is something that I have asked the airport board to look at. For instance, when we had the Vueling flights in, of course, from Catalonia, how could we then market Wales to that market, so that we would have people coming in? This is one of the ongoing discussions between officials at all levels, and I very much hope that we can make progress on this issue because it is important that we recognise that we want tourists in as part of this flow with the airport. I think that the improvements that have been made in the airport cosmetically are to be welcomed; people find it a much better experience. Let us hope that we can have more visitors in to enjoy that experience.

Nid wyf am ddadlau am arian a wariwyd, a chymharu tebyg ag annhebyg, a sut rydym yn defnyddio cymaryddion, ond rydych yn gwneud pwynt da am y maes awyr, ac mae hynny'n rhywbeth y gofynnais i fwrdd y maes awyr ei ystyried. Er enghraifft, pan gawsom y teithiau Vueling, wrth gwrs, o Gatalonia, sut wedyn oedd marchnata Cymru i'r farchnad honno, er mwyn denu pobl i ddod i mewn? Dyma un o'r trafodaethau parhaus rhwng swyddogion ar bob lefel, ac rwy'n mawr obeithio y gallwn wneud cynnydd ar y mater hwn gan ei bod yn bwysig inni gydnabod ein bod am ddenu twristiaid i mewn fel rhan o'r llif hwn gyda'r maes awyr. Credaf fod y gwelliannau cosmetig a wnaed yn y maes awyr i'w croesawu; mae pobl yn dweud ei fod yn brofiad llawer gwell. Gadewch inni obeithio y gallwn ddenu rhagor o ymwelwyr i mewn i fwynhau'r profiad hwnnw.

14:35 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, it is very much about bringing the international tourists in, but given your assertion on the strong NATO legacy that we perhaps anticipate, can you outline to the Chamber what tangible results you had out of the Ryder Cup legacy?

Ydy, i raddau helaeth mae'n ymwneud â dod â thwristiaid rhyngwladol i mewn, ond o ystyried eich honiad am yr etifeddiaeth NATO gref rydym o bosibl yn ei rhagweld, a allwch amlinellu i'r Siambr pa ganlyniadau pendant a gafwyd yn sgîl etifeddiaeth y Cwpan Ryder?

14:35 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that we did have tangible results out of the Ryder Cup legacy, because everybody knew where Wales was. Sometimes it is a long-term project in terms of getting your image built up over years to be associated with good things and not bad-news stories. I think that it will take a long time. It is about the image of Wales and what we project. I think that the Ryder Cup allowed us to project an excellent image of Wales, as NATO has just done, and we have to constantly build on that. Sometimes, other nations have been rather better with their branding, whether it is tartan or whiskey, and some of the issues for us are how we get associated with better branding like that to attract.

Credaf ein bod wedi cael canlyniadau pendant yn sgîl etifeddiaeth y Cwpan Ryder, gan fod pawb yn gwybod lle'r oedd Cymru. Weithiau, prosiect tymor hir yw datblygu eich delwedd dros y blynyddoedd i fod yn gysylltiedig â phethau da ac nid â straeon drwg ar y newyddion. Credaf bydd yn cymryd amser hir. Mae'n ymwneud â delwedd Cymru a'r argraff rydym yn ei chreu. Credaf fod y Cwpan Ryder yn ein galluogi i gyflwyno delwedd wych o Gymru, fel y mae NATO newydd ei wneud, ac mae'n rhaid i ni adeiladu ar hynny yn gyson. Weithiau, bu cenedloedd eraill ychydig yn well gyda'u brandio, waeth a yw'n dartan neu'n wisgi, a dyma rai o'r materion sydd angen ein sylw sef sut rydym yn mabwysiadu dulliau brandio gwell i ddenu sylw.

Trafnidiaeth Gyhoeddus (Gogledd Cymru)

Public Transport (North Wales)

14:36 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol trafndiaeth gyhoeddus yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0453(EST)

3. Will the Minister make a statement on the provision of public transport in north Wales? OAQ(4)0453(EST)

14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I recognise the importance of effective, affordable public transport systems across Wales, and I am taking forward a range of actions and investments to improve services in north Wales.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd systemau trafndiaeth gyhoeddus effeithiol, fforddiadwy ledled Cymru, ac rwy'n bwrw ymlaen ag ystod o gamau gweithredu a buddsoddiadau i wella gwasanaethau yn y gogledd.

14:36 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister will be aware of widespread concern expressed throughout the summer about proposed Arriva timetable changes on routes to Manchester and Birmingham across north Wales, and from Wrexham to Birmingham and the Shrewsbury to Wrexham links and so on. You wrote to me at the beginning of August to say that you had not yet had the timetables, but that these would be given attention upon receipt. I have since received them and, therefore, I presume, so have you. I wonder whether you could therefore indicate your intentions now with regard to reviewing those proposals and working with rail user groups in north Wales on their legitimate concerns.

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r pryder cyffredin a fynegwyd drwy gydol yr haf ynghylch amserlen newidiadau arfaethedig Arriva ar lwybrau i Fanceinion a Birmingham ar draws y gogledd, ac o Wrecsam i Birmingham a'r cysylltiadau o Amwythig i Wrecsam ac yn y blaen. Bu i chi ysgrifennu ataf ar ddechrau Awst i ddweud nad ydych wedi cael yr amserlenni eto, ond y byddai'r rhain yn cael sylw ar ôl eu derbyn. Rwyf bellach wedi eu derbyn ac mi dybiaf eich bod chi wedi hefyd. Tybed a allech, felly, ddangos eich bwriadau yn awr o ran adolygu'r cynigion hynny a chydweithio â grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd yn y gogledd i ddatrys eu pryderon dilys.

14:37 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that there are some legitimate concerns being raised about these timetables, which we will have to look at as a Government and have a dialogue about across the piece. I had a meeting today with the Liberal Democrat Member for the North Wales region to talk about timetabling and those issues. I would be grateful, if Members have any specific concerns on this issue, now that my officials are looking at it, if they would write specifically about the issues that have been raised with them, because we intend to take this up with the relevant company and hopefully find some way forward.

Credaf fod rhai pryderon dilys yn cael eu codi am yr amserlenni hyn, a bydd yn rhaid inni fel Llywodraeth eu hystyried a chael deialog ar draws y maes. Cefais gyfarfod heddiw gydag Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol dros ranbarth Gogledd Cymru i drafod amserlennu a materion cysylltiedig. Os oes gan Aelodau unrhyw bryderon penodol ynghylch y mater hwn, gan fod fy swyddogion yn ei ystyried, byddwn yn ddiolchgar pe gallent ysgrifennu yn benodol am y materion a godwyd gyda hwy, gan ein bod yn bwriadu codi hyn gyda'r cwmni perthnasol ac yn gobeithio dod o hyd i ffordd ymlaen.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:37 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I recently attended the opening of the new Pont Briwet railway bridge. On the journey from Llandecwyn to Pwllheli, I spoke with passengers and heard about their experience of public transport. There was a suggestion put to me that the concessionary rail scheme for bus pass holders might be extended to cover some of the Cambrian Coast line all the year round. Bus services north of Harlech are limited, but if the scheme ran even as far as Porthmadog, people would be able to connect up with other services. Minister, could I ask you to look at this and consider the merits of extending the scheme to parts of the Cambrian line outside the October to March period?

Weinidog, yn ddiweddar roeddwn yn bresennol yn agoriad pont reilffordd newydd Pont Briwet. Ar y daith o Landecwyn i Bwllheli, siaradais â theithwyr a chlywed am eu profiad o drafnidiaeth gyhoeddus. Cefais awgrym y gallai'r cynllun trên rhatach ar gyfer deiliaid tocyn bws gael ei ymestyn i gynnwys ychydig o linell Arfordir y Cambrian drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwasanaethau bws i'r gogledd o Harlech yn gyfyngedig, ond pe bai'r cynllun yn rhedeg hyd yn oed mor bell â Phorthmadog, gallai pobl gysylltu â gwasanaethau eraill. Weinidog, a gaf i ofyn i chi edrych ar hyn gan ystyried rhinweddau ehangu'r cynllun i rannau o linell y Cambrian y tu allan i'r cyfnod o fis Hydref i fis Mawrth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not want to give you any false hopes in my answer because I have to be very mindful of the budget that I have in terms of dealing with some of these particular service issues. I have no plans currently to expand the concessionary rail scheme to operate all year on the Cambrian Coast line, but obviously the points that you make are absolutely valid, and if there are additional resources in due course over the next few years, this is something that we could certainly look at, because we do value the fact that people use that service.

Nid wyf am roi unrhyw obeithion ffug i chi yn fy ateb oherwydd bod rhaid i mi fod yn ymwybodol iawn o'r gyllideb sydd gennyf o ran ymdrin â rhai o'r materion gwasanaeth penodol hyn. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ehangu'r cynllun trên rhatach i weithredu drwy gydol y flwyddyn ar reilffordd Arfordir y Cambrian, ond yn amlwg mae'r pwyntiau a wnewch yn hollol ddilys, ac os oes adnoddau ychwanegol maes o law yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae hyn yn rhywbeth y gallm yn sicr ei ystyried, oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod pobl yn defnyddio'r gwasanaeth hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:38 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, byddwch yn ymwybodol iawn bod toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol yn golygu bod nifer yn gorfod adolygu trefniadau trafnidiaeth ysgol. Mae hynny, wrth gwrs, yn gorfodi rhieni i ddod o hyd i drafnidiaeth amgen i gael eu plant i'r ysgolion hynny. Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth wedi torri'r grant i fysiau cyhoeddus yn sylweddol, sy'n golygu llai o opsiynau ac sy'n gwneud sefyllfa anodd, mewn gwirionedd, yn waeth. A yw hyn yn broblem yr ydych chi'n ei chydabod, a hefyd, a fydddech chi'n cydnabod bod sefyllfa o'r fath yn effeithio ar gymunedau gwledig yn fwy nag ardaloedd eraill, efallai?

Minister, you will be very aware that cuts to local authority budgets will mean that many have had to review their school transport arrangements. That, of course, forces parents to find alternative means of getting their children to those schools. At the same time, the Government has cut the grants for public buses significantly, which means that there are fewer options, and it makes a difficult situation even worse. Is this a problem that you recognise, and also, would you acknowledge that such a situation has a greater impact on rural communities than on other areas, perhaps?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:39 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The cutting of services by local authorities has an impact across both urban and rural areas. If you are in an area up at the top of the Valleys and you require a bus service, you are just as damaged if something happens to the route that was provided previously. We have actually provided £95 million to local authorities and operators to support local bus services and community transport across Wales. That includes revenue support for essential local bus services. With regard to the school transport issues, those are obviously issues for local authorities, which they will have to consider as part of their response to their budget priorities.

Wrth i awdurdodau lleol dorri gwasanaethau, mae hyn yn cael effaith ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Os ydych mewn ardal i fyny ar frig y Cymoedd ac angen gwasanaeth bws, os oes rhywbeth yn digwydd i'r llwybr teithio a ddarparwyd yn y gorffennol, mae hyn hefyd yn amharu arnoch. Mewn gwirionedd rydym wedi darparu £95 miliwn i awdurdodau lleol a gweithredwyr i gefnogi gwasanaethau bysiau lleol a thrafnidiaeth gymunedol ledled Cymru. Mae hynny'n cynnwys cymorth refeniw ar gyfer gwasanaethau bws lleol hanfodol. O ran cludiant ysgol, mae'r rhain yn amlwg yn faterion i awdurdodau lleol, a fydd yn gorfod eu hystyried wrth ymateb i'w blaenoriaethau cyllidebol.

14:40 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, can I echo the comments made by Mark Isherwood? I would ask, however, that perhaps the Government consider whether there should be cross-border arrangements. Certainly, some of the decisions made by Arriva Trains Wales show that it is accepting contracts from the UK Government when it has insufficient rolling stock. It tells us that it is unable to provide the rolling stock and yet it is taking on more routes from the UK Government.

Weinidog, a gaf i ategu'r sylwadau a wnaed gan Mark Isherwood? Hoffwn ofyn, fodd bynnag, i'r Llywodraeth o bosibl ystyried a ddylid cael trefniadau trawsffiniol. Yn sicr, mae rhai o'r penderfyniadau a wnaed gan Trenau Arriva Cymru yn dangos eu bod yn derbyn contractau gan Lywodraeth y DU pan nad oes ganddyn nhw ddigon o gerbydau. Maen nhw'n dweud wrthym na allant ddarparu'r cerbydau ac eto maen nhw'n derbyn mwy o lwybrau gan Lywodraeth y DU.

I also ask that, perhaps if it is not possible now, when the franchise comes up, you ask the new franchisee to adopt the practices of Chiltern Railways, a sister company of Arriva Trains Wales, which publishes its draft timetable some 18 months before any proposed changes.

Gofynnaf hefyd, er nad yw efallai'n bosibl yn awr, ond pan ddaw'r fasnachfaint yn rhydd, y dylech ofyn i ddeiliad newydd y fasnachfaint i fabwysiadu arferion y Chiltern Rheilffyrdd, chwaer gwmni Trenau Arriva Cymru, sy'n cyhoeddi ei amserlen ddrafft tua 18 mis cyn unrhyw newidiadau arfaethedig.

14:40 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That seems to me to be a very good idea, to publish it 18 months before any proposed changes. I take on board your points about the cross-border arrangements, and we will certainly move to look and facilitate some of those discussions, because I have been concerned particularly about what I heard this morning with regard to some of the issues that are arising from these timetable changes.

Credaf fod hynny'n syniad da iawn, cyhoeddi'r amserlen 18 mis cyn unrhyw newidiadau arfaethedig. Rwy'n derbyn eich pwyntiau am y trefniadau trawsffiniol, ac mae'n sicr yn fwriad gennyf ystyried a hwyluso rhai o'r trafodaethau hynny, oherwydd rwyf wedi bod yn pryderu'n arbennig am yr hyn a glywais y bore yma mewn perthynas â rhai o'r materion sy'n codi yn sgîl y newid yn yr amserlenni hyn.

Cymru fel Lleoliad ar gyfer Twristiaeth

Wales as a Tourism Destination

14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer twristiaeth? OAQ(4)0457(EST)

4. Will the Minister make a statement on the promotion of Wales as a tourist destination? OAQ(4)0457(EST)

14:41 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

The Minister for Economy, Science and Transport launched the tourism strategy, 'Partnership for Growth: The Welsh Government Strategy for Tourism 2013-2020', in June last year, providing an overall vision for growing tourism by 10% by 2020. A full report on progress against the strategy is on the Welsh Government's tourism website.

Lansiodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y strategaeth dwristiaeth, 'Partneriaeth ar gyfer Twf. Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020', ym mis Mehefin y llynedd, gan ddarparu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer tyfu twristiaeth gan 10% erbyn 2020. Mae adroddiad llawn ar y cynnydd yn erbyn y strategaeth ar wefan dwristiaeth Llywodraeth Cymru.

14:41

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. As you will be very well aware, the Minister issued a statement to Members early this month on the promotion of Wales's industrial heritage to visitors. It is appropriate that you are responding, as we are both attending a meeting shortly at Brymbo, to look at the world-beating heritage site there. They held an open day at the Brymbo iron and steel works site in the summer, which I had the pleasure of attending with my family, again highlighting the vital responsibility that we share to safeguard that site so that it is retrievable for development as a major heritage site in the future. Will the Welsh Government's proposals on promoting Wales's industrial heritage also embrace sites such as Brymbo, so that we can ensure that what is there now and what has been there for thousands, and even millions, of years is still there for future generations?

Diolch i chi am hynny. Fel y gwyddoch yn dda iawn, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad i'r Aelodau yn gynnar y mis hwn ar hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cymru i ymwelwyr. Mae'n briodol eich bod yn ymateb, gan ein bod ni'n dau yn mynychu cyfarfod yn fuan ym Mrymbo, i edrych ar y safle treftadaeth yno sy'n un o oreuon byd. Cynhaliwyd diwrnod agored yng ngwaith haearn a dur Brymbo yn yr haf, a chefais bleser o fod yn bresennol gyda'm teulu, a oedd unwaith eto'n tynnu sylw at y cyfrifoldeb hanfodol sydd gennym o ran diogelu'r safle hwnnw fel y gellir ei adfer i'w ddatblygu fel prif safle treftadaeth yn y dyfodol. A fydd cynigion Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cymru hefyd yn cynnwys safleoedd fel Brymbo, er mwyn inni allu sicrhau bod yr hyn sydd yno nawr a beth sydd wedi bod yno ers miloedd, a hyd yn oed miliynau o flynyddoedd yn dal i fod yn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for North Wales for his question. Of course, a second open day is taking place at the former iron works in Brymbo. It takes place on Ryder Cup Sunday, so I am very much looking forward to 27 September. In terms of the iron works, we have already been able to support the iron works and we will go on supporting them in their ambition. However, of course, funding constraints mean that, with the 10% cut to the block grant in Wales, probably the best way to extract more money in order to deliver better services is to get people to elect a Labour Government next year and ensure that we have a better deal for the people and for our communities.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am ei gwestiwn. Felly mae ail ddiwrnod agored yn cael ei gynnal yn yr hen waith haearn ym Mrymbo. Fe'i cynhelir ar Sul Cwpan Ryder, felly edrychaf ymlaen yn fawr at 27 Medi. O ran y gweithfeydd haearn, rydym eisoes wedi gallu cefnogi'r gwaith haearn a byddwn yn parhau i gefnogi eu huchelgais. Fodd bynnag, wrth gwrs, mae'r cyfyngiadau ariannol yn golygu, gyda'r toriad o 10% yn y grant bloc yng Nghymru, yn ôl pob tebyg mai'r ffordd orau o gael rhagor o arian er mwyn darparu gwasanaethau gwell yw cael pobl i ethol Llywodraeth Lafur y flwyddyn nesaf a sicrhau bod gennym lawer gwell bargaen i'r bobl ac i'n cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On industrial heritage, this forms the backbone of what we offer. We must ensure that the message and the brand about Wales's tourism are at the forefront of all of our efforts. Today, I was very pleased to meet with National Museum Wales to discuss just how powerful our message around heritage across Wales, including north-east Wales, can be. Of course, finally, there are also other heritage areas in north-east Wales, including the world heritage site, that act as a fantastic magnet for business and tourists alike.

O ran treftadaeth ddiwydiannol, dyma yw asgwrn cefn yr hyn rydym yn ei gynnig. Rhaid inni sicrhau bod y neges a brand twristiaeth Cymru yn flaenllaw yn ein holl ymdrechion. Heddiw, roeddwn yn hynod falch o gwrdd ag Amgueddfa Cymru i drafod pa mor bwerau y gall ein neges ynghylch treftadaeth ar draws Cymru fod, gan gynnwys y gogledd-ddwyrain. Wrth gwrs, yn olaf, mae yna hefyd ardaloedd treftadaeth eraill yn y gogledd-ddwyrain, gan gynnwys y safle treftadaeth byd, sy'n gweithredu fel magnet gwych ar gyfer busnes a thwristiaid fel ei gilydd.

14:43

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, my constituency, as you know, is overlooked by Castell Coch, is in close proximity to Cardiff Castle, and we have a large number of smaller sites such as the Nantgarw pottery, the Taff's Well spring and the Hetty colliery in Trehafod. How do you envisage the development of sites, or the use of sites such as Visit Wales, in order to create a more integrated and more cohesive linkage between the major attractions and also some of the smaller ones that are often operated and run by volunteers?

Ddirprwy Weinidog, mae fy etholaeth, fel y gwyddoch, yn edrych dros Gastell Coch, yn agos i Gastell Caerdydd, ac mae gennym nifer fawr o safleoedd llai megis crochendy Nantgarw, tarddiant Ffynnon Taf a glofa Hetty yn Nhrehafod. Sut rydych yn rhagweld y gwaith o ddatblygu safleoedd, neu ddefnyddio safleoedd fel Croeso Cymru, er mwyn creu cysylltiad mwy integredig a mwy cydlynol rhwng y prif atyniadau a'r rhai llai sy'n aml yn cael eu cynnal a'u rhedeg gan wirfoddolwyr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:44 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for Pontypridd for his question, and I would very much like to visit some of those sites that he has identified with the Member, if he wishes to invite me. In terms of making sure that we have a consistent approach and a consistent brand, I think that it is vital that we recognise that the Visit Wales website has increased the number of people visiting the site. We also now have 450,000 followers on Facebook and Twitter and, as a consequence of this, we have seen, in the first six months of 2014, the number of day-trippers to Wales increase by 19% compared with a decline of 1% across the UK as a whole.
- Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei gwestiwn, a hoffwn yn fawr ymweld â rhai o'r safleoedd hynny a nododd yr Aelod, os yw am fy ngwahodd. O ran sicrhau bod gennym agwedd gyson a brand cyson, credaf ei bod yn hanfodol ein bod yn cydnabod bod gwefan Croeso Cymru wedi cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â'r safle. Hefyd, erbyn hyn, mae gennym 450,000 o ddilynwyr ar Facebook a Twitter ac, o ganlyniad i hyn, gwelsom yn chwe mis cyntaf 2014, fod nifer ymwelwyr undydd i Gymru wedi cynyddu 19% o gymharu â gostyngiad o 1% ar draws y DU gyfan.
- 14:44 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Un o ddatblygiadau twristiaeth mwyaf llwyddiannus yn ddiweddar yng Nghymru yw datblygiad a chydgyssylltiad llwybr arfordir Cymru. Mae'r gwerthusiad cynnar o'r llwybr honno wedi dangos cymaint o bunnoedd sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol drwy ddenu cerddwyr ym mhob rhan o Gymru. Gan fod hwn yn adnodd cenedlaethol, rwy'n pryderu rhywfaint fod mynediad at a chynnal a chadw'r llwybr yn dibynnu ar nifer o awdurdodau lleol. Rydym eisoes wedi clywed am y bygythiad o bosibl i'r gwasanaeth Cardi Bach yng Ngheredigion. Mae nifer o awdurdodau lleol yn wynebu costau cynnal a chadw uchel ar y llwybr oherwydd stormydd y gaeaf diwethaf. Beth allwch chi ei wneud, felly, fel Llywodraeth i hyrwyddo a chadw llwybr yr arfordir fel endid cenedlaethol?
- One of the most successful tourism developments in Wales recently has been the development and joining-up of the Wales coastal path. Early evaluation of the path has shown the amount of money that has been generated locally by attracting hikers in all parts of Wales. As this is a national resource, I am somewhat concerned that access to and maintenance of the path relies on a number of local authorities. We have already heard about the possible threat to the Cardi Bach service in Ceredigion. A number of local authorities are facing high maintenance costs on the path as a result of last winter's storms. What can you do, therefore, as a Government to promote and maintain the coastal path as a national entity?
- 14:45 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his recognition of the tremendous success that the Welsh Labour Government's coastal path has been for this country, which demonstrates why we should have pride in Wales, even if the Member may not have pride in its Government. I will be meeting tomorrow morning—
- Diolch i'r Aelod am ei gydnabyddiaeth i lwyddiant aruthrol llwybr arfordirol Llywodraeth Lafur Cymru i Gymru, sy'n dangos pam y dylem fod yn falch o Gymru, hyd yn oed os nad yw'r Aelod, o bosibl yn ymfalchio yn ei Llywodraeth. Byddaf yn cyfarfod bore yfory-
- 14:46 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Plaid was in Government when it was done.
- Roedd Plaid Cymru mewn Llywodraeth pan gafodd ei gyflawni.
- 14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Please do not throw these asides up, because you will not get a reply. Can you be concise in your reply, please?
- Gorchymyn. Peidiwch â gwneud sylwadau fel hyn, oherwydd ni fyddwch yn cael ateb. Allwch chi fod yn gryno yn eich ateb, os gwelwch yn dda?
- 14:46 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will be meeting with leaders of leisure services and recreational services of local authorities tomorrow in Llangollen to discuss this very issue, to make sure that we go on using and exploiting the fantastic natural landscapes we have for the purpose of outdoor leisure and tourism.
- Byddaf yn cyfarfod ag arweinwyr gwasanaethau hamdden awdurdodau lleol yn Llangollen yfory i drafod yr union fater hwn, i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i ddefnyddio a manteisio ar y tirluniau naturiol gwych sydd gennym at ddibenion hamdden a thwristiaeth yn yr awyr agored.

Band Eang Cyflym Iawn

Superfast Broadband

14:46	Suzy Davies Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yng Nghymru? OAQ(4)0446(EST)</i>	<i>5. Will the Minister provide an update on the roll out of superfast broadband in Wales? OAQ(4)0446(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Julie James Bywgraffiad Biography <i>Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology</i> Presiding Officer, I understand that you have given permission for questions 5 and 12 to be grouped.	Lywydd, Rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 5 a 12 gael eu grwpio.	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I will have to rearrange that, as we will not get to question 12, so we will just deal with question 5.	Bydd yn rhaid i mi aildrefnu hynny, gan na fyddwn yn cyrraedd cwestiwn 12, felly byddwn yn delio gyda chwestiwn 5 yn unig.	Senedd.tv Fideo Video
14:46	Julie James Bywgraffiad Biography Okay. Excellent progress is being made with the roll-out of superfast broadband across Wales. Roll-out is under way in the majority of local authorities, and over 216,000 premises have now been given access to fast-fibre broadband.	Iawn. Mae cynnydd rhagorol ar droed gyda phroses cyflwyno band eang cyflym iawn ar draws Cymru. Mae'r broses ar y gweill yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac mae dros 216,000 eiddo bellach wedi cael mynediad at fand eang ffeibr cyflym.	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Suzy Davies Bywgraffiad Biography Thank you for that answer, Deputy Minister, and congratulations on your new post. We all had an e-mail from BT, yesterday I think it was, asking us to join in the celebrations of the second anniversary of the beginning of roll-out. What has the Government done in those two years to set any targets for take-up of the service or to stimulate demand? If there have not been any, why not?	Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog, a llongyfarchiadau ar eich swydd newydd. Cafodd pawb e-bost oddi wrth BT, ddoe mi gredaf, yn gofyn i ni ymuno i ddathlu ail ben-blwydd y broses. Beth mae'r Llywodraeth wedi ei wneud yn y ddwy flynedd honno i bennu unrhyw dargedau ar gyfer manteisio ar y gwasanaeth neu i ysgogi'r galw? Os na chafwyd rhai, pam?	Senedd.tv Fideo Video
14:47	Julie James Bywgraffiad Biography We have been looking at stimulating demand where the roll-out has occurred. We have done a number of things simultaneously. For example, we have set up a postcode finder feature on the BT website, so now you can find out whether you are enabled or when you are going to be enabled. It is important that you can find out that you are enabled, and if you look at that link it tells you that you need to get in touch with your internet service provider about what they can provide on that service. It also gives you some information about how to select the best ISP provider if you do not already have one. We also have some grants available for people who cannot afford it, and we have some Communities First areas that are accessing superfast broadband through the cabinets. We are ensuring that public places have access to superfast broadband for those people who are not able to connect digitally at home.	Rydym wedi bod yn edrych ar ysgogi'r galw lle mae'r broses wedi digwydd. Gwnaethom nifer o bethau ar yr un pryd. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu nodwedd canfod cod post ar wefan BT, felly nawr gallwch gael gwybod oes darpariaeth ar gael i chi neu pryd bydd ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn gallu cael gwybod bod y ddarpariaeth ar gael, ac os edrychwch ar y ddolen mae'n dweud wrthyfod angen i chi gysylltu â'ch darparwr gwasanaeth rhyngwyd i weld beth y maent yn ei ddarparu ar y gwasanaeth hwnnw. Mae hefyd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am sut i ddewis y darparwr ISP gorau os nad oes gennych un yn barod. Hefyd, mae gennym rai grantiau ar gyfer pobl nad sy'n methu â fforddio'r ddarpariaeth, ac mae gennym rai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n cael mynediad band eang cyflym iawn drwy gabinet stryd. Rydym yn sicrhau bod mannau cyhoeddus yn cael mynediad i fand eang cyflym iawn i'r bobl hynny sy'n methu â chael cysylltiad digidol yn y cartref.	Senedd.tv Fideo Video

14:48

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Congratulations, Deputy Minister, on your new post. However, since you are there now, we have problems in my constituency with areas that are not being included in the superfast roll-out programme. They were also not included in the BT commercial programme. So, although the exchanges are being upgraded, they are unable to access the services. What is the Welsh Government going to do to get those types of areas, particularly communities that are a little more remote, into the modern age, using superfast broadband? What type of timescales are we talking about?

Llongyfarchiadau, Ddirprwy Weinidog, ar eich swydd newydd. Fodd bynnag, gan eich bod eisoes wedi cychwyn, rydym yn cael problemau yn fy etholaeth ag ardaloedd nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gyflwyno. Hefyd, nid oedden nhw wedi'u cynnwys yn rhaglen fasnachol BT. Felly, er bod y cyfnewidfydd yn cael eu huwchraddio, maen nhw'n methu â chael mynediad i'r gwasanaethau. Beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i gael ardaloedd fel hyn, yn enwedig cymunedau ychydig yn fwy anghysbell, i mewn i'r oes fodern, ac i ddefnyddio band eang cyflym iawn? Pa fath o amserlen sydd gennych mewn golwg?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have been allocated £12.1 million from the UK Government towards the cost of addressing the final few per cent of premises in that category. I think a number of us have those notspots in our constituencies as well, that we are aware of. We are going to deliver a new project to bring fast-fibre broadband to those areas that are not covered by our project or by commercial roll-out projects, because a number of areas not covered by our project are commercially viable and therefore we expect the market to fill that in for us. So, we intend to deliver a new project that will be a superfast in-fill project, effectively, so once we have established exactly where the areas that are not covered by the commercial roll-out or our current programme are, we are going to procure a new service, which is going out to procurement as we speak, to sort out those in-fill service areas. Phase 2 of that project will sort out those areas that cannot be reached by fast-fibre cabinets in a traditional sense, so we are looking at alternative provision, such as satellite provision and other mobile provision to reach those last hard-to-reach areas. The timetable for that is over the next two years.

Dyrannwyd £12.1 miliwn i ni gan Lywodraeth y DU tuag at y gost o fynd i'r afael â'r ychydig ganrannau olaf o'r safleoedd sydd yn y categori hwnnw. Credaf fod gan nifer ohonom y mannau gwan hynny yn ein hetholaethau hefyd, fel sy'n hysbys i ni. Rydym yn mynd i gyflwyno prosiect newydd i ddod â band eang ffeibr cyflym i'r ardaloedd hynny sydd heb eu cynnwys gan ein prosiect neu gan brosiectau cyflwyno masnachol, gan fod nifer o'r ardaloedd nad oedd wedi'u cynnwys yn ein prosiect yn fasnachol hyfwrw ac felly rydym yn disgwyl i'r farchnad lenwi'r bylchau hynny i ni. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno prosiect newydd a fydd yn brosiect llenwi cyflym iawn, i bob diben, felly unwaith y byddwn wedi sefydlu yn union ble mae'r ardaloedd sydd heb eu cynnwys gan y broses fasnachol neu ein rhaglen gyfredol, rydym yn bwriadu caffael gwasanaeth newydd, ac mae'r broses gaffael ar waith ar hyn o bryd, er mwyn datrys y meysydd gwasanaeth sydd angen eu llenwi. Bydd Cam 2 o'r prosiect yn datrys y meysydd hynny na ellir eu cyrraedd trwy'r cabinet stryd ffeibr cyflym yn yr ystyr draddodiadol, felly rydym yn edrych ar ddarpariaeth arall, fel darpariaeth loeren a darpariaeth symudol arall er mwyn cyrraedd yr ardaloedd diwethaf hynny sy'n anodd eu cyrraedd. Yr amserlen ar gyfer hynny yw'r ddwy flynedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Da iawn ar eich swydd newydd. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n targedu band eang mewn ardaloedd gwledig, ond mae ystadegau ymchwil wedi dangos bod pobl sy'n gallu cael mynediad at fand eang yn peidio â gwneud hynny—y 'broadband refuseniks'. Nid wyf yn licio'r term, ond dyma'r term y mae pobl yn ei ddefnyddio. Felly, beth ydych chi'n ei wneud? Efallai nad ydynt yn gallu fforddio cael band eang, neu efallai nad ydynt am ei gael. Sut allwn ni ennyn y bobl hynny, sydd efallai o ardaloedd difreintiedig, i fynd i'r afael â'r dechnoleg newydd hon?

Congratulations on your new post. I believe that it is important that we should target broadband at rural areas, but there are also statistics that have demonstrated that there are people who can access broadband who do not do so. They are broadband refuseniks. I do not particularly like the term, but that is the term used. So, what are you doing? Perhaps they cannot afford broadband, or perhaps they simply do not want it. However, how do we encourage those people who are perhaps from disadvantaged backgrounds to take up the new technology?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, we have a number of projects under way for that. First of all, we are making sure that those people who are able to access it and want to access it know that they can as soon as possible, hence the facility to make sure that you know you are connected as soon as possible. I encourage everybody who has not done so to put their phone number or postcode into that to make sure that they know the second they are connected. As I said, we have various schemes to encourage people to go into their public buildings to be taught how to do it. We have schemes to teach people what can be available to them through broadband. We have a digital government programme to encourage our public services to go digital because we know that that is a faster and more effective way to work, and we are encouraging our public libraries, schools and so on to encourage people to use those services in that way to save themselves the trip to the local office and so on. So, we have a large number of ways of encouraging people to take it up. For those people who simply do not like broadband, I think that the answer to that is that if they really do not want to do it we cannot make them. However, a number of services will, in future, be really only very readily available through broadband. However, I emphasise that it will never be the case that you cannot get a service just because you do not have broadband. However, it will become much, much more difficult if you are not on broadband to access some of the routine services. However, again, I would like to emphasise that we are not going to exclude anyone just on the basis that they do not have broadband.

Fel y dywedais, mae gennym nifer o brosiectau ar y gweill ar gyfer hynny. Yn gyntaf oll, rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn hysbysu'r bobl hynny sydd yn gallu cael mynediad iddo ac yn awyddus i gael gafael arno ei fod ar gael cyn gynted ag y bo modd, a dyna'r rheswm am y cyfleuster hysbysu prydlon. Rwy'n annog pawb sydd heb wneud hynny i roi eu rhif ffôn neu god post i mewn i'r cyfleuster i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod yr eiliad y maent yn cael eu cysylltu. Fel y dywedais, mae gennym amryw o gynlluniau i annog pobl i fynd i mewn i'w hadeiladau cyhoeddus i gael eu dysgu sut i wneud hynny. Mae gennym gynlluniau i ddysgu pobl beth all fod ar gael iddynt drwy fand eang. Mae gennym raglen lywodraeth ddigidol i annog ein gwasanaethau cyhoeddus i fynd yn ddigidol oherwydd gwyddom fod hynny'n ffordd gyflymach a mwy effeithiol o weithio, ac rydym yn annog ein llyfrgelloedd cyhoeddus a'n hysgolion ac ati i annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau hynny fel hyn er mwyn arbed taith i'r swyddfa leol ac yn y blaen. Felly, mae gennym nifer fawr o ffyrdd o annog pobl i fabwysiadu'r gwasanaeth. I'r sawl nad ydynt yn hoffi band eang, credaf mai'r ateb i hynny yw os nad ydyn nhw wir yn dymuno ei ddefnyddio, allwn ni ddim gwneud iddyn nhw wneud hynny. Fodd bynnag, mae nifer o wasanaethau a fydd, yn y dyfodol, mewn gwirionedd ddim ond ar gael yn rhwydd iawn drwy fand eang. Fodd bynnag, rwy'n pwysleisio na fydd byth yn wir na allwch gael gwasanaeth dim ond am nad oes gennych fand eang. Fodd bynnag, bydd yn dod yn llawer, llawer mwy anodd os nad ydych ar fand eang i gael mynediad at rai o'r gwasanaethau arferol. Fodd bynnag, unwaith eto, hoffwn bwysleisio nad ydym yn mynd i eithrio unrhyw un dim ond ar y sail nad oes ganddynt fand eang.

Datblygu'r Sector Ariannol**The Development of the Finance Sector****Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo datblygiad y sector ariannol yng Nghymru? OAQ(4)0441(EST)

6. Will the Minister outline what is being done to promote the development of the finance sector in Wales? OAQ(4)0441(EST)

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. The sector is one of our largest priority sectors in terms of jobs. To increase this further, we are supporting indigenous businesses with their growth ambitions as well as trying to seek new investors, with a focus on those based in London currently.

Gwnaf. Mae'r sector hwn yn un o'n sectorau blaenoriaeth mwyaf o ran swyddi. Er mwyn cynyddu hyn ymhellach, rydym yn cefnogi busnesau cynhenid yn eu huchelgais am dwf yn ogystal â cheisio chwilio am fuddsoddwyr newydd, gan ganolbwyntio ar y rhai a leolir yn Llundain ar hyn o bryd.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I am convinced of the importance of the finance industry in developing a balanced economy. Will the Minister work to ensure that Swansea gets its fair share of new employment opportunities in the financial sector?

Diolch i chi, Weinidog. Rwyf wedi fy argyhoeddi ynghylch pwysigrwydd y diwydiant cyllid wrth ddatblygu economi gytbwys. A fydd y Gweinidog yn gweithio i sicrhau bod Abertawe yn cael ei chyfran deg o gyfleoedd cyflogaeth newydd yn y sector ariannol?

- 14:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There have been enormous successes actually in Swansea, including HSBC, Virgin Media and Virgin Atlantic. We look at the Driver and Vehicle Licensing Agency as a Government body. We have also supported 37,000 financial and professional services students studying in Wales as well. So, I think that it is fair to say that we try to get companies in across the piece and to encourage indigenous companies to recruit within areas, including Swansea.
- Cafwyd llwyddiannau enfawr mewn gwirionedd yn Abertawe, gan gynnwys HSBC, Virgin Media a Virgin Atlantic. Rydym yn ystyried yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yn gorff y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi cefnogi 37,000 o fyfyrwyr gwasanaethau ariannol a phroffesiynol sy'n astudio yng Nghymru hefyd. Felly, Credaf ei bod yn deg dweud ein bod yn ceisio cael cwmnïau i mewn ar draws y maes ac yn annog cwmnïau cynhenid i recriwtio o fewn ardaloedd, gan gynnwys Abertawe.
- 14:53 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, Eluned Parrott was right to point out earlier the importance of value for money in economic policy and certainly in developing the enterprise zone initiative. Would you agree with me that part of achieving value for money is not just attracting firms to Wales in the first place but making sure we retain them? Historically, Wales has not had enormous success with the financial sector during the establishment of the financial enterprise zone here. What work has the financial and professional services sector panel done to make sure that financial sector companies that are attracted here remain here? You may well have read the Welsh Conservatives' plans for Invest Wales, which have a comprehensive system of aftercare included within them.
- Weinidog, roedd Eluned Parrott yn iawn i dynnu sylw yn gynharach at bwysigrwydd gwerth am arian mewn polisi economaidd ac yn sicr wrth ddatblygu mentrau'r ardaloedd menter. A fydddech yn cytuno â mi, yn ogystal â denu cwmnïau i Gymru yn y lle cyntaf, rhan o sicrhau gwerth am arian yw gwneud yn siŵr ein bod yn eu cadw? Yn hanesyddol, nid yw Cymru wedi cael llwyddiant aruthrol gyda'r sector ariannol yn ystod sefydlu'r ardal fenter ariannol yma. Pa waith y mae panel y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol wedi'i wneud i sicrhau bod cwmnïau sector ariannol sy'n cael eu denu yma yn parhau i aros yma? Efallai eich bod wedi darllen cynlluniau'r Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer Buddsoddi Cymru, sydd â system gynhwysfawr o ôl-ofal wedi'u cynnwys ynddynt.
- 14:53 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, they have a lot of aftercare here. Of course, you recognised that, in terms of financial and professional services, we have a large, qualified workforce. We have been extremely successful in building relationships with some of the large financial and professional providers here and we have good news on the horizon. I think that there are several projects coming to fruition. However, you are right that it is important to keep up our relationship with them when they come here to ensure that we get further business, and that is a priority for the sector.
- Ydynt, maen nhw'n cael llawer o ôl-ofal yma. Wrth gwrs, bu i chi gydnabod, o ran y gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, fod gennym weithlu mawr, cymwysedig. Rydym wedi bod yn hynod lwyddiannus yn adeiladu perthynas gyda rhai o'r darparwyr ariannol a phroffesiynol mawr yma ac mae gennym newyddion da ar y gorwel. Credaf fod yna nifer o brosiectau yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, rydych yn iawn ei bod hi'n bwysig cynnal ein perthynas gyda hwy pan fyddant yn dod yma er mwyn sicrhau ein bod yn cael rhagor o fusnes, ac mae hynny'n flaenoriaeth i'r sector.
- 14:54 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn anffodus, mae banciau wedi cilio o drefi a phentrefi cefn gwlad Cymru, a gwendid y sector ariannol yw nad ydyw'n cefnogi busnesau a masnach yn ddigonol. Dyna pam, i raddau, y crëwyd Cyllid Cymru—Finance Wales. Mae wedi bod yn llwyddiant ar lawer cyfrif, ond mae gormod o gyfrinachedd o gwmpas Cyllid Cymru. A fydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi o hyn allan?
- Unfortunately, banks have disappeared from towns and villages in rural Wales, and the weakness of the financial sector is that it does not support businesses and trade sufficiently. That is why Finance Wales was created, to some extent. It has been a success on a number of fronts, but there is too much secrecy around Finance Wales. Will an annual report be published from now on?
- 14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I think that when I responded to the Chair of the Finance Committee and the excellent report that the committee did, I indicated that there would be more transparency about how Finance Wales delivers in terms of the money that the public sector puts in. I also indicated at that time that it would appear before committee, whichever committee is agreed, to be scrutinised on its activities.
- Bydd. Credaf, wrth i mi ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a'r adroddiad ardderchog a wnaeth y pwyllgor, y bu i mi ddweud y byddai mwy o dryloywder am sut mae Cyllid Cymru yn darparu o ran yr arian y mae'r sector cyhoeddus yn ei gyfrannu. Hefyd, dywedais ar y pryd y byddai'n ymddangos gerbron pwyllgor, pa bynnag bwyllgor y cytunir, er mwyn craffu ar ei weithgareddau.

14:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Question 7 from Paul Davies was submitted before the change in portfolios, so the Deputy Minister for Farming and Food will reply.</p>	<p>Cyflwynwyd cwestiwn 7 gan Paul Davies cyn y newid portffolio, felly bydd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn ateb.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Amaethyddiaeth (Gorllewin Cymru)		Agriculture (West Wales)		
14:55	Paul Davies Bywgraffiad Biography	<p>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0445(EST)</p>	<p>7. Will the Minister make a statement on Welsh Government priorities for agriculture in west Wales? OAQ(4)0445(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography	<p><i>Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food</i></p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu diwydiant amaethyddol yng Nghymru sy'n hyderus, yn broffidiol a chydnerth, sy'n diogelu ac yn gwella ein hadnoddau naturiol, yn cyflawni twf cynaliadwy ac yn cefnogi cymunedau gwledig bywiog. Rwy'n benderfynol o gydweithio â'r sector hwn a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	Paul Davies Bywgraffiad Biography	<p>Deputy Minister, one way of supporting agriculture in west Wales is to ensure that Welsh Government schemes are accessible to as many farmers as possible. You will be aware of the recent auditor general's report on Glastir that highlighted concerns that levels of participation are much lower than planned and that aspects of the scheme are overly complex. In light of this report, can you give us an update on the Glastir scheme? What are you doing, as a Government, to encourage the take-up of this particular scheme?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, un ffordd o gefnogi amaethyddiaeth yng ngorllewin Cymru yw sicrhau bod cynlluniau Llywodraeth Cymru yn hygyrch i gymaint o ffermwyr ag sy'n bosibl. Byddwch yn ymwybodol o adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn ddiweddar ar Glastir a amlygodd bryderon fod lefelau cyfranogiad yn llawer is nag a gynlluniwyd, a bod agweddau ar y cynllun yn rhy gymhleth. Yng ngoleuni'r adroddiad hwn, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Glastir i ni? Beth rydych yn ei wneud, fel Llywodraeth, i annog pobl i fanteisio ar y cynllun penodol hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:56	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography	<p>The Glastir scheme will provide us with an important element of our RDP going forward, particularly regarding our aspirations for the environment in Wales. I will make a formal response to the auditor general's report on Glastir and I will be happy to share that with the Assembly in due course.</p>	<p>Bydd y cynllun Glastir yn elfen bwysig o'n Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol, yn enwedig o ran ein dyheadau ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru. Byddaf yn rhoi ymateb ffurfiol i adroddiad yr archwilydd cyffredinol ar Glastir, a byddaf yn barod i'w rannu gyda'r Cynulliad maes o law.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:56	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	<p>The priority, in my opinion, must be to continue the practice that we have had that has resulted in a 30% decline in bovine TB in Wales. Contrast that with DEFRA's decision to continue with an utterly discredited badger cull across the border. Deputy Minister, have you had any chances yet to meet with your London counterparts and do you think that you will be able to talk any sense into them about how to implement a humane and effective eradication programme?</p>	<p>Rhaid mai'r flaenoriaeth, yn fy marn i, fydd parhau'r arfer rydym wedi'i weithredu sydd wedi arwain at ostyngiad o 30% mewn TB mewn gwartheg yng Nghymru. O gyferbynnu hynny â phenderfyniad DEFRA i barhau â'r anfri llwyr o ddifa moch daear ar draws y ffin. Ddirprwy Weinidog, a gawsoch chi unrhyw gyfleoedd eto i gwrrd â'ch cymheiriaid yn Llundain ac a ydych yn meddwl y byddwch yn gallu eu rhoi ar ben ffordd am sut i weithredu rhaglen ddileu effeithiol a di-boen?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:57	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography	<p>I have had the opportunity to meet with Liz Truss on two occasions since my appointment, although we did not discuss bovine TB at that point. DEFRA's policy is for DEFRA Ministers to defend.</p>	<p>Rwyf wedi cael y cyfle i gyfarfod â Liz Truss ar ddau achlysur ers i mi gael fy mhenodi, er nad oeddem yn trafod TB mewn gwartheg bryd hynny. Cyfrifoldeb gweinidogion DEFRA yw amddiffyn polisi DEFRA.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

I would like to share with Members the latest figures here in Wales, where we have seen an 18% decrease in the last year in new herd incidents of bovine TB and a fall of 27% in the number of cattle slaughtered. So, I think that we are continuing to see this positive downward trend and I am very encouraged by the results so far.

Hoffwn rannu gyda'r Aelodau y ffigurau diweddaraf yma yng Nghymru, lle'r ydym wedi gweld gostyngiad o 18% yn y flwyddyn ddiwethaf yn nifer yr achosion mewn buchesi newydd o TB mewn gwartheg a gostyngiad o 27% yn nifer y gwartheg a laddwyd. Felly, credaf ein bod yn parhau i weld y duedd gadarnhaol hon ar i lawr yn parhau ac mae'r canlyniadau hyd yn hyn yn fy nghalonogi'n fawr.

14:58 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

West Wales, of course, is one of the largest milk fields in Europe and I would like to ask what the Welsh Government is doing to better protect Welsh farmers from the increasing volatility that is being experienced in prices for milk. One option would be to strengthen the voluntary code of practice, which was adopted nearly two years ago and is now compulsory, I understand, in 12 member states. Is that something that you are actively considering?

Gorllewin Cymru, wrth gwrs, yw un o'r meysydd llaeth mwyaf yn Ewrop a hoffwn ofyn beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i amddiffyn ffermwyr Cymru yn well rhag yr anwadalrwydd cynyddol sy'n digwydd yn y prisiau llaeth. Un dewis fyddai cryfhau'r cod ymarfer gwirfoddol, a fabwysiadwyd bron i ddwy flynedd yn ôl sydd, yn ôl a ddeallaf bellach yn orfodol mewn 12 o'r aelod-wladwriaethau. A yw hynny'n rhywbeth rydych yn ei ystyried ar hyn o bryd?

14:58 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I look forward very much to Alex Fergusson MSP's review of the voluntary code, and I understand that that will be published shortly. I will certainly consider the responses to that. Absolutely, if the report concludes that the code is not effective, then I would seek to work with our dairy taskforce in Wales to look at other options for the way forward.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at adolygiad Alex Fergusson ASA o'r cod gwirfoddol, a deallaf y bydd hynny'n cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Byddaf yn sicr yn ystyried yr ymatebion i hynny. Yn hollol, os bydd yr adroddiad yn dod i'r casgliad nad yw'r cod yn effeithiol, yna byddwn am gydweithio â'n tasglu llaeth yng Nghymru i edrych ar opsiynau eraill ar gyfer y ffordd ymlaen.

Cysylltiadau Ffordd rhwng Cymru a Lloegr

Road Links between England and Wales

14:58 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau ffordd rhwng Canolbarth a Gorllewin Cymru a gorllewin canolbarth Lloegr? OAQ(4)0443(EST)

8. Will the Minister make a statement on road links between Mid and West Wales and the West Midlands? OAQ(4)0443(EST)

14:58 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

One of my key priorities is to ensure that our road networks improve economic competitiveness and provide enhanced access to jobs and services for communities across Wales, including the Mid and West Wales region, and, of course, our very important cross-border links.

Un o fy mlaenoriaethau allweddol yw sicrhau bod ein rhwydweithiau ffyrdd yn gwella cystadleurwydd economaidd a darparu mynediad gwell at swyddi a gwasanaethau ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys rhanbarth y Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac, wrth gwrs, mae ein cysylltiadau trawsffiniol yn bwysig iawn.

14:59 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful to the Minister for that response. As the Minister will know, there is a particular pinch point on the A483 between Llanymynech and Pant. There have been discussions on the desirability of a bypass in that location since it was first raised back in 1972, which obviously predates devolution. What prospects, Minister, are there that this matter could be progressed, particularly since it has also been the subject of a very popular local petition that was brought earlier in this Assembly?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Fel y gwyr y Gweinidog, mae man cyfyng penodol ar yr A483 rhwng Llanymynech a Phant. Bu trafodaethau ynghylch pa mor ddymunol fyddai ffordd osgoi yn y lleoliad ers iddo gael ei godi gyntaf yn ôl yn 1972, a oedd yn amlwg cyn dyddiau datganoli. Beth yw'r rhagolygon, Weinidog, y gallai'r mater hwn gael ei symud ymlaen, yn enwedig gan ei fod hefyd wedi bod yn destun deiseb leol boblogaidd iawn a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad hwn dro'n ôl?

- 14:59 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I say that I obviously do not make any promises about dealing with pinch points on roads because of budgetary considerations? However, I would be happy to ask my officials to look at this and at other schemes that improve connectivity.
- A gaf fi ddweud na allaf yn amlwg wneud unrhyw addewidion ynghylch datrys manau cyfyng ar ffyrdd oherwydd ystyriaethau cyllidebol? Fodd bynnag, byddwn yn hapus i ofyn i'm swyddogion edrych ar hyn ac ar gynlluniau eraill sy'n gwella cysylltedd.
- 15:00 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The mid Wales economy has, I think, been held back because of poor connections between towns like Welshpool and Shrewsbury and improvements are urgently needed, but, of course, co-operation is needed from Governments on both sides of the border. Following discussions with my colleague Glyn Davies MP, who has recently met with a Minister in the Department for Transport, I know that he feels that the UK Government would look favourably on a request to upgrade the road on the English side if the Welsh Government would commit political and financial capital for an upgrade on the Welsh side. Minister, would you be prepared to examine this further as well as having more detailed discussions with UK Government to see if a joint mechanism could be agreed?
- Mae economi canolbarth Cymru, mi gredaf, wedi ei dal yn ôl oherwydd cysylltiadau gwael rhwng trefi fel y Trallwng a'r Amwythig ac mae angen gwelliannau ar frys, ond, wrth gwrs, mae angen cydweithrediad gan Lywodraethau ar ddwy ochr y ffin. Yn dilyn trafodaethau gyda fy nghyd-Aelod Glyn Davies AS, sydd wedi cyfarfod yn ddiweddar â Gweinidog yn yr Adran Drafnidiaeth, gwn ei fod yn teimlo y byddai Llywodraeth y DU yn edrych yn ffafriol ar gais i uwchraddio'r ffordd ar ochr Lloegr o'r ffin pe bai Llywodraeth Cymru'n ymrwymo cyfalaf gwleidyddol ac ariannol ar gyfer uwchraddio ar ochr Cymru. Weinidog, a fydddech yn barod i edrych ar hyn ymhellach yn ogystal â chael trafodaethau mwy manwl gyda Llywodraeth y DU i weld a oes modd cytuno ar fecanwaith ar y cyd?
- 15:00 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Glyn Davies has raised this matter directly with me in a conversation, and I said that I was looking forward to seeing the letter from the UK Government. If you wanted to facilitate any correspondence from that side of the border, I would then be delighted to deal with it.
- Mae Glyn Davies wedi codi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda mi mewn sgwrs, a dywedais fy mod yn edrych ymlaen at weld y llythyr gan Lywodraeth y DU. Os ydych yn awyddus i hwyluso unrhyw ohebiaeth oddi wrth ochr arall y ffin, byddwn wedyn yn barod iawn i ddelio ag ef.
- 15:01 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae'r cwestiynau hyd yma wedi tanlinellu pa mor bwysig yw buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ym mhob rhan o Gymru, nid mewn M4 newydd neu rywbeth tebyg mewn un rhan yn unig. Mae'n hynod bwysig ar gyfer trefi a phentrefi canolbarth Cymru bod cydgyssylltiadau da rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Rydych eisoes wedi cytuno i'r ffordd osgoi o gwmpas y Drenewydd, sydd yn mynd i fod yn ddatblygiad pwysig. A allwch ddiweddarau'r Siambr i sicrhau pawb yn y canolbarth fod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bod pob dim yn ei le ar gyfer ei ddatblygu y flwyddyn nesaf?
- Minister, the questions so far have underlined how important it is that Welsh Government investment takes place in all parts of Wales, not in a new M4 or something similar in one part of Wales alone. It is extremely important for towns and villages in mid Wales that there is good interconnection east and west. You have already agreed to the bypass around Newtown, which is going to be an important development. Can you give the Chamber an update to reassure everybody in mid Wales that the work is progressing and that everything is in place for the development of that next year??
- 15:01 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I say that we take very much to heart the point that you made about the importance of any funds that we have available benefiting the whole of Wales? I think that it is important to recognise the early access to borrowing that we had of £500 million, which was the response to the M4, but I think that I can assure you that it will also be a response to other transport issues within Wales and will not all be focused on the delivery of that road, if that road is delivered in due course. However, the point that you made about the Newtown bypass is particularly important. Contractors for the bypass were appointed in April 2013 and the start of construction works is currently scheduled for 2015. The project team and officials developed the design and identified options to improve value for money and, of course, we now have the preferred route, and draft Orders are currently programmed to be published in autumn 2014. I do not expect or wish to have any delays on this project.
- A gaf fi ddweud ein bod yn cymryd y pwynt a wnaethoch o ddiifri ynglŷn â phwysigrwydd unrhyw gronfeydd sydd ar gael inni sydd o fudd i Gymru gyfan? Credaf ei bod yn bwysig cydnabod y mynediad cynnar at fenthyca a gawsom o £500 miliwn, sef yr ymateb i'r M4, ond credaf y gallaf eich sicrhau y bydd hefyd yn ymateb i faterion trafnidiaeth eraill yng Nghymru ac na fydd y cyfan yn canolbwyntio ar ddarparu'r ffordd honno, os bydd y ffordd yn cael ei chyflwyno maes o law. Fodd bynnag, mae'r pwynt a wnaethoch ynglŷn â ffordd osgoi y Drenewydd yn arbennig o bwysig. Penodwyd contractwyr ar gyfer y ffordd osgoi ym mis Ebrill 2013 ac mae dechrau'r gwaith adeiladu wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 2015. Datblygodd tîm y prosiect a swyddogion y dyluniad a'r opsiynau a nodwyd i wella gwerth am arian a bellach, wrth gwrs, mae gennym y llwybr a ffeirir, ac mae'r Gorchmynion drafft yn cael eu rhaglennu ar hyn o bryd i'w cyhoeddi yn ystod hydref 2014. Nid wyf yn disgwyl nac yn dymuno unrhyw oedi gyda'r prosiect hwn.

System Drafndiaeth Integredig

Integrated Transport System

- 15:02 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
9. Pa gamau y cymerodd y Gweinidog yn ddiweddar i gyflawni ei hamcanion o ddatblygu system drafndiaeth integredig? OAQ(4)0452(EST)
9. What steps has the Minister taken recently to achieve her objectives of developing an? OAQ(4)0452(EST)
- 15:02 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I am committed to improving integrated transport in Wales, as outlined in the Wales transport strategy. I will set out more detail on my priorities in the new national transport plan, which will be published next year.
Rwyf wedi ymrwymo i wella trafndiaeth integredig yng Nghymru, fel yr amlinellwyd yn strategaeth drafndiaeth Cymru. Byddaf yn nodi mwy o fanylion am fy mlaenoriaethau yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol newydd, a gaiff ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf.
- 15:02 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Mae'n anodd i rai ohonom aros, Weinidog, am y cynllun trafndiaeth cenedlaethol pan ydym yn dal i weld diffyg cysylltiad priodol rhwng y bysiau T sydd yn teithio ar draws Cymru ar bellter sylweddol a'r gwasanaeth trê'n. Pryd y gall y Gweinidog ddechrau rhesymoli'r gystadleuaeth ynfyd sydd yn digwydd, er enghraifft yn nyffryn Conwy, rhwng y bysiau a'r trenau o dan enw Arriva a bysiau Express Motors sydd yn gwasanaethu'r daith i lawr i Flaenau Ffestiniog yn Nwyfor Meirionydd? Mae yna lawer enghraifft arall.
It is difficult for some of us to wait for the national transport plan, Minister, when we see that there is still inadequate connectivity between the T buses travelling across Wales over great distances and the train service. When can the Minister start to rationalise the madness of the competition that happens, for example, in the Conwy valley, between trains and buses under the name of Arriva and the Express Motors buses that serve the journey down to Blaenau Ffestiniog in Dwyfor Meirionydd? There are several other examples.
- 15:03 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I think that there are examples across Wales where we are seeing this, and it is not helpful in terms of integration. Obviously, I have a group now that is looking at the way that bus services operate, and how we will integrate with rail will also be an important priority for it. I think that we have to recognise that we have to take public transport far more seriously and how we integrate with public transport. For instance, when you look at the issues around the Cardiff city region metro, that is a major priority for south-east Wales and we must look at the same priorities that we have in west Wales and north Wales to get that integration of public transport. It cannot all be about the development of roads; it has to be about the development of rail as well.
Credaf fod enghreifftiau ledled Cymru lle rydym yn gweld hyn, ac nid yw'n ddefnyddiol o ran integreiddio. Yn amlwg, mae gen i grŵp yn awr sy'n edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau bws yn gweithredu, a bydd sut y byddwn yn integreiddio gyda rheilffyrdd hefyd yn flaenoriaeth bwysig ar ei gyfer. Credaf fod yn rhaid inni gydnabod bod yn rhaid inni gymryd cludiant cyhoeddus yn llawer mwy difrifol a sut rydym yn integreiddio gyda chludiant cyhoeddus. Er enghraifft, pan fyddwch yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â metro rhanbarth dinas Caerdydd, mae hynny yn flaenoriaeth bwysig ar gyfer y de-ddwyrain a rhaid inni edrych ar yr un blaenoriaethau sydd gennym yn y gorllewin ac yn y gogledd er mwyn sicrhau integreiddiad trafndiaeth gyhoeddus. Nid datblygiad ffyrdd yw'r unig flaenoriaeth; mae'n rhaid datblygu'r rheilffyrdd hefyd.
- 15:04 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Minister, you mentioned the metro system and that metro system for the capital city region has great potential, I believe, for better connecting the region, creating critical mass in terms of potential employees for employers, critical mass for potential employees to access those employment opportunities as well as education, training and wider life opportunities and, also, getting people out of their cars and on to public transport with the benefits of tackling congestion and emissions. I wonder, Minister, whether you would agree that, given all of those benefits, which I know that Welsh Government fully realises, the sooner that we get that metro system in place, the better for Wales.
Weinidog, bu i chi sôn am y system metro ac mae gan y system metro ar gyfer rhanbarth y brifddinas botensial mawr, mi gredaf, ar gyfer cysylltu'r rhanbarth yn well, gan greu màs critigol o ran darpar weithwyr i gyflogwyr, mas critigol ar gyfer gweithwyr potensial i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn ogystal ag addysg, hyfforddiant a chyfleoedd bywyd ehangach a hefyd, tynnu pobl allan o'u ceir i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus gyda'r manteision o fynd i'r afael â thagfeydd ac allyriadau. Tybed, Weinidog, o ystyried pob un o'r manteision hynny, sy'n fanteision y gwn y mae Llywodraeth Cymru yn eu llwyr sylweddoli, a fydddech yn cytuno po gyntaf y cawn y system metro ar waith, gorau oll fyddai hynny i Gymru.

15:05

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The metro project is one of my most important projects within the context of south-east Wales. I regard this as being how we are taking matters forward in the next decade to 20 years, and it is very important that we get on with the work. The city region board has been very active on this, Mark Barry has been very active on it, and I am now considering mechanisms in terms of how it will be delivered. I think that, in many ways, I have been a bit cautious in how I have looked at mechanisms for delivery, and I might have to be a tad more radical when I look at the use of funds and what we can do in my discussions with the Minister for Finance. I think that we really need to get on with this, to deal with some of the issues about transport in south-east Wales to enhance the economic prosperity of the region.

Y prosiect metro yw un o'm prosiectau mwyaf pwysig yng nghyd-destun y de-ddwyrain. Ystyriaf hyn fel y ffordd rydym yn bwrw materion ymlaen yn y degawd i'r ugain mlynedd nesaf, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Mae bwrdd rhanbarth y ddinas wedi bod yn weithgar iawn ar hyn, mae Mark Barry wedi bod yn weithgar iawn yn ei gylch, ac rwy'n awr yn ystyried dulliau o ran sut y caiff ei gyflawni. Credaf, ar lawer ystyr, imi fod braidd yn ofalus wrth edrych ar fecanweithiau ar gyfer darparu, ac efallai y bydd rhaid i mi fod braidd yn fwy radical pan fyddaf yn edrych ar y defnydd o arian a'r hyn y gallwn ei wneud yn fy nhrafodaethau gyda'r Gweinidog dros Gyllid. Credaf fod gwir angen i ni fwrw ymlaen â hyn, er mwyn datrys rhai o'r materion ynghylch dudiant yn y de-ddwyrain i wella ffyniant economaidd y rhanbarth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it is buses again. I am sure that you recognise the importance of bus services in any integrated transport system. They are close to collapsing in Wales following the huge uncertainty of former funding models. I say this on the basis that, over the summer period, I met with a large number of bus operators. Given these huge uncertainties surrounding the future of funding of our bus network in Wales, including the threat of High Court action recently, will you use the opportunity of the u-turn that you have made to indicate some stability to bus operators in Wales and to Members of this Chamber so that bus operators can begin to plan? That is the problem at the moment: the planning issue of medium to long-term improvements to our network, so that Members can work with communities and local authorities to plan future integrated transport.

Weinidog, dyma sôn am fysiau eto. Rwy'n siŵr eich bod yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau bysiau mewn unrhyw system drafnidiaeth integredig. Maent ar fin mynd i'r gwellt yng Nghymru yn dilyn ansicrwydd enfawr yr hen fodolau cyllido. Rwy'n dweud hyn oherwydd imi, dros yr haf, gyfarfod â nifer fawr o weithredwyr bysiau. O gofio'r ansicrwydd enfawr hyn ynghylch dyfodol ariannu ein rhwydwaith bysiau yng Nghymru, gan gynnwys y bygythiad o ddwyn achosion i'r Uchel Lys yn ddiweddar, a fydechystal â manteisio ar y tro pedol rydych wedi'i wneud i ddangos rhywfaint o sefydlogrwydd i weithredwyr bysiau yng Nghymru ac i Aelodau'r Siambr hon fel y gall gweithredwyr bysiau ddechrau cynllunio? Dyna'r broblem ar hyn o bryd: materion cynllunio gwelliannau i'n rhwydwaith yn y tymor canolig a'r tymor hir, fel y gall yr Aelodau gydweithio â chymunedau ac awdurdodau lleol i gynllunio trafndiaeth integredig yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that they tell you different things to what they tell me. I certainly have not been doing any u-turns recently. I have just been trying to take through prioritisation to ensure that we get the best bus services that we can within the budgets that are available. My bus policy advisory group will continue to advise me on these particular issues. Its intention will be to identify and prioritise funding for measures that will support bus operators' commercial performance, thereby reducing their reliance on public funding, which, I am sure, is a key objective for you and for me.

Credaf eu bod yn dweud pethau gwahanol wrthych chi i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthyf fi. Yn sicr, nid waf wedi gwneud unrhyw dro pedol yn ddiweddar. Dim ond ceisio blaenoriaethu er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwasanaethau bysiau gorau a allwn o fewn y cyllidebau sydd ar gael. Bydd fy ngrŵp cynghori ar bolisiâu bysiau yn parhau i roi cyngor i mi ar y materion penodol hyn. Ei fwriad fydd nodi a blaenoriaethu cyllid ar gyfer mesurau a fydd yn cefnogi perfformiad masnachol cwmnïau bysiau, a thrwy hynny leihau eu dibyniaeth ar arian cyhoeddus, sydd, rwy'n siŵr, yn amcan allweddol i chi ac i mi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome, as part of the metro programme, the recent announcement of £350,000 being spent in my constituency to reduce congestion and to improve flow, and also the £10 million investment in Pontypridd station. Do you agree that, within the structure of the metro concept, Pontypridd plays a very significant and important role?

Weinidog, rwy'n croesawu, fel rhan o'r rhaglen metro, y cyhoeddiad diweddar o wario £350,000 yn fy etholaeth i leihau tagfeydd a gwella llif, a hefyd y buddsoddiad o £10 miliwn yng ngorsaf Pontypridd. A ydych yn cytuno, o fewn strwythur y cysyniad metro, fod Pontypridd yn chwarae rhan sylweddol a phwysig iawn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:07	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, very much indeed. I think that we have to recognise the strategic importance of many towns in the Valleys in terms of linkage into the metro scheme. I will have more progress to report on the metro to Plenary during the course of the next few months.</p>	<p>Ydw, yn fawr iawn yn wir. Credaf fod yn rhaid inni gydnabod pwysigrwydd strategol llawer o drefi yn y Cymoedd o ran cysylltedd â'r cynllun metro. Bydd gennyf fwy o gynnydd i adrodd ar y metro i'r Cyfarfod Llawn yn ystod y misoedd nesaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Daeth Peter Black i'r Gadair am 15:07.</i></p>	<p><i>Peter Black took the Chair at 15:07.</i></p>	
15:08	<p>Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gyfleoedd Cyllido yr UE 2014-2020</p> <p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee, William Graham, to move the motion.</p> <p>Cynnig NDM5563 William Graham</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE ar gyfer 2014-2020, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Gorffennaf 2014.</p>	<p>The Enterprise and Business Committee's Report on Its Inquiry into EU Funding Opportunities 2014-2020</p> <p>Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, William Graham, i gyflwyno'r cynnig.</p> <p>Motion NDM5563 William Graham</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <p>Notes the report of the Enterprise and Business Committee on its Inquiry into EU funding opportunities 2014-2020, which was laid in the Table Office on 16 July 2014.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:08	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>I move the motion.</p> <p>The Enterprise and Business Committee has previously held inquiries into structural funds and Horizon 2020, but we were conscious that other funds are available from the European Union that have received less attention in Wales. This was the ground that we intended to cover in our inquiry into EU funding opportunities for 2014-20. Our report complements that earlier work and resonates with the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on Wales's role in EU decision making.</p> <p>I thank all those who contributed to our inquiry. We received a range of evidence from stakeholders who applied for or administered these funds. We also spent an interesting afternoon talking to Erasmus students in Cardiff, who were a key influence on our report, and I thank our outreach team, along with Cardiff University and Cardiff Metropolitan University, for facilitating that event.</p>	<p>Cyflwynaf y cynnig.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi cynnal ymchwiliadau i gronfeydd strwythurol a Horizon 2020 yn flaenorol, ond roeddem yn ymwybodol bod arian eraill ar gael oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi derbyn llai o sylw yng Nghymru. Dyma'r hyn roeddem yn bwriadu ei drafod yn ein hymchwiliad i gyfleoedd ariannu'r UE ar gyfer 2014-20. Mae ein hadroddiad yn ategu'r gwaith cynharach hwnnw ac yn cyd-fynd ag adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru ym mhenderfyniadau'r UE.</p> <p>Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Cawsom amrywiaeth o dystiolaeth gan randdeiliaid a ymgeisiodd am neu a weinyddodd y cronfeydd hyn. Cawsom hefyd brynhawn diddorol yn siarad â myfyrwyr Erasmus yng Nghaerdydd, a oedd yn ddylanwad allweddol ar ein hadroddiad, a diolchaf i'n tîm allgymorth, ynghyd â Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, am hwyluso'r digwyddiad hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

We have taken very much an open and engaged approach in this inquiry, conscious that there are many organisations and individuals across Wales interested in and with first-hand experience of EU projects. We launched our report at Chapter Arts Centre listening to the views of those who contributed evidence. Again today, we have met with stakeholders ahead of this debate to discuss the Government's response. That conversation will inform the contributions of members of the committee this afternoon. It has been a valuable exercise and one that we will certainly look to build upon in future inquiries. I thank those who came to talk to us only a couple of hours ago, and I hope that this debate will address the key issues that they raised.

Structural and rural development funds tend to dominate our thinking in Wales, but the other funds that we looked at are worth about €42 billion across the EU as a whole for the period 2014-20. We need to do much more to exploit these opportunities, and our report identifies several of the barriers to doing so.

We found a lack of consistency in the level of support available to applicants, which is significant given the expertise, time and effort required. The creative and cultural sectors were very content with the support they received through the Welsh Government's MEDIA Antenna unit, but, unfortunately, no equivalent exists for other sectors. There is no central contact or resource in Wales for general information and advice on accessing the wide range of EU programmes, nor for organisations outside Wales looking for Welsh partners for EU activities.

One of our key conclusions is that there needs to be a coherent strategy for all EU policy and funding programmes, which can maximise engagement from Wales and create synergy with Welsh Government priorities and initiatives. This is very much in tune with the views expressed in the Constitutional and Legislative Affairs Committee's EU inquiry. We also agree with that committee's view that there needs to be a stronger, broader and more visible Welsh presence in Brussels to raise Wales's profile and better place us in the partnerships, networks and policy negotiations that matter. As with our inquiries into structural funds and Horizon 2020, we heard that Ireland and Scotland were outperforming us in this area.

We make 16 recommendations in our report, and we are pleased to see that the Government accepts nine of them outright, and the remaining seven in part or in principle. We also welcome the Government's positive attitude towards engaging with the EU and the funding opportunities that it presents, and in particular the work of the Minister for Finance in this regard. We were, however, concerned that the Government's response emphasises work that is already under way and structures that are already in place. Indeed, in its response to recommendation 1, the Government says that it will not revise its EU strategy until the next Assembly. With a new European Parliament and Commission in place, we believe that the timing is right to refresh the strategy now and set out a vision for the next five years. We urge Ministers to reconsider this point.

Dull agored ac ymgysylltiol a ddefnyddiwyd gennym yn yr ymchwiliad hwn, gan i ni fod yn ymwybodol bod nifer o sefydliadau ac unigolion ledled Cymru â diddordeb ym mhrosiectau'r UE ac â phrofiad uniongyrchol ohonynt. Lansiodd ein hadroddiad yng Nghanolfan Celfyddydau Chapter lle bu i ni wrando ar farn y rhai a gyfrannodd dystiolaeth. Unwaith eto heddiw, bu i ni gyfarfod â rhanddeiliaid cyn y ddadl hon i drafod ymateb y Llywodraeth. Bydd y sgwrs honno'n llywio cyfraniadau aelodau'r pwyllgor y prynhawn yma. Mae wedi bod yn ymarfer gwerthfawr ac yn un y byddwn yn sicr yn awyddus i'w ddatblygu yn ymholiadau'r dyfodol. Diolch i'r rhai a ddaeth i siarad â ni ychydig oriau'n ôl, a gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn mynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd ganddynt.

Mae cronfeydd strwythurol a datblygu gwledig yn tueddu i dra-arglwyddiaethu ar ein ffordd o feddwl yng Nghymru, ond mae'r cronfeydd eraill a ystyriwyd gennym yn werth tua €42 biliwn ar draws yr UE yn ei chyfanrwydd ar gyfer y cyfnod 2014-20. Mae angen inni wneud llawer mwy i fanteisio ar y cyfleoedd hyn, ac mae ein hadroddiad yn nodi nifer o'r rhwystrau rhag gwneud hynny.

Gwelsom ddiffyg cysondeb yn lefel y gefnogaeth sydd ar gael i ymgeiswyr, sy'n sylweddol o ystyried yr arbenigedd, yr amser a'r ymdrech sy'n ofynnol. Mae'r sectorau creadigol a diwylliannol yn fodlon iawn â'r cymorth a gafwyd drwy uned MEDIA Antenna Llywodraeth Cymru, ond, yn anffodus, nid oes uned gyfatebol yn bodoli ar gyfer sectorau eraill. Nid oes cyswllt neu adnodd canolog yng Nghymru er mwyn cael gafael ar wybodaeth gyffredinol a chynghor ar yr ystod eang o raglenni'r UE, nac ar gyfer sefydliadau y tu allan i Gymru sy'n chwilio am bartneriaid Cymreig ar gyfer gweithgareddau'r UE.

Un o'n casgliadau allweddol yw bod angen cael strategaeth gydlynol ar gyfer holl raglenni polisi a chyllid yr UE, a all ehangu'r ymgysylltiad o Gymru a chreu synergedd â blaenoriaethau a mentrau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicr yn cyd-fynd â'r farn a fynegwyd yn ymchwiliad UE y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Rydym hefyd yn cytuno â barn y pwyllgor hwnnw fod angen cael presenoldeb Cymreig cryfach, ehangach a mwy gweladwy ym Mrwsel i godi proffil Cymru a'n gosod yn well yn y partneriaethau, rhwydweithiau a thrafodaethau polisi sydd o bwys. Fel gyda'n hymholiadau i gronfeydd strwythurol a Horizon 2020, clywsom fod Iwerddon a'r Alban yn gwneud yn well na ni yn y maes hwn.

Rydym yn gwneud 16 o argymhellion yn ein hadroddiad, ac rydym yn falch o weld bod y Llywodraeth yn derbyn naw ohonynt yn llwyr, a'r saith sy'n weddill yn rhannol neu mewn egwyddor. Rydym hefyd yn croesawu agwedd gadarnhaol y Llywodraeth tuag at ymgysylltu â'r UE a'r cyfleoedd cyllido y mae'n eu cynnig, a gwaith y Gweinidog Cyllid yn arbennig yn hyn o beth. Roeddem, fodd bynnag, yn pryderu bod ymateb y Llywodraeth yn pwysleisio gwaith sydd eisoes ar y gweill a strwythurau sydd eisoes yn eu lle. Yn wir, yn ei hymateb i argymhelliad 1, mae'r Llywodraeth yn dweud na fydd yn adolygu ei strategaeth UE tan y Cynulliad nesaf. Gyda Senedd a Chomisiwn newydd ar waith yn Ewrop, credwn fod yr amseriad yn iawn i adnewyddu'r strategaeth yn awr a gosod gweledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Rydym yn annog Gweinidogion i ailystyried y pwynt hwn.

Time and again in our inquiry we saw that the people who make a difference are those who are proactive, driven, creative, open-minded and prepared to invest time and effort on the technical detail of programmes. It is not enough for the Government to have a presence on committees or bodies, or to have teams of staff in place; it is how we use this presence and how we deliver concrete results that matters. The work of MEDIA Antenna within Welsh Government shows that it is possible to provide the right support within a civil service structure, but there was evidence to suggest this is not broadly the case for other sectors. The committee is, therefore, particularly disappointed that the Welsh Government has not embraced recommendation 2, and the idea of creating a new EU funding champion with a clear mission to energise and stimulate participation. This approach works well in other policy areas, and we hope that Ministers, once again, will reconsider. We do, however, welcome the Government's recognition that a central contact point for EU funding is needed in Wales, as we noted in recommendation 3.

In recommendation 4 we asked for specialist support for the youth, education and transport sectors. We welcome the Government's commitment to promote Erasmus+, and its endorsement of the continued role of Connect Cymru as an information provider. However, I ask Ministers once again to look again at the recommendation in relation to transport. The Government says that this type of model is not appropriate for the transport sector. We therefore ask what kind of model it would suggest. While the point made about the scale of projects is valid to some extent, the committee heard evidence, for example from the Chartered Institute of Logistics and Transport and Milford Haven Port Authority, about the lack of engagement from transport stakeholders with EU funding opportunities.

We are pleased that the Government supports the spirit of recommendation 6 to review representation in Wales House in Brussels. We note the wider role played by Welsh Government in supporting other stakeholders, but we wonder whether enough is being done to co-ordinate the various parts of Wales House, and we ask Ministers to explore ways of making optimum use of this invaluable resource in the coming years. This should be an important element of any review of the EU strategy.

Dro ar ôl tro yn ein hymchwiliad gwelsof mai'r bobl sy'n gwneud gwahaniaeth yw'r rhai sydd yn rhagweithiol, yn frwdfrydig a chreadigol, yn agored eu meddwl ac yn barod i fuddsoddi amser ac ymdrech ar fanylion technegol y rhaglenni. Nid yw'n ddigon i'r Llywodraeth gael presenoldeb ar bwyllgorau neu gyrff, neu fod ganddynt dimau o staff yn eu lle; sut rydym yn defnyddio'r presenoldeb hwn a sut rydym yn sicrhau canlyniadau pendant sy'n bwysig. Mae gwaith MEDIA Antenna o fewn Llywodraeth Cymru yn dangos bod modd darparu'r cymorth cywir o fewn strwythur y gwasanaeth sifil, ond roedd tystiolaeth i awgrymu nad yw hyn yn wir ar gyfer sectorau eraill yn gyffredinol. Mae'r pwyllgor felly'n hynod o siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi croesawu argymhelliad 2, a'r syniad o greu hyrwyddwr cyllid newydd ar gyfer yr UE gyda chenhadaeth glir i fywiogi ac ysgogi cyfranogiad. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda mewn meysydd polisi eraill, a'n gobaith yw y bydd y Gweinidogion, unwaith eto, yn ailystyried. Rydym, fodd bynnag, yn falch bod y Llywodraeth yn cydnabod bod angen pwynt cyswllt canolog ar gyfer arian yr UE yng Nghymru, fel y nodwyd yn argymhelliad 3.

Yn argymhelliad 4, bu i ni ofyn am gymorth arbenigol ar gyfer y sectorau ieuenctid, addysg a thrafnidiaeth. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i hybu Erasmus+, a'i chymeradwyaeth i rôl barhaus Connect Cymru fel darparwr gwybodaeth. Fodd bynnag, unwaith eto gofynnaf i Weinidogion edrych eto ar yr argymhelliad mewn perthynas â thrafnidiaeth. Mae'r Llywodraeth yn dweud nad yw'r math hwn o fodel yn briodol ar gyfer y sector trafndiaeth. Rydym felly'n gofyn pa fath o fodel fyddai'r Llywodraeth yn ei awgrymu. Er bod y pwynt a wnaed ynghylch maint y prosiectau yn ddilys i ryw raddau, clywodd y pwyllgor dystiolaeth, er enghraifft gan y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth ac Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, ynglŷn â'r diffyg ymgysylltiad gan randdeiliaid trafndiaeth â chyfleoedd ariannu'r UE.

Rydym yn falch bod y Llywodraeth yn cefnogi ysbryd argymhelliad 6 i adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel. Nodwn y rôl ehangach sydd gan Lywodraeth Cymru o ran cefnogi rhanddeiliaid eraill, ond tybed a oes digon yn cael ei wneud i gydlynu gwahanol rannau o Dŷ Cymru, ac rydym yn gofyn i Weinidogion archwilio ffyrdd o wneud y defnydd gorau posibl o'r adnodd gwerthfawr hwn yn y blynyddoedd nesaf. Dylai hyn fod yn elfen bwysig o unrhyw adolygiad o'r strategaeth UE.

In response to recommendations 5, 7, 8, 9 and 10 the Government reiterates its commitment to working with the education sector to make the most of EU funding opportunities. However, many questions remain. What additional actions has the Welsh Government planned? What is the role of the Wales forum on Europe? Is there any continuity in its events throughout the year, and do they lead to concrete and visible actions? The Government is positive about engaging with EU programmes, but may I remind Ministers of the evidence given by Professor Colin Riordan, vice-chancellor of Cardiff University, that the Welsh Government needs to increase the priority it gives to engaging in the UK outward mobility strategy? We would like far more detail on the specific recommendation to create a Wales-wide network of Erasmus alumni. Will the Minister commit to discussing options with the higher education sector? Similarly, I would like the Minister to clarify the level of resource the Government will make available to support youth organisations in applying to EU funding streams. Will this be at the level of 2011-12, and will it match the aspirations of Connect Cymru and UNA Exchange, which have called for such an increase?

I thank the Minister for her detailed response to recommendation 13, which is consistent with evidence we received that Welsh Government officials are playing an important role through the MEDIA Antenna in supporting the creative industries. The committee suggests that this could be the benchmark that an EU funding champion could use to improve future engagement across the various programmes. We also thank the Government for clarifying the point in recommendation 14 regarding Welsh engagement with TEN-T funding from 2007. We accept that some funding was received as part of a multi-state consortium, but, nevertheless, evidence based on Department for Transport data showed that, unlike other devolved nations, Wales itself did not submit any applications for this funding.

The committee thanks the Ministers once again for their generally positive response and for their obvious commitment to this important area. We question whether the big vision outlined in the committee's report has been truly grasped by Ministers. We essentially called for a change of culture, pace and energy, and this, rather than continuity of approach, is what the Welsh Government desperately needs to address to maximise the funding opportunities presently available.

Mewn ymateb i argymhellion 5, 7, 8, 9 a 10 mae'r Llywodraeth yn ailddatgan ei hymrwymiad i weithio gyda'r sector addysg i wneud y gorau o gyfleoedd ariannu'r UE. Fodd bynnag, mae llawer o gwestiynau yn parhau. Pa gamau ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynllunio? Beth yw rôl Fforwm Cymru ar Ewrop? A oes unrhyw barhad yn ei ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, ac a ydynt yn arwain at gamau gweithredu concriad a gweladwy? Mae'r Llywodraeth yn gadarnhaol ynghylch ymgysylltu â rhaglenni'r UE, ond dylwn atgoffa Gweinidogion o'r dystiolaeth a roddwyd gan yr Athro Colin Riordan, is-ganghellor Prifysgol Caerdydd, fod angen i Lywodraeth Cymru gynyddu'r flaenoriaeth mae'n ei rhoi i ymgysylltu â strategaeth symudedd allanol y DU? Byddem yn hoffi llawer mwy o fanylion am yr argymhelliad penodol i greu rhwydwaith Cymru gyfan o gyn-fyfyrwyr Erasmus. A wnaiff y Gweinidog ymrwmo i drafod opsiynau gyda'r sector addysg uwch? Yn yr un modd, hoffwn i'r Gweinidog egluro lefel yr adnoddau y bydd y Llywodraeth yn eu darparu i gynorthwyo mudiadau ieuentid wrth wneud cais i ffrydiau cyllid yr UE. A fydd hyn ar lefel 2011-12, ac a fydd yn cyfateb i ddyheadau Connect Cymru a Cyfnewid UNA, sydd wedi galw am gynnydd o'r fath?

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei hateb manwl i argymhelliad 13, sy'n gyson â'r dystiolaeth a gawsom fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig drwy MEDIA Antenna wrth gefnogi'r diwydiannau creadigol. Mae'r pwyllgor yn awgrymu y gallai hyn fod yn feincnod y gallai pencampwr cyllid yr UE ei ddefnyddio i wella ymgysylltiad yn y dyfodol ar draws y gwahanol raglenni. Rydym hefyd yn diolch i'r Llywodraeth am egluro'r pwynt yn argymhelliad 14 ynghylch ymgysylltiad Cymru â nawdd TEN-T ers 2007. Rydym yn derbyn bod rhywfaint o arian wedi dod i law fel rhan o gonsortium aml-wladwriaeth, ond, serch hynny, dangosodd tystiolaeth yn seiliedig ar ddata'r Adran Drafnidiaeth, yn wahanol i'r gwledydd datganoledig eraill, nid yw Cymru ei hun yn cyflwyno unrhyw geisiadau am y cyllid hwn.

Mae'r pwyllgor yn diolch i'r Gweinidogion unwaith eto am eu hymateb cadarnhaol yn gyffredinol ac am eu hymroddiad amlwg i'r maes pwysig hwn. Rydym yn cwestiynu a yw Gweinidogion wedi gwirioneddol ddeall y weledigaeth fawr a amlinellwyd yn adroddiad y pwyllgor. Rydym yn y bôn yn galw am newid diwylliant, cyflymder ac egni, a hyn, yn hytrach na dull parhaus, sydd angen sylw dirfawr Llywodraeth Cymru er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ariannu sydd ar gael ar hyn o bryd.

Thank you very much to William Graham for that very comprehensive report. I do not want to duplicate the considerable detail that you have put in; I will just add a few comments on it. Both the Constitutional and Legislative Affairs Committee report and this report have been fascinating exercises in developing an understanding of the whole number of areas where there is funding and support, within the EU, for a whole variety of our activities. It has also been fascinating to see how other countries operate within Europe, and also the way in which partnerships are formed—the nature of European politics being very, very different. I wish also to note some of the excellent staff that we have in Brussels, and the very clever and very able work that is being done by them. I must also mention the work of the Minister there and the presence there. It is very clear that Wales is not only well-respected in the EU, but is becoming increasingly so. I think that part of the message of the report is about building on that. There are two particular parts of the report that I would just like to reiterate and focus on. One of them is the section that says:

‘there needs to be a coherent strategy for “all” EU policy and funding programmes, which can maximise engagement from Wales and create synergy with Welsh Government priorities and initiatives.’

I think that there was a feeling on the committee that there are still opportunities that we have not quite seized yet, or maximised. This is not necessarily a failing in terms of the Welsh Government, but in terms of bringing together all of the other agencies and bodies, whether it is local government or others, to actually maximise that benefit. The other one that was important was:

‘We also agree with the Constitutional and Legislative Affairs Committee that there needs to be a stronger, broader and more visible Welsh presence in Brussels to raise Wales’s profile and better place us in the partnerships, networks and policy negotiations that matter.’

That is not a criticism of some of the considerable successes that there are, but only that we have to be continually moving forward. It is a very competitive environment out there. There is a large number of countries that are working and forming partnerships, and we have to make sure that we are continually boosting our efforts. It is about strategy and it is about focus. I think that the conclusion that we can make is that there have been a lot of successes, but there are still opportunities, and I think that the report makes a very valuable contribution to identifying those and helping the Welsh Government to identify ways of actually taking forward that work and developing it.

Diolch yn fawr iawn i William Graham am yr adroddiad cynhwysfawr iawn hwnnw. Nid wyf am ailadrodd y manylion sylweddol a gyflwynasoch; rwyf am ychwanegu ychydig o sylwadau amdano. Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a’r adroddiad hwn wedi bod ymarferion diddorol o ran datblygu dealltwriaeth o nifer fawr o feysydd lle mae cyllid a chefnogaeth, o fewn yr UE, ar gyfer amrywiaeth eang o’n gweithgareddau. Mae hefyd wedi bod yn ddi-ddorol iawn gweld sut mae gwledydd eraill yn gweithredu o fewn Ewrop, a hefyd y ffordd y mae partneriaethau yn cael eu ffurfio—mae natur gwleidyddiaeth Ewropeaidd yn wahanol iawn, iawn. Hoffwn hefyd nodi rhai o’r staff rhagorol sydd gennym ym Mrwsel, a’r gwaith hynod fedrus ac abl sy’n cael ei wneud ganddynt. Rhaid i mi hefyd sôn am waith a phresenoldeb y Gweinidog yno. Mae’n amlwg iawn fod Cymru yn uchel ei pharch yn yr UE, a bod hynny ar gynydd. Rwy’n credu bod rhan o neges yr adroddiad yn ymwneud ag adeiladu ar hynny. Mae dwy ran benodol o’r adroddiad yr hoffwn eu hailadrodd a chanolbwyntio arnynt. Y gyntaf yw’r adran sy’n dweud:

‘bod angen cael strategaeth gydlynol ar gyfer “holl” raglenni polisi a chyllid yr UE, a all ehangu’r ymgysylltiad o Gymru a chreu synergedd â blaenoriaethau a mentrau Llywodraeth Cymru.’

Credaf fod teimlad ar y pwyllgor ein bod yn dal heb achub ar bob cyfle, neu heb fanteisio i’r eithaf arnynt. Nid yw hyn o reidwydd yn fethiant o safbwynt Llywodraeth Cymru, ond o ran dwyn ynghyd yr holl asiantaethau a chyrrff eraill, boed yn llywodraeth leol neu eraill, i wirioneddol gynyddu’r fantais honno. Yr ail ran bwysig oedd:

‘Rydym hefyd yn cytuno â’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod angen cael presenoldeb Cymreig cryfach, ehangach a mwy gweladwy ym Mrwsel i godi proffil Cymru a’n gosod yn well yn y partneriaethau, rhwydweithiau a thrafodaethau polisi sydd o bwys.’

Nid yw hynny’n feirniadaeth o rai o’r llwyddiannau sylweddol sy’n bodoli, dim ond bod yn rhaid inni fod yn symud ymlaen yn barhaus. Mae’r amgylchedd hwn yn hynod gystadleuol. Mae nifer fawr o wledydd sy’n gweithio ac yn ffurfio partneriaethau, a rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn hybu’n hymdrechion yn barhaus. Mae’n ymwneud â strategaeth a ffocws. Credaf y gallwn ddod i’r casgliad y cafwyd llawer o lwyddiannau, ond mae cyfleoedd yn parhau, a chredaf fod yr adroddiad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i nodi’r cyfleoedd rheiny a helpu Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd i nodi ffyrdd o fwrw’r gwaith hwnnw yn ei flaen a’i ddatblygu.

Rwy'n falch o gael cyfle i roi ychydig o sylwadau ar yr adroddiad pwysig iawn hwn. Mae'n adroddiad pellgyrhaeddol iawn sy'n edrych ar nifer fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael. Rwy'n meddwl bod rhai o'r cyfleoedd sydd ar gael, mae'n deg dweud, wedi cael llawer mwy o sylw nag eraill, felly dechreuaf yn y fan honno. Un peth y clywsom dro ar ôl tro yn y sesiynau tystiolaeth oedd y flaenoriaeth uchel sydd wedi'i rhoi i gronfeydd strwythurol a rhaglenni datblygu gwledig. Fe ddaethom fel pwyllgor i'r casgliad, yn fuan iawn mewn difrif, bod hynny i raddau wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i ecsbloetio rhaglenni cyllido eraill. Roedd y Llywodraeth yn eithaf onest, mewn difrif, yn dweud bod angen targedu adnoddau. Wrth gwrs, mae gwirionedd yn hynny i raddau, ond wir rwy'n meddwl bod rhai inni weld y posibilïadau ehangach.

Ychydig eiriau am y camau rydym wedi'u hadnabod ac a allai gael eu cymryd: yn sicr mae angen cynyddu cydweithio rhwng gwahanol asiantaethau er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd ac adnabod y cyfleoedd sydd ar gael. Mae angen bod yn llawer mwy rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi yn ein cymunedau drwy gyllid Ewropeaidd. Rydym ni fel plaid wedi argymhell sefydlu corff newydd a fyddai'n gweithio ochr yn ochr â sefydliadau presennol fel Llywodraeth Cymru a WEFO ac ati i chwilio am gyfleoedd. Mewn difrif, yr oedd llawer o'r dystiolaeth a dderbyniodd y pwyllgor yn argymhell creu corff o'r fath i dynnu pob dim at ei gilydd.

Mae Erasmus yn rhaglen bwysig iawn. Roedd unfrydedd llwyr ymhlith y rhai a wnaeth roi tystiolaeth i'r pwyllgor ynglŷn â gwerth y cynllun hwnnw, nid yn unig i'r unigolion sy'n cymryd rhan ynddo, ond hefyd i'r economi yn ehangach. Yn anffodus, mae'r niferoedd wedi bod yn mynd lawr o ran y myfyrwyr prifysgol sy'n cymryd rhan ynddo. Bydd newidiadau o ran pwy fydd yn cael mynd ar y cynlluniau yn y dyfodol, ond, i roi syniad i chi, o Brifysgol Caerdydd mae rhyw 12% o'r myfyrwyr yn cael cyfle i astudio dramor, sy'n dda yng Nghymru. Mae'r brifysgol wedi gosod targed uchelgeisiol i gynyddu hynny i 17% erbyn 2017. Mae hynny'n cael ei weld fel rhywbeth uchelgeisiol. Cymharwch hynny efo'r Almaen lle mae targed o 50% o fyfyrwyr i gael profiad o wledydd eraill. Yn y cyddestun hwn, rydym yn sicr ym Mhlaid Cymru yn annog y Llywodraeth i roi sylw gofalus iawn i argymhellion 7 ac 8 ac i osod targedau a gwneud mwy o waith i glymu pobl ifanc i mewn i'r potensial sy'n cael ei gynnis gan raglenni Erasmus.

Gair yn sydyn am y rhaglen cyfryngau, sy'n bwysig iawn inni yng Nghymru ac o ddiddordeb imi yn bersonol. Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg am yr anfantais i ni yng Nghymru o fod yn aelod o'r Deyrnas Unedig yn hyn o beth. Buom yn trafod nifer o brosiectau sydd wedi manteisio ar y rhaglen hon—mae cyfres 'Y Gwyll/Hinterland' ar S4C yn un amlwg o'r rheini. Y casgliad clir, serch hynny, a ddaeth o'r dystiolaeth oedd bod aelodaeth Cymru o'r Deyrnas Unedig a chryfder y sector cyfryngau creadigol yn y Deyrnas Gyfunol i gyd yn golygu nad yw sector cyfryngau Cymru yn cael ei weld fel sector sydd angen cymorth. Rydym yn annog y Llywodraeth i roi sylw mawr i argymhelliad 13 ac i frwydro cornel Cymru yn y maes penodol hwn.

I am pleased to have an opportunity to make a few comments on this extremely important report. It is a far-reaching report, looking at a number of the opportunities that are available. I think that some of the opportunities available, it is fair to say, have been given far more attention than others, so I will start with that point. One thing that we heard time and time again in our evidence sessions was the high priority that has been given to structural funds and rural development programmes. We, as a committee, came to the conclusion very early on that that had restricted, to a large extent, the opportunity to exploit other funding programmes. The Government was quite honest in saying that we do need to target resources. Of course, there is some truth in that, to a certain extent, but I think that we need to identify the wider possibilities.

I want to say a few words about the steps that we have identified that could be taken: certainly we need to enhance collaboration between various agencies in order to make the most of the opportunities and identify those opportunities that are available. We need to be far more proactive in identifying opportunities to invest in our communities using European funding. We, as a party, have recommended the establishment of a new body that would work alongside the current organisations, such as WEFO and the Welsh Government, to identify those opportunities. Much of the evidence received by the committee did recommend the creation of such a body in order to draw the strands together.

Erasmus is a very important programme. There was complete unanimity among those who gave evidence to the committee on the value of this programme, not only to the individuals who participate in the programme, but to the wider economy. Unfortunately, the numbers have been declining in terms of participation by university students. There will be changes in terms of who will be able to access schemes in future, but, just to give you an idea, at Cardiff University some 12% of students have an opportunity to study abroad, which is good for Wales. The university has set a very ambitious target to increase that to 17% by 2017 and that is seen as being ambitious. However, compare that to Germany where the target is for 50% of students to have an experience of living in other nations. In this context, we in Plaid Cymru would encourage the Government to give very careful consideration to recommendations 7 and 8 and to set targets and to do more work to make young people aware of the potential offered by the Erasmus programme.

A brief word on the MEDIA programme, which is very important to us in Wales and is of great interest to me personally. Evidence has emerged on the disadvantages to us in Wales of being a member of the UK in this regard. We discussed a number of projects that had benefited from this programme—'y Gwyll/Hinterland' on S4C is a prominent example. The clear conclusion, however, from the evidence, was that Wales's membership of the United Kingdom and the strength of the creative industries and media sector in the UK as a whole meant that the sector in Wales was not seen as needing assistance. We encourage the Government to give great attention to recommendation 13 and to fight Wales's corner in this area.

Ni allaf gloi heb son am y ffasgo—dyna'r gair gorau ar ei gyfer rwy'n meddwl—gyda'r rhaglenni trafnidiaeth Ewropeaidd a'r rhaglen TEN-T. Gadewch inni fod yn hollol glir ynglŷn â goblygiadau eithrio Cymru o'r coridorau rhwydwaith craidd. Gofynnodd y pwyllgor i gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd a fyddai sefyllfa Llywodraeth ranbarthol wrth geisio am gyllid yn cael ei gwanhau drwy beidio â chael mynediad at y data a'r wybodaeth o fod yn rhan o'r system coridorau, ac mi wnaeth cynrychiolydd y Comisiwn gadarnhau'n glir iawn y byddai. Y cwbl allwn ni ei wneud erbyn hyn yw gobeithio bod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o hynny er mwyn atal camgymeriad tebyg yn y dyfodol. Rydym yn cefnogi'n gryf fel plaid, felly, argymhellion 14, 15 ac 16 y pwyllgor.

Mae gennyf gwpwl o bwyntiau cyffredinol ynglŷn ag ymateb y Llywodraeth. Un peth yw derbyn neu dderbyn yn rhannol argymhellion y pwyllgor—mae'r Llywodraeth yn gwneud hynny—ond peth arall yw gweithredu ar yr argymhellion. Rwy'n gwybod—neu'n gobeithio—y bydd y Llywodraeth yn barod am graffu gofalus iawn i sicrhau ei bod yn gweithredu. Hefyd, wrth dderbyn argymhellion, mae'r Llywodraeth yn dweud nad oes goblygiadau ariannol iddynt. Byddwn i'n licio pe bai'r Llywodraeth yn dweud bod goblygiadau ariannol gan y byddai hynny'n profi ei bod o ddifrif am fuddsoddi er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfle i fuddsoddi yn ein cymunedau a buddsoddi mewn creu swyddi ac ati.

Mae fy amser ar ben, ond mae'r adroddiad hwn yn un pwysig. Ni allwn fforddio colli cyfleoedd sy'n dod allan o'r ystod eang o grantiau Ewropeaidd.

I cannot conclude without mentioning the fiasco—that is the best word for it, I think—of the European transport programmes and the TEN-T programme. Let us be quite clear on the implications of exempting Wales from the core network corridors. The committee asked a representative of the European Commission whether the position of a regional Government, in seeking funding, would be weakened by not being able to access the data and information that would be part of that corridor system and the Commission representative confirmed clearly that it would. All we can do now is to hope that the Welsh Government has learned lessons from this in order to prevent future mistakes. We, as a party, strongly support recommendations 14, 15 and 16.

I have a few general points on the Government's response. It is one thing to accept or to partially accept the committee's recommendations—the Government is doing that—but it is a totally different thing to take action as a result. I know—or I hope—that the Government will be ready for some very careful scrutiny to ensure that it does take action. Also, in accepting recommendations, the Government says that there are no financial implications to them. I would like to hear the Government saying that there are financial implications, because that would prove that it is serious about investing in order to make the most of the opportunity to invest in our own communities and in job creation and so on.

My time is at an end, but this report is an important one. We cannot afford to miss the opportunities that come from the broad range of European grants available.

15:24

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Nid wyf yn aelod o'r pwyllgor ac nid wyf yn arbenigo mewn menter a busnes, ond hwyrach bod fy mhlaidd wedi teimlo fy mod yn saffach yn siarad ar y mater hwn nag yn y ddadl ar y referendwm ac annibyniaeth i'r Alban. Dyna pam rwy'n mynd i gyfeirio at yr adroddiad heddiw. Rwy'n meddwl ei fod yn adroddiad diddorol. Mae'n adroddiad eithaf heriol o ran y Llywodraeth, o ran beth yr oedd Rhun yn ei ddweud—mae'n ddigon hawdd i Lywodraeth dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, argymhellion unrhyw bwyllgor, ond yr hyn yr ydym eisiau ei weld nŵan yw'r Llywodraeth yn gweithredu ar yr argymhellion hynny.

Rydym eisoes wedi cael digon o gyfleoedd i drafod pwysigrwydd cronfeydd strwythurol Ewrop ar nifer o achlysuron. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod gwaith y pwyllgor, a'r ddadl hon heddiw, yn rhoi cyfle o'r newydd inni edrych yn fanwl ar rai o'r manteision sy'n dilyn o aelodaeth y Deyrnas Gyfunol o'r Undeb Ewropeaidd. Hefyd, rwy'n meddwl bod nifer ohonom wedi gweld, o ran yr adroddiad hwn, ei fod yn rhoi rhyw fath o ddarlun o'r newydd.

Thank you for the opportunity to contribute to this debate today. I am not a member of the committee and I am not an expert in enterprise and business, but perhaps my party felt that it was safer for me to speak on this issue than in the debate on the referendum and independence for Scotland. That is why I am going to refer to the report today. I think that it is an interesting report. It is quite a challenging report for the Government, in terms of what Rhun was saying—it is quite easy for a Government to accept, or accept in principle, the recommendations of any committee, but what we want to see now is the Government acting on those recommendations.

We have already had enough opportunities to discuss the importance of European structural funds on a number of occasions. However, I think that the work of the committee, and this debate today, provide a new opportunity for us to look in detail at some of the benefits of the UK's membership of the European Union. Also, I think that a number of us have seen, in terms of this report, that it provides us with some sort of new picture.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to talk in particular about just a couple of the areas where, I believe, Wales has already obtained a competitive advantage or where my colleagues and I believe that there is a real chance for Wales to excel. One issue that is outlined in the committee report is the opportunities that exist for the higher education sector in particular to engage more fully in European opportunities, not only to boost their research income and innovation links, but to enrich the student experience.

From my days in local government, I remember that it was quite telling that, under the Erasmus programme, we appeared to have numbers of students from Germany and Spain coming over here to experience structures and systems in the UK, but, clearly, some of the figures that Rhun ap Iorwerth gave us earlier outline the need for Wales, perhaps, to step up to the mark. I think that one issue that is outlined in the report is that there is a need for Welsh universities to ensure that exchange programmes are marketed throughout the student body, rather than the tendency to target particular areas of study.

It is clearly the case that our students would benefit greatly by studying at foreign universities as well as by having students coming here to Wales. Courses such as languages and medicine naturally have high take-up. However, the benefits are there for students of all disciplines and need to be encouraged.

The committee heard that about 100 to 120 graduates at the European Centre for Training and Regional Co-operation in Llangollen—about five miles from where I live—are sent abroad each year. On the status of those students, six months after returning, it was noted that not a single one of them was unemployed.

The committee also asked Professor Colin Riordan of Cardiff University to describe the Welsh Government's involvement in encouraging students to study abroad. His response was that it was low. So, clearly, there is a role that the Welsh Government needs to take up, as well as the higher education institutions themselves.

Picking up on another of Rhun ap Iorwerth's themes, I think that there is an issue regarding Welsh representation in these multinational organisations. It was clearly one of the themes that we developed in our discussions with the Organisation for Economic Co-operation and Development last week. Although some of these structures are, perhaps, more closely developed, as far as the European Union is concerned—I know that there is a devolution unit in the Foreign Office that liaises on these matters—I think that there are times when we do not take full advantage of our work and experiences in certain fields.

Rwyf am siarad yn benodol am ddim ond un neu ddau o'r meysydd lle, yn fy marn i, mae Cymru eisoes wedi cael mantais gystadleuol neu, lle y mae fy nghydweithwyr a chredaf fod cyfle gwirioneddol i Gymru ragori. Un mater sy'n cael ei amlinellu yn adroddiad y pwyllgor yw'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer y sector addysg uwch yn benodol i ymwneud yn llawnach mewn cyfleoedd Ewropeaidd, nid yn unig i roi hwb i'w hincwm ymchwil a chysylltiadau arloesedd, ond er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr.

Ers fy nyddiau mewn llywodraeth leol, cofiaf ei bod yn eithaf amlwg, o dan y rhaglen Erasmus, ei bod yn ymddangos bod nifer o fyfyrwyr o'r Almaen a Sbaen yn dod yma i brofi strwythurau a systemau yn y DU, ond, yn amlwg, mae rhai o'r ffigurau a gyflwynodd Rhun ap Iorwerth i ni yn gynharach yn amlinellu'r angen i Gymru, o bosibl, i wynebu'r her. Credaf mai un mater sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad yw bod angen i brifysgolion Cymru sicrhau bod rhaglenni cyfnewid yn cael eu marchnata i'r cohort cyfan o fyfyrwyr, yn hytrach na'r duedd i dargedu meysydd astudio penodol.

Mae'n amlwg yn wir y byddai ein myfyrwyr yn elwa'n fawr trwy astudio mewn prifysgolion dramor yn ogystal â thrwy gael myfyrwyr yn dod yma i Gymru. Mae cyrsiau fel ieithoedd a meddygaeth yn naturiol yn cael llawer o geisiadau. Fodd bynnag, mae'r manteision yno ar gyfer myfyrwyr o bob disgyblaeth ac mae angen eu hannog.

Clywodd y pwyllgor fod tua 100-120 o raddedigion yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddiant a Chydweithrediad Rhanbarthol yn Llangollen—tua phum milltir o'm cartref—yn cael eu hanfon dramor bob blwyddyn. Ar statws y myfyrwyr hynny, chwe mis ar ôl dychwelyd, nodwyd nad oedd un ohonynt yn ddi-waith.

Gofynnodd y pwyllgor hefyd i'r Athro Colin Riordan o Brifysgol Caerdydd i ddisgrifio cyfranogiad Llywodraeth Cymru o ran annog myfyrwyr i astudio dramor. Ei ymateb oedd ei fod yn isel. Felly, yn amlwg, dyma rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei hysgwyddo, yn ogystal â'r sefydliadau addysg uwch eu hunain.

Gan adleisio thema arall gan Rhun ap Iorwerth, credaf fod yna fater ynglŷn â chynrychiolaeth Cymru yn y sefydliadau rhyngwladol hyn. Roedd yn amlwg yn un o'r themâu a ddatblygwyd gennym yn ein trafodaethau gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yr wythnos diwethaf. Er bod rhai o'r strwythurau hyn o bosibl wedi'u datblygu'n fwy agos, cyn belled ag y mae'r Undeb Ewropeaidd yn y cwestiwn—gwn fod uned ddatganoli yn y Swyddfa Dramor sy'n cysylltu ar y materion hyn—credaf fod adegau pan nad ydym yn manteisio i'r eithaf ar ein gwaith a'n profiadau mewn meysydd penodol.

One field that was outlined in the report was the identification of an individual in the Welsh Government operating a MEDIA Antenna for Wales that was considered to be very effective. I believe that this kind of model might work well with other specialist sectors to help them to access funding and build partnerships across Europe. For small organisations—we hear that Wales, in the main, is a collection of small and medium-sized enterprises—building cross-EU partnerships can be really difficult, and that is something where real Government support might bring opportunities. A single person is often needed to provide leadership and keep on top of every opportunity to secure cash and promote it to those who need it.

However, as others have said, I welcome this report. It is a positive contribution and gives the Government plenty of scope for thought.

15:29

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

As I said in response to the statement from the Minister for Finance on structural funds on the sixth cohesion forum yesterday, I think that we are all of us increasingly mindful that the bar to accessing EU funding is rising, and will continue to rise, as the European Union expands and resources become tighter, resulting in increasing pressure on the funding that is available.

With that in mind, I think that, looking through this report, to me, recommendation 5 goes to the heart of what the message coming from the Enterprise and Business Committee to the Welsh Government is on this, and that is about cultivating partnerships between the higher and further education sectors, business, and the third sector. That is clearly absolutely crucial.

Turning to recommendation 2, which calls for a champion within Europe, I really cannot understand why the Welsh Government has not been more positive about this. I know that the Welsh Government and the Minister says that the Government Ministers—the Cabinet—are already highly visible champions within Wales. However, if that is the case, then why do we have an older people's commissioner, why do we have a children's commissioner, and why do we have a Welsh language commissioner? Well, of course, we have them because they fulfil a different, non-political, ambassadorial role, which complements that of Ministers, and they should not be viewed as a threat to them. So, I think that it is a shame that the Welsh Government has not been a little bit more optimistic about the role that a specially designated champion could do in Brussels when it comes to obtaining EU funding.

Un maes a amlinellwyd yn yr adroddiad oedd pennu unigolyn yn Llywodraeth Cymru i weithredu MEDIA Antenna ar gyfer Cymru a ystyriwyd i fod yn effeithiol iawn. Credaf y gallai'r math hwn o fodel weithio'n dda gyda sectorau arbenigol eraill i'w helpu i gael mynediad at gyllid ac adeiladu partneriaethau ar draws Ewrop. Ar gyfer sefydliadau bachyn ôl y sôn mae Cymru, ar y cyfan, yn gasgliad o fentrau—adeiladu bach a chanolig—mae adeiladu partneriaethau ar draws yr UE yn gallu bod yn anodd iawn, ac mae hynny'n rhywbeth lle gallai gwir gefnogaeth y Llywodraeth greu cyfleoedd o bosibl. Mae angen un person yn aml i roi arweiniad ac achub ar bob cyfle er mwyn sicrhau arian a'i hyrwyddo i'r rhai sydd ei angen.

Fodd bynnag, fel y mae eraill wedi dweud, Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn. Mae'n gyfraniad cadarnhaol ac yn rhoi digon o gyfle i feddwl i'r Llywodraeth.

Fel y dywedais mewn ymateb i ddatganiad y Gweinidog Cyllid ar gronfeydd strwythurol ar y chweched fforwm cydlyniant ddoe, credaf ein bod bob un ohonom yn fwyfwy ymwybodol ei bod yn mynd yn anos cael gafael ar arian yr UE, a bydd y sefyllfa'n parhau, wrth i'r Undeb Ewropeaidd ehangu ac i adnoddau brinhau, gan arwain at gynyddu'r pwysau ar y cyllid sydd ar gael.

Gyda hynny mewn golwg, credaf wrth edrych drwy'r adroddiad hwn, fod argymhelliad 5 yn mynd at wraidd y neges sy'n dod o'r Pwyllgor Menter a Busnes i Lywodraeth Cymru ar hyn, ac mae hyn yn ymwneud â meithrin partneriaethau rhwng sectorau uwch a phellach addysg, busnes, a'r trydydd sector. Mae hynny'n amlwg yn gwbl hanfodol.

Gan droi at argymhelliad 2, sy'n galw am hyrwyddwr o fewn Ewrop, mae'n anodd iawn gen i ddeall pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn fwy cadarnhaol ynglŷn â hyn. Gwn fod Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog yn dweud bod Gweinidogion y Llywodraeth—y Cabinet—yn bencampwyr amlwg iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, os yw hynny'n wir, yna pam y mae gennym gomisiynydd i bobl hyn, pam y mae gennym gomisiynydd plant, a pham y mae gennym gomisiynydd yr iaith Gymraeg? Wel, wrth gwrs, maen nhw'n bodoli oherwydd eu bod yn cyflawni rolau gwahanol, anwleidyddol, llysgenhadol, sy'n ategu rolau Gweinidogion, ac ni ddylid eu hystyried yn fygythiad iddynt. Felly, credaf ei bod yn drueni nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod ychydig yn fwy optimistaidd am y rôl y gallai hyrwyddwr a ddynodwyd yn arbennig ei chyflawni ym Mrwsel pan ddaw yn fater o gaffael arian yr UE.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Recommendation 6 calls for a review of the representation in Wales House in Brussels, as Aled Roberts has mentioned, to improve the care with which businesses, further education, and the third sector, can access its services. I am pleased that the Welsh Government has accepted the spirit of this recommendation, which, if I was being pessimistic, I would presume was code for not carrying this recommendation forward. However, nonetheless, the spirit has been accepted. If this recommendation does not go forward, that would certainly be, in my view, a missed opportunity. Yes, the Government is right to say that there is a lot of good work that goes on in the Brussels office, but there are gaps there, and they should be filled.

I will mention Rhun ap Iorwerth's contribution earlier. I thought for a moment, Rhun, that you were not actually going to mention the corridors and the core networks, but no debate within this Chamber these days would be complete without your raising your concerns about Wales's failure to appear within that corridor. You brought back many memories of discussions about the difference between core routes and comprehensive routes and corridors, and what Wales was in and was not in. I think that what that discussion highlighted, and what this report highlights, is the need, as you mentioned, for a much greater clarity when it comes to the discussions between the Welsh Government here, the Brussels office, and the Westminster Government as well, because it was very difficult to work out exactly who had taken what decision at what time, whether that decision had been taken for the right reasons, and whether it had ever been reviewed. We never really got to the heart of that confusion, and I think that any change to the way that the system is done, and an increase in partnerships, needs to make sure that those lines of communication are a lot more established.

Recommendations 14, 15 and 16, as you say, refer to TEN-T co-ordinators, and to greater co-ordination between the co-ordinators and the Government. So, what was clear from the evidence-finding session that we undertook with this report, and, indeed, from the finished article—which I am pleased to see—is the need for much greater partnership on all sorts of levels.

The EU funding world is changing rapidly. It has changed, and it will continue to change. I think that something that has become clear over the last months and years—certainly since the last Assembly election—is that, if we stand still, then we will not be making the most of those opportunities that there are there. A lot of good work is being done—no-one is saying that it is not—but there is certainly a great deal of room for manoeuvre.

Finally, the issue of the creative industries has been mentioned, because they do seem to be the best sector for accessing the sort of innovative funding streams that are on offer from the European Union at the moment. So, I think that, if the Welsh Government and its officers can approach those EU funding opportunities in the same spirit of entrepreneurialism and creativity, then, ultimately, we will be able to get all of that funding that Wales should be getting and that I know that the Minister and Assembly Members here would want us to get over the years to come.

Mae argymhelliad 6 yn galw am adolygu'r gynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel, fel y dywedodd Aled Roberts, er mwyn gwella'r gofal y gellir ei roi i fusnesau, addysg bellach, a'r trydydd sector, wrth gael mynediad at ei wasanaethau. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ysbryd yr argymhelliad hwn, a oedd, os wyf yn bod yn besimistaidd, mi dybiwn, yn ffordd arall o ddweud nad yw'n fwriad bwrw'r argymhelliad hwn yn ei flaen. Ond, serch hynny, derbyniwyd yr ysbryd. Os na fydd yr argymhelliad hwn yn mynd yn ei flaen, byddai hynny yn fy marn i yn sicr o fod yn gyfle a fydd wedi'i golli. Ydy, mae'r Llywodraeth yn iawn i ddweud bod llawer o waith da'n mynd ymlaen yn y swyddfa ym Mrwsel, ond mae bylchau yno, a dylid eu llenwi.

Soniaf am gyfraniad Rhun ap Iorwerth yn gynharach. Roeddwn i'n meddwl am eiliad, Rhun, nad oeddech mewn gwirionedd yn mynd i sôn am y coridorau a'r rhwydweithiau craidd, ond ni fyddai'r un ddadl o fewn y Siambr hon y dyddiau hyn yn gyflawn heb i chi godi eich pryderon am fethiant Cymru i ymddangos o fewn y coridor hwnnw. Gwnaethoch ddwyn i gof lawer o atgofion am drafodaethau am y gwahaniaeth rhwng llwybrau craidd a llwybrau cynhwysfawr a choridorau, a pha rai roedd Cymru ynddynt neu fel arall. Credaf mai'r hyn a amlygodd y drafodaeth honno, a'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu, yw'r angen, fel y crybwyllwyd gennych, am lawer mwy o eglurder o ran y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru yma, swyddfa Brwsel, a Llywodraeth San Steffan hefyd, oherwydd roedd yn anodd iawn datrys pwy yn union a oedd wedi cymryd pa benderfyniad ar ba adeg, p'un a gafodd y penderfyniad hwnnw ei wneud am y rhesymau cywir, ac a gafodd erioed ei adolygu. Nid ydym byth yn dod at wraidd y dryswch, a chredaf wrth wneud unrhyw newid yn y ffordd y mae'r system yn cael ei gweithredu ac wrth gynyddu partneriaethau, fod angen gwneud yn siŵr bod y llinellau cyfathrebu hynny yn llawer mwy sefydledig.

Mae argymhellion 14, 15 a 16, fel y dywedwch, yn cyfeirio at gydlynwyr TEN-T, ac at fwy o gydlynwyr rhwng y cydlynwyr a'r Llywodraeth. Felly, yr hyn a oedd yn glir o'r sesiwn canfod tystiolaeth a gyflawnwyd gennym gyda'r adroddiad hwn, ac, yn wir, o'r erthygl orffenedig—ac rwy'n falch o'i gweld—yw'r angen am lawer mwy o bartneriaeth ar bob math o lefelau.

Mae byd cyllid yr UE yn newid yn gyflym. Mae wedi newid, a bydd yn parhau i newid. Credaf mai rhywbeth sydd wedi dod yn amlwg dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf ydyw—yn sicr ers etholiadau'r Cynulliad diwethaf—, os ydym yn sefyll yn llonydd, yna ni fyddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny sydd ar gael. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud—nid oes neb yn dweud fel arall—ond, yn sicr, mae llawer iawn o le i symud.

Yn olaf, fe godwyd mater y diwydiannau creadigol, gan ei bod yn ymddangos mai dyma'r sector gorau am sicrhau mynediad at y math o ffrydiau ariannu arloesol sy'n cael eu cynnig gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Felly, credaf, os gall Llywodraeth Cymru a'i swyddogion gael yr un agwedd tuag at gyfleoedd ariannu yr UE trwy'r un ysbryd o entrepreneuriaeth a chreadigrwydd, yna, yn y pen draw, gallwn gael yr holl arian hwnnw y dylai Cymru fod yn ei gael ac y gwn y byddai'r Gweinidog a'r Aelodau Cynulliad yma am i ni ei gael am flynyddoedd i ddod.

Like other Members, I also enjoyed reading the report of this committee, and, like other Members, I also read it alongside similar reports written by the Constitutional and Legislative Affairs Committee and also the Finance Committee. Taking all those different reports together, I think that nothing makes the case more eloquently for us recreating the European Committee that once sat in this place for us to have a more comprehensive view of all of these matters.

In reading the recommendations of the report, I have to say that I felt sometimes that some of these recommendations were there for all sorts of different reasons, but, for me, the critical recommendations were recommendations 1, 3, 4 and 6. In responding, I think that the Minister has been far more generous than perhaps I would have been in her position in responding to some of those recommendations. For me, the key recommendation is recommendation 1, not in the sense of what is written in the recommendation but in the sense of revisiting the Welsh Government strategy. The Welsh Government strategy has been established and debated in this place, and has been very warmly welcomed by this Chamber.

I will take issue with the final point made by Nick Ramsay. The funding opportunities are not changing. They have just been agreed and, over the next few years, they will be delivered. What we have to do is recognise what those structures are and work within them. To do that, I hope that the Welsh Government will invest in a strengthened WEFO, and a WEFO that is integrated into other elements of the Welsh Government's departments. There is a lack of expertise, I think, in different departments within the Government on European funding issues and a lack of experience of wider European affairs. WEFO needs to be the engine that can drive the Welsh Government in its approach to ensuring that Wales does gain from all of these opportunities.

However, gaining and winning opportunities is only the first step and only the first part of that. What we have to do then is deliver on these opportunities and deliver those funding programmes and succeed. There have been a number of debates in this place on whether we have succeeded here or there, with very predictable points made on different sides of the Chamber. I make no judgment on any of those matters. However, what is clear, and the lesson that must have been learned over the past few years, is the integration not only of the main structural funds and RDP funds, but the integration of other smaller funds as well into other programmes and into other areas of work. I know that the Minister is absolutely committed to this wider integration agenda and I hope that she will be able to ensure that that integration is something which is taken forward and which helps us deliver for the people in communities up and down Wales.

Fel Aelodau eraill, cefais innau hefyd fwynhad o ddarllen adroddiad y pwyllgor hwn, ac, fel Aelodau eraill, darllenais innau ef hefyd ochr yn ochr ag adroddiadau tebyg a ysgrifennwyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. O ystyried yr holl adroddiadau gwahanol hynny gyda'i gilydd, credaf nad oes dim yn pledio'r achos yn fwy huawdl i ni ail-greu'r Pwyllgor Ewropeaidd a fu unwaith yn eistedd yn y lle hwn i ni gael golwg fwy cynhwysfawr ar yr holl faterion hyn.

Wrth ddarllen argymhellion yr adroddiad, rhaid i mi ddweud y teimlais ar brydiau fod rhai o'r argymhellion hyn oedd yno am bob math o wahanol resymau, ond, i mi, yr argymhellion allweddol oedd argymhellion 1, 3, 4 a 6. Wrth ymateb, credaf fod y Gweinidog wedi bod yn llawer mwy hael nag efallai y byddwn i wedi bod yn ei swydd wrth ymateb i rai o'r argymhellion hynny. I mi, yr argymhelliad allweddol yw argymhelliad 1, nid yn ystyr yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn yr argymhelliad, ond yn yr ystyr o ailymweld â strategaeth Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd strategaeth Llywodraeth Cymru a chafwyd dadl arni yn y lle hwn, a rhoddwyd croeso cynnes iawn iddi gan y Siambur hon.

Rwy'n anghytuno â'r pwynt olaf a wnaed gan Nick Ramsay. Nid yw'r cyfleoedd ariannu yn newid. Maent newydd gael eu cytuno a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddant yn cael eu cyflwyno. Yr hyn mae'n rhaid i ni ei wneud yw cydnabod beth yw'r strwythurau hynny a gweithio o'u mewn. I wneud hynny, gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn WEFO gryfach, ac mewn WEFO sy'n cael ei gymathu i mewn i elfennau eraill o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae diffyg arbenigedd, mi gredaf, mewn gwahanol adrannau o fewn y Llywodraeth ar faterion cyllid Ewropeaidd a diffyg profiad o faterion Ewropeaidd ehangach. Mae angen i WEFO fod yn sbardun a all hyrwyddo Llywodraeth Cymru yn ei dull o sicrhau bod Cymru yn elwa ar bob un o'r cyfleoedd hyn.

Fodd bynnag, dim ond y cam cyntaf yw sicrhau ac ennill cyfleoedd, a dim ond y rhan gyntaf o hynny ydyw. Yr hyn mae'n rhaid i ni ei wneud wedyn yw cyflawni'r cyfleoedd hyn a darparu'r rhaglenni ariannu hynny a llwyddo. Bu nifer o ddadleuon yn y lle hwn ynghylch a ydym wedi llwyddo yma ac acw, gyda phwyntiau ystrydebol braidd yn cael eu gwneud ar wahanol ochrau'r Siambur. Nid wyf yn beirniadu dim o'r materion hynny. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir, a'r wers a gafodd ei dysgu, mae'n rhaid, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yw integreiddio, nid yn unig o'r prif Gronfeydd strwythurol a chronfeydd Cynllun Datblygu Gwledig, ond integreiddio cronfeydd llai eraill yn ogystal i mewn i raglenni eraill ac i feysydd eraill o waith. Gwn fod y Gweinidog wedi ymrwymo'n llwyr i'r agenda hon o integreiddio ehangach a gobeithio y bydd yn gallu sicrhau bod yr integreiddio hwnnw'n rhywbeth sydd yn cael ei ddatblygu ac sy'n ein helpu i gyflawni dros bobl yn ein cymunedau ar hyd a lled Cymru.

I will make a point on recommendation 2, on a funding champion. This tends to be the sort of recommendation that comes late in the afternoon when very few other recommendations are easily within grasp. I have to say that I do not believe that such a champion is either required or necessary. What is needed, and what is necessary, is a structure within Government whereby a single Minister is responsible for these matters. What we have is a fracture within Government, where there is no single ministerial responsibility. What that means is that everybody is responsible for one element, but nobody is responsible for all elements. That means that we do sometimes miss out and that sometimes we do not have the lines of accountability and the lines of management that we require. I understand the point that was made by Nick Ramsay in terms of different commissioners and others, but it is my firm belief that, if we had a single ministerial responsibility for these areas of work, then we would be able to deliver through a strengthened WEFO the sort of structure that is required.

I give way to the leader of the opposition.

Gwnaf bwynt ar argymhelliad 2, ar hyrwyddwr cyllido. Dyma'r math o argymhelliad sy'n tueddu i ddoed yn hwyr yn y prynhawn pan mai prin iawn yw'r argymhellion eraill sydd o fewn ein cyrraedd. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn credu bod hyrwyddwr o'r fath naill ai'n ofynnol nac yn angenrheidiol. Yr hyn sydd ei angen, a'r hyn sy'n angenrheidiol, yw strwythur o fewn y Llywodraeth lle rhoddir cyfrifoldeb am y materion hyn i un Gweinidog. Y sefyllfa fel y mae yw bwlch yn y Llywodraeth, lle nad oes unrhyw gyfrifoldeb gweinidogol sengl. Beth mae hynny'n ei olygu yw bod pawb yn gyfrifol am un elfen, ond does neb yn gyfrifol am bob elfen. Mae hynny'n golygu ein bod weithiau yn colli allan ac nad oes gennym bob tro'r llinellau atebolrwydd a'r llinellau rheoli sydd eu hangen arnom. Rwy'n deall y pwynt a wnaed gan Nick Ramsay ynghylch gwahanol gomisiynwyr ac eraill, ond rwy'n bendant o'r farn, pe bai gennym gyfrifoldeb gweinidogol sengl am y meysydd gwaith hyn, yna byddem yn gallu cyflawni trwy WEFO gryfach y math o strwythur sydd ei angen.

Ildiaf i arweinydd yr wrthblaid.

15:39 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

I thank the Member for Blaenau Gwent for taking an intervention. With your intimate knowledge of how the Welsh Government works, when you were within the Welsh Government did you make these representations so that that representation could be strengthened and greater accountability had within the Government, so that the process that you just outlined in your speech could have been adopted?

Diolch i'r Aelod dros Flaenau Gwent am dderbyn ymyriad. Gyda'ch gwybodaeth fanwl am weithrediaeth Llywodraeth Cymru, pan oeddech chi'n rhan o Lywodraeth Cymru wnaethoch chi gyflwyno'r sylwadau hyn fel y gellid cryfhau'r sefyllfa a chael rhagor o atebolrwydd o fewn y Llywodraeth, fel bod y broses rydych newydd ei hamlinellu yn eich araith yn gallu cael ei mabwysiadu?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:39 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Perhaps my speaking position in this Chamber indicates that I made a number of different points in Government that were not entirely welcomed. However, I would like to conclude with a point on the office in Brussels. Officials in the Brussels office do a tremendous job and we need to be grateful to them for what they do and the way in which they deliver work on behalf of Wales's institutions in Wales. However, they do need to be strengthened. It is absolutely right what was said by Mick Antoniw: there is a competitive environment in Brussels. Regions in different parts of Europe are making the investments in their presence in Europe and are upping their visibility within the institutions of the European Union. If we do not compete with those other regions, then we ourselves will be failing. It is not good enough—and I will finish on this point; I will not test your patience too much—for us to compare our representation today with our representation a decade ago. We have to compare our representation today with the representation of Catalunya, Bavaria and elsewhere and the investments that they are making. If we do not do that, and if we do not make those investments, we ourselves will be responsible for those future failures.

Efallai fod fy safle siarad yn y Siambr hon yn dangos i mi wneud nifer o wahanol bwyntiau yn y Llywodraeth na chawsant eu llwyr groesawu. Fodd bynnag, hoffwn gloi gyda phwynt ar y swyddfa ym Mrwsel. Mae swyddogion yn y swyddfa ym Mrwsel yn gwneud gwaith aruthrol ac mae angen i ni fod yn ddiolchgar iddynt am yr hyn maent yn ei wneud a'r ffordd y maent yn cyflawni gwaith ar ran sefydliadau Cymru yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen eu cryfhau. Mae'r hyn a ddywedwyd gan Mick Antoniw yn hollol gywir: mae amgylchedd cystadleuol ym Mrwsel. Mae rhanbarthau mewn gwahanol rannau o Ewrop yn gwneud y buddsoddiadau yn eu presenoldeb yn Ewrop ac yn cynyddu eu hamlygrwydd o fewn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Os na fyddwn yn cystadlu â'r rhanbarthau eraill hynny, yna byddwn ni ein hunain yn methu. Hoffwn gloi gyda'r pwynt hwn; nid wyf am darfu ymhellach ar eich amynedd. Nid yw'n ddigon da i ni gymharu ein cynrychiolaeth heddiw gyda'n chynrychiolaeth ddegawd yn ôl. Mae'n rhaid i ni gymharu ein cynrychiolaeth heddiw â chynrychiolaeth Catalunya, Bafaria a manau eraill a'r buddsoddiadau y maent hwy yn eu gwneud. Os nad wnawn ni hynny, ac os na wnawn ni'r buddsoddiadau hynny, ni ein hunain fydd yn gyfrifol am y methiannau hynny yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:40 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Finance and Government Business to speak—Jane Hutt.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i siarad—Jane Hutt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, acting Presiding Officer. I would like to thank the members of the Enterprise and Business Committee for their report on EU funding opportunities 2014-2020 because the Welsh Government clearly welcomes this report and supports the motion. The European Union is a vitally important investment partner for Wales and, of course, the funding programmes described in your report alongside the structural funds, Horizon 2020 and the common agricultural policy combine with the Welsh Government's funds and other investments to multiply the impact on Wales's economy.

EU funds currently bring well over £0.5 billion a year into the Welsh economy. They contribute to the achievement of the EU's goals for growth and jobs described in the Europe 2020 strategy and those, of course, complement our own programme for government. So, as William Graham, the Chair of the committee, has said, we have provided detailed written responses to each of the committee's 16 recommendations and we are happy to accept them all. It is not about 'in part' and 'in principle'; it is about how we deliver them and work to implement them together, clearly acknowledging the importance of this report.

Our work on structural funds and rural development, and that integration, are key. Alun Davies has made that point very clearly. Very specific funding allocations, worth billions of pounds, guaranteed to Wales, are being accompanied by our efforts to maximise other EU funding opportunities. So, we have been successful in accessing funds—and you have recognised that in your report—from the centrally managed EU programmes. Our performance has been strong in many areas, but, of course, we always aim to improve.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes am eu hadroddiad ar gyfleoedd ariannu'r UE 2014-2020 gan fod Llywodraeth Cymru yn amlwg yn croesawu'r adroddiad hwn ac yn cefnogi'r cynnig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn bartner buddsoddi hanfodol bwysig i Gymru ac, wrth gwrs, mae'r rhaglenni ariannu a ddisgrifir yn eich adroddiad ochr yn ochr â'r cronfeydd strwythurol, Horizon 2020 a'r polisi amaethyddol cyffredin yn cyfuno â chronfeydd Llywodraeth Cymru a buddsoddiadau eraill i luosi'r effaith ar economi Cymru.

Ar hyn o bryd, mae cronfeydd yr UE yn cyfrannu ymhell dros £0.5 biliwn y flwyddyn i economi Cymru. Maent yn cyfrannu at gyflawni amcanion yr UE ar gyfer twf a swyddi a ddisgrifir yn strategaeth Ewrop 2020 ac mae'r rheini, wrth gwrs, yn ategu ein rhaglen lywodraethu ni. Felly, fel y mae William Graham, Cadeirydd y pwyllgor, wedi dweud, rydym wedi darparu ymatebion ysgrifenedig manwl i bob un o 16 o argymhellion y pwyllgor ac rydym yn hapus i dderbyn pob un ohonynt. Nid yw'n fater o 'yn rhannol' ac 'mewn egwyddor'; mae'n ymwneud â sut rydym yn eu cyflawni ac yn gweithio i'w gweithredu gyda'n gilydd, gan gydnabod yn glir bwysigrwydd yr adroddiad hwn.

Mae ein gwaith ar gronfeydd strwythurol a datblygu gwledig, a'r integreiddio hwnnw, yn allweddol. Mae Alun Davies wedi gwneud y pwynt hwnnw'n glir iawn. Law yn llaw â dyraniadau cyllid penodol iawn, gwerth biliynau o bunnoedd, sydd wedi eu gwarantu i Gymru, mae ein hymdrechion i wneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu eraill yr UE. Felly, rydym wedi llwyddo i gael gafael ar arian—ac rydych wedi cydnabod hynny yn eich adroddiad—o raglenni'r UE a reolir yn ganolog. Mae ein perfformiad wedi bod yn gryf mewn llawer o feysydd, ond, wrth gwrs, rydym yn ceisio gwella o hyd.

So, I think that, in many cases, on the funding opportunities that have been exploited in Wales for some time, strong efforts have been made to raise awareness of these opportunities. I think that our response to the report recognises that we need to continually commit ourselves to raising awareness of these funding streams. I think that Mick Antoniw highlighted the depth and breadth of the new opportunities that this report and its recommendations bring and the strong clear steer for me as Minister. I think that providing advocacy for the numerous strands of EU funding is a vital function and, of course, the committee and we have already debated and made points about establishing an EU funding champion as one way of providing a focus across this range of funding streams. I do welcome the call from the committee and the support for championing EU funds. I think that it is a clear call for leadership and focus to maximise understanding and awareness of EU funding in Wales, but I think that Members will recall that I assumed the responsibility for much of European funding back in March last year, in line with a clear recommendation from the Guilford review. That review stated that finance should have that overarching strategic role in terms of the European structural funds. That has been welcomed across the board. It has certainly been welcomed by the Commission in Brussels. I do intend to heighten this profile, and I think that William Graham talked about pace, culture and commitment, to demonstrate to you and to this Assembly that I will be making a difference. I did so, I believe, last week at the sixth cohesion forum and I was able to give a statement about this yesterday. That is a key forum on using EU funding to invest in jobs and growth. It is very much in line with the spirit of the committee's recommendation that I was able to be there on behalf of Welsh Ministers, meeting other Ministers for finance who also had the same responsibilities.

I believe that I need now to take this further by working with key partners in the public, private and third sectors to see how we can continue to strengthen that leadership, not just from within Government, but also in partnership. I will report back to the Assembly on this shortly.

In our draft operational plans for the next phase of programmes, we have been clear that projects supported by other EU funding programmes, Horizon 2020, Erasmus+ or Connecting Europe, should, where appropriate, complement and reinforce our structural funds investments. If you look at Welsh Government activity in the funding areas outlined by the committee report, you will see that they are extensive, and, in many cases, long-standing. It is important that we look at—and, indeed, Alun Davies drew our attention to it—recommendation 1 on our annual report on EU-related matters, together with the work programme that outlines our priorities for the year ahead. This is our opportunity and your opportunity to take stock of milestones and outcomes.

Felly, credaf, mewn llawer o achosion, mewn perthynas â'r cyfleoedd cyllido y mae Cymru wedi bod yn manteisio arnynt ers cryn amser, fod ymdrechion cadarn wedi'u gwneud i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn. Credaf fod ein hymateb i'r adroddiad yn cydnabod bod angen i ni ymrwymo'n barhaus i godi ymwybyddiaeth o'r ffrydiau ariannu hyn. Credaf i Mick Antoniw bwysleisio hyd a lled y cyfleoedd newydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a'i argymhellion a'r arweiniad clir cryf i mi fel Gweinidog. Rwy'n credu bod darparu eiriolaeth ar ran llinynnau niferus cyllid yr UE yn swyddogaeth hanfodol ac, wrth gwrs, mae'r pwyllgor a ninnau eisoes wedi trafod a gwneud pwyntiau am sefydlu hyrwyddwr cyllid yr UE fel un ffordd o ddarparu ffocws ar draws yr ystod hon o ffrydiau ariannu. Rwy'n croesawu'r alwad gan y pwyllgor a'r gefnogaeth i hyrwyddo cronfeydd yr UE. Rwy'n meddwl ei bod yn alwad glir am arweinyddiaeth a ffocws i sicrhau'r ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth orau bosibl o gyllid yr UE yng Nghymru, ond rwy'n meddwl y bydd Aelodau'n cofio imi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am lawer o arian Ewropeaidd yn ôl ym mis Mawrth y llynedd, yn unol ag argymhelliad clir gan adolygiad Guilford. Roedd yr adolygiad hwnnw'n datgan y dylai cyllid gael y rôl strategol drosfwaol honno o ran y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Mae hynny wedi cael ei groesawu gan bawb. Mae'n sicr wedi cael ei groesawu gan y Comisiwn ym Mrwsel. Rwy'n bwriadu codi'r proffil hwn, a chredaf i William Graham sôn am gyflymder, diwylliant ac ymrwymiad, i ddangos i chi ac i'r Cynulliad hwn y byddaf yn gwneud gwahaniaeth. Credaf i mi wneud hynny yr wythnos diwethaf yn y chweched fforwm cydlyniant a bu modd i mi roi datganiad am hyn ddoe. Mae hwnnw'n fforwm allweddol ar ddefnyddio arian yr UE i fuddsoddi mewn swyddi a thwf. Mae'n cyd-fynd yn agos ag ysbryd argymhelliad y pwyllgor fy mod wedi gallu bod yno ar ran Gweinidogion Cymru, yn cyfarfod â Gweinidogion cyllid eraill a oedd â'r un cyfrifoldebau hefyd.

Credaf fod angen i mi yn awr fynd â hyn ymhellach drwy weithio gyda phartneriaid allweddol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector er mwyn gweld sut y gallwn barhau i gryfhau'r arweinyddiaeth honno, nid yn unig o'r tu mewn i'r Llywodraeth, ond hefyd mewn partneriaeth. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar hyn yn fuan.

Yn ein cynlluniau gweithredol drafft ar gyfer y cyfnod nesaf o raglenni, rydym wedi pwysleisio y dylai prosiectau a gefnogir gan raglenni ariannu eraill yr UE, Horizon 2020, Erasmus+ neu Cysylltu Ewrop, lle y bo'n briodol, ategu ac atgyfnerthu ein buddsoddiadau cronfeydd strwythurol. Os edrychwch ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn y meysydd cyllid a amlinellir gan adroddiad y pwyllgor, fe welwch eu bod yn helaeth, ac, mewn llawer o achosion, yn hirsefydledig. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar—ac, yn wir, tynnodd Alun Davies ein sylw ato—argymhelliad 1 ar ein hadroddiad blynyddol ar faterion sy'n gysylltiedig â'r UE, ynghyd â'r rhaglen waith sy'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyma ein cyfle ni a'ch cyfle chi i bwysu a mesur cerrig milltir a chanlyniadau.

Let us look for a moment at some of those funding areas from our work programme from the past year. In education, the Welsh Government has been engaging with a wide range of partners interested in Erasmus+ through the Welsh advisory group. I am very glad that the committee recommended clearer guidance for HEIs, and Aled Roberts gave clear examples of the impact on students from Llangollen who have grasped the opportunity and who have gone abroad as a result of being supported by HEIs. Nick Ramsay also mentioned FEIs and the role that they can play, as well. We must ensure that our students in Wales benefit from Erasmus in this way.

The new territorial co-operation strategy for Wales will set out a vision to strengthen engagement across all European territorial co-operation programmes in which we are eligible to participate. On the economic development and transport links to support jobs and growth, we are working very closely with the European Commission and with the Irish and UK Governments to maximise the opportunities for Connecting Europe. In respect of Rhun ap Iorwerth's interests in and concerns on this matter, I can assure him—and I know that Rhun is well aware—that Wales has been and remains an integral part of the multistate consortium that has benefited from TEN-T funding under the 2007-13 tranche, to deploy intelligent transport systems on our strategic road network.

We are also working with the EU's Creative Europe programme committee to ensure that Wales is not disadvantaged in this sector. We are helping, as well, in other EU funding, such as Equity Action, which is the EU-funded joint action on health inequalities.

The importance of this report is that it has demonstrated the breadth of our engagement. It is, in terms of EU youth and education projects, looking at linguistic diversity, mobility, credit and qualification frameworks, which are crucial. There are also networks, such as the renewable energy regions network and digital networks for business. However, to look at monitoring, which is key for your role and for me to report back to you, Erasmus sent 709 students and 127 academic staff from Wales abroad in 2012-13.

I believe, in response to recommendation 6, that we are now working more closely together. Since I have taken on this ministerial role, I have now worked with Wales House to bring together all the sectoral interests there. At my meetings last week, I was able to talk to representatives from local government, and that reflects on your recommendations about those wider connections. Also, we have a representative from the Welsh Government's trade and investment team based in Wales House, looking into ways in which the third sector as well as business can be involved.

Gadewch inni edrych am eiliad ar rai o'r meysydd cyllid hynny o'n rhaglen waith dros y flwyddyn ddiwethaf. Ym maes addysg, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid sydd â diddordeb mewn Erasmus+ drwy'r grŵp cyngori Cymru. Rwy'n falch iawn bod y pwyllgor yn argymhellu canllawiau cliriach ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch, a rhoddodd Aled Roberts enghreifftiau clir o'r effaith ar fyfyrwyr o Langollen sydd wedi manteisio ar y cyfle ac sydd wedi mynd dramor o ganlyniad i gael eu cefnogi gan Sefydliadau Addysg Uwch. Soniodd Nick Ramsay am Sefydliadau Addysg Bellach hefyd a'r rôl y gallant ei chwarae, yn ogystal. Rhaid inni sicrhau bod ein myfyrwyr yng Nghymru yn elwa ar Erasmus fel hyn.

Bydd strategaeth cydweithio tiriogaethol newydd Cymru yn nodi gweledigaeth i gryfhau ymgysylltiad ar draws yr holl raglenni cydweithio tiriogaethol Ewropeaidd rydym yn gymwys i gymryd rhan ynddynt. Yn achos datblygu economaidd a chysylltiadau trafniadaeth i gefnogi swyddi a thwf, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a chyda Llywodraethau Iwerddon a'r DU er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer Cysylltu Ewrop. O ran buddiannau a phryderon Rhun ap Iorwerth mewn perthynas â'r mater hwn, gallaf ei sicrhau—a gwn fod Rhun yn ymwybodol iawn—bod Cymru wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan annatod o'r consortiwm amlwladwriaeth sydd wedi elwa ar gyllid TEN-T o dan y gyfran 2007-13, i ddefnyddio systemau trafniadaeth deallus ar ein rhwydwaith ffyrdd strategol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phwyllgor rhaglen Ewrop Greadigol yr UE i sicrhau nad yw Cymru dan anfantais yn yr sector hwn. Rydym yn helpu, yn ogystal, yng nghyllid arall yr UE, megis Equity Action, sef y rhaglen gydweithredu ar anghydraddoldebau iechyd a ariennir gan yr UE.

Pwysigrwydd yr adroddiad hwn yw ei fod wedi dangos hyd a lled ein hymgylltiad. O ran prosiectau ieuencid ac addysg yr UE, mae'n edrych ar amrywiaeth ieithyddol, symudedd, fframweithiau credydau a chymwysterau ieithyddol, sy'n hollbwysig. Mae rhwydweithiau hefyd, fel y rhwydwaith rhanbarthau ynni adnewyddadwy a'r rhwydweithiau digidol ar gyfer busnesau. Fodd bynnag, i edrych ar fonitro, sy'n allweddol ar gyfer eich rôl ac er mwyn i mi adrodd yn ôl i chi, anfonodd Erasmus 709 o fyfyrwyr a 127 o staff academiaidd o Gymru dramor yn 2012-13.

Credaf, mewn ymateb i argymhelliad 6, ein bod yn cydweithio'n agosach bellach. Ers i mi gymryd y rôl weinidogol hon, rwyf bellach wedi gweithio gyda Thŷ Cymru i ddwyn ynghyd yr holl fuddiannau sectoraidd yno. Yn fy nghyfarfodydd yr wythnos diwethaf, cefais gyfle i siarad â chynrychiolwyr llywodraeth leol, ac mae hynny'n adlewyrchu ar eich argymhellion am y cysylltiadau ehangach hynny. Hefyd, mae gennym gynrychiolydd o dim masnach a buddsoddi Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Cymru, yn edrych ar ffyrdd o gynnwys y trydydd sector yn ogystal â busnes.

Finally, there is one extra development that I hope that the committee and the Assembly will welcome: I now believe that the Welsh Government, following the publication of our annual report on EU matters, should table a motion for debate each year to report on progress and to enhance the opportunity for scrutiny and discussion.

Yn olaf, mae un datblygiad ychwanegol rwyf yn gobeithio y bydd y pwyllgor a'r Cynulliad yn ei groesawu: rwyf bellach o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru, yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar faterion yr UE, gyflwyno cynnig i'w drafod bob blwyddyn i adrodd ar gynnydd ac i wella'r cyfle i graffu a thrafod.

15:49 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to reply to the debate, William Graham.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i ymateb i'r ddatl, William Graham.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:49 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In our debate this afternoon, I am most grateful to those Members who have contributed, particularly those who are not members of the committee, as it gives us a wider grasp of what people are thinking and of their own particular experiences in this field.

Yn ein dadl y prynhawn yma, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Aelodau hynny sydd wedi cyfrannu, yn enwedig y rhai nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor, gan ei fod yn rhoi darlun ehangach i ni o'r hyn y mae pobl yn ei feddwl a'u profiadau penodol nhw eu hunain yn y maes hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mick Antoniw kindly reminded us of the understanding of the varied areas of funding and of the necessity to support partnerships. He also touched on—something that is not part of our report, but which is equally valid—the nature of European politics. It is often very different to ours, and it is important to have an adequate presence in those committees to make sure that Wales receives its right amount of money under the various programmes. He reiterated that all our programmes are necessary and that we do not seem to be seizing all the opportunities that might be available. Once again, he made us aware of intense and increasing competition.

Bu Mick Antoniw cystal â'n hatgoffa o'r ddealltwriaeth o'r meysydd amrywiol o gyllid ac o'r angen i gefnogi partneriaethau. Hefyd, cyffyrddodd ar—rywbeth nad yw'n rhan o'n hadroddiad, ond sydd yr un mor ddilys—natur gwleidyddiaeth Ewropeaidd. Mae'n wahanol iawn i'n gwleidyddiaeth ni yn aml, ac mae'n bwysig cael presenoldeb digonol yn y pwyllgorau hynny i wneud yn siŵr bod Cymru'n cael y swm cywir o arian o dan y gwahanol raglenni. Ailadroddodd fod ein holl raglenni yn angenrheidiol ac nad ydym fel pe baem yn achub ar yr holl gyfleoedd a allai fod ar gael. Unwaith eto, mae wedi ein gwneud ni yn ymwybodol o gystadleuaeth ddwys a chynyddol.

Rhun ap Iorwerth once again reminded us of the proactive need to identify valid themes, and he was supportive, as is the committee, of the creation of new bodies to champion the availability of these funds and to make sure that our people are there at the right committees and at the right times. Representation, we feel, could be greatly improved, and Rhun also mentioned that there had been many missed opportunities, referring to TEN-T, the trans-European transport networks. I note this afternoon a report from Welsh ports suggesting that this apply to Cardiff, Fishguard, Holyhead, Milford Haven, Newport and Port Talbot, and I still hope that some bids may be made under that particular programme.

Atgoffodd Rhun ap Iorwerth ni unwaith eto o'r angen rhagweithiol i nodi themâu dilys, ac roedd o blaid, fel y mae'r pwyllgor, creu cyrff newydd i hyrwyddo argaeledd y cronfeydd hyn ac i sicrhau bod ein pobl yno ar y pwyllgorau cywir ac ar yr adegau cywir. Gallai cynrychiolaeth, yn ein barn ni, gael ei gwella'n sylweddol, a soniodd Rhun hefyd fod llawer o gyfleoedd wedi eu colli, gan gyfeirio at TEN-T, y rhwydweithiau trafnidiaeth traws-Ewropeaidd. Nodaf y prynhawn yma adroddiad gan borthladdoedd Cymru yn awgrymu bod hyn yn berthnasol i Gaerdydd, Abergwaun, Caerdybi, Aberdaugleddau, Casnewydd a Phort Talbot, ac rwy'n dal i obeithio y gall rhai ceisiadau gael eu gwneud o dan y rhaglen benodol honno.

Aled Roberts reminded us of the vital importance of the higher education sector, particularly research and innovation, and made a point about student experience. He will know from our report that we greatly value our interaction with students at Cardiff University and Cardiff Metropolitan University. That was a most interesting and revealing part of our planning for this report.

Atgoffodd Aled Roberts ni o bwysigrwydd hanfodol y sector addysg uwch, yn enwedig ymchwil ac arloesi, a soniodd am brofiad myfyrwyr. Bydd yn gwybod o'n hadroddiad ein bod yn gwerthfawrogi'n fawr y rhyngweithio sydd rhyngom a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd yr elfen hon yn rhan ddiddorol a dadlennol tu hwnt o'n gwaith cynllunio ar gyfer yr adroddiad hwn.

Nick Ramsay again reminded us of the expansion of the EU and the competition for funding resources, albeit from budgets that are already agreed. He kindly supported our plea for an EU champion.

Atgoffodd Nick Ramsay ni unwaith eto o'r ffaith fod yr UE yn ehangu a'r gystadleuaeth am adnoddau cyllido, er o gyflidebau sydd eisoes wedi eu cytuno. Bu'n ddigon caredig i gefnogi ein cais am hyrwyddwr yr UE.

Alun Davies kindly reminded us of recommendations 1, 3, 4 and 6 as being so important in our particular report and of the fact that it is necessary to work within existing structures. He rightly pointed out that we would be circumscribed by the already-agreed European Commission budgets.

I note that the First Minister has now joined us, and it is a pity that he was not present when Alun Davies was making a plea for yet another new Cabinet member, this time to be particularly for Europe. As the Chair of the committee, I would not dare suggest who that might be. However, Alun very correctly reminded us that non-accession states do not get the full benefit of much of what is on offer from the European Commission. I concur with him in offering our gratitude and praise for the staff of the Brussels office, who have done tremendous things over the past few years.

Clearly, cultural collaboration across programmes is vital. The national transport plan and territorial co-operation remain an integral part of this, as is the use of all programme budgets. The Welsh Local Government Association, the Welsh European Funding Office and the Wales Council for Voluntary Action have regional support teams, and they require recognition and support. It is very necessary for our universities to engage and to be able to enhance the moneys that are available from the European Union, and I make the final plea in terms of the funding champion yet again.

We are most grateful to the Minister for her support for the majority of our recommendations. She is quite right to say that we must exploit thoroughly and be aware of opportunities. She has already started this in terms of her representation at the sixth cohesion forum, and we are grateful to her for all the work that she does there. It is true that there must be breadth in engagement, and we are grateful to her for undertaking this afternoon to report back to Plenary on what will, hopefully, be her success, and also to put forward a debate during which all these items can once again be properly aired for the benefit of the people of Wales.

15:53

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:54.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Refferendwm yr Alban

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enwau Jane Hutt ac Aled Roberts.

Bu Alun Davies cystal â'n hatgoffa bod argymhellion 1, 3, 4 a 6 mor bwysig yn ein hadroddiad penodol ac o'r ffaith fod rhaid gweithio o fewn y strwythurau sy'n bodoli'n barod. Roedd yn llygad ei le wrth ddweud y byddem yn cael ein cyfyngu gan gyllidebau'r Comisiwn Ewropeaidd y cytunwyd arnynt eisoes.

Nodaf fod y Prif Weinidog bellach wedi ymuno â ni, ac mae'n drueni nad oedd yn bresennol pan oedd Alun Davies yn galw am aelod Cabinet newydd arall, un penodol ar gyfer Ewrop y tro hwn. Fel Cadeirydd y pwyllgor, ni fyddwn yn meiddio awgrymu pwy y gallai hwnnw fod. Fodd bynnag, roedd Alun yn hollol gywir i'n hatgoffa nad yw gwladwriaethau sydd heb eu derbyn yn cael budd llawn llawer o'r hyn sydd ar gael gan y Comisiwn Ewropeaidd. Rwy'n cytuno ag ef o ran cynnig ein diolch a'n canmoliaeth i staff y swyddfa ym Mrwsel, sydd wedi gwneud pethau aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn amlwg, mae cydweithredu diwylliannol ar draws rhaglenni yn hanfodol. Mae'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol a chydweithio tiriogaethol yn parhau i fod yn rhan annatod o hyn, felly hefyd y defnydd o gyllideb pob rhaglen. Mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru dimau cymorth rhanbarthol, ac maent angen cydnabyddiaeth a chefnogaeth arnynt. Mae'n angenrheidiol iawn i'n prifysgolion ymgysylltu ac i allu cynyddu'r arian sydd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n gwneud y cais olaf am hyrwyddwr ariannu unwaith eto.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei chefnogaeth i'r rhan fwyaf o'n hargymhellion. Mae hi yn llygad ei lle i ddweud bod yn rhaid i ni fanteisio'n llawn arnynt a bod yn ymwybodol o gyfleoedd. Mae hi eisoes wedi bwrw'r maen i'r wal o ran ei chynrychiolaeth yn y chweched fforwm cydlyniant, ac rydym yn ddiolchgar iddi am yr holl waith y mae'n ei wneud yno. Mae'n wir fod yn rhaid ymgysylltu'n eang, ac rydym yn ddiolchgar iddi am fynd ati y prynhawn yma i adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn ar yr hyn a fydd, gobeithio, yn llwyddiant iddi, a hefyd i gynnig dadl pan fydd modd i'r holl eitemau hyn gael eu gwyntyllu'n briodol unwaith eto er lles pobl Cymru.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:54.

Welsh Conservatives Debate: The Scottish Referendum

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones and amendment 2 in the names of Jane Hutt and Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Suzy Davies to move the motion.

Galwaf ar Suzy Davies i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5565 Paul Davies

Motion NDM5565 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd ac y dylai'r Alban ddewis i aros yn y DU ar 18 Medi 2014.

Believes that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are better together and that Scotland should choose to remain in the UK on 18 September 2014.

15:54

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cyflwynaf y cynnig.

Historic constitutional shifts result in exciting times, and tomorrow's vote may produce the biggest shift in these isles since 1922. The Scottish referendum vote offers not just the prospect of a new constitution, whichever way the vote goes, but the possibility of a new identity for 64 million people. Perhaps it is that that accounts for the passion of both campaigns in Scotland.

Mae newidiadau cyfansoddiadol hanesyddol yn arwain at gyfnodau cyffrous, ac mae'n bosibl y gallai'r bleidlais yfory esgor ar y newid mwyaf yn yr ynysoedd hyn ers 1922. Mae pleidlais refferendwm yr Alban yn cynnig nid yn unig y posibilrwydd o gyfansoddiad newydd, beth bynnag fydd canlyniad y bleidlais, ond y posibilrwydd o hunaniaeth newydd i 64 miliwn o bobl. Efallai mai hynny sydd wrth wraidd angerdd y ddwy ymgyrch yn yr Alban.

Before I move on, I just want to say how sorry I am that some of that passion may have led to the use of some heated language on the part of some campaigners, which risks, in my opinion, leaving a lasting mark on the relationship between Scots. I think that it has been unfortunate to say the least that, when people in Ukraine, Gaza and Syria are caught up in civil wars and acts of terrorism, elements north of the border thought it appropriate to characterise our union as an instrument of slavery and oppression. What is distant past is distant past, and we would be more sensitive to remember that some countries now are still facing such horrors.

Cyn i mi symud ymlaen, hoffwn ddweud pa mor flin ydwyf efallai fod rhywfaint o'r angerdd hwnnw wedi arwain at y defnydd o beth iaith fflamychol gan rai ymgyrchwyr, a gallai hynny, yn fy marn i, adael craith barhaol ar y berthynas rhwng Albanwyr. Credaf ei fod yn anffodus a dweud y lleiaf, pan mae pobl yn yr Wcráin, Gaza a Syria yng nghanol rhyfeloedd sifil a therfysgaeth, fod rhai elfennau ar ochr ogleddol y ffin yn meddwl ei bod yn briodol portreadu ein hundeb fel offeryn caethwasiaeth a gorthrwm. Y gorffennol pell yw'r gorffennol pell, a byddem yn fwy sensitif i gofio bod rhai gwledydd yn dal i wynebu erchyllterau o'r fath heddiw.

I think that there have been some strong economic arguments to support the proposition that the four constituent nations of the UK are better together. Other Members will be talking about them today, and I am sure that they will be facing challenges on their position. I do not accept that it is impossible for Scotland to stand alone as an independent state, but no-one really knows how painful and prolonged the separation process would be, how healthy the new state or how damaged the remainder. The one certainty that we do have is that all four nations stand to gain from the stability and growth in the UK economy. I wonder whether Scots who went through that great recession with the rest of us would now choose not to share in those improved fortunes, which they have helped to bring about.

Credaf y bu rhai dadleuon economaidd cryf i gefnogi'r cynnig bod pedair gwlad gyfansoddol y DU yn well gyda'i gilydd. Bydd Aelodau eraill yn siarad amdanynt heddiw, ac rwy'n siŵr y bydd eu safbwyntiau'n cael eu herio. Nid wyf yn derbyn ei bod yn amhosibl i'r Alban sefyll ar ei phen ei hun fel gwladwriaeth annibynnol, ond nid oes neb yn gwybod yn iawn pa mor boenus a hir y byddai'r broses wahanu, pa mor iach y byddai'r wladwriaeth newydd neu faint o niwed y byddai wedi ei wneud i'r hyn sy'n weddill. Yr un peth a wyddom yn sicr yw y byddai'r pedair gwlad ar sefydlogrwydd a thwf yn economi'r DU. Tybed a fyddai Albanwyr a aeth drwy'r dirwasgiad mawr hwnnw gyda'r gweddill ohonom bellach yn dewis peidio â rhannu yn y ffyniant newydd hwn, ffyniant y gwnaethant helpu i'w sicrhau?

In terms of world influence, surely there is something to be said for a unified presence. Our leader, Andrew R.T. Davies, spoke yesterday about the value of the NATO conference to the profile of Wales, something which was echoed today by the Minister for the economy. I hope that other Members will take this opportunity to share their ideas about the legacy of the NATO conference, but also to question whether a diminished United Kingdom would be able to command the confidence to fulfil global responsibilities—for peacekeeping, for example.

O ran dylanwad ar y byd, mae'n siŵr bod rhywbeth i'w ddweud dros bresenoldeb unedig. Bu'n harweinydd, Andrew RT Davies, yn siarad ddoe am werth y gynhadledd NATO i broffil Cymru, rhywbeth a gafodd ei adleisio heddiw gan Weinidog yr economi. Rwy'n gobeithio y bydd Aelodau eraill yn manteisio ar y cyfle hwn i rannu eu syniadau am effaith hirdymor y gynhadledd NATO, ond hefyd i gwestiynu a fyddai Teyrnas Unedig llai o faint yn gallu ennyn yr hyder i gyflawni cyfrifoldebau byd-eang—dros gadw heddwch, er enghraifft.

However, I wanted to talk about something else today, and that goes back to my opening remarks about identity. Devolution has meant that our pride in being Welsh has been matched by a confidence in our nationhood, our right to be heard as a nation, and our conviction that we can do much as a nation. Even if I may grumble that some of our citizens might still be making Assembly election decisions based on the justifications and prejudices that make it the comfort blanket that is the past, there is a certainty that those decisions are made in Wales and made for Wales. They do not have to reflect the past or, indeed, present decisions made in Westminster.

Dissatisfaction with the function and balance of the relationship with successive Westminster Governments was part of the reason behind the votes in 1979 and 1997. The right response to those devolution questions was devolution itself rather than independence, for many reasons, but for this one in particular. Putting to one side the tensions about the pace of devolution and party politics, it brought shape and form to what it means to be a Welshman or Welshwoman, both at a personal and a population level, without taking away that part of us that we call British, whatever that might mean to us personally.

For months now, the economic benefits and the disadvantages of being British and being part of the state as currently constituted have been mulled over, talked through and ultimately thrown around in a fireworks display of noisy but momentary illumination, which excites but ultimately resolves in darkness. The people of Scotland have been treated to a blinding spectacle of competing and compelling passions, opinions and extrapolations, yet there are very few certainties that anyone can say constitute a guiding light. In the absence of such a light to inform pragmatism, it is not surprising that more visceral and even emotional attachments to the principles of either home rule or status quo, based on patriotism and identity, have come to fill that vacuum. I think that it is important to recognise that, because no amount of dispassionate logic applied to the question of, say, currency union or an NHS budget will overcome a person's view of themselves and their place in the world. Identity is deeply personal. It is the prospect of a change in that identity that is motivating what looks like being a huge turnout at the election on Thursday.

The irony is that it seems that it could be the 'Don't knows' who actually make that decision in Scotland. They will be making a decision for us in Wales, too. For some, of course, devolution in Wales is developing too slowly or too quickly. Others are comfortable with the pace of change. Politicians and commentators may bicker about what Ithaca looks like and how far away it is, but it is the people of Wales who are taking the journey, and they should walk it willingly.

Fodd bynnag, roeddwn am siarad am rywbeth arall heddiw, ac mae hynny'n mynd yn ôl at fy sylwadau agoriadol am hunaniaeth. Mae datganoli wedi golygu bod ein balchder yn ein Cymreictod bellach yn cyd-fynd â hyder yn ein cenedligrwydd, ein hawl i gael ein clywed fel cenedl, a'n hargyhoeddiad y gallwn wneud llawer fel cenedl. Hyd yn oed os ydwyf yn grwgnach fod rhai o'n dinasyddion o bosibl yn parhau i wneud penderfyniadau adeg etholiadau'r Cynulliad sy'n seiliedig ar y rhesymau a rhagfarnau sy'n ei wneud yn flanced gysur y gorffennol, ceir sicrwydd bod y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud yng Nghymru ac ar gyfer Cymru. Nid oes rhaid iddynt adlewyrchu penderfyniadau'r gorffennol nac, yn wir, y presennol yn San Steffan.

Anfodlonrwydd â swyddogaeth a chydbwysedd y berthynas â Llywodraethau olynol San Steffan a oedd yn rhan o'r rheswm wrth wraidd y pleidleisiau ym 1979 a 1997. Yr ymateb cywir i'r cwestiynau datganoli hynny oedd datganoli ei hun yn hytrach nag annibyniaeth, am nifer o resymau, ond am y rheswm hwn yn arbennig. Gan roi i'r neilltu densiynau am gyflymder datganoli a gwleidyddiaeth plaid, rhoddodd siâp a ffurf i'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu'n Gymraes, ar lefel bersonol ac ar lefel poblogaeth, heb gymryd i ffwrdd y rhan honno ohonom rydym yn ei galw'n Brydeinig, beth bynnag y mae hynny'n ei olygu i ni yn bersonol.

Ers misoedd bellach, mae manteision economaidd ac anfanteision bod yn Brydeinig a bod yn rhan o'r wladwriaeth fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd wedi bod yn destun cnoi cil, yn destun trafod ac, yn y pen draw, wedi cael eu taflu o amgylch mewn arddangosfa tân gwyllt o olau swnlyd ond byrhoedlog, sy'n cyffroi ond yn gadael dim ond tywyllwch yn y diwedd. Mae pobl yr Alban wedi cael eu dallu gan sioe syfrdanol o ddadleuon, safbwyntiau a thybiaethau cyferbyniol a chymhellol, ac eto ychydig iawn o bethau a wyddom yn sicr y gall unrhyw un ddweud sy'n gyfystyr â golau i'n harwain drwy'r tywyllwch. Yn absenoldeb golau o'r fath i lywio pragmatiaeth, nid yw'n syndod bod clymau mwy angerddol a hyd yn oed emosiynol i egwyddorion naill ai ymreolaeth neu'r status quo, yn seiliedig ar wladgarwch a hunaniaeth, wedi dod i lenwi'r gwactod hwnnw. Credaf ei bod yn bwysig cydnabod hynny, oherwydd ni fydd cymhwyso pa faint bynnag o resymeg ddiuedd i'r cwestiwn o, er enghraifft, undeb ariannol neu gyllideb y GIG, yn drech na sut mae rhywun yn gweld ei hun a'i le yn y byd. Mae hunaniaeth yn beth hynod bersonol. Y posibilrwydd o newid yn yr hunaniaeth honno sy'n cymell canran enfawr i bleidleisio yn yr etholiad ddydd lau yn ôl pob tebyg.

Yr eironi yw ei bod yn ymddangos mai'r pleidleiswyr sydd heb benderfynu eto a fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw yn yr Alban mewn gwirionedd. Byddant yn gwneud penderfyniad i ni yng Nghymru, hefyd. I rai, wrth gwrs, mae datganoli yng Nghymru yn datblygu yn rhy araf neu'n rhy gyflym. Mae eraill yn gyfforddus â chyflymder y newid. Gall gwleidyddion a sylwebwyr gecru am sut mae Ithaca yn edrych a pha mor bell ydyw, ond pobl Cymru sy'n mynd ar y daith, a dylent fod yn barod i'w cherdded.

A 'no' vote will, of course, speed up the rebalancing of powers within the UK, but let us remember that we are talking there more about a question of the degree and speed of an ongoing process of rebalancing powers. The great challenge here of a 'no' vote is to persuade our own population that some or any of the related changes in powers are good for Wales. The vote in the European election showed that Wales has a great enthusiasm for the autonomy of our United Kingdom, but even UKIP recognises that the United Kingdom and the associated benefits of membership are more likely to survive through some sort of changed, amended, federated model.

However, whatever changes a 'no' vote might mean for Wales, it preserves the union, and those of us who view themselves as British, which includes an affinity with the people and history of Scotland, face no challenge to that deeply personal state we call identity. However, a 'yes' vote is different. If Scotland leaves the union, the Britishness that I feel, that personal Britishness felt in 64 million slightly different ways by 64 million people, will disappear. Both campaigns have been throwing the word 'betrayal' around, but the word I would use to describe how I would feel with a 'yes' vote is 'bereavement'. It is a loss over which British people outside Scotland have no control and a loss that Welsh Conservatives feel is not outweighed by any benefits that Scottish independence might—might—bring.

Fel plaid unoliaethol, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn well gyda'i gilydd am resymau ymarferol ac emosynol. Mater i bobl yr Alban yw a fydd y rhesymau hynny yn ddigon.

Braveheart or being at the heart of Britain.

Gyda pha galon a dros ba galon y bydd yr Alban yn pleidleisio?

Bydd pleidlais 'na', wrth gwrs, yn cyflymu'r broses o ail-gydbwysu pwerau o fewn y DU, ond gadewch i ni gofio ein bod yn sôn mwy am gwestiwn ynghylch graddfa a chyflymder proses barhaus o ail-gydbwysu pwerau. Her fawr pleidlais 'na' yw darbwyllo ein poblogaeth ein hunain fod rhai neu unrhyw un o'r newidiadau cysylltiedig mewn pwerau yn dda i Gymru. Roedd y bleidlais yn yr etholiad Ewropeaidd yn dangos bod Cymru'n frwdfrydig iawn o blaid ymreolaeth i'r Deyrnas Unedig, ond mae hyd yn oed UKIP yn cydnabod bod y Deyrnas Unedig a'r manteision sy'n gysylltiedig â bod yn aelod ohoni yn fwy tebygol o oroesi drwy ryw fath o fodel ffederal, diwygiedig, newydd.

Fodd bynnag, pa newidiadau bynnag y gallai pleidlais 'na' eu golygu i Gymru, mae'n cadw'r undeb, ac ni fydd y rheini ohonom sy'n ystyried ein hunain yn Brydeinwyr, sy'n cynnwys cysylltiad â phobl a hanes yr Alban, yn wynebu unrhyw her i'r cyflwr hynod bersonol hwnnw rydym yn ei alw'n hunaniaeth. Fodd bynnag, mae pleidlais 'ie' yn wahanol. Os bydd yr Alban yn gadael yr undeb, bydd y Prydeindod rwyf yn ei deimlo, y Prydeindod personol hwnnw sy'n cael ei deimlo mewn 64 miliwn o ffyrdd ychydig yn wahanol gan 64 miliwn o bobl, yn diflannu. Mae'r ddwy ymgyrch wedi bod yn defnyddio'r gair 'brad' byth a hefyd, ond y gair y byddwn yn ei ddefnyddio i ddisgrifio sut y byddwn yn teimlo gyda phleidlais 'ie' yw 'profedigaeth'. Mae'n golled nad oes gan bobl Prydain y tu allan i'r Alban unrhyw reolaeth drosti a cholled nad yw, marn y Ceidwadwyr Cymreig, yn cael ei gorbwysu gan unrhyw fanteision a allai—allai—ddeillio o annibyniaeth i'r Alban.

As a unionist party, of course the Welsh Conservatives believe that the four nations of the UK are better together for practical reasons and emotional reasons. It is a matter for the people of Scotland as to whether those reasons are strong enough.

Braveheart neu fod wrth galon Prydain.

With which heart, and for which heart, will Scotland actually vote?

16:01

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Leanne Wood to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Leanne Wood i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a rhoi yn ei le:

Delete all after 'National Assembly for Wales' and replace with:

1. Yn credu bod dyfodol yr Alban yn fater i bobl yr Alban.

1. Believes that Scotland's future is a matter for the people of Scotland.

2. Yn credu ymhellach mai'r ffordd orau o wasanaethu'r cysylltiadau cryf rhwng cenedloedd yr ynysoedd hyn yw drwy ysbryd o gydweithredu a chydraddoldeb.

2. Further believes that strong relations between the nations of these islands are best served through a spirit of co-operation and equality.

3. Yn nodi y byddai ymwreiddio'r fformiwla Barnett, fel yr addawyd gan bleidiau'r DU yn yr ymgyrch 'Na' ar gyfer y refferendwm ar 18 Medi 2014, yn niweidiol i Gymru.

3. Notes that the entrenchment of the Barnett formula, as pledged by the UK parties in the 'No' campaign for the referendum on 18 September 2014, would be to the detriment of Wales.

16:01

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

I move amendment 1.

In just a matter of days, a new country could emerge from an old state in these islands and, whatever the outcome, one thing is certain: a new democracy has emerged. Who would have thought that, after the greed of the bankers, after the MPs' expenses scandal, after a debilitating recession, in one part of these islands at least the people would be engaged in a political process like never before? Some 97% of those eligible have registered to vote in tomorrow's referendum. The turnout is predicted to be in excess of 80%. For the first time ever, 16-year-olds and 17-year-olds will have a voice. For the first time ever, the people and not Westminster will be sovereign. The question that people are being asked is whether or not they want to keep hold of that sovereignty. A campaign that began with an idea, a vision, is now in the ownership of the people. Those who have visited Scotland in recent weeks will have felt the change that has swept the country. There is of course disagreement in this Chamber about what would be the best outcome for Scotland, for Wales and for the nations of these islands as a whole. However, I ask each and every Member of this Chamber to consider the following: whatever you envisage as Wales's final constitutional destination, surely we can all agree that we want to see the people of Wales invigorated in the same way as the people in Scotland have been. Would it not be wonderful to see the spirit of hope and optimism that is evident there here in Wales too? If you agree with that, who could be against us embarking upon a similar path, asking people here to decide on the future of their nation? Even if we end up on different sides of that debate in terms of what we would like the outcome of such a vote to be, would it not be great for our democracy to have such an experience?

Here is something else on which I hope we can all agree, regardless of the outcome tomorrow: we must all want to see an improvement in the Welsh economy. The current debate in Scotland is happening because that country is in a position of economic strength. I am sure that all of us here would accept that the Welsh economy is in need of strengthening. Surely we all want to see it improve so that all options for the future of our country can be available to us too. Part of that debate, of course, has to be in the short term about securing fair funding for Wales. It cannot be right for the £300 million-plus shortfall we have at the moment to continue. Our public services need that money.

Many politicians believe that Westminster is sovereign. They believe in the superiority of the Westminster establishment and Parliament. That is of course their right. I cannot agree with that position. Personally, I would prefer to see sovereignty in the hands of the people. Why? It is because I have full trust in the people of Wales to exercise their sovereignty with responsibility, as I am sure that the people of Scotland will tomorrow. Diolch yn fawr.

Cynigiau welliant 1.

Mewn dim ond mater o ddyddiau, gallai gwlad newydd gael ei chreu o hen wladwriaeth yn yr ynysoedd hyn a, beth bynnag y canlyniad, mae un peth yn sicr: mae democratiaeth newydd wedi dod i'r amlwg. Pwy fyddai wedi meddwl, ar ôl trachwant y bancwyr, ar ôl sgandal treuliau ASau, ar ôl dirwasgiad gwanychol, mewn un rhan o'r ynysoedd hyn o leiaf, y byddai pobl yn cymryd rhan mewn proses wleidyddol fel na wnaethant erioed o'r blaen? Mae tua 97% o'r rhai sy'n gymwys wedi cofrestru i bleidleisio yn y refferendwm yfory. Rhagwelir y bydd mwy na 80% o'r etholaeth yn bwrw'u pleidlais. Am y tro cyntaf erioed, bydd gan bobl ifanc 16 oed a 17 oed lais. Am y tro cyntaf erioed, y bobl ac nid San Steffan fydd sofran. Y cwestiwn sy'n cael ei ofyn i bobl yw a ydynt am ddal gafael ar y sofraniaeth honno. Mae ymgyrch a ddechreuodd gyda syniad, gweledigaeth, bellach yn nwylo'r bobl. Bydd y rheini sydd wedi ymweld â'r Alban yn yr wythnosau diwethaf wedi teimlo'r newid sydd wedi ysgubo ar draws y wlad. Ceir anghytundeb, wrth gwrs, yn y Siambr hon am beth fyddai'r canlyniad gorau ar gyfer yr Alban, ar gyfer Cymru ac ar gyfer gwledydd yr ynysoedd hyn yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, gofynnaf i bob un Aelod o'r Siambr hon ystyried y canlynol: beth bynnag rydych yn ei ragweld fel pen draw'r daith gyfansoddiadol i Gymru, siawns y gallwn ni i gyd gytuno ein bod am weld pobl Cymru'n deffro yn yr un ffordd â'r bobl yn yr Alban. Oni fyddai'n wych gweld yr ysbryd o obaith ac optimistiaeth sy'n amlwg yno yma yng Nghymru hefyd? Os ydych yn cytuno â hynny, pwy allai wrthwynebu ein bod ni'n dilyn llwybr tebyg, ac yn gofyn i bobl yma benderfynu ar ddyfodol eu cenedl? Hyd yn oed os ydym ar wahanol ochrau i'r ddadl honno yn y pen draw o ran yr hyn yr hoffem weld fel canlyniad pleidlais o'r fath, oni fyddai'n wych i'n democratiaeth gael profiad o'r fath?

Dyma rywbeth arall rwy'n gobeithio y gallwn i gyd gytuno arno, waeth beth fydd y canlyniad yfory: mae'n rhaid ein bod ni i gyd am weld gwelliant yn economi Cymru. Mae'r ddadl bresennol yn yr Alban yn digwydd oherwydd bod y wlad mewn sefyllfa gref yn economaidd. Rwy'n siŵr y byddai pob un ohonom yma yn derbyn bod angen cryfhau economi Cymru. Siawns ein bod ni i gyd am ei gweld yn gwella fel bod yr holl opsiynau ar gyfer dyfodol ein gwlad ar gael i ninnau hefyd. Rhaid i ran o'r ddadl honno, wrth gwrs, yn y byrdymor ymwneud â sicrhau cyllid teg i Gymru. Ni all fod yn iawn i'r diffyg o £300 miliwn a mwy sydd gennym ar hyn o bryd barhau. Mae angen yr arian hwnnw ar ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae llawer o wleidyddion yn credu bod San Steffan yn sofran. Maent yn credu yn rhagoriaeth sefydliad a Senedd San Steffan. Dyna'u hawl, wrth reswm. Ni allaf gytuno â'r farn honno. Yn bersonol, byddai'n well gen i weld sofraniaeth yn nwylo'r bobl. Pam? Oherwydd bod gen i bob ffydd ym mhobl Cymru i arfer eu sofraniaeth yn gyfrifol, fel rwy'n siŵr y gwnaiff pobl yr Alban yfory. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell to move amendment 2, tabled in the names of Jane Hutt and Aled Roberts.

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enwau Jane Hutt a Aled Roberts.

Gwelliant 2—Jane Hutt, Aled Roberts

Amendment 2—Jane Hutt, Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y dylai Cymru, beth bynnag fo'r canlyniad, siarad ag un llais, ac yn galw am weithredu'n gyflym yr argymhellion yn Rhannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac am sefydlu confensiwn cyfansoddiadau ledled y DU i greu cynllun drafft am undeb newydd.

Believes that whatever the result, Wales should speak with one voice, and calls for a swift implementation of the recommendations of Parts 1 and 2 of the Commission on Devolution in Wales and for a UK-wide constitutional convention to be established to draft a plan for a new union.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2, jointly tabled by the Welsh Government and the Welsh Liberal Democrats.

Cynigiai welliant 2, a gyflwynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

It is our strong belief that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are stronger together, as part of a United Kingdom. For Scotland and Wales, being a nation within the United Kingdom gives us many advantages, economically and in terms of better defensive security and, of course, crucially in these dangerous times, it gives us a stronger voice on the international stage. The close ties between Scotland, Wales and the rest of the United Kingdom and, indeed, our shared history, mean that we can project and exert significant influence in the world by pooling our talents and sharing our resources. Our mantra of being stronger together within the European Union applies equally for the union of the four nations that make up the United Kingdom.

Rydym yn credu'n gryf bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn gryfach gyda'n gilydd, fel rhan o Deyrnas Unedig. Ar gyfer yr Alban a Chymru, mae bod yn genedl o fewn y Deyrnas Unedig yn rhoi i ni lawer o fanteision, yn economaidd ac o ran gwell diogelwch amddiffynnol ac, wrth gwrs, yn hollbwysig yn y byd peryglus sydd ohoni, mae'n rhoi llais cryfach i ni ar y llwyfan rhyngwladol. Mae'r cysylltiadau agos rhwng Cymru, yr Alban a gweddill y Deyrnas Unedig ac, yn wir, ein hanes cyffredin, yn golygu y gallwn gyfleu ac arfer cryn ddylanwad yn y byd drwy Gronni ein doniau a rhannu ein hadnoddau. Mae ein mantra o fod yn gryfach gyda'n gilydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd yr un mor berthnasol i undeb y pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

We are better together as part of the European Union, the world's largest market. The referendum is indeed a choice between the opportunity and the security of staying within the UK, or leaving it forever and being without the pound and without the UK's influence, and, indeed, that would surely put both jobs and pensions at risk.

Rydym yn well gyda'n gilydd fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd, marchnad fwyaf y byd. Mae'r refferendwm yn wir yn ddewis rhwng y cyfle a'r diogelwch a ddaw yn sgil aros o fewn y DU, neu ei gadael am byth a bod heb y bunt a heb ddylanwad y DU, ac, yn wir, byddai hynny'n sicr yn rhoi swyddi a phensiynau yn y fantol.

We must promote, however, a new union, as has been stated by everyone around this Chamber, rather than stubbornly defending the old. We need to offer a more positive future not just for the people of Scotland, but for the whole of this United Kingdom. We must not fall into the trap of rubbishing or otherwise questioning aspects of Scottish independence, and neither should we defend the status quo. It is much more important to promote a new union, rather than defending what exists at this moment. We need to offer a more positive vision. That is why our amendment, together with the Welsh Government, calls for the implementation of the Silk commission's proposals and the establishment of a UK-wide constitutional convention to draft a plan for that new union.

Rhaid i ni hyrwyddo, fodd bynnag, undeb newydd, fel y nodwyd gan bawb o gwmpas y Siambr hon, yn hytrach nag amddiffyn yr hen drefn yn ystyfnig. Mae angen i ni gynnig dyfodol mwy cadarnhaol nid yn unig i bobl yr Alban, ond i'r Deyrnas Unedig gyfan. Rhaid i ni beidio â syrthio i'r fagl o ladd ar neu gwestiynu mewn unrhyw ffordd arall agweddau ar annibyniaeth i'r Alban, ac ni ddylem ychwaith amddiffyn y status quo. Mae'n bwysicach o lawer hyrwyddo undeb newydd, yn hytrach nag amddiffyn yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae angen i ni gynnig gweledigaeth fwy cadarnhaol. Dyna pam mae ein gwelliant, ynghyd â Llywodraeth Cymru, yn galw am weithredu cynigion comisiwn Silk a sefydlu confensiwn cyfansoddiadol DU gyfan i ddrafftio cynllun ar gyfer yr undeb newydd hwnnw.

At this time, more than ever, Wales must speak with a united voice. It is absolutely vital that we come together to set out a clear path for Wales's future. Fortunately, the first step along this road is already set out for us—the Silk commission's recommendations. We must all unite behind them. We cannot allow these vital reports to fall by the wayside, as so many have done in previous times.

Yn awr, yn fwy nag erioed, rhaid i Gymru siarad â llais unedig. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn dod at ein gilydd i nodi llwybr clir ar gyfer dyfodol Cymru. Yn ffodus, mae'r cam cyntaf ar hyd y ffordd hon eisoes wedi'i baratoi ar ein cyfer—argymhellion comisiwn Silk. Rhaid i ni i gyd uno y tu ôl iddynt. Ni allwn ganiatáu i'r adroddiadau hanfodol hyn syrthio ar fin y ffordd, fel y gwnaeth cynifer yn y gorffennol.

16:08 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can see where the Member is coming from, but does he not see that the declaration yesterday by his leader, among others, has completely changed the debate. Silk should have been implemented five years ago at the very least. Now, we have moved on; we have devo max being offered to the people of Scotland. Surely, the same should be offered to the people of Wales.

Gallaf ddeall rhesymeg yr Aelod, ond onid yw e'n gweld bod y datganiad ddoe gan ei arweinydd, ymhlith eraill, wedi newid y ddadl yn llwyr. Dylai Silk fod wedi cael ei roi ar waith bum mlynedd yn ôl o leiaf. Yn awr, rydym wedi symud ymlaen; mae'r lefel uchaf o ddatganoli yn cael ei chynnig i bobl yr Alban. Siawns y dylai'r un peth gael ei gynnig i bobl Cymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:08 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand and respect the view that the Member has expressed, but we are where we are now and we need to engage with this debate and to do so with the energy that the leader of Plaid Cymru correctly said has been engendered by the Scottish referendum.

Rwy'n deall ac yn parchu'r farn a fynegodd yr Aelod, ond rydym ble'r ydym yn awr ac mae angen i ni gyfrannu at y ddadl hon a gwneud hynny gyda'r egni y mae arweinydd Plaid Cymru wedi dweud yn gwbl gywir sydd wedi ei ennyn gan refferendwm yr Alban.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I also believe that Silk part 2 sets out a pathway for us as a strong, secure and sustainable democracy within a new devolution settlement. As Welsh Liberal Democrats, we have consistently argued for decades about the need to create a proper Welsh parliament with the commensurate powers that a parliament should have, and I think that Silk part 2 moves us even closer to that particular ideal.

Rwyf hefyd yn credu bod Silk rhan 2 yn nodi llwybr i ni fel democratiaeth gref, ddiogel a chynaliadwy o fewn setliad datganoli newydd. Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rydym wedi dadlau'n gyson dros ddegawdau am yr angen i greu senedd go iawn yng Nghymru gyda'r pwerau cymesur a ddylai fod gan senedd, a chredaf fod Silk rhan 2 yn ein symud yn agosach fyth at y delfryd penodol hwnnw.

The Deputy Prime Minister came to our recent Welsh conference and made an absolute commitment that Silk would form the blueprint of our general election manifesto, and I would like to see a commitment from the parties around this Chamber that that will also happen in their manifestos. That is absolutely critical. However, we must not forget that the future of the UK as a whole is currently in transition, and that debate also needs to take place at a UK level. In our 2010 manifesto, we called for a written constitution to be drawn up by a UK-wide constitutional convention. That convention must not be purely a convention of politicians; it needs to draw on all aspects of civil society to give it the strength and depth that it needs and, critically, we need to realise that things will never be the same again. We have an opportunity to create a stronger, federal UK; we must grasp it.

Daeth y Dirprwy Brif Weinidog i'n cynhadledd yng Nghymru yn ddiweddar a gwneud ymrwymiad pendant mai Silk fyddai glasbrint ein maniffesto ar gyfer yr etholiad cyffredinol, a hoffwn weld ymrwymiad gan y pleidiau yn y Siambr hon y bydd hynny'n digwydd yn eu maniffestos hwythau hefyd. Mae hynny'n gwbl dyngedfennol. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio ag anghofio bod dyfodol y DU gyfan mewn cyfnod o newid ar hyn o bryd, ac mae angen i'r ddadl honno ddigwydd ar lefel y DU hefyd. Yn ein maniffesto ar gyfer 2010, roeddem yn galw am lunio cyfansoddiad ysgrifenedig gan gonfensiwn cyfansoddiadol DU gyfan. Ni ddylai'r confensiwn hwnnw fod yn gonfensiwn o wleidyddion yn unig; mae angen iddo dynnu ar bob agwedd ar gymdeithas sifil i roi iddo'r cryfder a'r dyfnder y mae ei angen ac, yn hanfodol, mae angen i ni sylweddoli na fydd pethau byth yr un fath eto. Mae gennym gyfle i greu DU ffederal, gryfach; rhaid i ni fanteisio arno.

Tomorrow, our Scottish kin can vote positively to keep our family of nations united, celebrating our glorious diversity together, or negatively, to destroy our United Kingdom, divide its peoples and diminish all its parts. If Scotland votes 'yes', the United Kingdom will split, and we will go our separate ways forever. Yet, we are a family, interbred and interwoven over ages. My wife and, therefore, my children have Scots blood, as did my stepfather—my mother's surname is McLean. Like millions of other people across our islands, we are proud to share our blood with our Scottish relatives. We must not let nationalist chauvinism deny our commonality and create barriers between us. We love the energy and personality of our Scottish brothers and sisters, and our heartfelt plea to them is, 'Please, don't go.'

Although the separatists have appealed to a romantic vision of Scottish independence, based upon popular entertainment more than real history, most of the debate has focused on hard-headed economic and constitutional issues. However, this is a matter of heart as well as head for we proud, passionate Britons too. We love every part of our blessed isles and stand in horror at the thought of we Britons being torn apart. In a dangerous and uncertain world, only our enemies want to see the UK crumble from within.

Our family of nations—Wales, Scotland, England and Northern Ireland—has a proud shared culture and rich heritage that binds us far beyond our vital constitutional, financial and economic interdependence. Hope must champion over division and the possibilities of tomorrow over the prejudices of yesteryear. Together, we have achieved great things in the world, and the Scottish contribution to this has been very significant, whether on the battlefield confronting fascism or in the fields of engineering, medicine, science, sport or politics. I find it incomprehensible that the Scottish people would want to retreat from an international front row seat for their representatives to a place with little influence in the world.

Yes, the constitution of the UK is changing and will continue to change, whatever the outcome of this referendum, but let us embrace a more federalised union, a model so successful in so many places, as an alternative to self-destruction. We are not blind to Britain's faults, but we are also proud that we sit at the top table of the world's decision-making bodies as a trading nation with a large economy that is willing to shoulder a burden and provide a foundation for opportunity. In the end, Scottish voters need to be convinced only that the UK is a union of which they can be proud. We celebrate our freedom, humour and sense of fair play, standing shoulder to shoulder as four nations together.

Yfory, gall ein brodyr yn yr Alban bleidleisio'n gadarnhaol i gadw ein teulu o genhedloedd yn unedig, gan ddathlu ein hamrywiaeth gogoneddus gyda'n gilydd, neu'n negyddol, i ddinistrio ein Teyrnas Unedig, rhannu ei phobl a lleihau ei holl rannau. Os bydd yr Alban yn pleidleisio 'ie', bydd y Deyrnas Unedig yn rhannu, a byddwn yn mynd ein ffordd ein hunain am byth. Eto i gyd, rydym yn deulu, sydd wedi rhyngfridio a chydblethu ar hyd yr oesoedd. Mae gan fy ngwraig ac, felly, fy mhlant waed Albanaidd, fel yr oedd gan fy llystad—cyfenw fy mam yw McLean. Fel miliynau o bobl eraill ar draws ein hynysydd, rydym yn falch o rannu ein gwaed gyda'n perthnasau yn yr Alban. Rhaid i ni beidio â gadael i genedlaetholdeb cul wadu'r hyn sydd gennym yn gyffredin a chreu rhwystrau rhyngom. Rydym wedi gwirionni ar egni a chymeriad ein brodyr a chwiorydd yn yr Alban, a'n cri o'r galon iddynt yw, 'Plis, peidiwch â mynd.'

Er bod yr ymwahanwyr wedi apelio at weledigaeth ramantus o annibyniaeth i'r Alban, yn seiliedig ar adloniant poblogaidd yn fwy na hanes go iawn, mae'r rhan fwyaf o'r ddadl wedi canolbwyntio ar faterion economaidd a chyfansoddiadol ymarferol. Fodd bynnag, mae hwn yn fater i'r galon yn ogystal ag i'r pen i ninnau Brydeinwyr angerddol, balch hefyd. Rydym yn caru pob rhan o'n hynysydd bendigedig ac mae meddwl amdanom ni Brydeinwyr yn cael ein gwahanu yn codi arswyd arnom. Mewn byd peryglus ac ansicr, dim ond ein gelynion sydd am weld y DU yn dymchwel o'r tu mewn.

Mae gan ein teulu o genhedloedd—Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon—ddiwylliant cyffredin balch a threftadaeth gyfoethog sy'n ein clymu ymhell y tu hwnt i'n cyd-ddibyniaeth gyfansoddiadol, ariannol ac economaidd hanfodol. Rhaid i obaith drechu rhannu a phosibiliadau yfory drechu rhagfarnau'r gorffennol. Gyda'n gilydd, rydym wedi cyflawni pethau gwyb yn y byd, ac mae cyfraniad yr Alban at hyn wedi bod yn sylweddol iawn, boed ar faes y gad yn brwydro ffasgiaeth neu ym meysydd peirianneg, meddygaeth, gwyddoniaeth, chwaraeon neu wleidyddiaeth. Ni allaf yn fy myw â deall y byddai pobl yr Alban yn awyddus i encilio o sedd rhes flaen ryngwladol ar gyfer eu cynrychiolwyr i le heb fawr o ddylanwad yn y byd.

Ydy, mae cyfansoddiad y DU yn newid a bydd yn parhau i newid, beth bynnag fydd canlyniad y refferendwm hwn, ond gadewch i ni groesawu undeb mwy ffederal, model mor llwyddiannus mewn cynifer o leoedd, fel dewis amgen i hunan-ddinistr. Nid ydym yn ddall i feiau Prydain, ond rydym yn falch hefyd ein bod yn eistedd ar y prif fwrdd o gyrrff sy'n gwneud penderfyniadau yn y byd fel cenedl fasnachu ag economi fawr sy'n barod i ysgwyddo baich a rhoi sail ar gyfer cyfleoedd. Yn y pen draw, mae angen argyhoeddi etholwyr yr Alban bod y DU yn undeb y gallant fod yn falch ohono. Rydym yn dathlu ein rhyddid, ein hiwmor a'n synnwyr o chwarae teg, gan sefyll ysgwydd wrth ysgwydd fel pedair gwlad ynghyd.

On becoming James I of the UK in 1603, James VI of Scotland united Scotland with the rest of the UK through inheritance, not conquest. Political and economic union was passed by the Parliaments of England and Scotland 104 years later. We have spent over 400 years as a single family—four nations evolving together. If that family is torn apart, we will be adrift, damaged, bewildered and undermined in ways that we cannot begin to imagine. In the end, we cannot let a union for which our ancestors sacrificed so much and for so long in order to build to simply drift away. Nationalism is a narrow, negative withdrawal, but Britain and the UK can always offer something larger, more positive, more diverse, more powerful and more imaginative.

Let us heed Abraham Lincoln's inaugural address, when he said,

'Physically speaking, we can not separate...We are not enemies, but friends. We must not be enemies. Though passion may have strained it must not break our bonds of affection. The mystic chords of memory, stretching from every battlefield and patriot grave to every living heart and hearthstone all over this broad land, will yet swell the chorus of the Union'.

Thursday's referendum is not a vote on the competing policies of different political parties as a snapshot in time. It is not about grandstanding, scaremongering, denigrating, or the peddling of caricature or deception. This is about whether our United Kingdom should be united or destroyed. Tomorrow, the people of Scotland will make a momentous decision on the future of our United Kingdom. Our message to our Scottish kin is simple: we want you to vote for all of us by voting to stay with us.

16:15

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nothing we say in debate now on this issue is likely to have any impact. It seems that the debate is over in Scotland, and people will shortly be off to the polls. The future of Scotland, though, is a matter for the Scottish people. The impact of the debate, whatever the outcome, will be enormous, not least because, at long last, England has now woken up to the dysfunction of the UK constitution. Personally, I hope that the people of Scotland vote to remain part of the UK and play a role in the building of a progressive and egalitarian United Kingdom. That, I believe, is where the debate will lie after Friday.

Ed Miliband, in a recent speech, quoted the great Scottish miners' leader, Mick McGahey, who said that nationalism is a bourgeois distraction from the class struggle. When you take the emotion from behind his choice of words, I have to say that I agree with his analysis. Devolution for me is not about creating national blocks, nor is it about putting up barriers in the desire to create a nation state, but about the empowerment of people and communities. It is about taking decisions that will impact upon, empower and improve the wellbeing of ordinary working people.

Ar gael ei goroni'n James I o'r Deyrnas Unedig yn 1603, unodd James VI o'r Alban yr Alban â gweddill y DU trwy etifeddiaeth, nid trwy goncwest. Pasiwyd undeb gwleidyddol ac economaidd gan Seneddau Lloegr a'r Alban 104 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Rydym wedi treulio dros 400 mlynedd fel un teulu—pedair gwlad yn esblygu gyda'i gilydd. Os bydd y teulu hwnnw'n cael ei chwalu, byddwn ar goll, wedi ein niweidio, yn ddryslud ac wedi ein tansilio mewn ffyrdd na allwn ddechrau eu dychmygu. Yn y pen draw, ni allwn ollwng ein gafael ar undeb y gwnaeth ein cyn-deidiau aberthu cymaint, ac am gymaint o amser, i'w adeiladu. Mae cenedlaetholdeb yn rhywbeth cul, negyddol, ond gall Prydain a'r DU bob amser gynnig rhywbeth mwy o faint, mwy cadarnhaol, mwy amrywiol, mwy pwerus a mwy dychmygus.

Gadewch i ni wrando ar anerchiad Abraham Lincoln ar gael ei urddo'n Arlywydd, pan ddywedodd,

'Yn gorfforol, ni allwn wahanu ... Nid gelynyion mohonom, ond ffrindiau. Rhaid i ni beidio â bod yn elynion. Er i angerdd roi cwlwm cyfeillgarwch dan straen, rhaid iddo beidio â'i dorri. Bydd cordiau cyfriniol y cof, yn ymestyn o bob maes y gad a bedd gwladgarwr i bob calon fyw ac aelwyd ar hyd a lled y wlad, yn chwyddo corws yr Undeb unwaith eto'.

Nid pleidlais ar bolisiau cyferbyniol gwahanol bleidiau gwleidyddol fel ciplun mewn amser yw refferendwm dydd lau. Nid yw'n ymwneud â cheisio bri, codi bwganod, pardduo, neu bedlera dychan neu dwyll. Mae'n ymwneud ag a ddylai ein Teyrnas Unedig fod yn unedig neu gael ei dinistrio. Yfory, bydd pobl yr Alban yn gwneud penderfyniad tyngedfennol ar ddyfodol ein Teyrnas Unedig. Mae ein neges i'n teulu yn yr Alban yn syml: rydym am i chi bleidleisio dros bob un ohonom drwy bleidleisio i aros gyda ni.

Nid oes unrhyw beth rydym yn ei ddweud mewn trafodaeth am y mater hwn yn awr yn debygol o gael unrhyw effaith. Mae'n ymddangos bod y trafod ar ben yn yr Alban, a bydd pobl yn mynd i fwrw'u pleidlais toc. Fodd bynnag, mater i bobl yr Alban yw dyfodol yr Alban. Bydd effaith y ddadl, beth bynnag fo'r canlyniad, yn enfawr, yn anad dim oherwydd, o'r diwedd, mae Lloegr bellach yn ymwybodol o ddiffygion cyfansoddiad y DU. Yn bersonol, rw'n gobeithio y bydd pobl yr Alban yn pleidleisio i aros yn rhan o'r DU ac yn helpu i adeiladu Teyrnas Unedig flaengar ac egalitariaidd. Dyna, yn fy marn i, fydd ffocws y drafodaeth ar ôl dydd Gwener.

Mewn araith ddiweddar, dyfynnodd Ed Miliband arweinydd o fri glowyr yr Alban, Mick McGahey, a ddywedodd mai syniad bourgeois yw cenedlaetholdeb sy'n tynnu sylw oddi wrth frwydr y dosbarthiadau cymdeithasol. Pan fyddwch yn tynnu'r emosiwn o'i ddewis o eiriau, rhaid i mi ddweud fy mod yn cytuno â'i ddadansoddiad. I mi, nid yw datganoli yn golygu creu rhwystrau cenedlaethol, na chodi rhwystrau gyda'r nod o greu cenedl-wladwriaeth, ond grymuso pobl a chymunedau. Mae'n ymwneud â gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar, grymuso a gwella lles pobl gyffredin sy'n gweithio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have to say that it often seems to me that Plaid Cymru does not recognise the difference between patriotism and nationalism. There is an old Labour saying that there is only one wealth: the common wealth. So, the nationalist focus during this debate on who owns oil and gas reserves to the clarion call of 'Keep your hands off our oil and gas' has tarnished—

Rhaid i mi ddweud ei bod yn ymddangos i mi yn aml nad yw Plaid Cymru yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng gwladgarwch a chenedlaetholdeb. Mae hen ddywediad Llafur mai dim ond un cyfoeth sydd: cyfoeth cyffredin. Felly, mae ffocws y cenedlaetholwyr yn ystod y ddadl hon ar bwy sy'n berchen ar gronfeydd olew a nwy i'r dôn gron o 'Cadwch eich dwylo bant o'n holew a nwy' wedi llychwino—

16:17 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:17 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I will not take it, because you have spoken.

Na wnaif, oherwydd rydych wedi siarad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It has tarnished an important debate and undermined the real issue, which is equality across Scotland and the UK, and the redistribution of wealth. It is an irony of the debate that the SNP wants independence and to keep the pound, yet it fails to understand this contradiction. You cannot have independence and, at the same time, fetter your economy to the fiscal structure and policies of another country. It renders the whole concept and notion of independence totally meaningless.

Mae wedi llychwino dadl bwysig a thanseilio'r mater go iawn, sef cydraddoldeb ar draws yr Alban a'r DU, ac ailddosbarthu cyfoeth. Eironi'r ddadl yw bod yr SNP eisiau annibyniaeth a chadw'r bunt, ond ni all ddeall anghysondeb hyn. Ni allwch gael annibyniaeth ac, ar yr un pryd, llyffetheirio eich economi i strwythur a pholisïau ariannol gwlad arall. Mae'n gwneud yr holl gysyniad a syniad o annibyniaeth yn hollol ddiystyr.

It is also ironic that one of the key factors that may determine the final outcome of the referendum is the perception by voters as to whether or not there will be a Tory Government in Westminster next May, so tarnished is the reputation of the Tories and their colleagues the Liberal Democrats. Every time David Cameron opens his mouth on the issue, voters flock to the 'yes' camp. The Tories need to reflect on the divisive and cruel policies that they pursue, which have brought Britain to the point of potential break-up.

Mae'n eironig hefyd mai un o'r ffactorau allweddol a all benderfynu canlyniad terfynol y refferendwm yw barn pleidleiswyr ynghylch a fydd Llywodraeth Doriaidd yn San Steffan fis Mai nesaf ai peidio, mor llychwin yw enw da y Toriaid a'u cydweithwyr y Democratiaid Rhyddfrydol. Bob tro mae David Cameron yn agor ei geg ar y mater, mae pleidleiswyr yn heidio i'r ochr 'ie'. Mae angen i'r Toriaid fyfrio ar y polisiau cynhennus a chreulon y maent yn eu harfer, sydd wedi dod â Phrydain yn agos at chwalu.

Whatever the outcome, there is a need for radical constitutional and social reform. I do not support federalisation. Rather, I support the decentralisation of power from Westminster to the regions of England and the creation of a reformed United Kingdom Parliament, democratisation of the House of Lords by creating an elected second chamber, and the establishment of a written constitution setting out the guiding principles for a future UK based on the principles of sustainability, equality and social justice.

Beth bynnag y canlyniad, mae angen diwygiadau cyfansoddiadol a chymdeithasol radical. Nid wyf yn cefnogi ffederaleiddio. Yn hytrach, rwyf yn cefnogi datganoli grym o San Steffan i ranbarthau Lloegr a chreu Senedd ddiwygiedig ar gyfer y Deyrnas Unedig, democrateiddio Tŷ'r Arglwyddi drwy greu ail siambr etholedig, a sefydlu cyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer y DU yn y dyfodol yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

My final point is that the referendum has engaged people as never before: 97% voter registration has been achieved, votes for 16-year-olds, a likely turn out in excess of 85%, and a passionate and informed debate about the nature of our society and governance. After Friday, we must not lose that momentum. We must also seize the opportunity to re-build our whole political system.

Fy mhwynt olaf yw bod y refferendwm wedi denu diddordeb pobl fel erioed o'r blaen: mae 97% o'r boblogaeth wedi cofrestru i bleidleisio, mae pobl ifanc 16 oed yn cael pleidleisio, mae disgwyl i fwy na 85% fwrw'u pleidlais, ac rydym wedi cael trafodaeth frwd a deallus am natur ein cymdeithas a llywodraethu. Ar ôl dydd Gwener, rhaid i ni beidio â cholli'r momentwm hwnnw. Rhaid i ni hefyd achub ar y cyfle i ail-adeiladu ein system wleidyddol gyfan.

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What a day. Five years ago, I changed parties, from that side to this side, for one basic principle, which is that I never supported independence. [Interruption.] That is all on the record. I am not saying anything different today. I will reiterate this for expats in Scotland who are listening carefully: when people come from abroad to settle in Great Britain, they do not come to Scotland, Wales, Northern Ireland or England; they come to Great Britain. They learn, they contribute and they bring their children up with great pride, great culture, great education and great love for each other in this part of the world, which this country has given to the entire world.

Deputy Presiding Officer, an SNP member whose name was Mr Bashir Ahmad was also elected in 2007, and I met him once in 2008—just coincidentally, he came from the same part of Pakistan that I come from, and we became natural friends, as you do when you go abroad and you find a Britisher and you become natural friends. So, I met him and we became natural friends. He was a member of the SNP, but our views were different. He never opened his mouth to say that he would support independence and everything, but we were still very close friends. I met him twice, and when I went there the third time, I actually went to his funeral; he had died. I walked through Glasgow cemetery and to his grave before the burial. Deputy Presiding Officer, every grave next to it virtually was for first and second world war veterans, and every gravestone had written on it, 'Life has been given for King, Queen and country', not 'for Scotland'. So, what I am saying is that these grandfathers and great-grandfathers, what would they think of their children deciding this—'What? Independence?' We are an integral part of the United Kingdom. There is no question about it.

We as politicians are here to build bridges, not burn bridges. Some parties, and even their own Members, Lord Elis-Thomas, Ieuan Wyn Jones, and even Mr Wigley—where has he gone?—in their heart of hearts, do not like the word 'independence'. Yes, part of—[Interruption.] Do not smile now; I am not reading a speech, I am just talking from my heart. [Interruption.] I am telling you that you are actually misguiding the nation. Instead of getting together and making the best of everything, you are making people frightened. The SNP is actually frightening people—'If you do this, that will happen' or 'If you don't do this, that will happen'. In a real sense, Scotland is getting a better deal in every respect. The only thing—[Interruption.] Yes, the Barnett formula; they are getting more money. You do not deny it. What you are just saying I heard from my colleagues just now. [Interruption.]

Am ddiwrnod. Bum mlynedd yn ôl, newidiais bleidiau, o'r ochr honno i'r ochr hon, am un egwyddor sylfaenol, sef nad oeddwn erioed wedi cefnogi annibyniaeth. [Ymyriad.] Mae hynny i gyd ar y cofnod. Nid wyf yn dweud unrhyw beth yn wahanol heddiw. Byddaf yn ailadrodd hyn ar gyfer alltudion yn yr Alban sy'n gwranddo yn ofalus: pan fydd pobl yn dod o dramor i ymgartrefu ym Mhrydain Fawr, nid ydynt yn dod i Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr; maent yn dod i Brydain Fawr. Maent yn dysgu, maent yn cyfrannu ac maent yn magu eu plant gyda balchder mawr, diwylliant gwych, addysg wych a chariad mawr at ei gilydd yn y rhan yma o'r byd, y mae'r wlad hon wedi eu rhoi i'r byd cyfan.

Ddirprwy Lywydd, cafodd aelod SNP o'r enw Mr Bashir Ahmad hefyd ei ethol yn 2007, a chyfarfûm ag ef unwaith yn 2008—er diddordeb yn unig, roedd yn dod o'r un rhan o Bacistan â fi, a daethom yn gyfeillion naturiol, fel sy'n digwydd pan fyddwch yn mynd dramor ac rydych yn dod o hyd i Brydeiniwr ac rydych yn datblygu'n gyfeillion naturiol. Felly, cyfarfûm ag ef a daethom yn gyfeillion naturiol. Roedd yn aelod o'r SNP, ond roedd ein barn yn wahanol. Ni agorodd ei geg fyth i ddweud y byddai'n cefnogi annibyniaeth a phopeth, ond rydym yn dal yn ffrindiau agos iawn. Cyfarfûm ag ef ddwywaith, a phan euthum yno y trydydd tro, mynd i'w angladd y gwnes i; roedd wedi marw. Cerddais drwy fynwent Glasgow ac at ei fedd cyn y gladdedigaeth. Ddirprwy Lywydd, roedd pob bedd cyfagos fwy neu lai yn eiddo i gyn-filwr o'r Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel Byd, a phob carreg fedd ag arysgrifen arni yn dweud, 'Aberthodd ei fywyd dros y Brenin, y Frenhines a'r wlad', nid 'dros yr Alban'. Felly, yr hyn rwyf yn ei ddweud yw bod y teidiau hyn a'r gor-deidiau, beth y byddent hwy yn ei feddwl am eu plant yn penderfynu hyn—'Beth? Annibyniaeth?' Rydym yn rhan annatod o'r Deyrnas Unedig. Nid oes unrhyw gwestiwn am y peth.

Rydym fel gwleidyddion yma i godi pontydd, nid llosgi pontydd. Nid yw rhai pleidiau, a hyd yn oed eu Haelodau eu hunain, yr Arglwydd Elis-Thomas, Ieuan Wyn Jones, a hyd yn oed Mr Wigley—lle y mae ef wedi mynd?—yn eu calonnau yn hoffi'r gair 'annibyniaeth'. Ie, rhan o— [Torri ar draws.] Peidiwch â gwenu nawr; nid wyf yn darllen araith, rwyf yn siarad o'm calon. [Torri ar draws.] Rwy'n dweud wrthy ch eich bod mewn gwirionedd yn camarwain y genedl. Yn hytrach na dod ynghyd a gwneud y gorau o bopeth, rydych yn codi braw ar bobl. Mae'r SNP mewn gwirionedd yn codi braw ar bobl—'Os gwnewch chi hyn, bydd hyn yn digwydd' neu 'Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd hyn yn digwydd'. Mewn gwirionedd, mae'r Alban yn cael bargaen well ym mhob ystyr. Yr unig beth—[Torri ar draws.] Ie, fformiwla Barnett; maent yn cael mwy o arian. Nid ydych yn gwadu hynny. Clywais gan fy nghydweithwyr yr hyn rydych yn ei ddweud nawr. [Torri ar draws.]

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, just please listen to me.

Na, gwrandewch arnaf os gwelwch yn dda.

What actually happens in Scotland is that they think that the oil money is all theirs; yes, but the fact is that the oil belongs to the United Kingdom. You do not know—. This part of the world, this United Kingdom, has 60 million people. How come, Deputy Presiding Officer, that fewer than 2 million people get to decide to take a chunk of one third of the country away? That is nonsense. [Interruption.] I personally believe that that should not happen. Who has arranged for this—. [Interruption.] No, this is something that is not right. I must be very clear in my mind here: some countries in the world must be laughing that the United Kingdom will be the weakest nation—one of the weakest nations, defence-wise—if Scotland goes independent. That part of the world not only trained our gallant naval and air force officers—our airmen and seamen—but also our armed forces will be weakened. They may only have one fifth of the current value. We could not sustain our position in this global world. [Interruption.] No, we are not talking about submarines. They are deterrents. We are not here to fight in the world.

Yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn yr Alban yw eu bod yn credu bod yr arian olew i gyd yn eiddo iddynt hwy; ie, ond y gwir amdani yw bod yr olew yn perthyn i'r Deyrnas Unedig. Nid ydych yn gwybod—. Mae gan y rhan hon o'r byd, y Deyrnas Unedig, 60 miliwn o bobl. Sut felly, Ddirprwy Lywydd, fod llai na 2 filiwn o bobl yn cael penderfynu cymryd un rhan o dair o'r wlad? Mae hynny'n nonsens. [Torri ar draws.] Rwy'n bersonol yn credu na ddylai hynny ddigwydd. Pwy sydd wedi trefnu hyn—. [Torri ar draws.] Na, mae hyn yn rhywbeth sy'n anghywir. Mae'n rhaid i mi fod yn glir iawn yn fy meddwl yma: mae'n rhaid bod rhai gwledydd yn y byd yn chwervhin mai'r Deyrnas Unedig fydd y genedl wannaf—un o'r cenhedloedd gwannaf, o safbwynt amddiffyn—os bydd yr Alban yn troi'n annibynnol. Mae'r rhan honno o'r byd nid yn unig wedi hyfforddi ein swyddogion dewr yn y llynges a'r awyrlu—ond hefyd bydd ein lluoedd arfog yn cael eu gwanhau. Efallai mai dim ond un rhan o bump o'u gwerth cyfredol a fydd ganddynt. Ni allem gynnal ein sefyllfa yn y byd bydeang hwn. [Torri ar draws.] Na, nid ydym yn sôn am longau tanfor. Maent yn arfau ataliol. Nid ydym yma i ymladd yn y byd.

16:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:24 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, I have a lot to say, but thank you. I will be very grateful to all of the expats in Scotland who vote 'no' tomorrow.

Ddirprwy Lywydd, mae gennyf lawer i'w ddweud, ond diolch ichi. Byddaf yn ddiolchgar iawn i bob un o'r cyn-breswylwyr yn yr Alban sy'n pleidleisio 'na' yfory.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:25 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I actually knew that Plaid Cymru was a party in favour of independence. I think that most other people did too. [Laughter.]

Gwyddwn yn iawn fod Plaid Cymru yn blaid o blaid annibyniaeth. Credaf fod y rhan fwyaf o bobl eraill yn gwybod hynny hefyd. [Chwervhin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will start off by saying that Scotland would not be unique if it broke away from the rest of the United Kingdom, or if it did not. We have seen in recent years in Europe the splitting up of the old Soviet Union, Yugoslavia and Czechoslovakia. More recently we have seen a split in Sudan, between Sudan and South Sudan. On the other hand, Quebec has twice rejected separation from the rest of Canada in referenda. That Scotland is large enough to be a separate country is self-evident. It is larger than a number of other countries in the world. Strathclyde itself is bigger than Slovenia and is almost five times the size of Luxembourg. Actually, Swansea city region is bigger than Luxembourg. [Laughter.] The Republic of Ireland has survived as an individual country.

Dechreuaf drwy ddweud na fyddai'r Alban yn unigryw pe bai'n torri i ffwrdd oddi wrth weddill y Deyrnas Unedig, neu pe na bai'n gwneud hynny. Rydym wedi gweld yn y blynyddoedd diwethaf yn Ewrop yr hollti a gafwyd yn yr hen Undeb Sofietaidd, Iwgoslafia a Tsiecoslofacia. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld rhaniad yn y Swdan, rhwng Swdan a De Swdan. Ar y llaw arall, mae Quebec ddwywaith wedi gwrthod gwahanu oddi wrth weddill Canada mewn referenda. Mae'r ffaith fod yr Alban yn ddigon mawr i fod yn wlad ar wahân yn amlwg. Mae'n fwy na nifer o wledydd eraill yn y byd. Mae Ystrad Clud ei hun yn fwy na Slofenia ac mae bron i bum gwaith yn fwy na Lwcsembwrg. A dweud y gwir, mae rhanbarth dinas Abertawe yn fwy na Lwcsembwrg. [Chwervhin.] Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi goroesi fel gwlad unigol.

Why then are we better together? One recent example is the European and North American banking crisis, which was called the world banking crisis. What happened? Let us look at countries by their size. Cyprus has a population of 838,000, and its savers took a haircut, which is the technical term for losing a large chunk of their money. Iceland has 325,000 people and its banks failed. Greece has approximately 11 million people and it faced financial meltdown. The Republic of Ireland has approximately 4.6 million people and it also faced financial meltdown. The countries that weathered the economic storm best were the larger countries. With size comes resilience. In terms of the economy, size really does matter.

We have three big questions: currency; European Union; and the share of the debt. We have a fairly recent example of an amicable divorce, when Czechoslovakia split into the two new countries of Slovakia and the Czech Republic. Initially, the old Czechoslovakian currency, the koruna, was used in both countries. However, they decided to have their own currencies in their own countries, and then, after 40 days, what happened? They were unable to keep them at parity and they went their separate ways. It ended up at one stage that one currency was worth 30% less than the other. On debt, they split the debt based on the ratio of population. Sudan has not decided how to share its debt out, and it is now in the process of going to arbitration.

Would Scotland have to reapply to the European Union and would it be accepted? We need to look at this from a European perspective, where many European countries or regions have expressed a desire for independence—Catalonia, Venice and several others, but I am not going to give you a list. If a split can occur and the regions or nations can remain within the European Union, then the fragmentation of Europe looks likely, even if they can not only remain in the European Union but walk away from the debt.

I am sure that those who see Britain as a successful union will say things like 'There is a considerable difference between the global significance of sterling and the Czech/Slovak koruna', how important sterling is as a currency or how much the European Union needs Scotland. On 19 September, we may start finding out who is right regarding currency, debt and the European Union.

If Scotland votes 'yes', what happens next? The first thing we can be certain of is that Scottish nationalists will have a big party over the whole weekend to celebrate the historic decision; but, when Monday morning comes, what happens? First, the timetable for Scottish independence—and this is something that is really important—is far too long. It would have a serious economic impact, possibly pushing the whole country, including Scotland, back into recession. Eighteen months to split up; 18 months of dithering; 18 months of not knowing what is going to happen next. Surely, the most sensible situation would be for Scottish independence to coincide with the start of the 2015 financial year.

Felly, pam rydym ni'n well gyda'n gilydd? Un enghraifft ddiweddar yw'r argyfwng bancio yn Ewrop a Gogledd America, a alwyd yn argyfwng bancio'r byd. Beth a ddigwyddodd? Gadewch inni edrych ar y gwledydd yn ôl eu maint. Mae gan Cyprus boblogaeth o 838,000, a 'thorrwyd gwallt' ei chynilwyr, sef y term technegol a ddefnyddir am golli cyfran fawr o'u harian. Mae gan Wlad yr Iâ 325,000 o bobl a methodd ei banciau. Mae gan Wlad Groeg tua 11 miliwn o bobl a wynebodd chwalfa ariannol. Mae gan Weriniaeth Iwerddon tua 4.6 miliwn o bobl a wynebodd hithau hefyd chwalfa ariannol. Y gwledydd a orosodd y storm economaidd orau oedd y gwledydd mwy o faint orau. Gyda maint daw gwydnwch. O ran yr economi, mae maint yn wirioneddol bwysig.

Mae gennym dri chwestiwn mawr: arian; yr Undeb Ewropeaidd; a chyfran y ddyled. Mae gennym enghraifft gymharol ddiweddar o ysgariad cyfeillgar, wrth i Tsiecoslofacia rannu'n ddwy wlad newydd, sef Slofacia a'r Weriniaeth Tsiec. I ddechrau, hen arian cyfred Tsiecoslofacia, y corwina, a gâi ei ddefnyddio yn y ddwy wlad. Fodd bynnag, penderfynasant gael eu harian eu hunain yn eu gwledydd eu hunain, ac yna, ar ôl 40 diwrnod, beth a ddigwyddodd? Roeddynt yn methu cadw'r ddysgl yn wastad rhyngddynt ac aethant eu ffyrdd eu hunain. Y canlyniad oedd bod un arian cyfred yn werth 30% yn llai na'r llall ar un adeg. Ar ddyled, rhanasant y ddyled ar sail cymhareb y boblogaeth. Nid yw Swdan wedi penderfynu sut i rannu ei dyled, ac y mae yn awr yn y broses o fynd i gyflafareddiad.

A fyddai'n rhaid i'r Alban wneud cais arall i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ac a fyddai'n cael ei derbyn? Mae angen inni edrych ar hyn o safbwynt Ewropeaidd, lle mae llawer o wledydd neu ranbarthau Ewrop wedi mynegi awydd am annibyniaeth—Catalonia, Fenis a sawl un arall, ond nid wyf yn mynd i roi rhestr i chi. Os gall rhaniad ddigwydd ac y gall y rhanbarthau neu'r cenedloedd aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd, yna mae'n debyg y bydd Ewrop yn rhannu, hyd yn oed os na allant yn unig barhau i fod yn yr Undeb Ewropeaidd ond troi eu cefn ar y ddyled.

Rwy'n siŵr y bydd y rhai sy'n gweld Prydain fel undeb llwyddiannus yn dweud pethau fel 'Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng arwyddocâd byd-eang sterling a'r corwina Tsiec/Slofac', pa mor bwysig yw sterling fel arian cyfred, neu faint y mae'r Undeb Ewropeaidd angen yr Alban. Ar 19 Medi, efallai y byddwn yn dechrau dod i wybod pwy sy'n iawn ynghylch arian, dyled a'r Undeb Ewropeaidd.

Os bydd yr Alban yn pleidleisio 'ie', beth sy'n digwydd nesaf? Y peth cyntaf y gallwn fod yn sicr ohono yw y bydd cenedlaetholwyr yr Alban yn cael parti mawr a fydd yn para'r penwythnos cyfan i ddathlu'r penderfyniad hanesyddol; ond, pan ddaw bore Llun, beth sy'n digwydd? Yn gyntaf, mae'r amserlen ar gyfer annibyniaeth yr Alban—ac mae hyn yn rhywbeth sy'n wirioneddol bwysig—yn llawer rhy hir. Byddai'n cael effaith economaidd ddifrifol, gan o bosibl wthio'r wlad i gyd, gan gynnwys yr Alban, yn ôl i ddirwasgiad. Deunaw mis i wahanu; 18 mis o simsanu; 18 mis o beidio â gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Yn sicr, y sefyllfa fwyaf synhwyrol fyddai i annibyniaeth yr Alban gyd-fynd â dechrau blwyddyn ariannol 2015.

Scotland would need to create its own central bank and currency, which I assume would be called the Scottish pound, and it should print it, so that it could arrange to exchange British currency for Scottish currency at its banks. I would also expect the currency to have equal value to sterling and then for the currency market to decide its value. Of course, Scottish passports would have to be printed and they would need to start creating them. A decision on embassies would have to be made—who has what. Armed forces would have to be shared out. In terms of national assets and debts, they would need to be shared out. The simplest way would be on a population basis, though there is a very big argument that Scotland ought to be paying the debt of the Royal Bank of Scotland.

The easiest way to decide the first year's taxation and benefit levels would be for them to carry on using the level set in Westminster. Those companies that wished to relocate into Scotland or out of Scotland could issue their 90-day redundancy notices and have time to either relocate or employ new staff at their new centres. Scotland could immediately apply to become a member of the European Union and seek any opt-out that it desired, although I think that you may well find that—
[Interruption.]

Byddai angen i'r Alban greu ei banc canolog a'i harian ei hun, y tybiaf a fyddai'n cael ei galw'n bunt yr Alban, a dylai ei hargraffu, fel y gallai drefnu bod modd cyfnewid arian cyfred Prydain am arian yr Alban yn ei banciau. Byddwn hefyd yn disgwyl i'r arian gael gwerth cyfartal i sterling ac yna y byddai'r farchnad arian yn penderfynu ar ei werth. Wrth gwrs, byddai'n rhaid argraffu pasbortau'r Alban a byddai angen iddynt ddechrau eu creu. Byddai'n rhaid gwneud penderfyniad ar lysgenadaethau—pwy sy'n cael beth. Byddai'n rhaid rhannu'r lluoedd arfog. O ran asedau a dyledion cenedlaethol, byddai angen iddynt gael eu rhannu. Y ffordd symlaf fyddai ar sail poblogaeth, er bod dadl fawr iawn y dylai'r Alban fod yn talu'r ddyled i Fanc Brenhinol yr Alban.

Y ffordd hawsaf o benderfynu ar lefelau trethi a budd-dal yn ystod y flwyddyn gyntaf fyddai gadael iddynt barhau i ddefnyddio'r lefel a osodwyd yn San Steffan. Gallai'r cwmnïau hynny a fyddai am symud i mewn i'r Alban neu allan o'r Alban gyhoeddi eu hysbysiadau gadael 90-diwrnod a chael amser naill ai i adleoli neu gyflogi staff newydd yn eu canolfannau newydd. Gallai'r Alban wneud cais ar unwaith i ddod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd a gofyn am unrhyw optio allan y dymunai, er fy mod yn meddwl y gallech weld ei bod yn ddigon posib y gallai hynny— [Torri ar draws.]

- 16:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You must conclude now. Mae'n rhaid i chi gau pen y mwdwl nawr.
- 16:30 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You may well find that countries may not want them in there for reasons of their own. I will say that divorce is never easy, but a clean break would be the best way. Efallai y byddech yn canfod nad yw gwledydd eu heisiau nhw yno am ba bynnag resymau. Dywedaf nad yw ysgariad byth yn hawdd, ond gwahanu'n llwyr fyddai'r ffordd orau.
- 16:30 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Like most of us in the Chamber this afternoon, I hope, and expect, that our Scottish friends will vote 'no' tomorrow and for the union to continue. However, I think that all of us who want to see the union continue must have been extraordinarily disturbed at what we have seen over the last few weeks. We have seen 300 years of history reduced to a transactional argument over debt ratios and economic growth forecasts. Fel y rhan fwyaf ohonom yn y Siambr y prynhawn yma, rwy'n gobeithio, ac yn disgwyl, y bydd ein cyfeillion yn yr Alban yn pleidleisio 'na' yfory ac y gwelwn yr undeb yn parhau. Fodd bynnag, credaf fod pob un ohonom sydd am weld yr undeb yn parhau wedi cael ein brawychu'n rhyfeddol gan yr hyn rydym wedi'i weld yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rydym wedi gweld 300 o flynyddoedd o hanes yn cael eu cwtogi'n ddadl drafodol ynghylch cymarebau dyled a rhagolygon twf economaidd.
- There has been no serious debate about what the union means to people either in Scotland or elsewhere, with the exception of a financial cost or benefit to them. Three hundred years of history, all of the family links and ties and the culture that we share reduced to a very simple argument over whether we could succeed or whether you could succeed. I think that that has been a tragedy. Ni fu unrhyw drafodaeth o ddifrif am yr hyn y mae'r undeb yn ei olygu i bobl naill ai yn yr Alban neu y tu hwnt, ac eithrio'r gost ariannol neu'r budd iddynt. Mae tri chan mlynedd o hanes, pob un o'r cysylltiadau teuluol a'r diwylliant rydym yn eu rhannu wedi eu cwtogi'n ddadl syml iawn ynghylch a allem ni lwyddo neu a allech chi lwyddo. Credaf fod hynny wedi bod yn drasiedi.

I agree very much with what Leanne Wood said about the energised nature of the campaign. Certainly, the meeting of young people last week in Scotland—I think that it was called the Big, Big Debate—was one of the most impressive political events that I have seen in my lifetime. That is certainly a lesson that we need to learn. However, we need to look at how this debate has taken place, and we need to look at, and argue for, what sort of union we wish to see coming out of the debate and the vote that takes place tomorrow.

I hope that, on Friday, we will be generous. I hope that we will be generous to those people who have campaigned hard for what they believe in. I hope that we will also invest in a new union, and that we will be able to create and articulate an argument for a union of nations within and on these islands that is different to the history that we have seen, but will be durable in the future.

Whatever stance that we take on the current debate, I think that it is fair to say that what we do not want to see is victory deferred tomorrow. We want to see a clean decision, and I do not think that any of us, when we watched these debates taking place over the last few months, thought that the very survival of the United Kingdom would be on a knife edge on the day before polling. We, in the Better Together campaign, and we, as unionists, effectively did not campaign on what we believed that the union could be and what it could provide for our people. So, let us, in Wales, join this debate, and let us, in Wales, articulate a vision for the future of governance on these islands.

I will not involve myself in a debate with either Mick or the Liberals on the nature of federalism; I have neither the energy nor the ability to do so. However, it is clear that we need a new settlement that is based on the mutual respect of the countries and peoples of these islands. It is clear that we need a settlement—we used the term 'home rule' in questions yesterday, which is a term with which I feel quite comfortable, a term that Keir Hardie was elected on, and a term with which we can all live. If we agree with that, we need to articulate what we mean by it.

We cannot ignore the question of England. We have, for too long, pretended that we can rely on the tolerance of the English people year after year, generation after generation. The English are, I think, one of the most tolerant nations on earth, but their tolerance will be tested if we simply come to them and say, 'We want money and we want to contribute nothing else'. That is not an acceptable solution, so we need a constitutional convention. We also need a serious debate—a debate that will seek to energise and involve people and that will be based on our values. These will be different. I disagree with the motion, which says that we speak with a single voice. We do not speak with a single voice; we have different views, and it is right that we have the opportunity to articulate them.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Leanne Wood am natur egniol yr ymgyrch. Yn sicr, roedd cyfarfod y bobl ifanc yr wythnos diwethaf yn yr Alban—rwy'n meddwl mai'r Big, Big Debate oedd ei enw—yn un o'r digwyddiadau gwleidyddol mwyaf trawiadol a welais erioed. Mae hynny'n sicr yn wers y mae angen inni ei dysgu. Fodd bynnag, mae angen inni edrych ar sut mae'r ddaol hon wedi digwydd, ac mae angen inni edrych ar, a dadlau ynghylch pa fath o undeb rydym am ei weld yn dod allan o'r ddaol a'r bleidlais sy'n digwydd yfory.

Gobeithiaf, ddydd Gwener, y byddwn yn hael. Gobeithiaf y byddwn yn hael at y bobl hynny sydd wedi ymgyrchu'n galed dros yr hyn y credant ynddo. Gobeithiaf y byddwn hefyd yn buddsoddi mewn undeb newydd, ac y byddwn yn gallu cyfleu dadl dros undeb o genhedloedd o fewn ac ar yr ynysoedd hyn sy'n wahanol i'r hanes rydym wedi'i weld, ond a fydd yn wydn yn y dyfodol.

Beth bynnag fo'n barn ar y ddaol bresennol, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud mai'r hyn nad ydym am ei weld yw buddugoliaeth ohiriedig yfory. Rydym am weld penderfyniad glân, ac ni chredaf fod yr un ohonom, wrth i ni wyllo'r dadleuon hyn dros y misoedd diwethaf, yn meddwl y byddai dyfodol y Deyrnas Unedig yn y fantol ar noswyl y pleidleisio. Ni wnaethom ni, yn yr ymgyrch Gwell gyda'n Gilydd, a ninnau fel undebwyr, yn effeithiol ymgyrchu ar yr hyn y credem y gallai'r undeb fod a beth y gallai ei gyflawni i'n pobl. Felly, gadewch i ni, yng Nghymru, ymuno â'r drafodaeth hon, a gadewch i ni, yng Nghymru, gyfleu gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraethu ar ynysoedd hyn.

Nid wyf am fynd i ddaolau gyda naill ai Mick na'r Rhyddfrydwyr am natur ffederaliaeth; nid oes gennyf yr egni na'r gallu i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod arnom angen setliad newydd sy'n seiliedig ar barch y gwledydd a phobloedd yr ynysoedd hyn tuag at ei gilydd. Mae'n amlwg bod angen setliad arnom—buom yn defnyddio'r term 'ymreolaeth' mewn cwestiynau ddoe, sy'n derm rwyf yn teimlo'n eithaf cyfforddus ag ef, term yr etholwyd Keir Hardie o'i blegid, a them y gallwn ni i gyd fyw gydag ef. Os byddwn yn cytuno â hynny, mae angen i ni gyfleu'r hyn a olygwn gan hynny.

Ni allwn anwybyddu mater Lloegr. Am gyfnod rhy hir, rydym wedi bod yn esgus y gallwn ddibynnu ar oddefgarwch y Saeson flwyddyn ar ôl blwyddyn, genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth. Mae'r Saeson, rwy'n meddwl, yn un o'r cenhedloedd mwyaf goddefgar ar wyneb daear, ond bydd eu goddefgarwch yn cael ei brofi os ydym yn syml yn dod atynt a dweud, 'Rydym eisiau arian ac rydym yn awyddus i gyfrannu dim byd arall'. Nid yw hynny'n ateb derbynol, felly mae angen confensiwn cyfansoddiadol. Mae angen dadl o ddirif arnom hefyd—dadl a fydd yn ceisio symbylu a chynnwys pobl ac a fydd yn seiliedig ar ein gwerthoedd. Bydd y rhain yn wahanol. Rwy'n anghytuno â'r cynnig, sy'n dweud ein bod yn siarad gydag un llais. Nid ydym yn siarad gydag un llais; mae gennym wahanol farn, ac mae'n iawn ein bod yn cael y cyfle i'w lleisio.

I also think that we need to revisit some of the conclusions of parts 1 and 2 of the Silk commission. Certainly, from my perspective, what Silk said about energy consents is wholly inadequate for the powers that we need to hold in this place; I did not support it at the time, and I would not support it today. So, we need to have a serious debate, and we need to look at the sort of governance that we want in these islands, but we must allow that debate to take place based on our values, our ambitions and our visions for the peoples of this country. Government must exist to do good and in order to equalize opportunities for people, but also to build opportunities for the future.

Credaf hefyd fod angen i ni ailedrych ar rai o'r casgliadau o rannau 1 a 2 Comisiwn Silk. Yn sicr, o'm safbwynt i, mae'r hyn a ddywedodd Silk am ganiatadau ynni yn hollol annigonol ar gyfer y pwerau sydd eu hangen arnom yma; doeddwn i ddim yn ei gefnogi ar y pryd, ac ni fyddwn yn ei gefnogi heddiw. Felly, mae angen inni gael dadl o ddirif, ac mae angen inni edrych ar y math o lywodraethu a ddeisyfwn yn yr ynysioedd hyn, ond rhaid inni ganiatáu i'r ddadl ddirif yn seiliedig ar ein gwerthoedd, ein huchelgeisiau a'n gweledigaethau ar gyfer pobloedd y wlad hon. Rhaid i'r Llywodraeth fodoli er mwyn gweithredu er lles ac er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i bobl, ond hefyd er mwyn adeiladu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

16:35

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These certainly are momentous times for the future of Wales, as well as for Scotland and the UK as a whole. Wales has come a long way since 1999. We are now a parliament in all but name. We have used our full law-making powers to very good effect. We have already enacted an impressive programme of legislation and important Acts are already on the statute book, with much yet to come. This progress has been achieved with strong cross-party working and consensus building across Wales.

The referendum on independence for Scotland has undoubtedly galvanised politics in Scotland and the devolution debate, as other Members have referred to. In many ways, it has been a very positive exercise for Scotland and, indeed, across the UK, as interest in devolution has been stimulated and the debate has strengthened and gone forward. It is clear that whatever the result of that referendum, there will, of course, now be substantial further devolution in the UK. It is a great shame that our First Minister's call for a constitutional convention was not heeded long before we got to this stage, because I think that that would have been so important and beneficial, right across the UK.

We badly need to get on and write the new chapter in devolution for Wales and a new constitutional architecture across the UK. As a Labour AM, I am very proud of the role of Labour Government in creating and developing devolution in Wales—UK Labour Government and Welsh Labour Government. Our country is so much stronger now and is empowered with that new democracy that has been created since 1999. There is now a clear way ahead for Wales: speedily implementing the recommendations of parts 1 and 2 of the Silk commission and that UK-wide constitutional convention to produce the plan that we need so badly post the Scottish referendum. We need to set out that clear swift way forward to produce the badly needed substantial rebalancing of power across the UK and, even more badly needed, greater equality across the UK. If we do not achieve that greater equality for all parts of the UK, we will not get the full recognition and appreciation of the benefits of the UK that will stand the UK in good stead and keep it together now and into the future. Therefore, we now have a clear and important opportunity to get it right—rebalancing power and creating that greater equality.

Yn ddi-os, mae'n gyfnod pwysig dros ben ar gyfer dyfodol Cymru, yn ogystal â'r Alban a'r DU yn ei chyfanrwydd. Mae Cymru wedi teithio ymhell ers 1999. Rydym bellach yn senedd ym mhopeth ond enw. Rydym wedi defnyddio ein pwerau deddfu llawn yn effeithiol iawn. Rydym eisoes wedi deddfu rhaglen drawiadol o ddeddfwriaeth ac mae Deddfau pwysig eisoes ar y llyfr statud, gyda llawer eto i ddod. Mae'r cynnydd hwn wedi ei gyflawni yn sgil gweithio traws-bleidiol cryf a thrwy adeiladu consensws ar draws Cymru.

Mae'r refferendwm ar annibyniaeth i'r Alban yn ddi-os wedi symbylu gwleidyddiaeth yn yr Alban a'r ddadl am ddatganoli, fel y mae Aelodau eraill wedi ei grybwyll. Ar lawer ystyr, mae wedi bod yn ymarfer cadarnhaol iawn ar gyfer yr Alban ac, yn wir, ledled y DU, wrth i ddi-ddordeb mewn datganoli gael ei symbylu ac mae'r ddadl wedi cryfhau ac wedi symud ymlaen. Beth bynnag fydd canlyniad y refferendwm, mae'n amlwg y bydd, wrth gwrs, ddatganoli pellach sylweddol nawr yn y DU. Mae'n drueni mawr na wrandawyd ar alwad ein Prif Weinidog am gonfensiwn cyfansoddiadol cyn i ni gyrraedd y cam hwn, oherwydd credaf y byddai hynny wedi bod mor bwysig a buddiol, ar draws y DU.

Mae angen dybryd i ni fwrw iddi ac ysgrifennu'r bennod newydd ar ddatganoli i Gymru a phensaernïaeth gyfansoddiadol newydd ar draws y DU. Fel AC Llafur, rwy'n falch iawn o rôl y Llywodraeth Lafur yn creu a datblygu datganoli yng Nghymru—Llywodraeth Lafur y DU a Llywodraeth Lafur Cymru. Mae ein gwlad gymaint yn gryfach nawr ac wedi'i grymuso gan y ddemocratiaeth newydd honno sydd wedi ei chreu ers 1999. Erbyn hyn, mae ffordd glir ymlaen i Gymru: gweithredu argymhellion rhannau 1 a 2 Comisiwn Silk ar fyrder a'r confensiwn cyfansoddiadol DU gyfan hwnnw i lunio'r cynllun sydd dybryd ei angen arnom ar ôl refferendwm yr Alban. Mae angen i ni amlinellu'r ffordd ymlaen gyflym a chllir honno er mwyn gallu mynd ati i gydbwysu'n sylweddol bwerau ar draws y DU—rhywbeth sydd gwir angen ei wneud—a gwneud rhywbeth arall sydd hyd yn oed angen ei wneud yn fwy, sef sicrhau mwy o gydraddoldeb ar draws y DU. Os nad ydym yn sicrhau mwy o gydraddoldeb i bob rhan o'r DU, ni fyddwn yn cydnabod nac yn gwerthfawrogi'n llawn manteision y DU a fydd yn rhoi'r DU mewn sefyllfa dda ac yn ei chadw'n un, nawr ac yn y dyfodol. Felly, mae gennym bellach gyfle clir a phwysig i gael pethau'n iawn—ail-gydbwysu'r pŵer a chreu mwy o gydraddoldeb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I fully support Welsh Government amendment 2 in this debate today, because we have this opportunity for a strong united voice for our country. We have come a long way, building a new Wales, but we now have an exciting new chapter about to be written. I very much hope that we can now come together, right across Wales, as we have in the past, to realise that exciting new future for all our communities.

16:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the contributors to this debate this afternoon. It is a debate that is as important to us in Wales as it is to the people of Scotland. I think that it is right to say that times have changed. The old union will go, regardless of what happens on Friday, and a new union will have to be built.

We have heard the Prime Minister say that the United Kingdom is not a nation and that it is four nations. Those are remarkable words from a leader of a Conservative Party, but they are words with which I agree. I have heard John Redwood call for more devolution. I have listened to UKIP, which has moved from being a party that saw this place as part of a European plot to supporting a federal UK. That shows the times that we live in.

The UK that we live in is only just about 90 years old, in reality. It is not 300 years old. Most of Ireland left in 1921. Therefore, from time to time, the UK has to re-think itself, and the time has come for that to happen. I hope that it will happen on the back of a 'no' vote in Scotland on Thursday, but it has to happen.

Scotland's future is a matter for the people of Scotland; that much is true. In the same way, Wales's future is a matter for the people of Wales, but we cannot pretend that, if there is a 'yes' vote in Scotland on Thursday, there will be no effect on Wales. That is why I mentioned that it is important that Scotland stays with us, but that we look once again at the concept of what I described yesterday as home rule, but within the UK.

There are some who will say that we are better off independent. My answer is this: the question for Wales is not, 'Could we be independent?'—any country could be independent; the question is, 'Should we be independent?' My answer is 'no'. Have we had a history of recent oppression? No. Have we had a history of recent genocide? No. Is there an overwhelming economic case that can be made for Wales to be independent? No. Therefore, what have we left is pride and ambition. You could not make me more proud of my nation of Wales. Independence would not change that, and I know that pride will not put bread on the table. As for ambition, there are some who will say that you lack ambition if you do not back independence, but my answer is this: it is not ambition to want to walk off the edge of a cliff without looking.

Rwy'n llwyr gefnogi gwelliant 2 Llywodraeth Cymru yn y ddatl hon heddiw, gan fod gennym y cyfle hwn am lais unedig cryf ar ran ein gwlad. Rydym wedi teithio ymhell, gan adeiladu Cymru newydd, ond yn awr mae gennym bennod newydd gyffrous sydd ar fin cael ei hysgrifennu. Rwy'n gobeithio'n fawr y gallwn yn awr ddod at ein gilydd, ymhob cwr o Gymru, fel y gwnaethom yn y gorffennol, i sicrhau'r dyfodol newydd cyffrous hwnnw ar gyfer ein holl gymunedau.

Diolchaf i gyfranwyr y ddatl y prynhawn yma. Mae'n ddadl sydd mor bwysig i ni yng Nghymru ag ydyw i bobl yr Alban. Credaf ei bod yn iawn dweud fod yr oes wedi newid. Bydd yr hen undeb yn diflannu, waeth beth fydd yn digwydd ddydd Gwener, a bydd rhaid adeiladu undeb newydd.

Rydym wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud nad yw'r Deyrnas Unedig yn genedl a'i bod yn bedair cenedl. Dyna eiriau rhyfeddol gan arweinydd Plaid Geidwadol, ond maent yn eiriau rwyf yn cytuno â hwy. Rwyf wedi clywed John Redwood yn galw am fwy o ddatganoli. Rwyf wedi gwrandao ar UKIP, sydd wedi symud o fod yn blaid a oedd yn gweld y lle hwn fel rhan o ystryw Ewropeaidd i fod yn blaid sy'n cefnogi DU ffederal. Mae hynny'n dangos sut oes rydym ni'n byw ynddi.

Dim ond 90 oed yw'r Deyrnas Unedig rydym yn byw ynddi mewn gwirionedd. Nid yw'n 300 mlwydd oed. Gadawodd y rhan fwyaf o Iwerddon ym 1921. Felly, o bryd i'w gilydd, mae angen i'r DU ail-ystyried yr hyn ydyw, a daeth yr amser i hynny ddigwydd. Rwy'n gobeithio y bydd yn digwydd ar gefn pleidlais 'na' yn yr Alban ddydd Iau, ond mae'n rhaid iddo ddigwydd.

Mae dyfodol yr Alban yn fater i bobl yr Alban; mae hynny'n sicr yn wir. Yn yr un modd, mae dyfodol Cymru yn fater i bobl Cymru, ond ni allwn esgus, os bydd pleidlais 'ie' yn yr Alban ddydd Iau, na fydd unrhyw effaith ar Gymru. Dyna pam y soniais ei bod yn bwysig fod yr Alban yn aros gyda ni, ond ein bod yn edrych unwaith eto ar y cysyniad o'r hyn a ddisgrifiais ddoe fel ymreolaeth, ond o fewn y DU.

Mae rhai a fydd yn dweud ein bod yn well ein byd o fod yn annibynnol. Fy ateb yw hyn: nid y cwestiwn i Gymru yw, 'A fyddai modd inni fod yn annibynnol?'—gallai unrhyw wlad fod yn annibynnol; y cwestiwn yw, 'A ddylem fod yn annibynnol?' Fy ateb yw 'na'. A oes gennym hanes o ormes diweddar? Na. A oes gennym hanes diweddar o hil-laddiad? Na. A oes achos economaidd cryf aruthrol o blaid Cymru annibynnol? Na. Felly, yr hyn sy'n weddill yw balchder ac uchelgais. Ni allech fy ngwneud i'n fwy balch o Gymru fy ngwlad. Ni fyddai annibyniaeth yn newid hynny, a gwn na fydd balchder yn rhoi bara ar y bwrdd. O ran uchelgais, bydd rhai'n dweud eich bod yn brin o uchelgais os nad ydych yn cefnogi annibyniaeth, ond fy ateb yw hyn: nid uchelgais yw bod am gerdded oddi ar ymyl clogwyn heb edrych.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We must be exceptionally careful of how we consider Wales's future. I have heard the leader of Plaid Cymru say this afternoon that she wants to see an independence referendum in Wales. That is what her party has stood for, and I am grateful for the clarity that we have received from her on that. However, let us not forget that the SNP won the right to a referendum in Scotland by winning a majority of the seats in the Scottish election. If Plaid Cymru wishes to stand on the basis of wanting an independence referendum in Wales and then won a majority, then it would be entitled to have a referendum on independence. I look forward to Plaid Cymru, in its manifesto, stating clearly that it is in favour of an independence referendum and that it will call for that referendum if it is elected as a majority Government here in 2016, and we will see how far that gets with the people of Wales.

Let me turn to the matter of what the new union needs to be. There is no doubt that the UK has been too centralised; there is no doubt that Westminster has been too over-mighty; there is no doubt that the impression is sometimes given that the UK is England with bits on, and these things must be dealt with. However, that is not a reason to destroy the UK itself. The fact that we are four nations must be reflected in a new constitutional settlement. The vow that was made by the three UK party leaders in the 'Daily Record' is a genuine vow, I believe, and it must be followed through.

As far as Wales is concerned, the issue of funding for Wales must be dealt with. However, we know that identity does not require independence. Wales has prospered from 15 years of devolved government as a new democracy. What we need in Wales is not independence, but a devolved Government with more powers. We need to see more decentralisation from Westminster. We need to look again at the old concept, for example, of parliamentary sovereignty and what that means for the people of Wales. I believe that we should be moving to a situation in the UK where we recognise that there are a number of centres of legitimate democracy and the way in which you deal with potential conflicts between them is to state clearly what they do, and that has not happened so far in the UK.

Rhaid inni fod yn eithriadol o ofalus sut rydym yn ystyried dyfodol Cymru. Rwyf wedi clywed arweinydd Plaid Cymru yn dweud y prynhawn yma ei bod am weld refferendwm ar annibyniaeth yng Nghymru. Dyna y mae ei phlaid wedi sefyll drosto, ac rwy'n ddiolchgar am yr eglurder rydym wedi'i gael ganddi ar hynny. Fodd bynnag, gadewch inni beidio ag anghofio bod yr SNP wedi ennill yr hawl i gynnal refferendwm yn yr Alban drwy ennill mwyafrif y seddi yn etholiad yr Alban. Os yw Plaid Cymru yn dymuno sefyll ar sail eisiau refferendwm ar annibyniaeth yng Nghymru ac yna ei bod yn ennill mwyafrif, yna byddai ganddi hawl i gael refferendwm ar annibyniaeth. Edrychaf ymlaen at Blaid Cymru, yn ei manifesto, yn nodi'n glir ei bod o blaid refferendwm ar annibyniaeth ac y bydd yn galw am y refferendwm hwnnw os caiff ei hethol fel Llywodraeth fwyafrifol yma yn 2016, a chawn weld sut y bydd pobl Cymru yn ymateb i hynny.

Gadewch i mi droi at yr hyn y mae angen i'r undeb newydd fod. Nid oes amheuaeth fod y DU wedi bod yn rhy ganolog; nid oes amheuaeth fod San Steffan wedi bod yn rhy or-nerthol; nid oes amheuaeth fod yr argraff weithiau'n cael ei rhoi mai'r DU yw Lloegr gyda thameidiau ychwanegol, a rhaid ymdrin â'r pethau hyn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n rheswm i ddinistrio'r DU ei hun. Rhaid i'r ffaith ein bod yn bedair gwlad gael ei adlewyrchu mewn setliad cyfansoddiadol newydd. Mae'r adduned a wnaethpwyd gan y tri arweinydd plaid yn y DU yn y 'Daily Record' yn adduned didwyll, yn fy marn i, a rhaid ei gyflawni.

Cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, rhaid ymdrin â'r mater o gyllid ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, gwyddom nad oes angen annibyniaeth ar hunaniaeth. Mae Cymru wedi ffynnu yn sgil 15 mlynedd o lywodraeth ddatganoledig fel democratiaeth newydd. Yr hyn sydd ei angen arnom yng Nghymru yw nid annibyniaeth, ond Llywodraeth ddatganoledig gyda mwy o bwerau. Mae angen i ni weld mwy o ddatganoli o San Steffan. Mae angen inni edrych eto ar yr hen gysyniad, er enghraifft, o sofraniaeth seneddol a'r hyn y mae hynny'n ei olygu i bobl Cymru. Credaf y dylem fod yn symud at sefyllfa yn y DU lle rydym yn cydnabod bod nifer o ganolfannau democratiaeth dilys a'r ffordd rydych yn delio â gwrthdaro posibl rhyngddynt yw drwy ddatgan yn glir yr hyn a wnant, ac nid yw hynny wedi bod digwydd hyd yn hyn yn y DU.

There is a need for financial flexibility for the devolved Governments, with a proper distribution of resources according to need. That has been the stated position of the Welsh Government. However, what must not happen on Friday, if there is a 'no' vote, is that we see a bilateral discussion between the UK Government and the Scottish Government on further devolution that excludes Wales and Northern Ireland. That is why we must have that UK constitutional convention. I have called for it now for more than two years. I first called for it in Dublin Castle, of all places, ironic though that might be. That is where I first suggested it. It was thought that it was not needed, but now everyone thinks that it is a good idea. The question is not where it originated, but that it is taken through and that we ensure that we build a new union that recognises the legitimate identities of the four nations, and a union that is based on recognising the need to redistribute resources to where they are needed, recognising the need to be part of something bigger, and understanding that that is best for the four nations within the UK.

The UK is not broken but it does need reform. It is akin to having a car that needs a service: it is taken to the garage to be fixed; it is not taken to the scrapyard. The UK is not in that situation, to my mind. The Scottish people, I hope, will bear that in mind when they come to vote tomorrow. We in Wales benefit from the fact that we can enjoy our identity within a UK that provides us with both autonomy and solidarity, and that is something that we should celebrate.

Felly, y neges y byddwn i'n ei rhoi i bobl Cymru, a hefyd i bobl yr Alban, yw ei bod yn bwysig dros ben inni i gyd sylweddoli bod yna bedair cenedl yn y Deyrnas Unedig, ond hefyd, wrth gwrs, ei bod yn bwysig dros ben inni aros gyda'n gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau'r dyfodol. Y neges felly oddi wrthyf i i bobl Cymru yw hyn: Cymru am byth, yn wir, ond Cymru gref mewn undeb newydd. [Cymeradwyaeth.]

Mae angen hyblygrwydd ariannol ar gyfer y Llywodraethau datganoledig, gydag adnoddau'n cael eu dosbarthu'n briodol yn ôl yr angen. Dyna yw'r farn sydd wedi'i datgan gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yr hyn na ddylai ddigwydd ddydd Gwener, os ceir pleidlais 'na', yw ein bod yn gweld trafodaeth ddwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban ar ddatganoli pellach sy'n eithrio Cymru a Gogledd Iwerddon. Dyna pam mae'n rhaid i ni gael confensiwn cyfansoddiadol i'r DU. Rwyf wedi galw amdano bellach am fwy na dwy flynedd. Gelwais amdano am y tro cyntaf yng Nghastell Dilyn, o bob man, sydd o bosibl braidd yn eironig. Dyna lle yr awgrymais y peth yn gyntaf. Credwyd nad oedd ei angen, ond yn awr mae pawb yn meddwl ei fod yn syniad da. Nid yw'n fater ynghylch o ble y daeth y syniad, ond ei fod yn cael ei ddatblygu a'n bod yn sicrhau ein bod yn adeiladu undeb newydd sy'n cydnabod hunaniaethau cyfreithlon y pedair gwlad, ac undeb sy'n seiliedig ar gydnabod yr angen i ailddosbarthu adnoddau i'r llyfodol y mae eu hangen, gan gydnabod yr angen i fod yn rhan o rywbeth mwy, a deall mai dyna sydd orau i'r pedair gwlad o fewn y DU.

Nid yw'r DU wedi torri ond mae angen ei diwygio. Mae'n debyg i gael car sydd angen gwasanaeth: mae'n mynd i'r garej i gael ei drwsio; nid yw'n mynd i'r iard sgrap. Nid yw'r DU yn y sefyllfa honno, yn fy marn i. Bydd pobl yr Alban, rwyf yn gobeithio, yn cadw hynny mewn cof wrth bleidleisio yfory. Rydym ni yng Nghymru yn elwa ar y ffaith ein bod yn gallu mwynhau ein hunaniaeth o fewn DU sy'n rhoi i ni ymreolaeth ac undod, ac mae hynny'n rhywbeth y dylem ei ddathlu.

Therefore, the message that I would give to the people of Wales and the people of Scotland is that it is very important that we all realise that there are four nations within the United Kingdom, but also, of course, that it is very important that we remain together in order to ensure that we can work together in order to secure a safe future. The message from me, therefore, for the people of Wales is this: Cymru am byth indeed, but a strong Wales in a new union. [Applause.]

16:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Andrew RT Davies i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank everyone who has contributed to the debate today? Mick Antoniw's opening remarks were probably the most relevant in some respects, in that what is said in this Chamber today will most probably have little or no impact on the referendum. However, it is perfectly relevant that we do debate it and that we do discuss it here, because this is the home of the Welsh Parliament, in my mind, and there will be some big decisions to make, from Friday, as to the shape of the United Kingdom going forward. I am convinced that there will be a 'no' vote on Thursday. I am not trying to prejudge what the Scottish people will say, but I do believe that there is a silent majority up in Scotland who can see the benefits of the union of the United Kingdom. That said, there is a significant amount of people across these islands who do want to see change. A large number of those individuals are located in England, and they have not had a discussion and have not had a plan for what England will look like as we go further into the twenty-first century.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw? Mae'n bosibl mai sylwadau agoriadol Mick Antoniw oedd y rhai mwyaf perthnasol i ryw raddau, gan ei bod yn annhebygol y bydd yr hyn a ddywedir yn y Siambr hon heddiw yn cael fawr ddim effaith ar y refferendwm, os o gwbl. Fodd bynnag, mae'n gwbl berthnasol ein bod yn ei drafod a'n bod yn ei ystyried yma, oherwydd dyma gartref Senedd Cymru, yn fy marn i, a bydd rhai penderfyniadau mawr i'w gwneud, o ddydd Gwener, o ran siâp y Deyrnas Unedig i'r dyfodol. Rwy'n argyhoeddedig y bydd pleidlais 'na' ddydd lau. Nid wyf yn ceisio rhagweld beth y bydd pobl yr Alban yn ei ddweud, ond credaf fod mwyafrif tawel i fynd yn yr Alban sy'n gallu gweld manteision undeb y Deyrnas Unedig. Wedi dweud hynny, mae llawer iawn o bobl ledled yr ynysoedd hyn sydd am weld newid. Mae nifer fawr o'r unigolion hynny yn Lloegr, ac nid ydynt wedi cael trafodaeth nac wedi cael cynllun ar gyfer sut y bydd Lloegr yn edrych wrth inni gamu ymhellach i'r unfed ganrif ar hugain.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

It is vital that, after the referendum, and after the body of discussion that has gone on in Scotland—and the engagement, as the leader of Plaid Cymru touched on, with voter registration at 97%, I think you said—that that energy is put to good and positive use. One thing that we have decried, time and time again, in all of the legislatures across these islands, and indeed across the western world, is voters turning their backs on the ballot box, turning away from the decision makers, and actually blaming politicians for creating indifference in public life. We do have a great opportunity to engage on these islands and reshape that settlement.

We live in an era where people make personal choices every day of their lives, in all considerations: whether it be the mobile phone they have in their pocket, the type of paint that they put on their house, or the type of car they drive, people want choices. They want to feel empowered and they want decision making localised. It really will be for the parties to come together, after the referendum, and actually allow that to happen with a new settlement. The United Kingdom has always evolved. It has never stood still. That is why it has been so successful over the years.

Two comments that I have heard this week have stuck out in my mind. The first was at the question-and-answer session in the Senedd here on Monday night. Someone lambasted David Cameron and the Tories for being so disrespectful about the notion of devolution. Well, actually, it was a Conservative Prime Minister who recognised that the devolved settlement in Scotland gave a majority nationalist Government, which won that by the ballot box, and its overriding principle was to have a referendum on independence. That is why we have the referendum now. That is respecting devolution, and respecting the settlement that we currently have. The other point that I heard was on the radio on the way in this morning, from Vaughan Roderick of the BBC. He is someone who I would not normally line up with, but he said that, if you think back over the last 1,000 years of the history of these islands, there is only a handful of occasions when the geographical shape of these islands has actually changed. By that I mean an administrative area going off on its own, Scotland being independent or Ireland doing its own thing. That is an important consideration. We are at a watershed moment with the decisions that will be taken tomorrow with the referendum and the subsequent decisions that will flow.

Ar ôl y refferendwm, ac ar ôl y corff o drafodaeth sydd wedi digwydd yn yr Alban—a'r ymgysylltu, y crybwyllodd arweinydd Plaid Cymru, gyda 97% o bleidleiswyr wedi cofrestru, credaf i chi ddweud—mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r egni hwnnw yn gadarnhaol ac er lles. Un peth rydym wedi ei warafun dro ar ôl tro, ym mhob un o'r deddfwrfeydd ar draws yr ynysoedd hyn, ac yn wir ar draws y byd gorllewinol, yw pleidleiswyr yn troi eu cefnau ar y blwch pleidleisio, gan droi i ffwrdd oddi wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac mewn gwirionedd yn beio gwleidyddion am greu difaterwch mewn bywyd cyhoeddus. Mae gennym gyfle gwych i ymgysylltu ar yr ynysoedd hyn ac ail-lunio'r setliad.

Rydym yn byw mewn oes lle mae pobl yn gwneud dewisiadau personol bob dydd o'u bywydau, ym mhob agwedd: boed ynghylch y ffôn symudol sydd ganddynt yn eu poced, y math o baent a ddefnyddiant ar eu tŷ, neu'r math o gar maent yn ei yrru, mae pobl eisiau dewisiadau. Maent eisiau teimlo'u bod wedi'u grymuso ac maent am i benderfyniadau gael eu gwneud yn lleol. Mae'n wir y bydd pleidiau yn dod at ei gilydd, ar ôl y refferendwm, ac mewn gwirionedd yn caniatáu i hynny ddigwydd gyda setliad newydd. Mae'r Deyrnas Unedig bob amser wedi esblygu. Nid yw erioed wedi sefyll yn ei hunfan. Dyna pam y mae wedi bod mor llwyddiannus dros y blynyddoedd.

Mae dau sylw rwyf wedi eu clywed yr wythnos hon wedi aros yn fy meddwl. Y cyntaf oedd yn y sesiwn holi ac ateb yn y Senedd hon ar nos Lun. Roedd rhywun yn lladd ar David Cameron a'r Torïaid am fod mor amharchus am y syniad o ddatganoli. Wel, mewn gwirionedd, Prif Weinidog Ceidwadol a gydnabu bod y setliad datganoledig yn yr Alban yn rhoi mwyaf i Lywodraeth genedlaetholaidd, a enillodd hynny drwy'r blwch pleidleisio, a'i phrif egwyddor oedd cael refferendwm ar annibyniaeth. Dyna pam y cynhelir y refferendwm yn awr. Mae hynny'n parchu datganoli, a pharchu'r setliad sydd gennym ar hyn o bryd. Y pwynt arall oedd un a glywais ar y radio ar y ffordd y bore yma, gan Vaughan Roderick o'r BBC. Nid yw'n rhywun y byddwn fel arfer yn gweld llygad yn llygad ag ef, ond dywedodd, os ydych yn meddwl yn ôl dros y 1,000 o flynyddoedd diwethaf yn hanes yr ynysoedd hyn, dim ond mewn llond llaw o achlysuron y mae siâp daearyddol yr ynysoedd hyn wedi newid mewn gwirionedd. Yr hyn a olygaf gan hynny yw ardal weinyddol yn mynd i ffwrdd ar ei phen ei hun, annibyniaeth i'r Alban neu Iwerddon yn mynd ar ei liwt ei hun. Mae hynny'n ystyriaeth bwysig. Rydym wedi cyrraedd penllanw gyda'r penderfyniadau a fydd yn cael eu cymryd yfory gyda'r refferendwm a'r penderfyniadau dilynol a fydd yn llifo.

As Suzy Davies pointed out in her opening remarks, many countries and many territories across the world yearn for the peace, stability and prosperity that we have enjoyed in these islands. We have enjoyed that because of the union of the United Kingdom of Great Britain. Ultimately, what we have to do is to gauge the level of support and take that support for the change that the discussion of the referendum has created among the people of these islands. Stephen Crabb, in his article published today, quite rightly identified, as Macmillan did 40 or 50 years ago, the winds of change. He said that: he said that the winds of change are blowing through these islands. There is a desire to meet that head on. The First Minister, when he was making his remarks on behalf of the Government, talked of the constitutional convention, and I have heard him speak of it many times. However, actually, what is needed when that constitutional convention comes into being is that the largest part of our union comes with meaningful proposals for what it wants from a devolved settlement in the United Kingdom.

I would be happy to give way.

Fel y dywedodd Suzy Davies yn ei sylwadau agoriadol, byddai llawer o wledydd a llawer o diriogaethau ar draws y byd yn dyheu am yr heddwch, y sefydlogrwydd a'r ffyniant rydym wedi eu mwynhau yn yr ynysoedd hyn. Rydym wedi mwynhau hynny oherwydd undeb Teyrnas Unedig Prydain Fawr. Yn y pen draw, yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw mesur lefel y gefnogaeth a chymryd y gefnogaeth honno i newid y mae'r drafodaeth ar y refferendwm wedi ei chreu ymhlith pobl yr ynysoedd hyn. Mae Stephen Crabb, yn ei erthygl a gyhoeddwyd heddiw, yn sôn yn gwbl briodol, fel y gwnaeth Macmillan 40 neu 50 mlynedd yn ôl, am wyntoedd cyfnewidiol yn chwythu drwy'r ynysoedd hyn. Mae awydd i fynd i'r afael â hynny'n uniongyrchol. Roedd y Prif Weinidog, pan oedd yn gwneud ei sylwadau ar ran y Llywodraeth, yn sôn am y confensiwn cyfansoddiadol, ac rwyf wedi ei glywed yn sôn amdano lawer gwaith. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, yr hyn sydd ei angen pan fydd y confensiwn cyfansoddiadol yn dod i fod yw bod y rhan fwyaf o'n hundeb yn dod â chynigion ystyrlon ar gyfer yr hyn y mae'n awyddus i'w gael yn sgil setliad datganoledig yn y Deyrnas Unedig.

Byddwn yn hapus i ildio.

16:51

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful. I have been listening with attention to the Member. May I ask him this? On behalf of the Liberal Democrats, William Powell said clearly that what was needed was a Silk kind of approach. The First Minister has said clearly in the past what he thinks should happen. Are there any proposals on the table now from the Conservative party as a reaction to the vote on Thursday about what the next steps for devolution should be here in Wales—the actual policies?

Rwy'n ddiolchgar. Rwyf wedi bod yn gwrando'n astud ar yr Aelod. A gaf fi ofyn hyn iddo? Ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, dywedodd William Powell yn glir mai'r hyn yr oedd ei angen oedd dull tebyg i un Silk. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud yn glir yn y gorffennol yr hyn y mae'n credu a ddylai ddigwydd. A oes unrhyw gynigion ar y bwrdd nawr gan y blaid Geidwadol fel ymateb i'r bleidlais ddydd lau ynghylch beth y dylai'r camau nesaf fod mewn perthynas â datganoli yma yng Nghymru—y polisiau go iawn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have very clear policies in enacting Silk 1. There are areas that Members in this Chamber know full well that I have had disagreement with our London colleagues over, but that transfer of financial power is going through the House of Commons at the moment. Regarding Silk 2, those discussions are manifesto territory and I very much hope that we will have, as all parties will have, an offering for the people of Wales. However, what Plaid Cymru, as the First Minister touched on, needs to be open and transparent about is that, if you vote Plaid Cymru, you are voting for independence. That is the key line that needs to come across time and time again, because you talk as if you want the riches of the union without any of the responsibilities that independence would bring. What we are agreed on here today is that the discussion that has gone on over the last months and years in the lead-up to tomorrow—[Interruption.] I am running out of time, sadly; I only have seven minutes. The time has changed, and the politicians of the day need to rise to that change. However, one thing that we are all clear on is that this country of the United Kingdom of Great Britain that is made up of Scotland, England, Wales and Northern Ireland is better together, because we are more successful economically, we are more successful socially, and we are more successful culturally when we are united on these islands, standing shoulder to shoulder dealing with the challenges that we face in the twenty-first century. That is why I urge Members here today to support the motion before them.

Mae gennym bolisiau clir iawn ar weithredu Silk 1. Mae meysydd, fel y gŵyr Aelodau yn y Siambr hon yn iawn, yr wyf wedi anghytuno gyda'm cydweithwyr yn Llundain yn eu cylch, ond mae trosglwyddo pŵer ariannol yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. O ran Silk 2, mae'r trafodaethau hynny'n perthyn i diriogaeth manifffestos ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd gennym, fel y bydd gan bob plaid, rywbeth i'w gynnig i bobl Cymru. Fodd bynnag, fel y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato, yr hyn y mae angen i Plaid Cymru fod yn agored ac yn dryloyw yn ei gylch yw, os bydd rhywun yn pleidleisio dros Blaid Cymru, ei fod yn pleidleisio o blaid annibyniaeth. Dyna'r llinell allweddol y mae angen ei hegluro dro ar ôl tro, oherwydd eich bod yn siarad fel pe baech eisiau cyfoeth yr undeb heb unrhyw un o'r cyfrifoldebau y byddai annibyniaeth yn eu cyflwyno. Yr hyn rydym yn gytûn yn ei gylch yma heddiw yw bod y drafodaeth sydd wedi bod ar y gweill dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf yn y cyfnod sy'n arwain at yfory— [Torri ar draws.] Rwy'n rhedeg allan o amser, yn anffodus; Dim ond saith munud sydd gennyf. Mae'r oes wedi newid, ac mae angen i wleidyddion y dydd ymateb i'r newid hwnnw. Fodd bynnag, un peth rydym i gyd yn glir yn ei gylch yw bod y wlad hon, Teyrnas Unedig Prydain Fawr sy'n cynnwys yr Alban, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn well gyda'n gilydd, oherwydd ein bod yn fwy llwyddiannus yn economaidd, rydym yn fwy llwyddiannus yn gymdeithasol, ac rydym yn fwy llwyddiannus yn ddiwylliannol pan fyddwn yn unedig ar yr ynsoedd hyn, gan sefyll ysgwydd yn ysgwydd wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu yn yr unfed ganrif ar hugain. Dyna pam rwyf yn annog yr Aelodau yma heddiw i gefnogi'r cynnig ger eu bron.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Rwy'n gohirio'r bleidlais dan yr eitem hon tan yr amser pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl Plaid Cymru: Y Cyflog Byw**Plaid Cymru Debate: The Living Wage**

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies and amendments 2, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Leanne Wood to move the motion.

Galwaf ar Leanne Wood i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5562 Elin Jones

Motion NDM5562 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod 266,000 o weithwyr yng Nghymru yn cael eu talu llai na'r cyflog byw.

1. Notes that 266,000 workers in Wales are paid less than the living wage.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at greu cyflog byw yng Nghymru drwy:

2. Calls on the Welsh Government to work towards creating a living wage in Wales through:

a) sefydlu cyflog byw ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

b) gweithio gyda chyflogwyr i esbonio manteision talu'r cyflog byw; a

c) cyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Cyflogau Isel i sicrhau bod yr isafswm cyflog yn codi i lefel y cyflog byw erbyn 2020.

a) establishing the living wage throughout the Welsh public sector;

b) working with employers to explain the benefits of paying the living wage; and

c) making representations to the Low Pay Commission to ensure that the minimum wage rises to the level of the living wage by 2020.

16:54

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

A century ago, the working people of Wales were on the front line of the so-called employers' counter-offensive that shaped the industrial relations of this country and this state for the century that followed. The counter-offensive used all means, including legislative, to try to stem the tide of rights for working people. The Merthyr Tydfil judgment made it illegal for striking workers to receive welfare unless they faced imminent death. The Taff Vale case made it possible for companies to sue trade unions for compensation following industrial action.

In more recent times, during the 1980s, the balance in industrial relations and working conditions swung against the interests of working people. Among the many missed opportunities of the past two decades is the fact that that imbalance has not been redressed. Following the banking crash of 2008, the squeeze on wages and living standards is still being felt today. I refer Members to the French economist Thomas Piketty, who has shown how earned wealth has grown at a much slower rate than inherited wealth since the crash. We are all aware, are we not, of the structural flaws in Wales's economy, which have resulted in it being characterised by low wages?

Plaid Cymru wants to look to the future by working for fair pay. Plaid Cymru wants a living wage for all. The concept of a living wage is simple. The living wage is the minimum hourly income necessary for a person to meet their basic needs. This standard generally means that a person working for 40 hours a week with no additional income should be able to afford the basics such as housing, food, utilities, transport and some recreation. People working 40 hours a week should not be on the breadline. There are 260,000 people in Wales who are not earning a living wage. This means that their commitment to work does not result in them earning enough to live on. Living on or below the breadline in this way means that either their incomes are topped up by the Government or they live in poverty. This is despite going out to work every morning. The party of Wales believes that, over the course of the next few years, the national minimum wage should be raised until it is at the level of the living wage. This would give 260,000 people in Wales the pay rise that they deserve. It would add around £200 million to the pockets of workers in Wales: spending power that could result in the creation of up to 20,000 jobs. It would be good for business as well. Research in London shows that more than 80% of companies that pay the living wage believe that doing so has increased the quality of the work produced by their staff.

Cynigiad y cynnig.

Ganrif yn ôl, gweithwyr Cymru a oedd ar flaen y gad yn yr hyn a alwyd yn wrth-safiad y cyflogwyr a ddylanwadodd ar gysylltiadau diwydiannol y wlad hon a'r wladwriaeth hon gydol y ganrif a ddilynodd. Defnyddiodd y gwrth-safiad bob dull, gan gynnwys deddfwriaeth, er mwyn ceisio atal y don o hawliau i'r gweithwyr. Gwnaeth dyfarniad Merthyr Tudful hi'n anghyfreithlon i weithwyr ar streic dderbyn lles oni bai eu bod ar eu gwely angau. Gwnaeth achos Taff Vale hi'n bosibl i gwmnïau erlyn undebau llafur am iawndal yn dilyn gweithredu diwydiannol.

Yn fwy diweddar, yn ystod y 1980au, pendiliodd y cydbwysedd mewn cysylltiadau diwydiannol ac amodau gwaith yn erbyn buddiannau'r gweithwyr. Ymhlith y cyfleoedd lawer a gollwyd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, yw'r ffaith nad yw'r anghydbwysedd wedi'i unioni'n iawn. Yn dilyn chwalfa'r byd bancio yn 2008, mae'r wasgfa ar gyflogau a safonau byw yn dal i gael ei theimlo heddiw. Cyfeiriaf yr Aelodau at yr economegydd o Ffrainc Thomas Piketty, sydd wedi dangos sut mae cyfoeth a enillir wedi tyfu ar gyfradd llawer arafach na chyfoeth a etifeddwyd ers y chwalfa. Rydym i gyd yn ymwybodol, onid ydym, o'r diffygion strwythurol yn economi Cymru, sydd wedi arwain at iddi'n cael ei nodweddu gan gyflogau isel?

Mae Plaid Cymru eisiau edrych i'r dyfodol drwy weithio am gyflog teg. Mae Plaid Cymru eisiau cyflog byw i bawb. Mae'r cysyniad o gyflog byw yn un syml. Y cyflog byw yw'r isafswm incwm yr awr sydd ei angen ar berson i ddiwallu ei anghenion sylfaenol. Yn gyffredinol, mae'r safon hon yn golygu y dylai person sy'n gweithio am 40 awr yr wythnos heb unrhyw incwm ychwanegol allu fforddio'r pethau sylfaenol megis tai, bwyd, cyfleustodau, trafnidiaeth a pheth hamdden. Ni ddylai pobl sy'n gweithio 40 awr yr wythnos fod yn byw ar y gwynt. Nid yw 260,000 o bobl yng Nghymru yn ennill cyflog byw. Mae hyn yn golygu nad yw eu hymrwymiad i waith yn eu harwain i ennill digon i fyw arno. Mae byw ar neu islaw y lefel dlodi yn y modd hwn yn golygu naill ai bod eu hincwm yn cael ei ategu gan y Llywodraeth neu maent yn byw mewn tlodi. Mae hyn er gwaethaf mynd allan i'r gwaith bob bore. Mae Plaid Cymru yn credu, yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, y dylai'r isafswm cyflog cenedlaethol gael ei godi hyd nes ei fod ar lefel y cyflog byw. Byddai hyn yn rhoi codiad cyflog haeddiannol i 260,000 o bobl yng Nghymru. Byddai'n ychwanegu tua £200 miliwn i bocedi gweithwyr yng Nghymru: pŵer gwario a allai arwain at greu hyd at 20,000 o swyddi. Byddai'n dda i fusnes hefyd. Mae ymchwil yn Llundain yn dangos fod mwy na 80% o gwmnïau sy'n talu'r cyflog byw yn credu bod gwneud hynny wedi cynyddu ansawdd y gwaith a gynhyrchir gan eu staff.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Welcome steps have already been taken to introduce the living wage in the Welsh public sector, including in the Welsh Government, and there are international examples of its expansion too. A living wage that is fair to workers, that reduces benefit dependency and that is good for business should form the basis of a vibrant economy, and I am sure that that is a vision that all of us in this Chamber can support.

Croesawn gamau sydd eisoes wedi'u cymryd i gyflwyno'r cyflog byw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys yn Llywodraeth Cymru, ac mae enghreifftiau rhyngwladol o hyn yn ehangu hefyd. Dylai cyflog byw sy'n deg i weithwyr, sy'n lleihau dibyniaeth ar fudd-daliadau ac sy'n dda i fusnes fod yn sail i economi fywiog, ac rwy'n siŵr fod honno'n weledigaeth y gall pob un ohonom yn y Siambr hon yn ei chefnogi.

16:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Nick Ramsay to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Nick Ramsay i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Add as new point 2 and renumber accordingly:

Yn nodi ymhellach fod 98.4% o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau micro neu fach, a bod angen sicrhau bod unrhyw bolisi cyflog byw yn ddichonadwy yn ogystal â sicrhau bod ein busnesau bach yn goroesi.

Further notes that 98.4% of all businesses in Wales are classified as micro or small businesses, and that there is a need to ensure the workability of any living wage policy alongside the survival of our small businesses.

16:58

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 1.

Cynigaf welliant 1.

The last line of Leanne Wood's contribution, where you said that this is a vision that you think most people in this Chamber would support, I would not disagree with. I think that, with regard to a lot of what you said there, anyone who is fair-minded and who believes that a decent day's work should deliver a decent day's pay and that there are definitely people in this country at the moment who are in a state of poverty—people who agree with all of that—would certainly see the merit in what you are saying. However, the problem with debates like this is that you can end up all agreeing on the minutiae of what you would do in a perfect utopian world, but, of course, we are not in a perfect world. [Interruption.] We would like to be in a perfect world but we are not and we have not been—it goes back even before the Welsh Conservatives, Simon Thomas, even though you might say otherwise. So, it is a great vision, but let us be very careful about moving too quickly towards changing the economic environment in a way that, certainly given the levels of debt that the last UK Labour Government built up and certainly given the economic situation we have been through, could risk destabilising the economy even further.

Ni fyddwn yn anghytuno â llinell olaf cyfraniad Leanne Wood, lle rydych yn dweud eich bod yn meddwl y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn y Siambr hon yn cefnogi'r weledigaeth hon. Credaf, o ran llawer o'r hyn a ddywedasochno, y byddai unrhyw un sy'n deg ei feddwl ac sy'n credu bod diwrnod da o waith yn haeddu tâl teg ac yn credu bod pobl yn y wlad hon ar hyn o bryd sydd mewn cyflwr o dlodi yn ddi-os—pobl sy'n cytuno â hynny i gyd—yn sicr o weld rhinwedd yn yr hyn rydych yn ei ddweud. Fodd bynnag, y broblem gyda dadleuon fel hyn yw y gallwch yn y pen draw i gyd gytuno ar fanylion yr hyn y byddech yn ei wneud mewn byd iwtopaidd perffaith, ond, wrth gwrs, nid ydym yn byw mewn byd perffaith. [Torri ar draws.] Byddem yn hoffi bod mewn byd perffaith, ond nid ydym ac nid ydym wedi bod—mae'n mynd yn ôl ymhellach i'r cyfnod cyn y Ceidwadwyr Cymreig, Simon Thomas, er efallai y byddwch yn dweud fel arall. Felly, mae'n weledigaeth fawr, ond gadewch inni fod yn ofalus iawn rhag symud yn rhy gyflym tuag at newid yr amgylchedd economaidd mewn ffordd a allai, o ystyried lefelau'r ddyled a greodd Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU ac o ystyried y sefyllfa economaidd rydym wedi'u hwynebu, ansefydlogi'r economi hyd yn oed ymhellach.

Looking at the businesses within Wales, 98.4% of all businesses in Wales are classified as micro-businesses and small businesses. It is a statistic that many of us use in many debates. Although there is not much difference between actual wage levels, going from a minimum wage of £6.31 per hour to a living wage of £7.65 per hour, this could potentially put big pressure on businesses at this moment. I did listen carefully to what you said, Leanne Wood, that there is certain evidence that, actually, there could be an opposite effect to that and that, if people are paid that living wage, productivity could increase. I think that that is an interesting area, and I am saying that we should look into it more before we commit to that. That is certainly the position of the Welsh Conservative group.

O edrych ar y busnesau yng Nghymru, nodir bod 98.4% o holl fusnesau Cymru yn ficrofusnesau ac yn fusnesau bach. Mae'n ystadegyn y mae llawer ohonom yn ei ddefnyddio mewn llawer o ddadleuon. Er nad oes llawer o wahaniaeth rhwng lefelau cyflog gwirioneddol, gallai cynyddu'r isafswm cyflog o £6.31 yr awr i gyflog byw o £7.65 yr awr roi pwysau mawr ar fusnesau ar hyn o bryd. Gwrandawais yn astud ar yr hyn a ddywedasochno, Leanne Wood, bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai'r effaith fod yn gwbl groes i hynny ac y gallai cynhyrchiant gynyddu os yw pobl yn derbyn y cyflog byw. Credaf fod hwn yn faes diddorol, ac rwy'n dweud y dylem ei ystyried yn fanylach cyn ymrwymo i hynny. Dyna safbwynt grŵp Ceidwadwyr Cymru yn sicr.

17:00

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member. He is right, of course, and conventional economics would suggest that. For example, it could suggest that a living wage in Wales could lead to about 8,000 job losses. That is conventional economics. However, we know that when we introduced the minimum wage, the same arguments were heard, but in a growing economy, that simply did not happen. Because of increased productivity and more money going into the Treasury, it was recycled back to the economy.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod. Mae'n gywir, wrth gwrs, a byddai economeg gonfensiynol yn awgrymu hynny. Er enghraifft, gellid awgrymu y gallai cyflog byw yng Nghymru arwain at golli tua 8,000 o swyddi. Dyna economeg gonfensiynol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod yr un dadleuon wedi'u codi pan gyflwynwyd yr isafswm cyflog, ond mewn economi a oedd yn tyfu, ni ddigwyddodd hynny. Oherwydd cynnydd mewn cynhyrchiant a mwy o arian yn mynd i'r Trysorlys, fe'i hailgylchwyd yn ôl i'r economi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes and this is a different discussion to that which was held over the minimum wage. There is no doubt at all that the decision to introduce a minimum wage was clearly the right one, and many people who opposed the minimum wage now see the merits of that.

Ie, ac mae hon yn drafodaeth wahanol i'r un a gynhaliwyd ar yr isafswm cyflog. Nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl bod y penderfyniad i gyflwyno isafswm cyflog yn benderfyniad cywir, ac mae llawer o bobl a wrthwynebodd yr isafswm cyflog yn gweld rhinweddau hynny bellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, the minimum wage is not at the living wage level, and to simply move from the minimum wage—which is what I think you are calling for—to the living wage in a fairly short space of time could have consequences. I am saying that we should look carefully at those.

Fodd bynnag, nid yw lefel yr isafswm cyflog yr un fath â lefel y cyflog byw, a gallai symud o'r isafswm cyflog—sef yr hyn rydych yn galw amdano rwy'n credu—at y cyflog byw mewn cyfnod cymharol fyr gael canlyniadau. Rwy'n dweud y dylem edrych yn ofalus ar y canlyniadau hynny.

The Liberal Democrat amendment, I think, is a very poignant one in that it points out the strides that have been made to date. I know that the Labour Party and probably Plaid Cymru do not really want to talk about some of the strides that we have made over the last few years, but there is no doubt at all that, limited though they were, taking people on lower incomes out of tax to the sum of £10,500 by raising that tax-free allowance, has had a massive effect on poorer workers within the UK. It is not the great panacea, and it is not everything that we would like to be done, but given the economic inheritance that this UK Government had, I think that a certain amount of headway has been made, which was not made under the previous UK Labour Government, despite a lot of the nice words that were said about helping workers. What we want to do is help workers on the ground. I will not go too much into the Liberal Democrats' amendment, because I am sure that Peter Black will want to talk about that himself.

Credaf fod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn un pwysig iawn gan ei fod yn tynnu sylw at y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma. Rwy'n gwybod nad yw'r Blaid Lafur na Phlaid Cymru mwy na thebyg eisiau siarad am y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf, ond nid oes amheuaeth o gwbl, er eu bod yn gyfyngedig, bod y camau i ryddhau pobl sydd ar incwm isel o dreth hyd at y swm o £10,500 drwy godi'r lwfans di-dreth wedi cael effaith enfawr ar weithwyr tlotach yn y DU. Nid yw hyn yn ateb pob problem, ac nid yw'n bopeth yr hoffem ei wneud, ond o ystyried etifeddiaeth economaidd Llywodraeth bresennol y DU, rwy'n credu bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud na chafodd ei wneud o dan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, er gwaethaf llawer o'r geiriau clên a ddywedwyd am helpu gweithwyr. Yr hyn rydym am ei wneud yw helpu gweithwyr ar lawr gwlad. Nid wyf am drafod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn fanwl, oherwydd rwy'n siŵr y bydd Peter Black eisiau siarad am hynny ei hun.

Let us be very careful about a spiral of decline. The economy is still fragile. We are coming out of a period of intense economic instability—not all caused by people in politics; we know that the banking crisis also contributed to that instability. It was not just in this country but across Europe and the world that we saw that economic problem, as well. However, if we are going to be responsible, we need to be very careful at this point that we do not do something that might make the situation worse. So, yes, let us look at the living wage and certainly, let us look at the potential for increasing the minimum wage in a sustainable way—I think that that would be a good thing, too—but let us not harm those businesses or SMEs that, ultimately, will create and generate the wealth without which we will not have future companies, future growth or future jobs.

Gadewch i ni fod yn ofalus iawn am y cylchdro dirywiad. Mae'r economi yn fregus o hyd. Rydym yn dod allan o gyfnod o ansefydlogrwydd economaidd dwys—ac nid gwleidyddion a oedd yn gyfrifol am yr holl ansefydlogrwydd; gwyddom fod yr argyfwng bancio wedi cyfrannu at yr ansefydlogrwydd hefyd. Mae'r broblem economaidd wedi effeithio ar Ewrop gyfan a'r holl fyd yn ogystal â'r wlad hon. Fodd bynnag, os ydym yn mynd i fod yn gyfrifol, mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn ar hyn o bryd nad ydym yn gwneud unrhyw beth a allai wneud y sefyllfa'n waeth. Felly, ie, gadewch inni edrych ar y cyflog byw ac yn sicr, gadewch inni edrych ar y potensial ar gyfer cynyddu'r isafswm cyflog mewn ffordd gynaliadwy—rwy'n meddwl y byddai hynny'n beth da, hefyd—ond rhaid inni beidio â niweidio'r busnesau neu'r busnesau bach a chanolig a fydd, yn y pen draw, yn creu ac yn cynhyrchu'r cyfoeth sydd ei angen ar gyfer cwmnïau, twf neu swyddi yn dyfodol.

Yes, let us try to improve the lot of poorer people; let us recognise what is being done at the moment, and let us make sure that everything that we call for is sustainable.

le, gadewch inni geisio gwella byd pobl dlotach; gadewch inni gydnabod yr hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, a gadewch inni sicrhau bod popeth rydym yn galw amdano yn gynaliadwy.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Peter Black to move amendments 2, 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Dileu 2 c) a rhoi yn ei le:

Delete 2 c) and replace with:

Sefydlu adolygiad annibynnol i ymgynghori ar sut i bennu cyflog byw teg, gan weithio gyda rhanddeiliaid fel y Sefydliad Cyflog Byw, heb niweidio cyfleoedd cyflogaeth ac er mwyn gwella camau gorfodi.

Establishing an independent review to consult on how to set a fair living wage, working with stakeholders such as the Living Wage Foundation, without damaging employment opportunities and in order to improve enforcement action.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu'r ffaith y bydd 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru yn derbyn toriad treth o £800 o fis Ebrill 2015 ymlaen diolch i benderfyniad Llywodraeth y DU i godi'r trothwy treth incwm i £10,500, ac y bydd hyn yn cynorthwyo'r gweithwyr hynny yng Nghymru sy'n cael eu talu llai na'r cyflog byw.

Welcomes that from April 2015 1.2 million people in Wales will have a tax cut of £800 thanks to the UK Government raising the income tax threshold to £10,500, and that this will assist those workers in Wales who are being paid less than the living wage.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y dylai'r trothwy treth incwm gael ei godi i £12,500, i sicrhau na fydd gweithwyr cyflog lleiafswm yn gorfod talu treth incwm o gwbl.

Believes that the income tax threshold should be raised to £12,500, to bring minimum wage workers out of paying income tax altogether.

17:03

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 2, 3 and 4.

Rwy'n cynnig gwelliannau 2, 3 a 4.

I state at the very start that the Welsh Liberal Democrats, in principle, support the idea of a living wage for every worker in Wales and indeed, in the UK. The issue, really, for all of us is how we get to that point and how we achieve that objective.

Rwy'n datgan ar y cychwyn bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mewn egwyddor, yn cefnogi'r syniad o gyflog byw ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru ac yn wir, yn y DU. Y cwestiwn, mewn gwirionedd, i bob un ohonom yw sut rydym yn cyrraedd y pwynt hwnnw a sut rydym yn cyflawni'r amcan hwnnw.

There are two ways. One is in relation to the public sector. A number of public sector bodies—the Welsh Government is one as well as of course, some local councils—have already introduced the living wage for their employees and raised their employees' pay up to that level. That does, of course, have a knock-on effect on other workers on other grades and increases the cost of that, but the problem with that particular approach is that, in a time of constrained public finance, funding that introduction becomes increasingly difficult.

Mae dwy ffordd bosibl. Mae un yn ymwneud â'r sector cyhoeddus. Mae nifer o gyrff y sector cyhoeddus—mae Llywodraeth Cymru yn un, yn ogystal â rhai cynghorau lleol—eisoedd wedi cyflwyno'r cyflog byw i'w gweithwyr ac wedi cynyddu cyflogau eu gweithwyr hyd at y lefel honno. Wrth reswm, mae hynny'n cael effaith ar weithwyr eraill ar raddfeydd eraill ac yn cynyddu cost hynny, ond y broblem gyda'r dull penodol hwnnw yw bod cyllido'r cyflog byw yn dod yn fwyfwy anodd mewn cyfnod o gyllid cyhoeddus cyfyngedig.

As I understand it, currently, there are a number of councils that do pay the living wage to their staff. I understand that Monmouth and Swansea pay 100% of their staff the living wage. Cardiff has pledged to do so, but so far does so for only 50% of staff. Anglesey pays 66% of its staff the living wage, for Gwynedd, it is 74% and for Conwy, it is 78%. So, clearly, some councils have started to move in that direction and other public sector bodies have done so as well. I think that that is very welcome. Of course, that is not a solution that is easy to introduce in the private sector. That is why I understand that the motion and the proposition being put by Plaid Cymru today is about raising the minimum wage up to that level.

I would argue that there are other ways of doing this. As the Lilliputians would say, there are different ways to crack an egg and, in this particular instance, the Liberal Democrats have tried to approach this in a different way in terms of reducing the income tax that workers have to pay by raising the tax threshold. As of April next year, £10,500 will be the tax threshold and, effectively, all workers earning that or less than that will not pay any income tax. That means that 144,000 more people in Wales will pay no income tax, compared with the figure in 2010, and 1.2 million will now pay less income tax than they did under the last Government—and, of course, we want to take that further. We believe that if you are able to raise that tax threshold to £12,500, you will have a roughly comparable impact to that of introducing the living wage for all workers across the UK, in terms of the amount of money that they take home. We also need to look at national insurance, in terms of the payments for that, which I think stands out as another issue that we need to tackle.

I think that the Government can introduce different ways to achieve this objective of ensuring that workers, particularly low-paid workers, are better off and have take-home pay that is equivalent to the living wage. They are already starting to be enacted by the current Government, and I think that that is something that we should look at as a way of achieving the objectives in this motion. That is why we have suggested in one of our amendments—and it is in another that we have referred to what has already been done—

‘Establishing an independent review to consult on how to set a fair living wage, working with stakeholders such as the Living Wage Foundation, without damaging employment opportunities and in order to improve enforcement action.’

Yn ôl a ddeallaf, ar hyn o bryd, mae nifer o gynghorau yn talu'r cyflog byw i'w staff. Deallaf fod Sir Fynwy ac Abertawe yn talu'r cyflog byw i 100% o'u staff. Mae Caerdydd wedi addo gwneud hynny, ond ar hyn o bryd dim ond 50% o'i staff sy'n derbyn y cyflog byw. Mae Ynys Môn yn talu'r cyflog byw i 66% o'i staff, y ganran yng Ngwynedd yw 74% a'r ganran yng Nghonwy yw 78%. Felly, yn amlwg, mae rhai cynghorau wedi dechrau symud i'r cyfeiriad hwn ac mae cyrrff eraill yn y sector cyhoeddus wedi gwneud hynny hefyd. Credaf fod hwn yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr. Wrth gwrs, nid yw'r ateb hwn yn un hawdd i'w gyflwyno yn y sector preifat. Dyna pam rwy'n deall bod y cynnig a'r cynigiad sy'n cael eu cyflwyno gan Blaid Cymru heddiw yn ymwneud â chodi'r isafswm cyflog hyd at y lefel honno.

Byddwn yn dadlau bod ffyrdd eraill o wneud hyn. Fel y byddai'r Llipwtiaid yn ei ddweud, mae gwahanol ffyrdd o dorri wy ac, yn yr achos penodol hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ceisio ymdrin â'r mater mewn ffordd wahanol o safbwynt lleihau'r dreth incwm y mae'n rhaid i weithwyr ei thalu drwy godi'r trothwy treth. O fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen, bydd y trothwy treth yn £10,500 ac, i bob pwrpas, ni fydd unrhyw weithiwr sy'n ennill y swm hwnnw neu swm llai yn talu unrhyw dreth incwm. Mae hynny'n golygu na fydd 144,000 o bobl ychwanegol yng Nghymru yn talu unrhyw dreth incwm o'i gymharu â'r ffigur yn 2010, a bydd 1.2 miliwn yn talu llai o dreth incwm nag y gwnaethant o dan y Llywodraeth flaenorol—ac, wrth gwrs, rydym am fynd ymhellach na hynny. Rydym yn credu y byddai codi'r trothwy treth i £12,500 yn cael effaith debyg yn fras i gyflwyno'r cyflog byw ar gyfer yr holl weithwyr ledled y DU, o safbwynt y swm o arian y maent yn mynd adref gyda hwy. Mae angen hefyd inni edrych ar yswiriant gwladol, o safbwynt y taliadau ar gyfer hynny, y credaf sy'n sefyll allan fel mater arall y mae angen inni fynd i'r afael ag ef.

Rwy'n meddwl y gall y Llywodraeth gyflwyno ffyrdd gwahanol o gyflawni'r amcan o sicrhau bod gweithwyr, yn enwedig gweithwyr ar gyflog isel, yn well eu byd ac yn mynd â chyflog adref gyda hwy sy'n cyfateb i'r cyflog byw. Maent eisoes yn dechrau cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth bresennol, a chredaf y dylem edrych ar hynny fel ffordd o gyflawni'r amcanion yn y cynnig hwn. Dyna pam rydym wedi awgrymu yn un o'n gwelliannau—ac yn un arall rydym wedi cyfeirio at yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni—

‘Sefydlu adolygiad annibynnol i ymgynghori ar sut i bennu cyflog byw teg, gan weithio gyda rhanddeiliaid fel y Sefydliad Cyflog Byw, heb niweidio cyfleoedd cyflogaeth ac er mwyn gwella camau gorfodi.’

However, there is no doubt, and Simon Thomas pointed this out, that when we introduced the minimum wage, it was in a growing economy. It is not having the impact that it once had. The problem is that we do not have a growing economy at the moment; we have an economy that is just about starting to recover from a very bad recession. If you start to raise the minimum wage in that circumstance, you could see a loss of jobs. That is why you have to deal with this in a careful and gradual way. I think that, Deputy Presiding Officer, in terms of our approach to this, the increase in the tax threshold is an obvious and easy solution that is funded by central Government and that will enable workers in both the private and public sectors to benefit from that policy. We can start to increase the minimum wage as part of that, but that has to be done carefully and gradually so as not to impact on business and on job opportunities.

I hope that, in supporting this motion, the Assembly will support the amendments as well, because I think that if we pass this motion as amended by those amendments, we will be able to reflect that approach and deliver that sort of careful and gradual introduction of a better take-home pay for all low-paid workers in Wales and the United Kingdom.

17:08

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I sense more agreement in this debate than the previous one, at least. It is a relevant debate to the previous one, actually, because we just discussed the benefits of the union, and we were told about those benefits in terms of social solidarity and social justice. However, we have to acknowledge that we live in the most unequal society in western Europe, and the union has not, overall, delivered the sort of equity that we would like to see, certainly in Plaid Cymru. So, what we are proposing here today is something that, within the union—while it remains—will deliver something better for many working people in Wales and, indeed, throughout the United Kingdom.

To be clear, what we are asking for is to raise the minimum wage to that of a living wage over the period of the next UK Parliament. That is something that I think, certainly in terms of aspiration, we share with the Labour Party. It was a Welsh Labour manifesto commitment in the last election to look at the living wage within the public sector in Wales, and I see that the new Minister for Public Services is likely to reply to this debate on that. It is also something that we share as a vision with our own councillors and councils. Peter Black usefully provided the figures for Conwy and Gwynedd, where Plaid Cymru is very influential in ensuring that more and more of our workers are getting a living wage.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth, fel y nododd Simon Thomas, ein bod wedi cyflwyno'r isafswm cyflog ar adeg pan oedd yr economi yn tyfu. Nid yw'n cael yr effaith a gafodd ar un adeg. Y broblem yw nad oes gennym economi sy'n tyfu ar hyn o bryd; mae gennym economi sydd newydd ddechrau adfer o ddirwasgiad gwael iawn. Os ydym yn dechrau codi'r isafswm cyflog dan amgylchiadau o'r fath, gallech weld swyddi'n cael eu colli. Dyna pam y mae'n rhaid ymdrin â'r mater hwn yn ofalus ac yn raddol. Credaf, Ddirprwy Lywydd, o ran ein hagwedd at hyn, bod y cynnydd yn y trothwy treth yn ateb amlwg a hawdd sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth ganolog ac a fydd yn galluogi gweithwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus i gael budd o'r polisi hwnnw. Gallwn ddechrau cynyddu'r isafswm cyflog fel rhan o hynny, ond mae'n rhaid gweithredu'n ofalus ac yn raddol er mwyn osgoi effeithio ar fusnesau a chyfleoedd gwaith.

Gobeithio, wrth gefnogi'r cynnig hwn, y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliannau hefyd, oherwydd credaf os byddwn yn derbyn y cynnig hwn fel y'i diwygiwyd gan y gwelliannau hynny, byddwn yn gallu adlewyrchu'r dull hwnnw a dechrau cyflwyno'n ofalus ac yn raddol cyflog dir gwell ar gyfer yr holl weithwyr sydd ar gyflog isel yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Rwy'n synhwyro bod mwy o gytundeb yn y ddadl hon nag yn y ddadl flaenorol, o leiaf. Mae'n ddadl sy'n berthnasol i'r un flaenorol, mewn gwirionedd, oherwydd rydym newydd drafod manteision yr undeb, a chlywsom am y manteision hynny o safbwynt undod cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod ein bod yn byw yn y gymdeithas fwyaf anghyfartal yng ngorllewin Ewrop, ac nid yw'r undeb, ar y cyfan, wedi esgor ar y math o degwch y byddem yn hoffi ei weld, yn sicr o'n safbwynt ni ym Mhlaid Cymru. Felly, mae'r hyn rydym yn ei gynnig yma heddiw yn rhywbeth a fydd, o fewn yr undeb—tra ei fod yn para—yn darparu rhywbeth gwell i lawer o weithwyr yng Nghymru ac, yn wir, ledled y Deyrnas Unedig.

I fod yn glir, yr hyn rydym yn gofyn amdano yw codi'r isafswm cyflog i lefel cyflog byw dros gyfnod nesaf Senedd y DU. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n meddwl, yn sicr o ran dyhead, ein bod yn rhannu â'r Plaid Lafur. Un o ymrwymadau manifesto Llafur Cymru yn yr etholiad diwethaf oedd ystyried y cyflog byw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac rwy'n gweld bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn debygol o ymateb i'r pwnc hwnnw yn ystod y ddadl hon. Mae hefyd yn rhywbeth rydym yn rhannu fel gweledigaeth gyda'n cyngorwyr a'n cyngorau ein hunain. Roedd y ffigurau a ddarparodd Peter Black ar gyfer Conwy a Gwynedd yn ddefnyddiol iawn, ac mae Plaid Cymru yn ddylanwadol iawn yn y siroedd hyn wrth sicrhau bod mwy o'n gweithwyr yn cael cyflog byw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To argue for a living wage is not to argue against some of the alternative approaches that Peter Black set out. I am certainly not going to argue against the tax threshold changes. However, there is a more virtuous circle, I think, within a living wage, and the reason for that is that it not only benefits the individual, it benefits the Treasury itself in the savings to be made in supporting poorly paid employment. That is what we have: we have subsidies from the public purse to people and companies, private companies in particular, that are not prepared to pay a proper living wage. I think that that is a bit of a disgrace in a union that is supposed to be for social solidarity. We need to look at that and ensure that the public policy goes hand in hand with tax changes, as Peter says, but with other things as well to deliver a much more fair deal over a period of time for all workers in Wales.

As a little surprise—and my eyebrows did go up when I heard it—Peter told us that we did not have an improving economy. Peter usually tells us that we have an improving economy and how wonderful the Liberal Democrat-led Westminster coalition is doing. I would agree, actually, with Peter—I will agree with him on this one point—that our economy is just about coming out of recession now. The Welsh economy, at least, is improving slowly. We have seen more jobs created. The impact of a living wage, even under conventional economic terms, as I said to Nick Ramsay, is quite small in Wales, but it is real nevertheless. However, we do know that because there are unknowns, if you like, when you do this sort of thing, as the minimum wage did, and because it feeds back to the Treasury, feeds back in productivity, and actually benefits the workers themselves, you do actually smooth out any effects on the economy.

The amendment from the Conservatives, for example, talks about the impact on small and medium-sized businesses. In fact, over half of SMEs in Wales already pay more than the living wage. I would venture to say that many of those are doing so because they are run by individuals who know the communities that they work in, know the people who work for them, and know that they need to support those people to get the best productivity out of them. I think that we need to have a greater understanding of the potential of this policy to benefit the economy as a whole.

The TUC itself has estimated that this would directly benefit the Welsh part of the Treasury take, if you see what I mean, by something like £154 million a year. Of course, at the moment, under the current union arrangements, we would not see that, but let us see: under devo max, perhaps we will get it back. It is also true that the TUC has identified that the nation or region in the United Kingdom with the highest number of people being paid less than the living wage, which is 23%, is Wales. So, it is a very relevant consideration.

Nid yw dadlau o blaid cyflog byw yn golygu bod rhaid dadlau yn erbyn rhai o'r dulliau amgen a gyflwynodd Peter Black. Yn sicr, nid wyf yn mynd i ddadlau yn erbyn y newidiadau i drothwyon treth. Fodd bynnag, credaf fod yna gylch mwy rhinweddol mewn cyflog byw, a'r rheswm am hynny yw ei fod nid yn unig o fudd i'r unigolyn, mae o fudd hefyd i'r Trysorlys ei hun o ran yr arbedion sydd i'w gwneud wrth gefnogi swyddi sy'n ennill cyflogau gwael. Dyna beth sydd gennym: mae gennym gymorthdaliadau o'r pwrs cyhoeddus i bobl a chwmnïau, cwmnïau preifat yn unwedig, nad ydynt yn barod i dalu cyflog byw priodol. Rwy'n meddwl bod hyn yn dipyn o gywilydd ar undeb sydd i fod i hyrwyddo undod cymdeithasol. Mae angen inni edrych ar hynny a sicrhau bod y polisi cyhoeddus yn mynd law yn llaw â newidiadau treth, fel mae Peter yn ei ddweud, ond gyda phethau eraill hefyd er mwyn sicrhau bargaen llawer tecach dros amser i bob gweithiwr yng Nghymru.

Yn annisgwyl braidd—a chododd fy aelïau pan glywais hyn—dywedodd Peter nad oes gennym economi sy'n gwella. Fel arfer mae Peter yn dweud wrthym fod gennym economi sy'n gwella a pha mor wych y mae'r glymblaid yn San Steffan dan arweiniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud. Byddwn yn cytuno, mewn gwirionedd, â Peter—byddaf yn cytuno ag ef ar yr un pwynt hwn—bod ein heconomi newydd ddechrau dod allan o'r dirwasgiad yn awr. Mae economi Cymru, o leiaf, yn gwella'n araf. Rydym wedi gweld mwy o swyddi'n cael eu creu. Mae effaith cyflog byw, hyd yn oed mewn termau economaidd confensiynol, fel y dywedais wrth Nick Ramsay, yn eithaf bach yng Nghymru, ond mae'n effaith go iawn serch hynny. Fodd bynnag, rydym yn gwybod hynny oherwydd bod yna faterion anhysbys, os mynnwch chi, wrth wneud y math hwn o beth, fel y gwnaeth yr isafswm cyflog, ac oherwydd ei bod yn bwydo yn ôl i'r Trysorlys, yn bwydo yn ôl i gynhyrchiant, ac o fudd i'r gweithwyr eu hunain mewn gwirionedd, rydych yn lliniaru unrhyw effeithiau ar yr economi.

Mae'r gwelliant gan y Ceidwadwyr, er enghraifft, yn sôn am yr effaith ar fusnesau bach a chanolig. Yn wir, mae dros hanner y busnesau bach a chanolig yng Nghymru eisoes yn talu mwy na'r cyflog byw. Byddwn yn mentro dweud bod llawer o'r rheini yn gwneud hynny am eu bod yn cael eu rhedeg gan unigolion sy'n adnabod y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, yn adnabod y bobl sy'n gweithio iddynt, ac yn gwybod bod angen iddynt gefnogi'r bobl hynny i sicrhau'r lefelau cynhyrchiant gorau. Credaf fod angen i ni gael gwell dealltwriaeth o botensial y polisi hwn i fod o fudd i'r economi yn ei chyfanrwydd.

Mae'r TUC ei hun wedi amcangyfrif y byddai hyn yn cyfrannu tua £154 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn uniongyrchol at arian y Trysorlys sy'n dod o Gymru, os ydych yn deall fy mhwynt. Wrth gwrs, ar hyn o bryd, o dan drefniadau presennol yr undeb, ni fyddem yn gweld y budd, ond gadewch inni weld: o dan y lefel uchaf o ddatganoli, efallai y byddwn yn ei gael yn ôl. Mae hefyd yn wir bod y TUC wedi nodi mai'r genedl neu ranbarth yn y Deyrnas Unedig sydd â'r nifer fwyaf o bobl yn cael eu talu'n llai na'r cyflog byw, sef 23%, yw Cymru. Felly, mae'n ystyriaeth berthnasol iawn.

The final point that I would like to make on this is that this is also a very key tool in addressing underpaid female workers in the workforce. About 27% of women in Wales are not paid the living wage and 43% of part-time workers are paid less than the living wage, and 76% of them, or three quarters, are women. A living wage is what really helps to lift women, and in turn families and children, out of poverty. It was, in fact, Save the Children in its report a couple of years ago that said very clearly that it is the prevalence of low pay among the female workforce in Wales that is the major factor in child poverty.

The living wage kills many birds with just one stone.

17:12

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I believe that the case for everyone to be paid at least the living wage is overwhelming. I look forward to the day when the Conservatives come along with a resolution saying that people should be paid less than the living wage and that there is some sort of reason for it. I believe that that would lack fairness, social justice, and an understanding of economics, and it is not likely to be particularly popular. I do not believe that it makes sense that the Government enforces a minimum wage that is not considered to be enough to live on, which is why I believe that the living wage is desperately needed.

The living wage is not huge pay: it is £7.65 an hour for people aged over 21 in the UK outside London, and £8.80 for those in London, as compared with a living wage of £6.31 for people under 21, which is going up by 19p to £6.50 from October. While the absolute difference is relatively small, the effect that it will have on the lives of individual people is far greater. It is £46 more pay for a 40-hour week, which can make a huge difference to people's lives.

One of the biggest problems facing us in Wales today is in-work poverty, which is something that the living wage would address. One of the Westminster Government's biggest problems is paying in-work benefits, which are obviously being paid to people in work, and it is costing a substantial amount to the Treasury. A living wage would start to deal with that.

I believe that the Government has a moral duty to ensure a decent standard of living for all, and a study by the Resolution Foundation shows that the Treasury would save £2 billion a year if all the workers in Britain were paid at least the living wage.

Mick Antoniw and I laid a statement of opinion last year, which gained support from Labour, Plaid Cymru and Liberal Democrat Members, recognising the principle of a fair day's pay for a fair day's work, and calling for all—

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud am hyn yw ei fod hefyd yn ddull allweddol iawn o fynd i'r afael â gweithwyr benywaidd yn y gweithlu nad ydynt yn cael eu talu ddigon. Nid yw tua 27% o fenywod yng Nghymru yn derbyn cyflog byw, ac mae 43% o weithwyr rhan-amser yn cael eu talu'n llai na'r cyflog byw, gyda 76% ohonynt, neu dri chwarter, yn fenywod. Mae cyflog byw yn allweddol wrth helpu i ryddhau menywod, eu teuluoedd a'u plant o dlodi. Mewn gwirionedd, adroddiad Achub y Plant ychydig o flynyddoedd yn ôl a'i gwnaeth yn glir iawn mai mynychder cyflog isel ymysg y gweithlu benywaidd yng Nghymru yw'r prif ffactor mewn tlodi plant.

Bydd sawl mantais yn deillio o'r cyflog byw.

Credaf fod yr achos o blaid talu'r cyflog byw i bawb yn hynod gryf. Rwy'n edrych ymlaen at y dydd pan fydd y Ceidwadwyr yn rhoi cynnig gerbron sy'n dweud y dylai pobl gael eu talu'n llai na'r cyflog byw, a bod rhyw fath o reswm am hynny. Credaf y byddai hynny'n dangos diffyg tegwch, cyfiawnder cymdeithasol, a dealltwriaeth o economeg, ac nid yw'n debygol o fod yn arbennig o boblogaidd. Nid wyf yn credu ei bod yn gwneud synnwyr bod y Llywodraeth yn gorfodi isafswm cyflog nad yw'n cael ei ystyried yn ddigon i fyw arno, a dyna pam rwy'n credu bod angen dybryd am y cyflog byw.

Nid yw'r cyflog byw yn gyflog enfawr: mae'n £7.65 yr awr ar gyfer pobl dros 21 oed yn y DU y tu allan i Lundain, a £8.80 ar gyfer y rhai yn Llundain, o'i gymharu â chyflog byw o £6.31 ar gyfer pobl o dan 21 oed, sy'n codi 19c i £6.50 o fis Hydref ymlaen. Er bod y gwahaniaeth absoliwt yn gymharol fach, mae'r effaith y bydd yn ei chael ar fywydau pobl unigol yn llawer mwy. Mae'n £46 yn fwy o gyflog am wythnos 40 awr, sy'n gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl.

Un o'r problemau mwyaf sy'n ein hwynebu yng Nghymru heddiw yw tlodi mewn gwaith, sy'n rhywbeth y byddai'r cyflog byw yn mynd i'r afael ag ef. Un o broblemau mwyaf Llywodraeth San Steffan yw talu budd-daliadau mewn gwaith, sydd yn amlwg yn cael eu talu i bobl mewn gwaith, ac mae'n costio swm sylweddol i'r Trysorlys. Byddai cyflog byw yn dechrau mynd i'r afael â hynny.

Credaf fod gan y Llywodraeth ddyletswydd foesol i sicrhau safon byw weddus i bawb, ac mae astudiaeth gan y Sefydliad Resolution yn dangos y byddai'r Trysorlys yn arbed £2 biliwn y flwyddyn pe bai'r holl weithwyr ym Mhrydain yn ennill cyflog byw.

Cyflwynodd Mick Antoniw a mi ddatganiad barn y llynedd, a gafodd gefnogaeth aelodau'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Roedd yn cydnabod yr egwyddor o gyflog diwrnod teg am ddiwrnod gwaith teg, ac yn galw am—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Mike, for letting me intervene. I hear what you are saying, but I am sure that you must agree that there have been strides made in taking lower-paid workers out of paying tax, thanks to the Lib Dem-Conservative coalition, in stark contrast to the previous Labour UK Government's decision to abolish the 10p tax rate. That did not help the lowest paid workers, did it?

Diolch i chi, Mike, am adael imi ymyrryd. Rwy'n clywed yr hyn rydych yn ei ddweud, ond mae'n rhaid i chi gytuno bod camau breision wedi'u cymryd i ryddhau gweithwyr sy'n ennill cyflog isel o dalu treth, diolch i glymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol-Ceidwadwyr, hynny mewn gwrthgyferbyniad llwyr i benderfyniad Llywodraeth Lafur flaenorol y DU i ddileu'r gyfradd dreth 10c. Ni wnaeth hynny helpu'r gweithwyr ar gyflogau isel, naddo?

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not going to defend the ending of the 10p tax rate, but I will tell you that a lot of lower-paid workers were not paying tax before. I do not think that you quite understand how some of these low-paid people live. Perhaps if you visited some of them, you might actually understand. They were not paying tax before. They were below the old tax threshold. Paying a living wage of £7.45 an hour would help combat in-work poverty and promote sustainable standards of living.

Nid wyf yn mynd i amddiffyn rhoi diwedd ar y gyfradd dreth 10c, ond byddaf yn dweud wrthyhch nad oedd llawer o weithwyr ar gyflogau isel yn talu treth o'r blaen. Nid wyf yn credu eich bod yn deall yn iawn sut y mae rhai pobl sy'n derbyn cyflogau isel yn byw. Pe baech yn ymweld â rhai ohonynt, efallai y byddech yn deall. Nid oeddynt yn talu treth o'r blaen. Roeddynt o dan yr hen drothwy treth. Byddai talu cyflog byw o £7.45 yr awr yn helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith ac yn hyrwyddo safonau byw cynaliadwy.

I welcome the decision taken by some Welsh local authorities to introduce a living wage and I encourage all remaining local authorities to consider implementing a living wage for all low-paid employees and subcontracted workers. Key to this are subcontracted workers, because it is pointless having a living wage for your own staff if you have people coming in under subcontracts who are going to be paid substantially less. You are going to end up with mass privatisation, where people are going to tell you that you have to do it because it is cheaper. Anybody working for you needs to be paid the living wage.

Rwy'n croesawu penderfyniad rhai awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno cyflog byw ac rwy'n annog pob awdurdod lleol arall i ystyried cyflwyno cyflog byw ar gyfer yr holl weithwyr sy'n derbyn cyflog isel a'r gweithwyr sydd wedi'u his-gontractio. Mae gweithwyr sydd wedi'u his-gontractio yn allweddol i hyn, gan nad oes diben cael cyflog byw ar gyfer eich staff eich hun os oes gennych bobl yn dod i mewn o dan is-gontractau sy'n mynd i gael eu talu'n llai o lawer. Bydd yn arwain at breifateiddio ar raddfa fawr yn y diwedd, gyda phobl yn dweud wrthyhch fod rhaid i chi ei wneud oherwydd ei bod yn rhatach. Mae angen talu cyflog byw i unrhyw un sy'n gweithio i chi.

May I congratulate Swansea council, which is a Labour authority, on paying everybody the living wage, as Peter Black mentioned earlier? All directly employed Welsh Government employees, excluding apprentices, are paid the living wage. The Welsh Labour Government has encouraged employers in the private sector, public sector and the third sector to become living wage employers. The NHS in Wales from this month will be a living wage employer.

A gaf fi longyfarch cyngor Abertawe, sy'n awdurdod Llafur, ar dalu'r cyflog byw i bawb, fel y nododd Peter Black yn gynharach? Mae'r holl weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ac eithrio prentisiaid, yn derbyn y cyflog byw. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi annog cyflogwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddod yn gyflogwyr cyflog byw. O'r mis hwn ymlaen, bydd y GIG yng Nghymru yn gyflogwr cyflog byw.

Labour's Westminster leader, Ed Miliband, has offered his support for the living wage, claiming that Labour would offer tax rewards to companies that begin paying their workers this increased rate. The Labour leader said in an interview with 'The Guardian' that companies could be offered lower business rates or tax relief and training programmes in return for boosting their staff's pay packet. Ed Miliband also supports the idea of living wage zones that would see certain industries or geographical areas institute the living wage where a significant proportion of companies supported the idea. Living wage zones would work for everyone: the people who would get decent pay, the employers who would get a more committed workforce and the Government that would save on its tax credits.

Mae arweinydd y Blaid Lafur yn San Steffan, Ed Miliband, wedi cynnig ei gefnogaeth i'r cyflog byw, gan honni y byddai Llafur yn cynnig buddiannau treth i gwmnïau sy'n dechrau talu'r gyfradd uwch i'w gweithwyr. Mewn cyfweiliad gyda phapur newydd 'The Guardian', dywedodd arweinydd y Blaid Lafur y gellid cynnig ardrethi busnes is neu ostyngiad yn y dreth a rhaglenni hyfforddiant i gwmnïau yn gyfnewid am gynyddu pecyn cyflog eu staff. Mae Ed Miliband hefyd yn cefnogi'r syniad o barthau cyflog byw lle y byddai diwydiannau neu ardaloedd daearyddol penodol yn dechrau talu'r cyflog byw lle mae cyfran sylweddol o gwmnïau yn cefnogi'r syniad. Byddai parthau cyflog byw o fudd i bawb: byddai'r bobl yn derbyn cyflog teg, byddai gweithlu'r cyflogwr yn fwy ymroddedig a byddai'r Llywodraeth yn arbed arian ar ei chredydau treth.

The benefit to employers is given by the Living Wage Foundation report, which says that a living wage employer ensures that all employees are paid at least the living wage. This includes individuals who work on a regular basis at their premises and subcontractors such as cleaners or security staff. Living wage employers report improved morale, lower staff turnover, reduced absenteeism, increased productivity and improved customer services. Between them, the employers committed to paying a living wage have lifted more than 45,000 families out of in-work poverty in Britain. Our ambition for Wales must be to create a high-wage and high-skilled economy and become a living wage country, which would be one of the furthest steps along that road. 'We can't afford it' and 'It will cost jobs' have been the arguments used against all progressive change from the abolition of slavery to the minimum wage. Everybody says, 'We can't afford it. It's going to cost jobs'. I believe that Wales needs to become a fair country and having a living wage will achieve that.

Nodir y manteision i gyflogwyr yn adroddiad y Sefydliad Cyflog Byw, sy'n dweud bod cyflogwr cyflog byw yn sicrhau bod ei holl weithwyr yn derbyn cyflog byw o leiaf. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n gweithio'n rheolaidd ar eu safle ac is-gontractwyr fel glanhawyr neu staff diogelwch. Mae cyflogwyr cyflog byw yn nodi sawl mantais, gan gynnwys morâl gwell, trosiant staff is, llai o absenoldeb, mwy o gynhyrchiant a gwell gwasanaethau i gwsmeriaid. Rhyngddynt, mae'r cyflogwyr sydd wedi ymrwymo i dalu cyflog byw wedi rhyddhau dros 45,000 o deuluoedd allan o dlodi mewn gwaith ym Mhrydain. Mae'n rhaid i'n huchelgais ar gyfer Cymru gynnwys creu economi gyflog uchel a sgiliau uwch, a byddai dod yn wlad gyflog byw yn hwb enfawr i wireddu'r uchelgais. Mae dadleuon fel 'Ni allwn ei fforddio' a 'Bydd yn arwain at gollu swyddi' wedi'u defnyddio yn erbyn pob newid blaengar, o ddiddymu caethwasiaeth i'r isafswm cyflog. Mae pawb yn dweud, 'Ni allwn ei fforddio. Bydd yn arwain at gollu swyddi'. Rwy'n credu bod angen i Gymru ddod yn wlad deg, a bydd cyflwyno cyflog byw yn cyflawni hynny.

17:17

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae un o bob pump o weithwyr yn y Deyrnas Unedig yn byw ar gyflog isel, sef, wrth gwrs, yn is na 60% o'r cyflog 'median' cenedlaethol. Er bod cynnydd wedi bod yn nifer y swyddi, yn anffodus rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sydd ar gyflog isel, gyda phedwar o bob pum swydd newydd a grëwyd ers 2010 yn y Deyrnas Unedig wedi eu creu mewn sectorau tâl isel, megis manwerthu, gweini ar fyrdau a gweithio mewn cartrefi gofal. Mae tlodi mewn gwaith, 'in-work poverty', ar gynydd ac yn tyfu ers degawd, ond yn y blynyddoedd diwethaf, wrth gwrs, ar yr un pryd, rydym wedi gweld costau byw yn saethu i fyny, ac rydym yn gwybod mai merched a phobl ifanc yn aml iawn sy'n dioddef waethaf o safbwynt hynny o beth.

One in five workers in the United Kingdom live on low wages, which means, of course, wages lower than 60% of the median national salary. Although there has been an increase in the number of jobs available, unfortunately we have also seen an increase in the number of people on low pay, with four in five new jobs created since 2010 in the United Kingdom being created in low-pay sectors, such as retail, waiting on tables and working in care homes. In-work poverty is on the increase and has been growing for a decade, but, in recent years, we have at the same time seen the cost of living increasing significantly, and we know that it is women and young people who very often suffer most from that point of view.

Fodd bynnag, nid yw'n anochel, wrth gwrs, y dylai fod mor ddu â hynny ac yn gymaint o 'struggle' i weithwyr yn dilyn y dirwasgiad, yn enwedig pan ystyriwch chi ddadansoddiad diweddaraf yr High Pay Centre, sy'n dangos bod enillion bôsys y cwmnïau mwyaf 130 gwaith yn uwch na chyfartaledd enillion eu gweithwyr. Yn ôl yn 1998, roeddynt 47 gwaith yn uwch—roeddwn bron â dweud 'dim ond' 47 gwaith yn uwch, ond nid wyf yn meddwl fod hynny'n gwneud synnwyr. Felly, mae'n dangos, mewn gwirionedd, i ba raddau y mae cyflogau wedi eu sgijio a sut mae'r anghyfartaledd hwn wedi cynyddu yn sylweddol yn y cyfnod diwethaf. Mae gwaith gan y New Economics Foundation ac eraill wedi dangos bod lefelau mor uchel o anghyfartaledd incwm yn dadsefydlogi'r economi, yn niweidio llesiant ar draws cymdeithas ac yn tansellio democratiaeth. Felly, y peth lleiaf y gallwn ni ei wneud, ymhlith nifer o bethau eraill sy'n digwydd a phethau y gallm eu gwneud ymhellach, yw cyflwyno'r cyflog byw fel rhan fechan fach o'r ymdrech i drio mynd i'r afael â hynny.

However, it is not inevitable, of course, that the picture should be quite as bleak or that it should be such a struggle for workers in the wake of the recession, particularly when you consider the latest analysis of the High Pay Centre, which shows that the earnings of the largest company bosses are 130 times higher than the average earnings of their workforce. Back in 1998, they were 47 times higher—I almost said 'only' 47 times higher, but I do not think that that would be particularly sensible. So, in fact, it demonstrates the extent to which salaries have become skewed and how this inequality has increased significantly during this last period. Work by the New Economics Foundation and others has demonstrated that such high levels of wage inequality destabilise the economy, damage wellbeing across society and undermine democracy. Therefore, the least that we could do, among many other things that are happening and things that could be done further, is to introduce the living wage as a small part of the effort to grapple with this problem.

Some will take a negative outlook, as they no doubt did when the minimum wage was first introduced. We have already heard a number of references to that, and it has proven to be nothing less than scaremongering. Introducing a living wage can have positive effects on business. You do not need to take my word for it. Paying the living wage is not only morally right but it makes good business sense too, according to Boris Johnson, who I believe is a potential leader of the Conservative Party—but we will not go there.

Bydd rhai yn cymryd agwedd negyddol, fel y gwnaethant yn ddi-os pan gyflwynwyd yr isafswm cyflog. Rydym eisoes wedi clywed nifer o gyfeiriadau at hynny, ac maent wedi profi i fod yn ddim mwy na chodi bwganod. Gall cyflwyno cyflog byw gael effaith gadarnhaol ar fusnes. Nid oes angen i chi gymryd fy ngair i am hynny. Nid yn unig y mae talu'r cyflog byw yn foesol gywir, ond mae'n gwneud synnwyr busnes da hefyd, yn ôl Boris Johnson, sydd rwy'n credu yn arweinydd posibl y Blaid Geidwadol—ond well i ni beidio â thrafod hynny yn awr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

An independent study examining the business benefits of implementing a living wage policy in London found that more than 80% of employers believed that the living wage had enhanced the quality of the work of their staff, while absenteeism had fallen by approximately 25%—all positives. Two thirds of employers reported a significant impact on recruitment and retention within their organisation, and 70% of employers felt that the living wage had increased consumer awareness of their organisation's commitment to be an ethical employer.

As Simon Thomas reminded us earlier, according to the FSB, half of SMEs already pay all of their staff more than the living wage. I would like to see this as part of a wider package for business in Wales. As well as introducing a higher minimum wage, Plaid Cymru would make Wales a more business-friendly country with cheaper business rates for smaller businesses and a Welsh development bank, by increasing the Welsh supply chain through more effective procurement, and by creating a private-sector-led economic development agency. These would all assist companies in dealing with this change. We think it would create jobs in Wales, perhaps between 10,000 and 20,000, because paying people more money means they have more to spend. So, there is an increased aggregate demand. We estimate that there would be around £200 million more in people's pockets to spend, with multipliers on top of that. The economy is growing and jobs are being created—around 100,000 jobs in the private sector in Wales in the last three and a half years. While we recognise that there may be challenges for some, we believe that a pay rise for 250,000 workers is important to achieve and is the right thing to do.

There will be a churn of jobs, but that is the norm with low-paid work. What we actually want is more higher quality employment with a better trained workforce, but, of course, that is probably a whole different debate.

Yn ôl astudiaeth annibynnol yn archwilio manteision busnes gweithredu polisi cyflog byw yn Llundain, roedd dros 80% o gyflogwyr yn credu bod y cyflog byw wedi gwella ansawdd gwaith eu staff, tra bod lefelau absenoldeb wedi gostwng tua 25%—nodweddion cadarnhaol. Nododd dwy ran o dair o gyflogwyr fod y cyflog byw wedi cael effaith sylweddol ar recriwtio a chadw staff yn eu sefydliad, ac roedd 70% o gyflogwyr yn teimlo bod y cyflog byw wedi cynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o ymrwymiad eu sefydliad i fod yn gyflogwr moesegol.

Fel y nododd Simon Thomas yn gynharach, yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach, mae hanner busnesau bach a chanolig eisoes yn talu mwy na'r cyflog byw i'w holl staff. Hoffwn weld hyn yn rhan o becyn ehangach ar gyfer busnesau yng Nghymru. Yn ogystal â chyflwyno isafswm cyflog uwch, byddai Plaid Cymru yn gwneud Cymru yn wlad fwy deniadol i fusnesau, gyda threthi busnes rhatach ar gyfer busnesau llai a banc datblygu Cymru, drwy gynyddu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru drwy gaffael yn fwy effeithiol, a thrwy greu asiantaeth datblygu economaidd o dan arweiniad y sector preifat. Byddai'r rhain yn helpu cwmnïau i ymdopi â'r newid hwn. Credwn y byddai'n creu swyddi yng Nghymru, efallai rhwng 10,000 a 20,000, oherwydd bydd talu mwy o arian i bobl yn golygu bod ganddynt fwy i'w wario. Felly, mae'r galw cyfun yn cynyddu. Rydym yn amcangyfrif y byddai tua £200 miliwn yn fwy ym mhocedi pobl i'w wario, gyda lluosyddion ar ben hynny. Mae'r economi yn tyfu ac mae swyddi yn cael eu creu— tua 100,000 o swyddi yn y sector preifat yng Nghymru yn y tair blynedd a hanner diwethaf. Er ein bod yn cydnabod y gall fod heriau i rai, rydym yn credu bod codiad cyflog ar gyfer 250,000 o weithwyr yn bwysig ac mai dyma'r peth cywir i'w wneud.

Bydd swyddi'n cael eu colli a'u creu, ond dyna sy'n digwydd gyda gwaith cyflog isel. Yr hyn rydym ei angen mewn gwirionedd yw mwy o swyddi o safon uwch gyda gweithlu wedi'i hyfforddi'n well, ond, wrth gwrs, mae'n debyg bod honna'n ddadl gwbl wahanol.

17:22

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak in this timely debate today. The living wage has become a subject of much political debate in recent years as many people struggle to make ends meet due to the high cost of living. More and more, we hear how bringing the workforce onto a living wage rather than relying on the minimum wage would lead to a number of benefits to the economy and wider society, and some have been alluded to already. It is these issues that I want to refer to.

The living wage is an idea that dates back to the late Victorian period. Later on, in 1912, it was argued that the living wage is that which is sufficient to enable those who receive it and those who depend on them to lead vigorous and full human lives. Indeed, I am sure that that is a definition that most of us would not disagree with today. The idea of a living wage has often been intertwined with and sometimes confused with the development of a minimum wage. The United States introduced a federal minimum wage in 1938 as part of President Franklin D. Roosevelt's pioneering new deal legislation that sought to drag America out of the depths of the great depression.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl amserol heddiw. Mae'r cyflog byw wedi dod yn destun llawer o ddadlau gwleidyddol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i lawer o bobl ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd oherwydd costau byw uchel. Fwyfwy, rydym yn clywed sut y byddai cyflwyno cyflog byw i'r gweithlu yn hytrach na dibynnu ar yr isafswm cyflog yn arwain at nifer o fanteision i'r economi a'r gymdeithas ehangach, ac mae rhai wedi cael eu crybwyll eisoes. Rwyf am gyfeirio at y materion hyn.

Mae'r cyflog byw yn syniad sy'n dyddio'n ôl i ddiwedd y cyfnod Fictoriaidd. Yn ddiweddarach, ym 1912, dadleuwyd mai'r cyflog byw yw'r hyn sy'n ddigonol i alluogi'r rhai hynny sy'n ei dderbyn a'r rhai sy'n dibynnu arnynt i fyw bywydau egniol a llawn. Yn wir, rwy'n siŵr na fyddai'r rhan fwyaf ohonom yn anghytuno â'r diffiniad hwn heddiw. Mae'r syniad o gyflog byw wedi'i gydblygu â datblygu isafswm cyflog yn aml, a bu drysu rhwng y ddau weithiau. Cyflwynodd yr Unol Daleithiau isafswm cyflog ffederal ym 1938 fel rhan o ddeddfwriaeth fargen newydd arloesol yr Arlywydd Franklin D. Roosevelt, gyda'r nod o lusgo America allan o ddyfnderoedd y dirwasgiad mawr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fast track to 1999, when the national minimum wage—introduced by the Labour Government in this country in the previous year, in the teeth of strident Conservative opposition, lest they need reminding—came into effect and proceeded to guarantee the lowest paid workers a minimum standard of earnings. However, since the decline in living standards caused by the financial crisis of 2008, the living wage has thrust itself to the forefront of the political agenda. As prices continue to rise faster than wages, many people are increasingly struggling to cope. The economy is slowly and tentatively recovering, delayed as it has been by the UK Government's relentless austerity agenda. However, many people are not feeling the benefit. It is against this backdrop that many are now calling for a living wage to be paid more widely across all sectors of the economy. Indeed, in May 2010, even David Cameron said that the living wage was an idea whose time has come. However, since then, his Government's attitude appears to be lukewarm. I welcome the Welsh Government's commitment to remaining a living wage employer in Wales and working with other employers in all sectors to encourage them to consider becoming living wage employers. I also welcome the First Minister's decision last year to recognise the importance of the living wage as an issue by placing it under the remit of the Welsh Government's workforce partnership council.

More and more employers paying the living wage will not only make their employees better off, but will lead to better staff morale, lower staff turnover, lower absenteeism and increased productivity. On top of this, a study last year by the Trades Union Congress estimated that paying every worker in Wales the living wage would save the Treasury £154 million annually through reduced benefits payments and tax credit and an increased tax intake. Of course, if people have more money in their pockets, they will spend more in the Welsh economy, creating jobs that way.

I agree that we need to work to establish the living wage throughout the devolved public sector in Wales and then work with private sector employers to raise awareness of the longer term benefits of implementing a pay policy based on the living wage. I know that small businesses in particular will have concerns about the financial viability of such a policy, and it is important that we listen to such concerns. However, I am confident that, by leading the way and engaging with all stakeholders in the economy, we can make real headway on this issue. The after-effects of the global financial crisis mean that in-work poverty is a real issue here. Nonetheless, I remain of the belief that the best way out of poverty is to be in employment and to earn a decent fair wage.

I conclude by reminding Members that the Labour-controlled Caerphilly County Borough Council was the first local authority in Wales to introduce the living wage for all of its lowest paid workers back in 2012. I know that a number of others, such as Swansea and Cardiff, have followed suit or are considering doing so.

Wedyn, ym 1999, daeth yr isafswm cyflog cenedlaethol i rym—ar ôl i'r Llywodraeth Lafur ei gyflwyno yn y wlad hon y flwyddyn flaenorol, yn wyneb gwrthwynebiad cryf gan y Ceidwadwyr, rhag ofn bod angen eu hatgoffa—gan lwyddo i sicrhau safon enillion sylfaenol ar gyfer gweithwyr ar y cyflogau isaf. Fodd bynnag, ers y gostyngiad mewn safonau byw yn sgîl argyfwng ariannol 2008, mae'r cyflog byw wedi gwthio ei hun i flaen yr agenda wleidyddol. Wrth i brisiau barhau i godi yn gyflymach na chyflogau, mae llawer o bobl yn cael trafferth gynyddol i ymdopi. Mae'r economi yn gwella'n araf ac yn ansicr, er bod agenda galedi di-ddiwedd Llywodraeth y DU yn oed'r broses hon. Fodd bynnag, nid yw llawer o bobl yn mwynhau'r manteision. Oherwydd y sefyllfa hon, mae llawer o bobl bellach yn galw am dalu cyflog byw yn ehangach ar draws pob sector o'r economi. Yn wir, ym mis Mai 2010, dywedodd David Cameron hyd yn oed bod y cyflog byw yn syniad y mae ei amser wedi dod. Fodd bynnag, ers hynny ymddengys bod agwedd ei Llywodraeth yn llugoer. Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i fod yn gyflogwr cyflog byw yng Nghymru a pharhau i weithio gyda chyflogwyr eraill ym mhob sector i'w hannog i ystyried dod yn gyflogwr cyflog byw. Rwyf hefyd yn croesawu penderfyniad y Prif Weinidog y llynedd i gydnabod pwysigrwydd y cyflog byw drwy ei gynnwys yng nghylch gwaith cyngor partneriaeth gweithlu Llywodraeth Cymru.

Wrth i fwy a mwy o gyflogwyr dalu'r cyflog byw, bydd eu gweithwyr yn well eu byd, bydd morâl staff yn gwella, bydd trosiant staff yn lleihau, a bydd llai o absenoldeb a mwy o gynhyrchiant. Yn ogystal, roedd astudiaeth y llynedd gan Gyngres yr Undebau Llafur yn amcangyfrif y byddai talu'r cyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru yn arbed £154 miliwn y flwyddyn i'r Trysorlys drwy leihau taliadau budd-daliadau a chredyd treth a chynyddu'r arian sy'n dod i mewn fel trethi. Wrth reswm, os oes gan bobl fwy o arian yn eu pocedi, byddant yn gwario mwy yn economi Cymru, gan greu swyddi yn y broses.

Rwy'n cytuno bod angen i ni weithio i sefydlu cyflog byw ar draws y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac yna gweithio gyda chyflogwyr yn y sector preifat i godi ymwybyddiaeth o fanteision mwy hirdymor gweithredu polisi cyflog sy'n seiliedig ar y cyflog byw. Gwn y bydd busnesau bach yn arbennig yn pryderu am hyfywedd ariannol polisi o'r fath, ac mae'n bwysig ein bod yn gwrandao ar bryderon o'r fath. Fodd bynnag, rwy'n hyderus y gallwn wneud cynnydd gwirioneddol ar y mater hwn drwy arwain y ffordd ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid yn yr economi. Oherwydd effeithiau'r argyfwng ariannol byd-eang, mae tlodi mewn gwaith yn problem wirioneddol yma. Serch hynny, rwy'n dal i gredu mai'r ffordd orau i rywun ddod allan o dlodi yw cael swydd ac ennill cyflog teilwng a theg.

Hoffwn gloi drwy atgoffa'r Aelodau mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, o dan arweiniad y Blaid Llafur, oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno cyflog byw ar gyfer ei holl weithwyr ar gyflogau isel yn 2012. Gwn fod nifer o rai eraill, megis Abertawe a Chaerdydd, wedi dilyn yr arweiniad hwn, neu eu bod yn ystyried gwneud hynny.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:27

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'A fair day's pay for a fair day's work' has long been a motto of the trade union movement. Doing all that we can to boost the uptake of a living wage is true to that aim.

Mae 'cyflog diwrnod teg am ddiwrnod teg o waith' wedi bod yn arwyddair y mudiad undebau llafur ers tro. Mae gwneud popeth posibl i gynyddu'r nifer sy'n cael cyflog byw yn cefnogi'r amcan hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:27

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we would all agree that those who are in work should receive a wage that enables them to support themselves and their families. However, the growth of in-work poverty means that, for many people, having a job no longer provides financial security. The child poverty action group has found that over half of children who live in poverty have at least one parent in paid work. We tell people that work is their way out of hardship, but, increasingly, this is no longer the case.

Rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno y dylai'r rhai sydd mewn gwaith dderbyn cyflog sy'n eu galluogi i'w cynnal eu hunain a'u teuluoedd. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd mewn tlodi mewn gwaith, nid yw cael swydd yn sicrhau diogelwch ariannol i lawer o bobl bellach. Mae'r grŵp gweithredu ar dlodi plant wedi canfod bod gan dros hanner y plant sy'n byw mewn tlodi o leiaf un rhiant sy'n gwneud gwaith am dâl. Rydym yn dweud wrth bobl mai gwaith yw'r ffordd allan o galedi, ond, yn gynyddol, nid yw hyn yn wir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A driver of in-work poverty is, of course, the increase of underemployment since the recession. The number of people working part time who want to be working full time is at its highest for 20 years. They are hidden in the unemployment statistics—in work, but struggling to cover the costs of living—and 43% of part-time workers are paid less than the living wage.

Un o'r rhesymau am dlodi mewn gwaith, wrth gwrs, yw'r cynnydd mewn diffyg gwaith ers y dirwasgiad. Mae nifer y bobl sy'n gweithio'n rhan-amser ond sydd am weithio'n llawn-amser ar ei uchaf ers 20 mlynedd. Maent yn cael eu cuddio yn yr ystadegau diweithdra—maent yn gweithio, ond yn ei chael yn anodd talu am gostau byw—ac mae 43% o weithwyr rhan-amser yn ennill llai na'r cyflog byw.

The rise of zero-hours contracts—you are not going to be surprised that I have mentioned them—has contributed hugely to this problem. With no guaranteed work hours, employees may not be able to predict whether or not they will be given work and how much they will be paid each week, and that makes planning ahead and budgeting almost impossible. Employees also find themselves trapped by the terms of their employment and unable to look for work elsewhere. Employers are encouraged to give erratic hours so that workers cannot claim de facto employment rights.

Mae'r cynnydd mewn contractau dim oriau—ni fyddwch yn synnu fy mod wedi cyfeirio atyn nhw—wedi cyfrannu'n enfawr at y broblem hon. Heb unrhyw oriau gwaith gwarantedig, efallai na fydd gweithwyr yn gallu rhagweld a fyddant yn cael gwaith neu faint y byddant yn ei ennill bob wythnos, ac mae hynny'n gwneud cynllunio ymlaen llaw a chyllidebu bron yn amhosibl. Mae telerau eu cyflogaeth yn caethiwo gweithwyr cyflogedig hefyd, gan ei gwneud yn amhosibl iddynt chwilio am waith mewn llefydd eraill. Mae cyflogwyr yn cael eu hannog i roi oriau afreolaidd i weithwyr fel nad oes ganddynt hawliau cyflogaeth de facto.

Tackling the rise of in-work poverty must include stopping the increased use of exploitative zero-hours contracts, so I am pleased to see that the UK Government is now committed to acting on this. However, we should have been brave enough, I think, to lead the way here.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn tlodi mewn gwaith, mae'n rhaid atal y defnydd cynyddol o gcontractau dim oriau sy'n camfanteisio ar weithwyr, felly mae'n dda gweld bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithredu ar hyn bellach. Fodd bynnag, yn fy marn i, dylem fod wedi bod yn ddigon dewr i arwain y ffordd yn y cyswllt hwn.

The Welsh Government had plenty of opportunities to take that stand; I think that I have handed it one or two myself. Take, for example, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, which could have included a measure to ensure that local authorities did not procure services from employers that use exploitative zero-hours contracts. I was disappointed when the Government failed to grasp this chance to improve greatly the lives of domiciliary care workers, who are, of course, some of the most hard-working people and are responsible for looking after our most vulnerable. I hope that Gwenda Thomas's promise at that time to seriously consider this at another time, when the commissioning regime is under consideration, still stands, and I would be pleased if the Minister responding would confirm that.

Roedd gan Lywodraeth Cymru ddigon o gyfleoedd i wneud safiad yn y cyswllt hwn; rwy'n credu fy mod wedi rhoi un neu ddau gyfle i'r Llywodraeth fy hun. Ystyriwch, er enghraifft, Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a allai fod wedi cynnwys mesur i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau gan gyflogwyr sy'n defnyddio contractau dim oriau sy'n camfanteisio ar weithwyr. Roeddwn yn siomedig pan fethodd y Llywodraeth â chymryd y cyfle hwn i wella bywydau gweithwyr gofal cartref, sef, wrth gwrs, rhai o'r bobl sy'n gweithio'n galetach na neb arall wrth ofalu am y bobl fwyaf agored i niwed. Rwy'n gobeithio y bydd adnewid Gwenda Thomas ar y pryd i ystyried y mater hwn o ddifrif yn y dyfodol, pan fydd y drefn gomisiynu yn cael ei hystyried, yn parhau i sefyll, a byddwn yn falch pe bai'r Gweinidog sy'n ymateb yn cadarnhau hyn.

Sadly, the rise of in-work poverty is a gender issue. Women are more likely to live in poverty than men. It is not that I want more men to live in poverty; I want fewer women to live in poverty. That is partly because women dominate those industries where it is common to be paid less than the living wage and partly because women make up 76% of part-time workers, as Simon Thomas mentioned earlier. The prevalence of low pay among the female workforce is a major factor in child poverty. Raising the minimum wage to a living wage could contribute to lifting a significant number of women out of poverty, boosting equality for opportunity and supporting children and improving their quality of life.

Greater vision and legislative ambition is needed to lift those living in poverty out of the precarious and deeply stressful situation of living right on the breadline all of the time. Just imagine if the Government decided that all workers paid with taxpayers' money deserved a living wage; it would be a brave and principled decision. We should acknowledge the good work that has been done in this regard, as mentioned by Mike Hedges earlier, but, we should, at least, start by getting rid of those exploitative zero-hours contracts as soon as possible.

A society in which many working people feel unsure whether they will be able to make ends meet each month and who find themselves having to make the impossible choice between paying the rent or buying food is a society that is failing its people. We live in the fourth or fifth biggest economy in the world. If we cannot afford to lift people out of poverty, where do other countries stand?

It is important to remember that

'workers' rights are never just given; they have to be fought for and won'.

I am quoting from somebody else there, from an event that I attended quite recently in this building; it was Vaughan Gething, and I am sorry that he is not here today for me to point that back at him. Here, in Wales, we should, at least, be leading that fight for those workers' rights.

Yn anffodus, mae'r cynnydd mewn tlodi mewn gwaith yn broblem yn ymwneud â'r rhywiau hefyd. Mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi na dynion. Nid wyf eisiau mwy o ddynion i fyw mewn tlodi; rwyf eisiau llai o fenywod i fyw mewn tlodi. Mae hynny'n rhannol oherwydd mai menywod yn bennaf sy'n gweithio yn y diwydiannau sy'n talu cyflogau is na'r cyflog byw, ac yn rhannol oherwydd bod 76% o weithwyr rhan-amser yn fenywod, fel y soniodd Simon Thomas yn gynharach. Mae nifer yr achosion o gyflog isel ymysg y gweithlu benywaidd yn ffactor pwysig o ran tlodi plant. Gallai codi'r isafswm cyflog i gyflog byw gyfrannu at ryddhau nifer sylweddol o fenywod o dlodi, gan roi hwb i gyfle cyfartal, cefnogi plant a gwella ansawdd bywyd menywod.

Mae angen mwy o weledigaeth ac uchelgais deddfwriaethol i ryddhau'r rhai sy'n byw mewn tlodi o'r sefyllfa fregus a llawn straeon o geisio cael dau ben llinyn ynghyd drwy'r amser. Meddylwch pe bai'r Llywodraeth yn penderfynu bod pob gweithiwr a delir gydag arian y trethdalwr yn haeddu cyflog byw; byddai'n benderfyniad dewr ac egwyddorol. Dylem gydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud yn hyn o beth, fel y soniodd Mike Hedges yn gynharach, ond fel cam cyntaf dylem ddileu'r contractau dim oriau sy'n camfanteisio ar weithwyr cyn gynted â phosibl.

Mae cymdeithas lle mae llawer o weithwyr yn teimlo'n ansicr a fyddant yn gallu cael dau ben llinyn ynghyd bob mis, ac sy'n gorfod gwneud y dewis amhosib rhwng talu'r rhent neu brynu bwyd, yn gymdeithas sy'n methu ei phobl. Rydym yn byw yn y bedwaredd neu'r bumedd economi fwyaf yn y byd. Os na allwn ni fforddio rhyddhau pobl o dlodi, beth yw'r sefyllfa mewn gwledydd eraill?

Mae'n bwysig cofio nad yw

'hawliau gweithwyr byth yn cael eu rhoi; mae'n rhaid brwydro amdanynt a'u hennill'.

Dyfyniad gan rywun arall yw hwn, yn ystod digwyddiad a fynychais yn gymharol ddiweddar yn yr adeilad hwn; geiriau Vaughan Gething ydynt, ac mae'n ddrwg gennyf nad yw yma heddiw i mi dynnu ei sylw atynt. Yma, yng Nghymru, dylem o leiaf fod yn arwain y frwydr dros hawliau'r gweithwyr hynny.

17:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:32 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

I am pleased to be replying to this debate today. I thought that I might commence my remarks with the words 'as I was saying before I was so rudely interrupted'. [Laughter.]

Rwyf yn falch o fod yn ymateb i'r ddatl hon heddiw. Roeddwn i'n meddwl dechrau fy sylwadau gyda'r geiriau 'fel y dywedais yn gynharach cyn yr ymyriad digywilydd'. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I would like to thank Plaid Cymru for raising this important issue. Establishing the national minimum wage was one of the proudest achievements of the last Labour Government, and tackling low pay remains a high priority for the Welsh Labour Government.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am godi'r mater pwysig hwn. Roedd sefydlu'r isafswm cyflog cenedlaethol yn un o lwyddiannau pwysicaf y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, ac mae mynd i'r afael â chyflogau isel yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Lafur Cymru.

The Welsh Government supports the motion as drafted and the first amendment. We must balance the benefits of a living wage in tackling the rise in in-work poverty against the ability of employers to afford to pay it overnight, as it were.

Will not be supporting the Liberal Democrat amendments. Amendment 2 proposes the establishment of an independent review to consult on how to set a fair living wage. The Living Wage Foundation was established in 2011 to do just that. It is an independent organisation that includes stakeholders, the private and voluntary sectors and the trade unions, and it covers the whole of the UK. The Welsh Government has resisted attempts to introduce regional pay in Wales in the past, and that is still our position.

The Liberal Democrat amendments 3 and 4 welcome the UK Government's tax changes and propose further tax threshold increases in future. We oppose those amendments. The tax changes that the coalition Government has made have been grossly outweighed by the effects of its welfare reform benefit changes. Welsh households have seen the increases in incomes swallowed up by benefit cuts of over £770 million, and just yesterday the study from Sheffield Hallam University demonstrated the impact on the south Wales Valleys in particular. The Liberal Democrats are not fooling anyone with this calculated distraction from the coalition Government's draconian benefit cuts. Amendment 4 would benefit not only lower paid workers, but workers overall, and we know that raising tax thresholds is not necessarily the most efficient way to address the issue of low pay.

I am proud that, in Wales, we are taking unprecedented action to address low pay, as Jeff Cuthbert and Mike Hedges have explained during the course of this debate. In July, the Minister for Health and Social Services announced that the Welsh NHS aims to be a living wage employer. Negotiations continue on pay, but we aim to have all NHS staff paid at least a living wage by the end of the financial year. This means that about 2,400 of the lowest paid NHS employees would receive an increase in their basic salary of up to £470 per year.

As colleagues have pointed out, many local authorities in Wales have already adopted the living wage policy, including Caerphilly, Cardiff and Swansea, and others are considering it. I met Unison officials yesterday to discuss the local government workforce, including pay and the living wage, in the context of the current funding outlook. In our programme for government, we committed to explore a living wage for every worker in Wales. We continue to work with trade unions and public sector employers at the workforce partnership council to explore the actions that we can take to address in-work poverty in the public sector. We also encourage employers across the public, private and third sectors to become living wage employers. However, we recognise that the living wage is not a silver bullet. The causes of in-work poverty are complex.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig fel y mae wedi'i ddrafftio a'r gwelliant cyntaf. Rhaid i ni gael cydbwysedd rhwng manteision cyflog byw wrth fynd i'r afael â'r cynnydd mewn tlodi mewn gwaith a gallu cyflogwyr i fforddio ei dalu dros nos, fel petai.

Ni chefnogir gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae gwelliant 2 yn cynnig sefydlu adolygiad annibynnol i ymgynghori ar sut i sefydlu cyflog byw, teg. Sefydlwyd y Sefydliad Cyflog Byw yn 2011 i wneud yr union waith hwn. Mae'n sefydliad annibynnol sy'n cynnwys rhanddeiliaid, y sectorau preifat a gwirfoddol a'r undebau llafur, ac mae'n cwmpasu'r DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthsefyll ymdrechion i gyflwyno cyflogau rhanbarthol yng Nghymru yn y gorffennol, a dyna yw ein safbwynt o hyd.

Mae gwelliannau 3 a 4 y Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu newidiadau treth Llywodraeth y DU ac yn cynnig cynnydd pellach mewn trothwyon treth yn y dyfodol. Rydym yn gwrthwynebu'r gwelliannau hyn. Mae effeithiau diwygiadau lles budd-daliadau'r Llywodraeth glymblaid wedi bod yn drech o lawer na'i newidiadau treth. Mae'r cynnydd mewn lefelau incwm cartrefi Cymru wedi'i lyncu gan doriadau mewn budd-daliadau gwerth dros £770 miliwn, a dim ond ddoe dangoswyd yr effaith benodol ar gymoedd y De gan astudiaeth Prifysgol Hallam Sheffield. Nid yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn twyllo neb wrth dynnu sylw yn fwriadol oddi wrth doriadau budd-daliadau llym y Llywodraeth glymblaid. Byddai gwelliant 4 o fudd i unig i weithwyr sy'n derbyn cyflogau is, ond i weithwyr yn gyffredinol, ac rydym yn gwybod nad codi trothwyon treth yw'r ffordd fwyaf effeithlon o reidrwyo o fynd i'r afael â chyflogau isel.

Rwyf yn falch ein bod, yng Nghymru, yn cymryd camau na welwyd eu tebyg o'r blaen i fynd i'r afael â chyflogau isel, fel y mae Jeff Cuthbert a Mike Hedges wedi egluro yn ystod y ddatl hon. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod y GIG yng Nghymru yn anelu at fod yn gyflogwr cyflog byw. Mae trafodaethau ar dâl yn parhau, ond rydym yn gobeithio y bydd holl staff y GIG yn ennill cyflog byw sylfaenol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn golygu y byddai tua 2,400 o gyflogeion y GIG ar y cyflogau isaf yn derbyn cynnydd yn eu cyflog sylfaenol o hyd at £470 y flwyddyn.

Fel y mae cydweithwyr wedi ei nodi, mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes wedi mabwysiadu polisi cyflog byw, gan gynnwys Caerffili, Caerdydd ac Abertawe, ac mae eraill yn ei ystyried. Cyfarfûm â swyddogion Unsain ddoe i drafod y gweithlu llywodraeth leol, gan gynnwys cyflogau a'r cyflog byw, yng nghydestun y rhagolygon cyllido presennol. Yn ein rhaglen lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i archwilio i gyflog byw ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda'r undebau llafur a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn y cyngor partneriaeth gweithlu i ystyried y camau gweithredu posibl i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith yn y sector cyhoeddus. Rydym hefyd yn annog cyflogwyr ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i ddod yn gyflogwyr cyflog byw. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw'r cyflog byw yn fwled arian. Mae achosion tlodi mewn gwaith yn gymhleth.

Jocelyn Davies referred to zero-hours contracts, so let me say a word about that. Following the announcement of the Agricultural Sector (Wales) Bill judgment, things have changed for us here in Wales. The First Minister has said that there is no doubt in his mind that the judgment provides far greater clarity on issues including zero-hours contracts. As I explained to the Wales TUC on Monday, I have asked my officials to start investigating this in respect of the public sector.

We aim to make progress in these areas. This Welsh Labour Government was elected on a manifesto that focused on jobs and growth. We have seen the great success of our Jobs Growth Wales programme, and we are committed to giving people the opportunity to work and to work at a fair rate.

Cyfeiriodd Jocelyn Davies at gontractau dim oriau, felly gadewch i mi ddweud gair am hynny. Yn dilyn cyhoeddi'r dyfarniad ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru), mae pethau wedi newid i ni yma yng Nghymru. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud nad oes unrhyw amheuaeth yn ei feddwl fod y dyfarniad yn darparu llawer mwy o eglurder ar faterion megis contractau dim oriau. Fel yr eglurais wrth TUC Cymru ddydd Llun, rwyf wedi gofyn i fy swyddogion ddechrau ymchwilio i hyn mewn perthynas â'r sector cyhoeddus.

Ein nod yw gwneud cynnydd yn y meysydd hyn. Etholwyd Llywodraeth Lafur Cymru ar fanifesto a oedd yn canolbwyntio ar swyddi a thwf. Mae ein rhaglen Twf Swyddi Cymru wedi bod yn llwyddiant mawr, ac rydym wedi ymrwymo i roi cyfle i bobl weithio a gweithio ar gyfradd deg.

17:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:37

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw. Rwy'n sicr yn gwerthfawrogi'r lefel eang o gytundeb sydd rhwng pobl yma. Hoffwn gymryd y cyfle hefyd i longyfarch y Gweinidog ar ei ail-benodiad i'r Cabinet.

Rydym yn sôn yn y fan hon mewn difrif am barch—parch tuag at y rheini sydd yn mynd allan i weithio; parch tuag at y rheini sydd yn ceisio creu'r amgylchiadau gorau posibl ar gyfer eu teuluoedd ond sydd yn dal i weld nad oes ganddynt incwm digonol i ateb eu gofynion mwyaf sylfaenol. Dylai rhywun sy'n gweithio 40 awr yr wythnos allu fforddio talu am anghenion sylfaenol fel to uwch eu pennau, bwyd, biliau, trafndiaeth, gofal iechyd ac, ie, peth hamdden.

I ddweud mewn ffordd fwy trawiadol cyn lleied mewn difrif rydym yn gofyn amdano, cyflog byw ydy'r cyflog sy'n cyfateb i lefel tlodi, neu'r 'poverty line', ar gyfer teulu o bedwar. Mae mor syml â hynny. [Anhyglyw.] Fel cyn Weinidog a fu'n gweithio yn y maes hwn, siaradodd Jeff Cuthbert yn huawdl iawn yn egluro'r angen i dynnu pobl allan o dlodi. [Torri ar draws.] Deallaf fod problem gyda'r microffon, felly bydd yn rhaid i mi glosio at Jocelyn Davies er mwyn defnyddio ei microffon hi.

Mae'r syniad o dlodi mewn gwaith wedi cael ei drafod ers rhai blynyddoedd erbyn hyn—rhywbeth y bu i Mike Hedges ei grybwyll. Mae'n adlewyrchu'r ffaith nad yw cyflogaeth ynddo'i hun yn ddigon i godi teuluoedd allan o dlodi. Mae hwnnw'n bwynt, unwaith eto, a wnaeth Jocelyn. Mae'n ddyletswydd foisol ar bob un ohonom i wneud popeth y gallwn i drechu tlodi—siawns ein bod i gyd yn gytûn ar hynny—a byddai cyflwyno lleiafswm cyflog i lefel cyflog byw yn gam pwysig mewn egwyddor ac yn ymarferol i brofi ein bod o ddifrif am hynny.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw. Rwy'n sicr yn gwerthfawrogi'r lefel eang o gytundeb sydd rhwng pobl yma. Hoffwn gymryd y cyfle hefyd i longyfarch y Gweinidog ar ei ail-benodiad i'r Cabinet.

What we are talking about here really is respect—respect for those who go out to work; respect for those who are trying to create the best possible conditions for their families but who still see that they do not have enough income to meet their most basic requirements. Someone who works 40 hours a week should be able to afford to pay for basic needs such as a roof over their heads, food, bills, transport, healthcare and, yes, some leisure.

To say in a more striking way how little we are really asking for, a living wage is a wage that corresponds to the poverty line for a family of four. It is as simple as that. [Inaudible.] As a former Minister who has been working in this area, Jeff Cuthbert very eloquently explained the need to pull people out of poverty. [Interruption.] I understand that there is a problem with the microphone, so I will have to move closer to Jocelyn Davies in order to use her microphone.

The idea of in-work poverty has been discussed for many years—something that Mike Hedges mentioned. It reflects the fact that employment in itself is not enough to lift families out of poverty. That point, once again, was made by Jocelyn. We are all morally obliged to do everything that we can to combat poverty—surely we all agree on that—and the introduction of a minimum wage at the level of a living wage is an important step in principle and in practice to prove that we are serious about that.

Nid yw'n rhywbeth newydd, chwaith, ac mae'n werth cofio profiadau gwledydd eraill. Ar y cownt diwethaf, credaf bod 29 o daleithiau yn America wedi pasio deddfau cyflogaeth i fynnu cyflog byw i weithwyr cyhoeddus neu'r rheini sy'n derbyn cyflog yn sgîl cytundebau yn defnyddio arian cyhoeddus. Felly, mae deddfu wedi bod yn digwydd mewn gwledydd eraill, ac mae bellach yn bryd i ni weithredu.

Rydym wedi clywed pryderon am yr effaith ar fyd busnes ac, wrth gwrs, bydd llawer o gyflogwyr yn poeni faint fyddai yn ei gostio iddynt hwy. Mae gwelliant y Ceidwadwyr yn pwysleisio'r pryder hwnnw. Dywedodd Nick Ramsay y gallai hwn gael ei weld fel rhyw fath o syniad 'utopian'. Un o'r cyrff mwyaf blaenllaw ar hyn o bryd sy'n gwneud gwaith ym maes cyflog byw yw'r uned cyflog byw yn swyddfa Maer Llundain, ac yng ngeiriau Boris Johnson ei hun:

'Paying the London living wage is not only morally right, but makes good business sense too'.

Mae digon o dystiolaeth i gefnogi hynny. Mae arolygon yn dangos bod mwyafrif y cyflogwyr sydd yn gweithredu cyflog byw yn gweld bod staff yn fwy cynhyrchiol, bod absenoldeb llawer yn is a bod recriwtio a chadw staff yn gwellu. Yng Nghymru, rydym yn meddwl y gallai greu rhywle rhwng 10,000 a 20,000 o swyddi, oherwydd mae talu mwy i bobl yn amlwg yn golygu fod ganddynt y pŵer i wario. Byddai yn rhoi, yn ôl rhai amcangyfrifon, rhyw £200 miliwn yn rhagor ym mhocedi pobl Cymru—arian i'w wario o fewn yr economi yng Nghymru. Mae'n werth nodi hefyd fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn dweud bod hanner busnesau bach a chanolig eu maint Cymru yn talu cyflog byw beth bynnag, a bod y busnesau hynny yn gallu ffynnu o dan yr amgylchiadau hynny.

Mae'n bwysig hefyd, i fod yn bleidiol, i nodi y byddai Plaid Cymru yn dymuno cyflwyno cyfres o gamau i wneud Cymru yn lle gwell i redeg busnes ynddo—camau fel ardrethi busnes is, banc datblygu, gwell polisïau caffael ac asiantaeth datblygu economaidd yn tynnu ar arbenigedd y sector preifat, er enghraifft. Felly, ni fyddem ninnau am i'r bwriad i gyflwyno cyflog byw gael ei weld fel rhywbeth ynysig. Mae eisiau edrych ar fusnes a'r economi yn ehangach, ond i brofi ein bod ninnau hefyd yn ystyried y pwysau a'r pryderon o fewn byd busnes, rydym heddiw yn hapus iawn i gefnogi gwelliant y Ceidwadwyr sy'n nodi bod nifer helaeth o fusnesau yng Nghymru yn fusnesau micro neu fach, a bod angen sicrhau bod unrhyw bolisi cyflog byw yn ddichonadwy, yn ogystal â sicrhau bod ein busnesau bach yn goroesi. Wrth gwrs bod angen rhoi'r sicrwydd hwnnw i bobl bod hwn yn rhywbeth a allai fod yn gynaliadwy i fyd busnes. Rydym yn gwbl hyderus ei fod.

It is not a new concept, either, and it is worth looking at the experiences of other countries. At the last count, I think that 29 American states had passed employment laws to demand a living wage for public workers or those in receipt of a salary as a result of public contracts. Therefore, there has been legislation in other countries, and it is now time for us to act.

We have heard concerns about the impact on businesses and, of course, many employers will worry how much it would cost them. The Conservative amendment emphasises that concern. Nick Ramsay said this could be seen as some kind of utopian concept. One of the most prominent bodies currently carrying out work on a living wage is the living wage unit in the London Mayor's office, and in the words of Boris Johnson himself

'Mae talu cyflog byw Llundain nid yn unig yn foesol gywir, ond mae'n gwneud synnwyr busnes da hefyd;'

There is plenty of evidence to support that. Surveys show that a majority of employers paying a living wage see that staff are more productive, that absence rates are much lower and that recruitment and retention is improved. In Wales, we think that it could create somewhere between 10,000 and 20,000 jobs, because paying people more clearly means that they have the power to spend. According to some estimates, it would put some £200 million more in the pockets of people in Wales—money to spend in the Welsh economy. It is also worth noting that the Federation of Small Businesses says that half of small and medium-sized businesses in Wales pay a living wage anyway, and that those businesses are able to thrive under those circumstances.

It is also important, to be partisan, to note that Plaid Cymru would wish to introduce a series of steps to make Wales a better place to run a business—steps such as reduced business rates, a development bank, better procurement policies and an economic development agency to draw on the expertise of the private sector, for example. Therefore, we would not want the intention to introduce a living wage to be seen as an isolated step. We need to look more broadly at business and the economy, but to prove that we too take note of the pressures and concerns within the business community, we are very happy today to support the Conservative amendment that states that a large number of Welsh businesses are micro or small businesses, and that there is a need to ensure that any living wage policy is feasible, as well as ensuring that our small businesses survive. Of course there is a need to give that assurance that this could be sustainable for business. We are completely confident that it is.

Felly, i gloi, ble rydym arni yng Nghymru? Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru'n Un wedi gwneud llawer iawn o waith ar hyn. Mae gan y Blaid Lafur ymrwymadau maniffesto ar hyn. Mae cryn gytundeb ynglŷn â'r egwyddor; rydym wedi clywed gan y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd. Ond, mae angen rhoi cig ar yr asgwrn erbyn hyn. Oes, mae arfer da; rydym wedi clywed gan y Gweinidog am yr hyn sy'n digwydd mewn nifer o gynghorau sir ac mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru lle mae cyflog byw yn cael ei weithredu yn wirfoddol. Fodd bynnag, mae'n amser i ni gymryd cam sylweddol ymlaen erbyn hyn. Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi cynnig ein syniadau ni: dylai lleiafswm cyflog godi i lefel cyflog byw yn ystod tymor nesaf Llywodraeth Prydain. Rydym wedi gwneud hynny'n glir—byddai'n rhoi cyflog byw i 250,000 o weithwyr yng Nghymru. Yn ein cynnig heddiw, rydym yn gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn Cyflogau Isel i sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i'r cyfeiriad hwnnw. Rydym yn dweud yn ein cynigion heddiw hefyd y dylai cyflog byw fod yn norm o fewn y sector cyhoeddus, ac y dylai'r Llywodraeth gymryd camau i annog y sector preifat mewn gwahanol ffyrdd i gyflwyno cyflog byw, ac i ddangos i'r sector y lles a allai ddod o hynny.

Cefnogwch y cynnig, felly. Gadewch i ni ddangos ein bod o ddifrif am ddangos y parch dyledus i'r aelodau hynny o'r gweithlu sydd ar gyflogau isel, a dangos ein bod o ddifrif—fel y dywedais, rydym yn gwbl gytŷn ar hynny—ynglŷn â thaclo tlodi.

So, in conclusion, where do we currently stand in Wales? I know that the One Wales Government did a great deal of work on this. The Labour Party has manifesto commitments on this. There is considerable agreement on the principle; we have heard from the Liberal Democrats as well. However, there is now a need to put meat on the bone. Yes, there is good practice; we have heard from the Minister about what is happening in a number of county councils and other public bodies in Wales where a living wage is voluntarily paid. However, it is now time for us to take a significant step forward. We in Plaid Cymru have offered our ideas: the minimum wage should rise to the living wage level during the next UK British Government. We have made that clear—it would provide a living wage for 250,000 workers in Wales. In our motion today, we ask the Government to make representations to the Low Pay Commission to ensure that steps are taken in that direction. We also say in our proposals today that a living wage should be the norm in the public sector, and that the Government should take steps to encourage the private sector in different ways to introduce a living wage, and to demonstrate to the sector the benefits that could be derived from that.

Therefore, please support the motion. Let us show that we are serious about showing due respect to those workers who are on low wages, and show that we are serious—as I said, we all agree on that—about tackling poverty.

17:44

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I proceed, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fynd ymlaen, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5565](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i NDM5565.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i NDM5565.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 9.

Cynnig NDM5565 fel y'i diwygiwyd:

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5565](#)

Motion not agreed: For 9, Against 37, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to NDM5565.](#)

Amendment not agreed: For 9, Against 37, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5565.](#)

Amendment agreed: For 37, Against 0, Abstain 9.

Motion NDM5565 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn well gyda'i gilydd ac y dylai'r Alban ddewis i aros yn y DU ar 18 Medi 2014.

2. Yn credu y dylai Cymru, beth bynnag fo'r canlyniad, siarad ag un llais, ac yn galw am weithredu'n gyflym yr argymhellion yn Rhannau 1 a 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ac am sefydlu confensiwn cyfansoddiadau ledled y DU i greu cynllun drafft am undeb newydd.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5565 fel y'i diwygiwyd.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5565 fel y'i diwygiwyd: O blaid 28, Yn erbyn 9, Ymatal 9.

[Calyniad y bleidlais ar gynnis NDM5562.](#)

Derbyniwyd y cynnis: O blaid 33, Yn erbyn 0, Ymatal 13.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that Wales, Scotland, Northern Ireland and England are better together and that Scotland should choose to remain in the UK on 18 September 2014.

2. Believes that whatever the result, Wales should speak with one voice, and calls for a swift implementation of the recommendations of Parts 1 and 2 of the Commission on Devolution in Wales and for a UK-wide constitutional convention to be established to draft a plan for a new union.

[Result of the vote on motion NDM5565 as amended.](#)

Motion NDM5565 as amended agreed: For 28, Against 9, Abstain 9.

[Result of the vote on motion NDM5562.](#)

Motion agreed: For 33, Against 0, Abstain 13.

17:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will those Members who are going to leave the Chamber please do so quickly and quietly?

A fyddai modd i'r Aelodau hynny sy'n mynd i adael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:47

Dadl Fer: Gohebiaeth ar Bapur: Hawl y Defnyddiwr i Ddewis

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to those of you who have stayed. I am very pleased to be able to give a minute of this debate to Peter Black. Just before recess, Members of this Assembly took part in a Welsh Conservative debate on junk mail. In a good-tempered and discursive debate, Members raised valid questions about the different types of uninvited post, asking, 'What about local advertising?' and 'When does uninvited post become a nuisance and when does it become a threat?' However, today, I would like to ask the Minister—and congratulations on your new position, by the way—how you think Welsh Government might be able to help with the opposite problem. Is there anything that our Welsh Government can do to mitigate decisions made by some large organisations to stop communicating with customers by post—stopping entirely or charging those customers for the privilege of receiving mail that they actually want to receive? We move inexorably towards the more internet-based services and facilities, and in terms of connecting with others and speedy access to information, this is something to be welcomed by those who use it to make their lives operate more smoothly. However, there are a surprising number of people who cannot or who at least find it difficult to take advantage of online living, and we should be concerned that some large companies seem to be discriminating against those in that position. In short, receiving your bills, statements and necessary information via the mail rather than the web may be a matter of simple preference for some, but for a surprisingly large number it is no choice at all and I say that they should not be penalised for it.

Short Debate: Keep Me Posted: The Consumer's Right to Choose

Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch sydd wedi aros. Mae'n dda gennyf allu neilltuo munud o'r ddadl hon i Peter Black. Yn union cyn y toriad, cymerodd Aelodau'r Cynulliad hwn ran mewn dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar bost sothach. Yn ystod dadl ddifyr a hir, cododd yr Aelodau gwestiynau dilys am y gwahanol fathau o bost digroeso, gan ofyn, 'Beth am hysbysebu lleol?' a 'Phryd mae post digroeso yn dod yn niwsans a phryd mae'n dod yn fygythiad?' Fodd bynnag, heddiw, hoffwn ofyn i'r Gweinidog—a llongyfarchiadau ar eich swydd newydd, gyda llaw—sut rydych yn meddwl y gallai Llywodraeth Cymru helpu gyda phroblem sy'n gwbl groes i'r broblem hon. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i liniaru penderfyniadau a wneir gan rai sefydliadau mawr i roi'r gorau i gyfathrebu â chwsmeriaid drwy'r post—gan stopio yn gyfan gwbl neu'n codi tâl ar y cwsmeriaid hynny am y fraint o dderbyn post maent yn awyddus i'w dderbyn? Rydym yn symud yn anochel tuag at wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael fwyfwy ar y rhyngwrwyd, ac o safbwynt cysylltu ag eraill a mynediad cyflym at wybodaeth, mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu gan y rhai sy'n ei ddefnyddio i wneud bywyd yn haws. Fodd bynnag, mae nifer fawr o bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar fyw ar-lein, neu sydd o leiaf yn ei chael yn anodd gwneud hynny, a dylem fod yn pryderu bod rhai cwmnïau mawr fel pe baent yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai yn y sefyllfa hon. Yn fyr, gall dderbyn biliau, datganiadau a gwybodaeth angenrheidiol drwy'r post yn hytrach nag ar y we fod yn fater o ddewis syml ar gyfer rhai, ond nid yw'n ddewis o gwbl i nifer fawr o bobl ac rwyf yn dweud na ddylid eu cosbi am hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

That is also the position of the Keep Me Posted campaign, a UK campaign that has been working to highlight this discrimination since August 2013. I would like to thank it for drawing this growing practice to my attention. There are about 9 million adults in the whole of the UK with no access to the internet. The Office for National Statistics this year found that 15.4% of people in Wales do not have access, although Ofcom described that as one in five Welsh households, which is not inconsiderable. The number of adults in the UK who admit to not having enough knowledge to use the internet confidently is even higher at about 16 million, and a proportion of those obviously live in Wales. Yes, you can see why businesses would want to encourage web-based exchanges, but with these figures based on necessity, not preference, that is reason enough, I would say, for utility companies, banks, mobile phone providers, insurance companies, or anyone else for that matter, to avoid sole reliance on paperless communication.

Many of these companies will, in fact, still offer contact via post, but this is often at a cost. For example, BT will charge up to £6 extra for a statement or bills to be sent out via the post. Producing paper copies of documents costs more, this is true, but it costs BT around 20p a time to send out paper documents, which is considerably less than the £6 that it will charge the client.

When a new customer considers a contract with a utility provider or another company, they can reject it if they are not happy with the terms. However, companies are moving to paperless statements and communications on a regular basis, unilaterally changing the terms of agreements that have been in place for many years.

Research last year showed that 12% of people who had stopped receiving postal statements did so without notification or permission being sought, while a further 6% were notified but not asked. Often, the first time somebody knows that there has been a change is when they, rather ironically, receive a letter from the company telling them that, for their own convenience, they have been moved to a paperless option and any change back will cost them. There is no option, no consideration and no question as to whether this is in fact for their own convenience. They often do not even ask the customer—in fact, I do not think that they ask them at all—whether they have internet access. That matters in Wales where only 58% of premises are served by networks able to accommodate superfast broadband when it is rolled out. That is well below the already unimpressive UK average of 78%. The take-up of fixed-line and broadband services is 6% lower in Wales than the UK average. Despite improvements in broadband roll-out, geographically large areas in rural Wales, and a frustrating number of notspots elsewhere, still have no broadband or very poor speeds. So, how are people in those areas supposed to avoid the increasing number of charges for a paper-based service?

Dyma farn ymgyrch Keep Me Posted, ymgyrch y DU sydd wedi bod yn gweithio i dynnu sylw at y gwahaniaethu hwn ers mis Awst 2013. Hoffwn ddiolch i'r ymgyrch am dynnu fy sylw at yr arfer cynyddol hwn. Nid oes gan tua 9 miliwn o oedolion yn y DU fynediad i'r rhyngwrwyd. Canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eleni nad oes gan 15.4% o bobl Cymru fynediad i'r rhyngwrwyd, ac er i Ofcom ddisgrifio hyn fel un o bob pump o gartrefi Cymru, mae'n swm sylweddol. Mae nifer yr oedolion yn y DU sy'n cyfaddef nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth i ddefnyddio'r rhyngwrwyd yn hyderus hyd yn oed yn uwch, sef tua 16 miliwn, ac mae cyfran o'r rhain yn byw yng Nghymru wrth reswm. Gallwch weld pam y byddai busnesau am annog cyfathrebu ar y we, ond gan fod y ffigurau hyn yn seiliedig ar angen, nid dewis, dyna ddigon o reswm, yn fy marn i, i gwmnïau cyfleustodau, banciau, darparwyr ffonau symudol, cwmnïau yswiriant, neu unrhyw un arall o ran hynny, osgoi dibynnu ar gyfathrebu di-bapur yn unig.

Bydd llawer o'r cwmnïau hyn yn parhau i gynnig cyfathrebu drwy'r post mewn gwirionedd, ond codir tâl am hyn yn aml. Er enghraifft, bydd BT yn codi hyd at £6 yn ychwanegol i anfon datganiad neu filiau drwy'r post. Mae'n wir bod cynhyrchu copïau papur o ddogfennau yn costio mwy, ond mae'n costio tua 20c i BT anfon dogfennau papur bob tro, sydd gryn dipyn yn llai na'r £6 a godir ar y cleient.

Pan fydd cwsmer newydd yn ystyried contract gyda darparwr cyfleustodau neu gwmni arall, gall ei wrthod os yw'n anffodlon â'r telerau. Fodd bynnag, mae cwmnïau yn newid i ddefnyddio datganiadau a dulliau cyfathrebu di-bapur yn rheolaidd, gan fynd ati ohonynt eu hunain i newid telerau'r cytundebau sydd wedi bod ar waith ers blynnyddoedd lawer.

Yn ôl gwaith ymchwil y llynedd, roedd 12% o bobl nad oeddent yn derbyn datganiadau post bellach heb eu hysbysu am hynny ymlaen llaw ac ni ofynnwyd am eu caniatâd, ac roedd 6% arall wedi'u hysbysu heb ofyn am eu caniatâd. Yn aml, y tro cyntaf i rywun gael gwybod bod newid wedi digwydd yw pan fydd yn derbyn llythyr (yn ddigon eironig) gan y cwmni yn dweud bod yr unigolyn wedi'i symud i opsiwn di-bapur er ei hwylustod ei hun, ac y bydd angen talu er mwyn newid yn ôl. Nid oes unrhyw ddewis, ystyriaeth na chwestiynu a yw hyn mewn gwirionedd er hwylustod i'r unigolyn. Yn aml, nid ydynt hyd yn oed yn gofyn i'r cwsmer—a dweud y gwir, nid wyf yn meddwl eu bod yn gofyn iddo o gwbl—a oes ganddo fynediad i'r rhyngwrwyd. Mae hyn yn bwysig yng Nghymru lle mai dim ond 58% o adeiladau sy'n cael eu gwasanaethu gan rwydweithiau sy'n gallu darparu ar gyfer band eang cyflym iawn pan gaiff ei gyflwyno. Mae hynny'n llawer is na'r cyfartaledd o 78% yn y DU, sy'n ganran siomedig ei hun. Mae'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau llinell sefydlog a band eang 6% yn is yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU. Er gwaethaf gwelliannau mewn cyflwyno band eang, nid oes gan ardaloedd daearyddol eang yng nghefn gwlad Cymru, a nifer o fannau gwan mewn rhannau eraill, unrhyw wasanaeth band eang, neu nid yw'r gwasanaeth yn ddigon cyflym. Felly, sut mae pobl yn yr ardaloedd hyn i fod i osgoi'r nifer cynyddol o daliadau am wasanaethau papur?

Even when people have internet access, they might still prefer paper. Around 33% of Welsh people who like paper statements do so because, for them, it is easier to engage with than account details online, and 42% admit that they often forget to check their statements online with a further 40% admitting that it is easier to keep track of their finances in print. To be honest, Dirprwy Lywydd, I think that I probably fall into that category myself. You might well say, 'Well, wise up and get a bit more twenty-first century'. For the likes of me, I might have a bit more sympathy with that view, but consider this: people have higher levels of debt if they conduct their financial affairs solely online. A Denmark study found that paper bills and statements led to bills being paid faster and ultimately then lowered debt for individuals. Carrying out transactions online without any paper trail can leave many people of all ages losing track of their finances and not learning about money management skills—another complication in the very present topic of the quest for financial literacy.

Insurance companies will offer cheaper deals online, but when it comes to making a claim, that too has to be done entirely online, sometimes in a format that does not accommodate the circumstances of your claim. Again, that is something else of which I have personal experience.

Tighter due diligence rules mean that people are experiencing difficulties with proving their identities or their home addresses, as financial institutions, and even Government departments, insist on original statements—they will not accept printed statements or bills as evidence. I suspect that that is an experience that some of us will recognise, as will be the problems of a lack of paper trail that are manifested when you are trying to exercise a power of attorney or identify all of the assets in the estate of a deceased—no password, no access and possibly no idea that an account even exists.

The password problem does not just affect those who are deceased or those without mental capacity. Consider the example of a constituent who just forgot their password, could not access her online gas and electricity account with a meter reading, and then discovered that her set charge had gone up from £98 to £174 a month, because the company just had not heard from her. That is enough to frustrate any one of us, but imagine the added strain on someone with visual impairment or other conditions that prevent people from sitting too long at a computer, or holding a handheld device. Some may have equipment, of course, that will make using a computer easier, but that is just one more hurdle for someone who is more comfortable with written communications.

In the last few weeks, Canada has ruled that telecommunications firms must exempt those over 65, people with disabilities and those who have no home broadband connection from being denied postal communication. In France, the consumer has a right to ask for a paper bill that must be provided free of charge. In Spain, as of June this year, customers have the right to receive all their bills through the post in paper format unless they have specifically requested them to be sent via e-mail, and no charge is imposed on those who already receive or who switch to paper billing. Therefore, you can see that this is a live issue in other countries.

Hyd yn oed os oes gan bobl fynediad i'r rhyngwrwyd, efallai eu bod am i gwmnïau gyfathrebu â nhw ar bapur. Mae'n well gan tua 33% o bobl Cymru sy'n hoffi datganiadau papur ddarllen manylion eu cyfrif ar bapur nag ar-lein, ac mae 42% yn cyfaddef eu bod yn anghofio gwirio eu datganiadau ar-lein yn aml, gyda 40% arall yn cyfaddef ei bod yn haws cadw golwg ar eu harian mewn print. Mewn gwirionedd, Dirprwy Lywydd, rwyf yn meddwl fy mod yn ôl pob tebyg yn perthyn i'r categori hwn fy hun. Gallech ddweud, 'Wel, calliwch a chofiwch ein bod yn byw yn yr unfed ganrif ar hugain'. Efallai byddai rhywun fel fi yn cydymdeimlo â'r farn honno, ond cofiwch hyn: mae lefelau dyled pobl sy'n trafod eu materion ariannol ar-lein yn unig yn uwch. Canfu astudiaeth yn Nenmarc fod pobl sy'n derbyn biliau a datganiadau papur yn talu eu biliau yn gyflymach, sy'n lleihau dyledion pobl yn y pen draw. Wrth gwblhau trafodion ar-lein heb unrhyw lwybr papur, gall pobl o bob oed golli golwg ar eu harian a methu dysgu sgiliau rheoli arian—factor sy'n cymhlethu'r pwnc perthnasol iawn o geisio sicrhau llythrennedd ariannol.

Bydd cwmnïau yswiriant yn cynnig bargeinion rhatach ar-lein, ond pan fydd angen gwneud hawliad, mae'n rhaid gwneud hynny yn gyfan gwbl ar-lein hefyd, weithiau mewn fformat nad yw'n darparu ar gyfer amgylchiadau eich hawliad. Unwaith eto, mae gennyf brofiad personol o hyn.

Oherwydd rheolau diwydrwydd dyladwy llymach, mae'n anodd i bobl brofi eu hunaniaeth neu eu cyfeiriadau cartref, wrth i sefydliadau ariannol, a hyd yn oed adrannau'r Llywodraeth, fynnu derbyn datganiadau gwreiddiol—ni fyddant yn derbyn datganiadau neu filiau wedi'u hargraffu fel tystiolaeth. Bydd rhai ohonom yn gyfarwydd â'r profiad hwn o bosibl, ac yn deall y problemau sy'n deillio o ddiffyg llwybr papur wrth geisio arfer pŵer atwrnai neu nodi pob un o'r asedau yn ystâd yr ymadawedig—dim cyfrinair, dim mynediad ac o bosibl dim syniad bod cyfrif yn bodoli hyd yn oed.

Nid yw problem gyda chyfrinair yn effeithio ar y rhai sydd wedi marw neu'r rhai sydd heb alluedd meddyliol yn unig. Ystyriwch yr enghraifft o etholwr sydd wedi anghofio ei chyfrinair, yn methu cyrchu ei chyfrif trydan a nwy ar-lein gyda darlenniad mesurydd, ac yna'n darganfod bod ei thâl sefydlog wedi cynyddu o £98 i £174 y mis, gan nad oedd y cwmni wedi clywed ganddi. Mae hynny'n ddigon i gythruddo unrhyw un, ond dychmygwch y straeon ychwanegol ar rywun sydd â nam ar y golwg neu gyflwr arall sy'n ei atal rhag eistedd yn rhy hir wrth gyfrifiadur neu'n ei atal rhag dal dyfais llaw. Wrth reswm, efallai y bydd gan rai pobl gyfarpar sy'n ei gwneud yn haws iddynt ddefnyddio cyfrifiadur, ond dyma un rhwystr arall i rywun sy'n fwy cyfforddus gyda dull cyfathrebu ysgrifenedig.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Canada wedi deddfu bod yn rhaid i gwmnïau telathrebu eithrio'r rhai dros 65 oed, pobl ag anabledau a'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad band eang yn y cartref rhag cael eu hamddifadu o gyfathrebu drwy'r post. Yn Ffrainc, mae gan y defnyddiwr hawl i ofyn am fil papur ac mae'n rhaid i gwmni ei ddarparu am ddim. Ar ôl mis Mehefin eleni yn Sbaen, mae gan gwsmeriaid yr hawl i dderbyn eu holl filiau drwy'r post ar ffurf papur oni bai eu bod wedi gofyn yn benodol iddynt gael eu hanfon drwy e-bost, ac ni chodir tâl ar y rhai sydd eisoes yn derbyn biliau papur, na'r rhai sy'n newid i filiau papur. Felly, gallwch weld bod hwn yn bwnc perthnasol mewn gwledydd eraill.

Here, in the UK, 50 charities and bodies are already on board, a growing number of MPs is taking an interest and the Federation of Small Businesses is discussing it with its members. Small businesses may not be, necessarily, the source of the problem, but it may not always be easy for them to conduct financial affairs online if they happen to be in a hotspot, for example, or where they employ someone with support needs. Wales is able to say that it leads the way in one way, as the Principality Building Society has already pledged to stay with paper documents as well as online choices.

To finish, Dirprwy Lywydd and Minister, I want to go back to my opening remarks. The junk mail debate found consensus on our distaste for those disreputable businesses duping vulnerable people into parting with money fraudulently, yet only 2% of fraud in this country takes place via the post, while 70% of it takes place online. So, we are not just talking about keeping a service for those who have no option but to use paper; we are also talking about confidence. When it comes to sharing financial information, perhaps people are right to insist on trusting their postman more than their password. Thank you.

Yma yn y DU, mae 50 o elusennau a chyrrff eisoes yn cefnogi hyn, mae nifer cynyddol o Aelodau Seneddol yn cymryd diddordeb ac mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn trafod y pwnc gyda'i aelodau. Mae'n bosibl nad busnesau bach yw craidd y broblem o anghenraidd, ond efallai na fydd yn hawdd iddynt drafod materion ariannol ar-lein bob amser os ydynt yn digwydd bod mewn man gwan, er enghraifft, neu os ydynt yn cyflogi rhywun ag anghenion cymorth. Gall Cymru hawlio ei bod yn arwain y ffordd ar un olwg, gan fod Cymdeithas Adeiladu'r Principality eisoes wedi addo y bydd yn parhau i ddefnyddio dogfennau papur yn ogystal â chynnig dewisiadau ar-lein.

I gloi, Dirprwy Lywydd a'r Gweinidog, rwyf am ddychwelyd at fy sylwadau agoriadol. Dangosodd y ddadl ar bot sothach bod pawb ohonom yn gwrthwynebu arfer busnesau diegwyddor o dwyllo pobl agored i niwed i wario arian. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, dim ond 2% o dwyllo yn y wlad hon sy'n digwydd drwy'r post, tra bod 70% ohono'n digwydd ar-lein. Felly, nid ydym yn sôn am gadw gwasanaeth ar gyfer y rhai nad oes ganddynt unrhyw ddevis ond defnyddio papur; rydym yn sôn am hyder hefyd. Pan fydd angen rhannu gwybodaeth ariannol, efallai bod pobl yn gywir i fynnu ymddiried mwy yn eu postmon na'u cyfrinair. Diolch.

17:56

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank Suzy Davies for bringing this debate forward today? I have also supported this campaign. Despite being a self-confessed geek, I do have limits in terms of how much I use the internet. I refuse to use internet banking, for example, insist on paper statements and also still use cheques, which a lot of people still do. That is my choice, and a lot of people should have that choice. However, I also know that, sometimes, you do not have that choice. My wife discovered that my late father-in-law's house was uninsured because he did not have a bank account and was therefore not able to insure it online. That is the only way that you can get insurance in most cases now, but because he had no bank account and did not use the internet, he was not able to get it and my wife had to insure it for him. Clearly, there is a huge disadvantage for people who choose or have no choice other than to conduct their affairs in the traditional way. Sometimes, that problem is not just a physical obstacle, but also a financial obstacle. Therefore, clearly, we have to look at how we can lift that. A lot of this is going to be a UK matter, but the Welsh Government is responsible for public services, and local government and a lot of other public bodies have issues where people pay bills et cetera through them. Maybe the Government can use its influence to ensure, in terms of the services that we fund as the Welsh Assembly and the Welsh Government, that obstacles are not being put in the place of people who choose not to use electronic means to pay their bills.

Hoffwn ddiolch i Suzy Davies am gyflwyno'r ddadl hon heddiw. Rwyf wedi cefnogi'r ymgyrch hon hefyd. Er yn cyfaddef fy mod yn 'geek', mae yna ben draw i'm defnydd o'r rhyngwyd. Rwyf yn gwrthod defnyddio bancio ar y rhyngwyd, er enghraifft, rwyf yn mynnu derbyn datganiadau papur, ac yn debyg i lawer o bobl eraill, rwyf yn dal i ddefnyddio sicciau. Dyna fy newis, a dylai llawer o bobl gael yr un dewis. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn gwybod nad yw'r dewis hwnnw ar gael weithiau. Canfu fy ngwraig fod tŷ fy niweddar dad-yng-nghyfraith heb ei yswirio gan nad oedd ganddo gyfrif banc ac nad oedd yn gallu yswirio'r tŷ ar-lein o ganlyniad. Dyna'r unig ffordd y gallwch gael yswiriant yn y rhan fwyaf o achosion erbyn hyn, ond oherwydd nad oedd ganddo gyfrif banc ac nad oedd yn defnyddio'r rhyngwyd, nid oedd yn gallu cael yswiriant a bu'n rhaid i'm gwraig ei yswirio ar ei ran. Yn amlwg, mae pobl sy'n dewis neu sy'n gorfod cynnal eu busnes yn y ffordd draddodiadol o dan anfantaes enfawr. Weithiau, mae'r broblem yn rhwystr ffisegol ac yn rhwystr ariannol. Felly, yn amlwg, mae'n rhaid inni ystyried sut y gallwn ddileu'r rhwystrau. Bydd llawer o'r materion hyn yn cael eu penderfynu ar lefel y DU, ond mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus, ac mae llywodraeth leol a llawer o gyrff cyhoeddus eraill yn cael problemau o safbwynt pobl yn talu biliau ac ati drwyddynt. Efallai y gall y Llywodraeth ddefnyddio ei dylanwad i sicrhau, o safbwynt y gwasanaethau a ariennir gan Gynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru, nad yw pobl sy'n dewis peidio â defnyddio dulliau electronig i dalu eu biliau yn wynebu unrhyw rwystrau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ateb —Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you, Suzy Davies, for bringing this debate forward and for highlighting the importance of consumer choice and the work of the campaign. Of course, we all value choice, and I think that it is very important that everyone is able to decide without disadvantage—and that is the really important thing—in what format they would like to receive their bills and information from banks or contacts from utility companies and other service providers.

Much of the work that we are focused on helps to support people with the issues that you have highlighted in this debate, for example, around financial and digital inclusion. You could also extend it to fuel poverty, talking about utility companies, and you spoke about the constituent who had had difficulty accessing an account—I think that it was gas bills that you specifically mentioned.

I broadly support what the Keep Me Posted campaign is setting out to do in promoting choice for those who cannot access goods and services online. With an ageing population in Wales, as in most parts of the UK, choice in these matters will be more important than ever. I think that Peter Black highlighted an area of concern in relation to his late father-in-law. We all know how important it is that our houses and their contents are insured.

Increasingly, businesses are restricting access to paper bills and statements and, by doing so, they are denying their customers an informed choice. That causes me and everyone here, I think, some concern. Everyone needs to be able to receive information on their finances in a format that they feel comfortable with and that they can understand. I appreciate the impact for many consumers of the loss of paper access to important information if it is available only in digital format. In some circumstances, there will be a cost to having bills or information in a hard-copy format, which may put added pressure on people's finances. Suzy Davies mentioned BT and that the cost of producing a statement was 20p, but the cost to the consumer was £6.

This issue affects all of us, but it can have a more significant impact upon vulnerable people, who often have the greatest need for paper statements and bills. For example, this could be our older generation. I know that many of that generation are now becoming digitally inclusive. I bought my mother an iPad; I will not say how old she is as she would never forgive me, but I cannot believe the way that she—. She has never been on a computer in her life, but she has really embraced this form. However, there are still many people of her generation that are not digitally inclusive.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi, Suzy Davies, am gyflwyno'r ddatl hon ac am dynnu sylw at bwysigrwydd dewis defnyddwyr a gwaith yr ymgyrch. Wrth reswm, mae'r cyfle i ddewis yn bwysig i bawb, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn bod pawb yn gallu penderfynu heb anfantis—a dyna'r peth pwysicaf—ym mha fformat yr hoffent dderbyn eu biliau a gwybodaeth gan fanciau neu sut y maent am i gwmnïau cyfleustodau a darparwyr gwasanaethau eraill gysylltu â nhw.

Mae llawer o'r gwaith rydym yn canolbwyntio arno yn helpu pobl gyda'r materion rydych wedi tynnu sylw atynt yn y ddatl hon, er enghraifft, materion yn ymwneud â chynhwysiant ariannol a digidol. Mae tlodi tanwydd hefyd yn berthnasol yn y cyswllt hwn o safbwynt cwmnïau cyfleustodau, ac roeddech yn cyfeirio at etholwraig a gafodd anhawster yn cael mynediad at gyfrif—rwyf yn meddwl mai biliau nwy y gwnaethoch eu crybwyll yn benodol.

Yn gyffredinol, rwy'n cefnogi amcanion ymgyrch Keep Me Posted wrth hyrwyddo dewis ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau ar-lein. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru, fel yn y rhan fwyaf o'r DU, bydd dewis yn y materion hyn yn fwy pwysig nag erioed. Credaf fod Peter Black wedi codi achos pryder wrth gyfeirio at ei ddiweddar dad-yng-nghyfraith. Rydym i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd yswirio ein tai a'u cynnwys.

Mae busnesau yn cyfyngu fwyfwy ar fynediad at filiau a datganiadau papur, ac wrth wneud hynny, maent yn methu cynnig dewis ar sail gwybodaeth i'w cwsmeriaid. Mae hynny'n peri pryder i mi, ac i bawb arall yma rwy'n siŵr. Mae angen i bawb allu derbyn gwybodaeth am eu cyllid mewn fformat y maent yn gyfforddus ag ef ac y gallant ei ddeall. Rwy'n deall yr effaith ar lawer o ddefnyddwyr o golli mynediad papur at wybodaeth bwysig os yw ar gael mewn fformat digidol yn unig. Mewn rhai achosion, bydd angen talu i gael biliau neu wybodaeth mewn fformat copi caled, a allai roi pwysau ychwanegol ar gyllid pobl. Cyfeiriodd Suzy Davies at BT a'r ffaith fod y gost o gynhyrchu datganiad yn 20c, ond y gost i'r defnyddiwr yn £6.

Mae'r mater hwn yn effeithio ar bob un ohonom, ond gall gael effaith fwy sylweddol ar bobl agored i niwed, sydd â'r angen mwyaf am ddatganiadau a biliau papur yn aml. Er enghraifft, gallai hyn effeithio ar ein cenhedlaeth hyn. Rwy'n gwybod bod llawer o'r genhedlaeth honno yn dod yn ddigidol cynhwysol bellach. Prynais iPad i fy mam; ni fyddai'n maddau i mi pe bawn yn datgelu ei hoedran, ond ni allaf gredu'r ffordd y gwnaeth hi—. Nid yw erioed wedi defnyddio cyfrifiadur yn ei bywyd, ond mae hi wir wedi cymryd at y ddyfais hon. Fodd bynnag, mae llawer o bobl o'r un genhedlaeth nad ydynt yn ddigidol cynhwysol o hyd.

Also, those who are disabled may not have access, and there are those that lack access to the internet. You mentioned our superfast broadband. One thing that we can do, as the Welsh Government, is to improve that. I know that the Deputy Minister for Skills and Technology is taking that forward. Of course, it can also affect people on low incomes and those who live in fuel poverty.

Over 30% of households in Wales are estimated to be living in fuel poverty, and this means that they are spending more than 10% of their income on energy costs. How much householders pay for their energy is a key factor in determining whether they live in fuel poverty. I think that it is absolutely vital that gas and electricity bills are accessible to energy consumers, provided in the format that they want. I think that it is also important that we check our energy bills because, sometimes, you can miss information about tariffs if you are not comfortable with the format in which you are accessing that Bill. So, I think that energy consumers who need or prefer to have paper bills should not have to pay more for that service.

Many who fall into this category may already be struggling to keep on top of their finances in any case, and we know that we live in very difficult and financially-challenging times at the moment. They could be struggling to make ends meet without the added burden of struggling with technology.

I think that what Suzy Davies's debate today demonstrates is the concerns of the increasing number of people who, whether by social disadvantage or lifestyle choice, are becoming financially and digitally excluded.

Our pledge today must be to ensure that people know that there are alternative choices with regard to the format in which this important information can be accessed. Tackling the problem of financial exclusion is an important part of our remit, and we have been working with our partners over the past few years on this. We want to make sure that people are aware of their alternative and viable choices to access the services that they will need to help manage their money in a better way. If people are struggling to keep on top of their household finances it is important to have access to good-quality free advice, whether face to face or through telephone contact. You were asking again what the Welsh Government can do. Assembly Members will be aware that today I have issued my first written statement in this portfolio about free advice services across Wales. I have just announced a £2 million grant funding for front-line advice services today.

Hefyd, efallai na fydd y rhai sy'n anabl yn gallu cael mynediad, ac mae rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwd. Soniasoch am ein band eang cyflym iawn. Un peth y gallwn ei wneud, fel Llywodraeth Cymru, yw gwella hynny. Gwn fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn bwrw ymlaen â hynny. Wrth gwrs, gall hefyd effeithio ar bobl ar incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn tldi tanwydd.

Amcangyfrifir bod dros 30% o gartrefi yng Nghymru yn byw mewn tldi tanwydd, ac mae hyn yn golygu eu bod yn gwario dros 10% o'u hincwm ar gostau ynni. Un ffactor allweddol wrth benderfynu a yw deiliaid tŷ yn byw mewn tldi tanwydd yw faint o arian y maent yn ei wario ar ynni. Rwyf yn meddwl ei bod yn gwbl hanfodol bod biliau nwy a thrydan yn hygyrch i ddefnyddwyr ynni, a'u bod ar gael yn y fformat o'u dewis. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar ein biliau ynni, oherwydd, weithiau, gallwch chi golli gwybodaeth am dariffau os nad ydych yn gyfforddus â fformat y bil. Felly, rwyf yn meddwl na ddylai defnyddwyr ynni sydd angen neu sy'n well ganddynt gael biliau papur orfod talu mwy am y gwasanaeth hwnnw.

Efallai y bydd llawer sydd yn y categori hwn eisoes yn ei chael yn anodd ymdopi yn ariannol, ac rydym yn gwybod ein bod yn byw mewn cyfnod anodd iawn sy'n ariannol heriol ar hyn o bryd. Gallai fod yn anodd iddynt gael dau ben llinyn ynghyd heb y baich ychwanegol o broblemau gyda thechnoleg.

Rwyf yn meddwl bod dadl Suzy Davies heddiw yn dangos pryderon y nifer cynyddol o bobl sydd, naill ai oherwydd anfantais gymdeithasol neu ddewis ffordd o fyw, yn cael eu hallgáu'n ariannol ac yn ddigidol.

Mae'n rhaid i ni wneud addewid heddiw sy'n sicrhau bod pobl yn gwybod am y dewisiadau amgen sydd ar gael i gyrchu'r wybodaeth bwysig hon. Mae mynd i'r afael â'r broblem o allgáu ariannol yn rhan bwysig o'n cylch gwaith, ac rydym wedi bod yn gweithio ar hyn gyda'n partneriaid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym eisiau sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'u dewisiadau amgen a hyfyw i gael gafael ar y gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt i'w helpu i reoli eu harian yn well. Os yw pobl yn ei chael yn anodd rheoli eu cyllid cartref, mae'n bwysig cael mynediad at gyngor rhad ac am ddim o ansawdd da, boed wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt ffôn. Roeddech yn gofyn unwaith eto beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol heddiw fy mod wedi cyhoeddi fy natganiad ysgrifenedig cyntaf yn y portffolio hwn ar wasanaethau cyngor am ddim ledled Cymru. Rwyf newydd gyhoeddi cyllid grant gwerth £2 filiwn ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen heddiw.

The Welsh Government has also committed to undertake work to ensure that those who are digitally excluded can benefit from the rapid pace of technological change. Improvement in internet speeds, through Superfast Cymru, cheaper and friendlier devices like smartphones and tablets, and continued improvements in the quality of online services are making digital experiences much better for the people of Wales. Peter Black also mentioned local government and the use of more digital services for residents. I know, from my previous portfolio, that this is an issue that does concern some people. So, I think it is important, going back to the word 'choice', that people do have that choice.

One other thing that, unfortunately, we could not do as a Government was—. The UK Government is obviously responsible for consumer policy. When it reviewed Consumer Focus Wales we wanted it to have stronger lines of accountability, but, unfortunately, the proposal was rejected.

Although most citizens are increasingly choosing to perform transactions digitally—I think that they do recognise the convenience that it offers to them—there does continue to be a growing customer expectation for goods and services, as well as being available online, if they want those important pieces of paper that are important to them to run the household, to still be available as paper copies. That should be the way forward. Undoubtedly we know that some individuals will always struggle to access online services, and that is why it is so important that there should be an alternative.

Members will be aware of the Welsh Government's Communities 2.0 digital inclusion programme, which offers support to help the most digitally excluded people embrace the digital world. To date, the programme has supported almost 50,000 individuals across Wales to develop the confidence and skills needed to get online. We have numerous case studies that I would encourage Members to have a look at on the Communities 2.0 website.

It has also continued to build partnerships with organisations that represent and work with some of the most digitally excluded people in society, working very closely with local authorities and housing associations, Jobcentre Plus, libraries and Communities First. Libraries also play a key part in supporting people to access the internet and now over 280 public library service points across Wales provide free use of more than 2,800 computers with internet access.

I am grateful to you for bringing this debate forward and I am very grateful to be given the chance to respond on behalf of the Welsh Government. I think it is really important that we continue to support a number of measures in order to help individuals, particularly around financial and digital inclusion. We must all continue to support and develop more responsible and affordable options for all consumers, while at the same time encouraging greater financial capability and responsibility.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i wneud gwaith i sicrhau y gall y rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol fanteisio ar gyflymder newid technolegol. Mae gwelliant o ran cyflymder y rhyngwyd, drwy Cyflymu Cymru, dyfeisiau rhatach a haws eu defnyddio fel ffonau clyfar a thabledi, a gwelliannau parhaus yn ansawdd y gwasanaethau ar-lein yn gwneud profiadau digidol yn llawer gwell i bobl Cymru. Soniodd Peter Black hefyd am lywodraeth leol a'r defnydd o ragor o wasanaethau digidol ar gyfer trigolion. Rwy'n gwybod, o brofiad fy mhorthffolio blaenorol, bod hwn yn fater sy'n peri pryder i rai pobl. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, wrth ddychwelyd at y gair 'dewis', bod pobl yn cael y dewis hwnnw.

Un peth arall, yn anffodus, na allem ei wneud fel Llywodraeth oedd—. Mae'n amlwg bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am bolisi defnyddwyr. Pan adolygodd Llais Defnyddwyr Cymru, roeddem am iddo gael llinellau atebolrwydd cryfach, ond, yn anffodus, gwrthodwyd y cynnig.

Er bod y rhan fwyaf o ddinasyddion yn dewis fwyfwy i gwblhau trafodion yn ddigidol—rwy'n meddwl eu bod yn cydnabod y cyfleustra y mae'n ei gynnig iddynt—mae disgwyliad cynyddol ymysg cwsmeriaid bod nwyddau a gwasanaethau, yn ogystal â bod ar gael ar-lein, yn parhau i fod ar gael ar bapur, os ydynt eisiau derbyn y darnau pwysig o bapur sy'n bwysig iddynt wrth redeg y cartref. Dylai hynny fod y ffordd ymlaen. Heb os, gwyddom y bydd rhai unigolion bob amser yn ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau ar-lein, a dyna pam y mae mor bwysig bod dewis arall ar gael.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o raglen cynhwysiant digidol Cymunedau 2.0 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cymorth i helpu'r bobl sy'n wynebu'r lefelau uchaf o allgáu digidol i fanteisio ar y byd digidol. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi cefnogi bron i 50,000 o unigolion ledled Cymru i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i fynd ar-lein. Mae gennym nifer o astudiaethau achos ar wefan Cymunedau 2.0, a byddwn yn annog yr Aelodau i gael golwg arnynt.

Mae hefyd wedi parhau i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn gweithio gyda rhai o'r bobl sy'n wynebu'r lefelau uchaf o allgáu digidol mewn cymdeithas, gan weithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, Canolfan Byd Gwaith, llyfrgelloedd a Chymunedau yn Gyntaf. Mae llyfrgelloedd hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi pobl i gael mynediad i'r rhyngwyd, ac erbyn hyn mae dros 280 o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru yn cynnig defnydd am ddim o dros 2,800 o gyfrifiaduron sydd â mynediad i'r rhyngwyd.

Rwy'n ddiolchgar i chi am gyflwyno'r ddatl hon ac rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ymateb ar ran Llywodraeth Cymru. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau i gefnogi nifer o fesurau er mwyn helpu unigolion, yn enwedig ym meysydd cynhwysiant ariannol a digidol. Mae'n rhaid i bob un ohonom barhau i gefnogi a datblygu dewisiadau mwy cyfrifol a fforddiadwy ar gyfer pob defnyddiwr, gan fynd ati ar yr un pryd i hyrwyddo mwy o allu a chyfrifoldeb ariannol.

18:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Diolch i chi, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:06.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:06.